


# Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

2020-2021

Estyn

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 2-3 | Cynnwys |
| 4-9 | Rhagair |
| | |
| 10-111 | **Crynodebau sector – rhwng Medi 2020 ac Awst 2021** |
| 10-15 | Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed |
| 16-23 | Ysgolion cynradd |
| 24-33 | Ysgolion uwchradd |
| 34-39 | Ysgolion pob oed a gynhelir |
| 40-47 | Ysgolion arbennig a gynhelir |
| 48-51 | Ysgolion arbennig annibynnol |
| 52-57 | Ysgolion prif ffrwd annibynnol |
| 58-61 | Colegau arbenigol annibynnol |
| 62-67 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 68-77 | Gwasanaethau addysg llywodraeth lleol ar gyfer plant a phobl ifanc |
| 78-83 | Colegau addysg bellach |
| 84-87 | Dysgu yn y gwaith |
| 88-91 | Dysgu oedolion yn y gymuned |
| 92-97 | Addysg gychwynnol athrawon |
| 100-103 | Cymraeg i Oedolion |
| 104-105 | Gyrfaoedd |
| 106-109 | Dysgu yn y sector cyfiawnder |
| 110-113 | Gweithgarwch dilynol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed, UCDau a lleoliadau meithrin nas cynhelir |


**Adroddiad eleni yw'r 29ain adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi yng Nghymru yn olynol ers i Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1992 ei gwneud yn ofynnol llunio'r adroddiad.**

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| 114-133 | **Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021** |
| 134-137 | **Atodiad 1: Trosolwg** |
| 138-149 | **Atodiad 2: Rhestr Cyfeiriadau** |

# Rhagair PAEM 2020-2021



Bu blwyddyn academaidd 2020-2021 yn flwyddyn heriol arall i ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru a ledled y byd. Daeth pandemig COVID-19 â tharfu pellach ar draws y system. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adolygu'r modd y gwnaeth ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill ymateb i'r heriau a wynebont eleni. Mae'n ystyried sut aeth darparwyr addysg ati i gefnogi lles ac addysg dysgwyr yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell ac agor yn rhannol. Mae'n amlygu sut y gwnaethant addasu'u harferion i fodloni anghenion dysgwyr wrth iddynt ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Mae'r rhagair hwn yn myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o'r argyfwng ac ar rai goblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Cyn y pandemig, roeddem eisoes wedi cyhoeddi y byddem, yn ystod 2020-2021, yn gohirio ein gwaith arolygu mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Yn lle hynny, roeddem wedi bwriadu ymweld â darparwyr yn y sectorau hyn i ganfod pa mor dda roeddent yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cynlluniwyd yr ymweliadau ymgysylltu hyn i fod yn hyblyg, gyda'r bwriad o annog a chefnogi darparwyr ar eu taith i gyflawni nodau'r cwricwlwm newydd a diwygio ADY. Golygai'r pandemig mai dim ond ychydig o ddarparwyr y bu modd i ni ymweld â nhw yn ystod y flwyddyn, yn nhymor yr haf yn bennaf. Yn lle hynny, buom yn cadw mewn cysylltiad o bell, gan ddefnyddio galwadau fideo a galwadau ffôn i ymgysylltu â darparwyr ar draws yr holl sectorau addysg a hyfforddiant. Yn ystod y galwadau hyn, canolbwyntiodd arolygwyr ar ymateb darparwyr i'r pandemig, yn ymwneud yn bennaf â lles dysgwyr a'r gweithlu, addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth. Cynhaliom nifer fach o weithgareddau arolygu, gan gynnwys tri arolygiad â ffocws mewn ysgolion annibynnol i edrych ar les, iechyd a diogelwch disgyblion, ac arolygiad o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Buom yn gweithio gyda phartneriaid hefyd i arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer oedolion a phobl ifanc mewn ychydig o sefydliadau troseddwyr.

Cadwom mewn cysylltiad rheolaidd â darparwyr y nodwyd eu bod yn peri pryder cyn y pandemig, er enghraifft ysgolion mewn categorïau statudol. Roedd arolygydd wedi'i gysylltu â phob un o'r darparwyr hyn i gynnig cymorth bugeiliol ac arweiniad trwy gydol y flwyddyn. Wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi, ailddechreuom gynnal ymweliadau wyneb yn wyneb â nifer fach o ddarparwyr yn araf ac yn sensitif. Roedd hyn yn cynnwys rhywfaint o weithgarwch ymgysylltu, ymweliadau bugeiliol ag ysgolion mewn categori statudol, ac ychydig iawn o arolygiadau ac ymweliadau monitro.

Trwy gydol y flwyddyn, parhaom i ddarparu ystod eang o ddysgu proffesiynol i arolygwyr er mwyn adeiladu'u gwybodaeth am ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Cyflwynwyd y dysgu proffesiynol hwn gan ein staff ein hunain ac arbenigwyr allanol. Fe wnaeth ein hymglymiad â datblygu'r Cwricwlwm i Gymru o'r cyfnodau cynnar iawn ein rhoi ni mewn sefyllfa gref. Adeiladom ar y wybodaeth hon i gefnogi ein hymweliadau ymgysylltu a'n harolygiadau. Rhoesom ffocws penodol ar broses dylunio'r cwricwlwm ac ystyriom sut y gallai ysgolion yng Nghymru fynd i'r afael â dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm, yn unol â'u gweledigaeth a'u cyd-destun. Yn ogystal, adeiladom ar ein cred gadarn fod addysgu o ansawdd uchel yn allweddol i gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus, a byddwn yn parhau i gynorthwyo ysgolion i wella'r agwedd hon ar eu gwaith.

# Rhagair PAEM 2020-2021

Yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr addysg a hyfforddiant. Byddwn yn peilota ein dulliau arolygu mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau i sicrhau eu bod yn cefnogi datblygu'r Cwricwlwm i Gymru ac yn annog gwelliant. Byddwn yn parhau â'n rhaglen fanwl o ddysgu proffesiynol ar gyfer arolygwyr i sicrhau ein bod yn barod i ymgysylltu ag ysgolion ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru.

Eleni, rhoddodd yr holl ddarparwyr flaenoriaeth i les eu dysgwyr. Yn dilyn symudiadau cadarnhaol y llynedd i gryfhau cyfathrebu rhwng dysgwyr a'u teuluoedd, parhaodd y rhan fwyaf o ddarparwyr â'r gwaith hwn. Sefydlont systemau cynhwysfawr i gadw mewn cysylltiad â'u dysgwyr fel eu bod yn gallu nodi materion yn gyflym a mynd i'r afael â nhw pan roeddent yn codi. Roedd hyn yn bwysig i'r holl ddysgwyr, ond yn enwedig i ddysgwyr bregus, a oedd yn aml yn cael yr anhawster mwyaf yn ymdopi â heriau'r cyfnodau clo a cholli strwythur dyddiol eu bywydau. Mewn llawer o achosion, arweiniodd ymglymiad cynyddol darparwyr â dysgwyr a'u teuluoedd atynt yn dod yn ffynonellau cymorth ac arweiniad hanfodol i'w cymunedau. Cryfhaodd y datblygiadau cadarnhaol hyn berthnasoedd a gwella ymgysylltiad rhwng y cartref a darparwyr. Enillodd ysgolion a lleoliadau ddealltwriaeth lawnach o'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt, ac roedd hyn o fudd i ddysgwyr a'u teuluoedd wrth iddynt ddatblygu hyder mewn darparwyr. Mae'r perthnasoedd adeiladol hyn yn debygol o gyfrannu'n fuddiol at weledigaeth a dyheadau ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, wrth i gyfraniadau gan deuluoedd a'r gymuned ehangach eu helpu i ddeall anghenion eu dysgwyr a sut gallant wireddu pedwar diben y cwricwlwm. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd gwireddu'r weledigaeth ar gyfer ysgolion cymunedol effeithiol yng Nghymru, fel yr amlygir yn ein hadroddiad ar Ysgolion Cymunedol.

Roedd yr heriau a wynebodd gweithwyr proffesiynol addysg o ddydd i ddydd yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn sylweddol, ac ni ddylem ddiystyru'u heffaith ar y gweithlu. Roedd pwysau digynsail ar staff wrth iddynt reoli sefyllfaoedd heriol a gwneud eu hunain yn fwyfwy hygyrch i ddysgwyr a'u teuluoedd. Arweiniodd hyn yn aml at lefelau gorbryder uwch ymhlith staff. Yn ogystal â blaenoriaethu lles eu dysgwyr a'u teuluoedd, roedd bron yr holl arweinwyr yn ysgwyddo cryn gyfrifoldeb am iechyd, lles a diogelwch eu staff, gan roi blaenoriaeth uwch i hyn na'u lles eu hunain yn aml. Buont yn gweithio'n ddyfal i ddilyn canllawiau a oedd yn newid yn gyflym, gan wneud addasiadau cyson i'w hamgylcheddau dysgu a'u harferion gweithio er mwyn cadw pobl yn ddiogel. Daeth cefnogi cydweithwyr trwy orbryder, salwch a phrofedigaeth yn beth cyffredin, a gadawodd hynny ei ôl ar arweinwyr. Teimlai rhai yn ynysig ac yn lluddedig, ac nid oedd bob amser yn glir pwy oedd yn darparu cefnogaeth emosiynol iddyn nhw.

Arweiniodd yr amharu a achoswyd gan y pandemig at heriau penodol i'r dysgwyr hynny ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd llawer ohonynt yn gyfarwydd â derbyn cymorth gan athro neu gynorthwyydd addysgu yn yr ystafell ddosbarth, ac nid oedd hyn ar gael yn aml oherwydd prinder cymorth oedolion, neu nid oedd hynny'n bosibl yn yr un ffordd pan roedd dysgwyr yn gweithio o gartref. Parhaodd darparwyr i edrych am ffyrdd gwahanol ac arloesol yn aml i helpu'r dysgwyr hyn i barhau â'u dysgu, er i ddysgwyr ag ADY ei chael hi'n anodd yn aml ymgysylltu â dysgu ar-lein, o bell.

# Rhagair PAEM 2020-2021

Arweiniodd y tarfu at oedi o ran asesu rhai dysgwyr ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol. Er i bron yr holl ysgolion arbennig ac UCDau aros ar agor trwy gydol y pandemig, bydd parhau â chymorth ar gyfer anghenion emosiynol, corfforol ac addysgol y dysgwyr bregus hyn yn ffurfio elfen bwysig o fynd i'r afael ag effaith hirdymor y pandemig ar ddysgwyr yng Nghymru.

Er gwaetha'r ystod eang o heriau a wynebwyd gan ddarparwyr eleni, parhaodd llawer i baratoi ar gyfer y digwyddiadau ADY cynlluniedig. Bydd angen i'r gwaith hwn barhau a chynnwys dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer staff er mwyn bodloni'r nod o ddarparu system addysg gwbl gynhwysol yng Nghymru.

Un o effeithiau mwyaf nodedig y pandemig oedd y modd y gwnaeth ymarferwyr ym mhob sector addasu'u harfer yn barhaus. Dangosont eu hyblygrwydd, eu creadigrwydd a'u gallu i arloesi mewn ysgolion, colegau a lleoliadau ledled Cymru. Wrth i ni symud tuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, bydd yr un feddylfryd ac egni yn hanfodol i helpu ysgolion a lleoliadau i feddwl o'r newydd nid yn unig am beth rydym yn ei addysgu, ond sut rydym yn ei addysgu a pham.

Bu ymarferwyr yn gweithio'n ystyriol i ddarparu ar gyfer dysgwyr o dan amgylchiadau anodd trwy gydol y flwyddyn. Roedd eu gwaith yn cynnwys datblygu ystod o ddulliau gwahanol i'w helpu i gynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd wrth weithio gartref a phan ddychwelont i addysg a hyfforddiant ar y safle. Pan ddychwelodd dysgwyr i'w hysgolion a'u lleoliadau, roedd cyfyngiadau'n golygu'n aml fod rhaid i staff ddatblygu ffyrdd newydd o ryngweithio â nhw ac ailystyried eu darpariaeth gan ystyried y cyfyngiadau a oedd ar waith.

Mae'n anodd nodi effaith lawn y tarfu ar ddysgwyr, a deall yr effeithiau hirdymor mewn meysydd fel cyfathrebu, annibyniaeth a medrau cymdeithasol dysgwyr. Bydd parhau i fonitro a chefnogi'r meysydd hyn yn parhau'n elfen hanfodol o waith ymarferwyr yn y dyfodol.

Nid yw pwysigrwydd dysgu digidol erioed wedi bod mor amlwg ag yn ystod y cyfnodau o darfu dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn adroddiad blynyddol y llynedd, dywedom fod y rhan fwyaf o ddysgwyr ac athrawon wedi gwella'u medrau digidol eu hunain yn sylweddol er mwyn elwa o addysgu a dysgu ar-lein yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Gydag tharfu dro ar ôl tro ar addysg a hyfforddiant eleni, fe wnaeth y gwaith o ddatblygu strategaethau digidol i alluogi dysgwyr ym mhob sector i gael dysgu barhau a chryfhau. Roedd ysgolion yn cydnabod manteision sylweddol Hwb, sef llwyfan dysgu ar-lein Cymru, wrth gefnogi'u gwaith. Ochr yn ochr â'r defnydd cynyddol hwn o Hwb mewn ysgolion, rhoddodd llawer o arweinwyr ar draws pob sector flaenoriaeth i ddysgu proffesiynol i gynorthwyo staff i fireinio'u medrau. Arweiniodd hyn at gynigion dysgu ar-lein gwell o lawer mewn llawer o sectorau ar gyfer yr ail gyfnod clo cenedlaethol. Gan ddisgwyl y byddai rhagor o gyfnodau clo, defnyddiwyd tymor yr hydref gan lawer o athrawon i sefydlu neu gryfhau medrau dysgu digidol ac annibynnol eu dysgwyr. Yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol yng ngwanwyn 2021, sefydlodd llawer o ddarparwyr ffyrdd diogel a llwyddiannus o ddarparu gwersi 'byw' y gellid eu cyflwyno i ddysgwyr mewn amser real (yn gydamserol), neu wersi a oedd wedi'u recordio, fel bod dysgwyr yn gallu mynd atynt ar amser a oedd yn addas i'w sefyllfa nhw. Erbyn diwedd y flwyddyn, datblygodd y darparwyr mwyaf llwyddiannus

ffyrdd effeithiol o integreiddio addysgu a dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Helpodd hyn i oresgyn yr anawsterau a gyflwynwyd gan unigolion, grwpiau, a dosbarthiadau cyfan yn hunanynysu. Mewn rhai achosion, fe wnaeth gyflymu cynnydd hefyd tuag at ymagwedd fwy digidol at ddysgu a'r cwricwlwm, yn unol â phedwar diben Cwricwlwm i Gymru, ac amcanion Digidol 2030, fframwaith strategol ar gyfer dysgu ôl-16 digidol yng Nghymru.

Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, daeth ysgolion a gynhelir ac UCDau yn fwy hyderus i siarad am eu cynllunio a'u paratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn ystod eu galwadau ac ymweliadau ymgysylltu, er bod llawer o ysgolion uwchradd yn dal i ganolbwyntio'u sylw ar y model graddau a bennir gan ganolfannau. Er i rai gydnabod fod COVID-19 wedi tarfu ar eu cynnydd wrth feddwl am eu cwricwlwm, mae llawer yn bwriadu dal gafael ar rai o'r addasiadau y gorfododd y pandemig iddynt eu gwneud i'w cwricwlwm. I lawer, fe wnaeth pwysigrwydd cynyddol lles disgyblion, er enghraifft, roi hwb cychwynnol neu gyflymu gwaith ar y maes dysgu iechyd a lles. Roedd llawer o athrawon yn cydnabod yr angen cynyddol i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion yn barod ar gyfer heriau ymagwedd fwy dynamig at ddysgu a dysgu trwy brofiad. Daeth buddion sylweddol dysgu yn yr amgylchedd awyr agored yn amlwg i ysgolion wrth geisio cydymffurfio â rheolau cadw pellter cymdeithasol. Roedd bron yr holl ddarparwyr wedi cael profiadau a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd cryfhau agweddau disgyblion at ddysgu ac annog eu gwydnwch mewn trallod. Mae'n debygol y bydd y dysgu cadarnhaol a gafodd llawer o uwch arweinwyr o'u profiadau eleni yn dylanwadu ar eu hymagwedd at y cyfleoedd sydd gan y Cwricwlwm i Gymru i'w cynnig, a'u parodrwydd i alluogi staff roi cynnig ar bethau newydd a mentro'n ofalus.

Y llynedd, adroddom ar fregusrwydd ariannol y sector nas cynhelir yng ngolau'r pandemig a'r pryderon ynghylch hyfywedd rhai o'r lleoliadau hyn. Yn hapus, rydym wedi gweld, wrth i'r flwyddyn hon fynd rhagddi, bod nifer y plant sy'n cael darpariaeth yn y sector hwn wedi parhau i gynyddu, ac mae arweinwyr yn nodi ei bod bellach yn debyg i'r nifer a welwyd cyn y pandemig. Er bod ymarferwyr wedi gweithio'n ddygn i helpu plant i ymgynefino â dysgu eto, maent wedi gweld cynnydd yn nifer y plant ag anawsterau lleferydd ac iaith. Mae hwn yn ganlyniad arall y pandemig y bydd angen i leoliadau ac ysgolion ei fonitro'n ofalus wrth i blant drosglwyddo i addysg statudol.

Er y bu asesu safonau a chynnydd disgyblion trwy gydol cyfnodau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol yn her i'r holl ysgolion a lleoliadau, daeth ymarferwyr yn fwy medrus wrth werthuso cynnydd dysgwyr dros amser. Wrth i ysgolion symud tuag at gam gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gall yr arferion hyn gael buddion hirdymor wrth i ysgolion adeiladu arferion asesu sy'n anhepgor i addysgu a dysgu, a chynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd gwell.

# Rhagair PAEM 2020-2021

Am ail flwyddyn, roedd angen i ddarparwyr weithredu systemau newydd i alluogi aseinio graddau i ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau allanol, fel Safon UG, Safon Uwch, TGAU a chymwysterau galwedigaethol. Darparodd y model 'graddau a bennir gan ganolfannau' fframwaith ar gyfer pennu graddau dysgwyr yn dilyn blwyddyn o darfu parhaus. Bu arweinwyr ac athrawon ysgolion a cholegau yn gweithio'n galed i gynorthwyo'u dysgwyr a gweithredu'r trefniadau diwygiedig, er bod y trefniadau wedi cael effaith sylweddol ar lwyth gwaith ac wedi effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion iau.

Yn y sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith, parhaodd asesu at ddiben cymwysterau ac achredu yn flaenoriaeth, er i hyn greu heriau sylweddol yn enwedig lle'r oedd angen i ddysgwyr ymgymryd ag asesiadau ymarferol. Er bod darparwyr mewn llawer o feysydd yn adeiladu ar arferion sy'n eu galluogi i roi adborth parhaus i ddysgwyr wrth ddysgu, gallai'r lleihad yn nifer y dysgwyr sy'n gallu cymryd asesiadau diwedd cwrs mewn sectorau pwysig beri goblygiadau ar gyfer nifer y staff hyfforddedig a chymwys yn y gweithlu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Roedd effaith y pandemig ar ddysgwyr mewn dysgu ôl-16 yn amrywio gryn dipyn gan ddibynnu ar y math o ddysgu. Er enghraifft, er i rai prentisiaethau barhau trwy gydol y pandemig, effeithiwyd ar rai eraill gan ffyrlo a diswyddiadau. Cynhaliwyd addysg oedolion lle bo modd, ond yn aml, symudwyd y dysgu ar-lein yn hytrach nag mewn lleoliadau cymunedol. Golygai hyn fod deilliannau ar gyfer y grwpiau dysgwyr gwahanol hyn yn gwahaniaethu'n sylweddol. Nid yw'n syndod, yn ystod ein hymgysylltiad â darparwyr, bod dysgwyr wedi mynegi'u pryderon ynghylch asesiadau diwedd cwrs a symud ymlaen at y cam nesaf o'u haddysg, hyfforddiant neu'r byd gwaith. Fe wnaeth rhwystredigaeth gyda newidiadau ac oedi mewn trefniadau asesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ddwysáu teimladau bod diffyg cydraddoldeb o gymharu â chymwysterau academaidd ar draws y sector.

Rydym wedi gweld awdurdodau lleol yn darparu cymorth gwerthfawr i'w hysgolion ac UCDau trwy gydol blwyddyn academaidd gythryblus, gan gynnwys eu cynorthwyo gyda gweithredu canllawiau gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Lle'r oedd trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer gweithio ar draws gwasanaethau awdurdod lleol a gydag asiantaethau allanol, roedd ymatebion yn gyflymach ac yn fwy effeithiol yn gyffredinol. Un o ddeilliannau'r pandemig yw ei fod wedi nodi'r angen i gryfhau ymhellach y cydweithio rhwng y gwasanaethau hyn. Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi'i gweld hi'n heriol cefnogi gwelliant yn ansawdd y ddarpariaeth o dan yr amodau presennol. Rydym wedi darparu mwy o fanylion ar y materion hyn yn ein hadroddiad thematig, 'Cymorth Awdurdodau Lleol a Chonsortia Rhanbarthol i Ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19'.

Mae'r pandemig wedi cynyddu proffil a manteision gwaith ieuenctid drwy amlygu set medrau eang ac ymaddasol gweithwyr ieuenctid. Tynnwyd sylw at yr angen i gydnabod statws proffesiynol gwaith ieuenctid fel gwasanaeth allweddol hanfodol i bobl ifanc 11-25 oed yn ein hadroddiad thematig a gyhoeddwyd eleni 'Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid: Model cynaliadwy i Gymru 2020' ac fe'i trafodwyd yn ein blog 'Deall gwerth gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid'.

# Rhagair PAEM 2020-2021

Yn ystod cyfnodau clo a chyfnodau o ddysgu gartref, nododd ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg bryderon ynglŷn â chynnydd medrau Cymraeg disgyblion, yn enwedig y rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Gwnaeth llawer o ddarparwyr ymdrechion arbennig i helpu disgyblion i gynnal eu medrau a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg tra'u bod yn dysgu o bell neu pan ddychwelont i'w hysgol neu leoliad. Mewn llawer o achosion, bu i'r ymdrechion hyn ddwyn ffrwyth, ac rydym wedi gweld plant ifanc a disgyblion oedran cynradd yn adennill eu medrau Cymraeg yn gyflym wrth ddychwelyd. Gan adeiladu'n llwyddiannus ar waith y llynedd, cynigiodd darparwyr Dysgu Cymraeg ystod eang o gyfleoedd dysgu i ddysgwyr sy'n oedolion, a'r rheiny'n gyfleoedd dysgu digidol, yn bennaf. Mae'r cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg yn cysoni'n dda â nodau hirdymor Llywodraeth Cymru.

Daeth y flwyddyn hon â chryn her i'r system addysg a hyfforddiant gyfan yng Nghymru, ond mae'r gweithlu unwaith eto wedi mynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r athrawon, hyfforddwyr, staff cymorth ac arweinwyr sydd wedi canfod ffyrdd arloesol o ddarparu ar gyfer anghenion addysgol ac anghenion lles eu dysgwyr, ac wedi cefnogi'i gilydd drwy amserau anodd. Dangosodd unigolion wydnwch a phroffesiynoliaeth i gynorthwyo dysgwyr yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol gan y tarfu trwy gydol y flwyddyn. Er gwaetha'r rhwystrau anochel a wynebodd llawer o ddarparwyr, fe wnaethant ddyfalbarhau gyda dysgu proffesiynol ar gyfer eu staff a pharhau i wneud cynnydd ar eu taith diwygio addysg a hyfforddiant. Mae llawer o ddarparwyr ym mhob sector yn cydnabod bod y pandemig wedi'u gorfodi i feddwl yn wahanol am eu hymagweddau a'u darpariaeth. Fe wnaeth hyn eu hannog i wneud newidiadau sydd wedi bod yn llwyddiannus, ac maent yn bwriadu parhau â'r rhain i'r dyfodol. Bydd yn bwysig nodi a rhannu'r dysgu cyfunol sydd wedi digwydd i sicrhau bod ein sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn parhau i adeiladu ar y cynnydd cadarnhaol a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr a chyhoeddi ein canfyddiadau mewn cyfres o adroddiadau ar ein gwefan.

**Claire Morgan**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Adran 1

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed



## Cyd-destun

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ariannu addysg gynnar ran-amser ar gyfer plant tair oed, a phlant pedair oed weithiau. Mae pedwar ar bymtheg o'r ddau ar hugain awdurdod lleol yn cynnig addysg gynnar mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, sy'n cynnwys darparwyr gofal dydd llawn a gofal sesiynol. Mae awdurdodau lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn darparu addysg gynnar mewn ysgolion yn unig, tra bod Powys yn darparu addysg feithrin mewn lleoliadau nas cynhelir yn unig. Er nad yw awdurdodau lleol sy'n darparu addysg gynnar mewn lleoliadau nas cynhelir yn cynnal y lleoliad, maent yn gyfrifol am ariannu hawl i addysg gynnar a darparu cymorth i sicrhau bod y lleoliadau'n darparu addysg y cyfnod sylfaen o ansawdd da.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Yn Ionawr 2019, dechreuodd Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygu lleoliadau addysg nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed ar y cyd, gan ddefnyddio fframwaith arolygu ar y cyd. Mae gofyniad arnom ni i arolygu addysg gynnar, ac mae gan AGC y ddyletswydd i arolygu ansawdd gofal yn y lleoliadau hyn. Mae'r arolygiadau hyn ar y cyd yn ystyried ansawdd y gofal a ddarperir i'r holl blant hyd at 12 oed, ac addysg plant tair a phedair oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir.

Mae nifer y lleoliadau sy'n cynnig addysg ran-amser yn parhau i ostwng bob blwyddyn o uchafbwynt o dros 700 yn 2010 i 537 erbyn Gorffennaf 2021. Gellir priodoli hyn i sawl ffactor sydd wedi effeithio ar leoliadau dros y degawd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol yn ymestyn ystod oedran ychydig o ysgolion cynradd a gynhelir i gynnwys disgyblion meithrin, neu sefydlu ysgolion newydd gyda chapasiti ar gyfer y disgyblion hyn. Mewn rhai achosion, mae lleoliadau wedi mynd yn anghynaliadwy yn sgil llai o alw am leoedd neu, mewn ychydig o ardaloedd, arweinwyr yn methu cyflogi staff â chymwysterau addas.

Fe wnaeth y rhan fwyaf o leoliadau a gaeodd dros dro o fis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig ailagor ar gyfer dechrau tymor yr Hydref 2020. Ni wnaeth lleiafrif ailagor ar unwaith ar ôl gwyliau'r Nadolig am amryw o resymau yn gysylltiedig â phandemig COVID-19.

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â'r sector, siaradom ag arweinwyr yn yr holl leoliadau ac ymwelom ag wyth o ddarparwyr eleni. Y ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles plant a staff, sut mae lleoliadau wedi cefnogi dysgu ac ailsefydlu'r ddarpariaeth yn dilyn y cyfnod clo, ac arweinyddiaeth a rheolaeth trwy gydol y pandemig.

## Lles

Trwy gydol y flwyddyn, gweithiodd lleoliadau'n galed i greu amgylchedd cynnes, croesawgar a diogel i blant ifanc. Nododd arweinwyr fod nifer y plant a oedd yn mynychu sesiynau yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig, ac roedd ychydig o leoliadau wedi cynyddu'u capasiti. Er enghraifft, roedd mwy o rieni a gofalwyr eisiau i'w plentyn fynychu er mwyn cymdeithasu â phlant eraill yn dilyn y cyfnod clo. Ymgartrefodd y rhan fwyaf o blant yn dda ar ôl iddynt ddychwelyd i'w lleoliad yn dilyn cyfnod estynedig gartref, ac fe wnaethant addasu'n gyflym i weithdrefnau ac arferion newydd. Nododd ychydig o arweinwyr fod effaith y pandemig ar blant wedi amrywio'n fawr, gyda rhai wedi elwa o dreulio amser gartref. Daeth y plant hyn yn ôl yn blant mwy hyderus, chwilfrydig a hapus i ddysgu. Fodd bynnag, roedd y plant hefyd yn dioddef effeithiau niweidiol bod gartref yn ystod cyfnodau clo, fel dirywiad mewn safonau ymddygiad neu fedrau corfforol. Yn ogystal, nododd lleiafrif o leoliadau gynnydd yn nifer y plant ag anawsterau lleferydd ac iaith, gan arwain atynt yn gwneud nifer fwy o atgyfeiriadau am gymorth. Cafodd hyn effaith niweidiol ar les ac ymddygiad plant yn aml, wrth iddynt fynd yn rhwystredig o fethu cyfathrebu'n llwyddiannus. Trwy gydol y pandemig, parhaodd arweinwyr ac ymarferwyr i weithio gydag asiantaethau allanol a theuluoedd plant agored i niwed, neu'r rheiny yr oedd angen cymorth ychwanegol arnyn nhw. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafodd cymorth arbenigol ei roi o bell, ond nid oedd hynny mor effeithiol â sesiynau wyneb yn wyneb.

### Ymgysylltu â gwasanaethau allanol i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Creodd staff yn Little Rascals Pre-school, Merthyr Tudful amgylchedd dysgu cwbl gynhwysol i gynorthwyo plant ag ADY o bob cwr o'r awdurdod lleol. Roedden nhw'n cynorthwyo nifer o blant ag ystod o anghenion, gan gynnwys y rheiny ag anawsterau corfforol ac anawsterau cyfathrebu, yn ogystal â'r rheiny ag anghenion dysgu cymhleth. Ailagorodd y lleoliad ym Medi 2020, ond parhaodd staff i gynorthwyo ychydig o blant yr oedd rhaid iddynt barhau i hunanynysu neu 'warchod eu hunain' yn ystod y cyfnod hwn. Defnyddiodd arweinwyr Grantiau Llywodraeth Cymru i alluogi amser i Gydlynydd ADY y lleoliad gynhyrchu pecynnau dysgu unigol i rieni i'w defnyddio gartref ar gyfer y grŵp hwn o blant. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad rhieni a gofalwyr yn nysgu eu plentyn yn ogystal â darparu cyfleoedd a phrofiadau dysgu pwysig i'r plant.

Drwy ymgysylltu â modiwlau hyfforddi blynyddoedd cynnar a hyfforddiant pwrpasol ADY, roedd arweinwyr ac ymarferwyr yn gallu nodi anghenion yn gynnar a darparu cymorth priodol. Er enghraifft, roeddent yn sgrinio'r holl blant am broblemau lleferydd ac iaith posibl, ac yna'n cysylltu â gweithwyr proffesiynol drwy gyfarfodydd rhithwir er mwyn darparu rhaglenni a strategaethau ymyrraeth priodol. Yn ogystal, roeddent yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, seicolegwyr addysgol, therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol i ddarparu cymorth cynnar i'r plant hynny y nodwyd bod ADY ganddyn nhw, ac sy'n parhau i hunanynysu neu warchod eu hunain gartref.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Ar ôl ailagor yn dilyn cyfnodau clo cenedlaethol, addasodd y rhan fwyaf o leoliadau eu darpariaeth i barhau i ddarparu profiadau a gweithgareddau dysgu gwerth chweil fel rhan o hawl plant i addysg gynnar. Parhaodd y rhan fwyaf i ddarparu ystod o brofiadau chwarae ymarferol sy'n datblygu medrau plant gan barhau i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar iechyd a diogelwch. Fe wnaethant addasu'u hamgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored i wella mesurau rheoli haint. Er enghraifft, roeddent yn aml yn symud dodrefn meddal o'u lleoliad ac yn cyfyngu ar ystod yr offer a oedd ar gael i'r plant ar unrhyw un adeg. Erbyn diwedd tymor y gwanwyn, roedd mwyafrif o leoliadau wedi dechrau ailgyflwyno offer a dodrefn meddal, yn unol â'r canllawiau a'u mesurau rheoli haint eu hunain. Roedd cyflymder yr ailgyflwyno'n amrywio gryn dipyn ledled Cymru, wrth i bob awdurdod lleol ddatblygu'i ganllawiau a'i ddisgwyliadau lleol ei hun. Fe wnaeth arweinwyr ailgyflwyno'r ardaloedd hyn cyn gynted ag yr oedd yn ddiogel gwneud hynny oherwydd eu bod yn bwysig i brofiadau dysgu plant ac i ddatblygu'u medrau. Yn gyffredinol, roedd lleoliadau'n canolbwyntio llai ar ddatblygu addysgu a dysgu nag yn ystod amseroedd arferol oherwydd bod eu ffocws wedi newid i wneud yn siŵr eu bod yn gweithredu'r mesurau amddiffynnol. Ar ôl troi'n ôl at 'amser byrbryd' dan fwy o reolaeth oedolion yn ystod y cyfnodau clo, roedd lleoliadau'n dechrau caniatáu i blant chwarae rhan fwy gweithgar yn paratoi bwyd o ddiwedd tymor y gwanwyn ymlaen, gan ei bod yn bwysig meithrin medrau annibynnol a chymdeithasol plant gymaint ag y bo modd yn ystod y sesiynau hyn.

### Darparu profiadau dysgu a heriau i blant eu gwneud gartref

Trwy gydol y flwyddyn, parhaodd Little Lambs@Emmanuel, Sir Ddinbych, i ddarparu gweithgareddau a heriau defnyddiol i blant eu gwneud gartref, a oedd yn cefnogi'u datblygiad dysgu. Roedd y rhain yn cynnwys profiadau priodol i oed i blant eu gwneud gyda'u rhieni, fel eu helpu i ddod o hyd i flodyn neu gael profiad o sut deimlad ydyw i symud bysedd eich traed ar laswellt gwlyb. Roedd llawer o weithgareddau'n canolbwyntio ar gael plant i fynd allan o gwmpas y lle yn yr amgylchedd lleol. Er enghraifft, rhannodd ymarferwyr luniau o dirnodau lleol, fel 'y bont las', a gofynnwyd i rieni chwilio amdanynt gyda'u plentyn. Tynnodd teuluoedd luniau o'r tirnodau y daethant o hyd iddyn nhw, a'u hanfon at y lleoliad i'w cynnwys mewn llyfr. Roedd y plant yn mwynhau edrych ar y lluniau ac roedd hyn yn eu hannog i siarad am eu profiadau. Defnyddiwyd yr heriau cartref gan ymarferwyr i gefnogi meysydd datblygu penodol, er enghraifft medrau personol a chymdeithasol plant, y nodwyd eu bod wedi llithro'n ôl dros y cyfnod clo. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys tasg i gwblhau pump 'her caredigrwydd' yn ystod yr wythnos, er enghraifft tynnu llun ar gyfer eu cymydog, gwneud cerdyn i rywun maen nhw'n ei garu a rhannu tegan gyda ffrind. Yna, gwnaeth yr ymarferwyr arddangosfa wal i ddathlu'r holl bethau caredig y bu'r plant yn eu gwneud. Credant fod yr heriau a'r gweithgareddau cartref wedi gwella ymgysylltiad rhieni yn nysgu'r plant yn sylweddol, ac mae hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb.

### Helpu plant i ddeall yr amrywiaeth gyfoethog o bobl a theuluoedd yn eu cymuned leol

Roedd staff yng Nghylch Meithrin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, eisiau gwneud plant yn fwy ymwybodol o'r ystod amrywiol o deuluoedd a phobl yn eu cymuned. Roedd staff yn ymwybodol mai ychydig o brofiad o fywyd y tu allan i'w cartref eu hunain roedd y plant yn ei gael yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol. Roeddent eisiau iddyn nhw ddeall y gallai teuluoedd sy'n mynychu'r lleoliad fod yn wahanol o ran eu cyfansoddiad. Er enghraifft, gallai rhai fod yn byw gyda'u teidiau a neiniau neu rieni maeth, a bydd llawer yn byw ar aelwydydd sy'n cynnwys amrywiaeth gyfoethog o bobl o ddiwylliannau neu gefndiroedd ethnig gwahanol. I hyrwyddo'r syniadau hyn, prynodd yr arweinydd dŷ dol mawr iawn, a'i alw'n 'Tŷ Enfys'. Ym mhob ystafell yn y tŷ, ceir teulu gwahanol i gyfateb i gyfansoddiad y teuluoedd sy'n mynychu'r lleoliad. Mae hyn wedi annog y plant i ddeall y gall pawb fyw'n hapus gyda'i gilydd 'yn yr un tŷ'.

# Crynodebau sector:
# Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Gwnaeth bron yr holl leoliadau fwy o ddefnydd o'r amgylchedd dysgu awyr agored i sicrhau bod plant yn cael profiadau dysgu yn niogelwch cymharol yr awyr agored. Gwnaethant addasiadau i'r ddarpariaeth hon i alluogi mwy o blant i ddefnyddio'r ardaloedd hyn trwy gydol y flwyddyn, er enghraifft, drwy osod canopïau a gwneud defnydd gwell o'r amgylchedd naturiol. Fe wnaeth ymarferwyr mewn ychydig o leoliadau fabwysiadu strategaethau ar gyfer cynllunio profiadau dysgu a oedd yn brofiadau 'ar y pryd' i raddau helaeth, ac a oedd yn ymateb yn gyflym i ddiddordebau plant. Er enghraifft, addasodd ymarferwyr eu cynlluniau i alluogi plant i archwilio a chreu eu gweoedd pry cop eu hunain yng nghanghennau coed ar ôl gweld gweoedd wedi'u gorchuddio â gwlith yn y borfa. Yn dilyn y newidiadau i ganllawiau cendalethol, yn ystod hanner cyntaf tymor yr haf, dechreuodd ychydig o leoliadau gynllunio mwy o ymweliadau â'r ardal leol er mwyn cyfoethogi'u profiadau dysgu, ond dim ond ychydig iawn oedd yn caniatáu i ymwelwyr ddod i'r safle. Adroddodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod y diffyg ymweliadau ac ymwelwyr wedi cael effaith negyddol ar ansawdd eu darpariaeth.



**Defnyddio'r amgylchedd dysgu awyr agored**

Mae arweinwyr ym Meithrinfa Ddydd Homestead, Wrecsam, wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer eu lleoliad lle caiff plant eu hannog i archwilio a darganfod yr awyr agored gymaint ag y bo modd. Yn ystod cyfnod pan oedd y feithrinfa ar gau oherwydd y pandemig, cymerodd arweinwyr amser i adnewyddu rhannau o'r amgylchedd awyr agored er mwyn sicrhau, pan fyddai'n ailagor, y byddai 'busnes fel arfer' yn yr awyr agored. Sicrhaodd arweinwyr fod yr amgylchedd dysgu awyr agored yn ehangach, yn fwy deniadol, a difyr. Mae rhannau mawr ohono wedi'u gadael 'yn wyllt' i ddarparu cyfleoedd i blant ryngweithio â byd natur a dysgu o fyd natur, er enghraifft arsylwi ar bethau byw ac ymarfer medrau gwneud marciau trwy dynnu llun o'u harsylwadau yn annibynnol. Mae rhannau eraill o'r lleoliad wedi'u haddasu'n fwriadol i gefnogi datblygiad plant. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd cloddio, cyrsiau rhwystrau ac ardaloedd dringo, ac ardaloedd mawr adeiladu blociau yn yr awyr agored.

Defnyddiodd ymarferwyr wybodaeth asesu'n ofalus i lywio ac arwain profiadau dysgu yn yr awyr agored i gyfateb i anghenion datblygiadol plant, er enghraifft trwy ddewis adnoddau ychwanegol yn ofalus i gydweddu â'u hanghenion corfforol, ac efallai'n bwysicach, gwella eu dulliau o ymgysylltu â phlant tra bod dysgu'n mynd rhagddo. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n cefnogi datblygu ystod eang o fedrau, ac nad ydyn nhw'n defnyddio adnoddau i ddatblygu medrau ar eu pennau'u hunain. Er enghraifft, mae plant yn datblygu'u medrau cyfathrebu, datrys problemau a'u medrau creadigol yn yr holl brofiadau dysgu. Mae arweinwyr wedi buddsoddi cryn amser ac egni i gynorthwyo staff i weithio yn y modd hwn fel eu bod yn hyrwyddo dysgu a mwynhad plant o'r awyr agored i'r eithaf.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Yn y rhan fwyaf o leoliadau, parhaodd ymarferwyr i arsylwi a chofnodi cynnydd plant yn briodol, er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu ac i rannu cynnydd gyda rhieni trwy lwyfannau rhithwir. Daeth defnyddio technoleg fideo-gynadledda i drefnu nosweithiau rhieni rhithwir i drafod cynnydd y plant yn ddewis amgen defnyddiol i sesiynau wyneb yn wyneb.

Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lle mae llawer o'r plant yn siarad Cymraeg gartref, nododd arweinwyr nad oedd y cyfnodau clo wedi gwneud fawr o wahaniaeth, neu ddim gwahaniaeth, i fedrau iaith plant. Er bod medrau Cymraeg y rheiny o gartrefi di-Gymraeg wedi llithro'n ôl pan roeddent i ffwrdd o'r lleoliad am gyfnodau estynedig, roedd dealltwriaeth resymol o'r iaith gan y rhan fwyaf o hyd wrth iddynt ddychwelyd i'r lleoliad. Gan ddefnyddio technegau trochi, caneuon, rhigymau ac ailadrodd brawddegau yn ystod gweithgareddau, adenillodd bron yr holl blant eu hyder yn gyflym i siarad Cymraeg.

## Arweinyddiaeth

Mae lles plant a staff wedi bod yn flaenoriaeth uchel i arweinwyr trwy gydol y pandemig. Wrth ailagor ym mis Medi, roedd nifer o staff yn bryderus ynglŷn â dychwelyd i'r gwaith, er bod llawer ohonynt yn falch o gael bod yn ôl wedi iddyn nhw ymgyfarwyddo â threfn. Fe wnaeth arweinwyr mewn lleiafrif o leoliadau gydnabod bod morâl yn arbennig o isel ar ddechrau tymor y gwanwyn ar adeg yr ail gyfnod clo cenedlaethol. Yn y lleoliadau hyn, roedd staff yn pryderu'n bennaf ynghylch diogelwch y plant a nhw'u hunain wrth i ysgolion orfod cau i leihau'r risg trosglwyddo COVID-19. Helpodd argaeledd profion llif unffordd a llwyddiant y rhaglen frechu i dawelu ofnau staff yn ystod tymor yr haf. Fodd bynnag, roedd llawer o arweinwyr ac ymarferwyr yn pryderu ynglŷn â'r pwysau ychwanegol wrth baratoi ar gyfer diwygio ADY a'r Cwricwlwm i Gymru.

Gweithiodd arweinwyr yn ddyfal i sicrhau bod eu lleoliadau'n parhau'n ddiogel ar gyfer eu plant a'u staff. Defnyddiodd arweinwyr ganllawiau a chyngor gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau ambarél sy'n cefnogi'u gwaith, a gwnaeth hynny eu galluogi i ailagor a gweithredu'n ddiogel. Yn ogystal, galluogodd y defnydd cynyddol o dechnoleg rithwir i arweinwyr gyfathrebu'n fwy effeithiol â rhanddeiliaid yn ogystal ag arweinwyr eraill yn eu hardal neu awdurdod lleol. Roedd hyn yn eu galluogi i ofyn am gyngor neu eglurder ar faterion fel sut i ailagor yn ddiogel a rhannu arfer gydag eraill, a'u helpu i deimlo'n llai ynysig. Roedd nifer y lleoliadau a oedd yn derbyn ymwelwyr yn amrywio gryn dipyn yn ystod tymor yr haf, felly hefyd nifer yr awdurdodau lleol a oedd yn cyfranogi mewn ymweliadau wyneb yn wyneb ag arweinwyr. Weithiau, roedd gweithio'n rhithwir yn ei gwneud hi'n anodd i Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar nodi pryderon a bodloni anghenion ymarferwyr.

Nododd adroddiad gan yr Education Policy Institute a Sefydliad Nuffield (Sibieta a Cottell, 2021) mai yng Nghymru yr oedd cyfran y lleoliadau a oedd ar agor i fusnes wedi cynyddu gyflymaf o bedair cenedl gartref y DU ar ôl cyhoeddi y gallai lleoliadau ailagor i'r holl blant ym Mehefin a Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, canfu bron yr holl arweinwyr y bu rheoli effaith ariannol y pandemig yn heriol, yn sgil colli refeniw a mwy o wariant.

### Gweithio gyda lleoliadau eraill i drafod a rhannu darpariaeth ac arfer dda

Roedd y rheolwyr yn Stepping Stones Pre-School, Sir Fynwy, yn cyfranogi mewn cyfarfodydd rhithwir rheolaidd gyda chydweithwyr o ryw 20 o leoliadau ledled yr awdurdod lleol. Bu'r rhwydwaith sefydledig hwn o leoliadau yn cyfarfod trwy gydol y pandemig i drafod materion cyffredin, fel sut i wneud addasiadau angenrheidiol i ddarpariaeth ac arfer er mwyn cadw staff a phlant yn ddiogel. Hefyd, bu'r arweinydd yn cyfarfod yn rheolaidd â grwpiau eraill a drefnwyd gan Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a sefydliadau ambarél. Roedden nhw'n gweld y cyfarfodydd hyn yn ddefnyddiol, yn enwedig wrth geisio rhoi canllawiau lleol a chenedlaethol ar waith ar gyfer cadw plant a staff yn ddiogel. Helpodd hyn nhw i atgynhyrchu arfer dda o leoliadau eraill, yn ogystal â darparu sicrwydd fod pawb yn dilyn protocolau ac arferion priodol.

# Crynodebau sector: Lleoliadau nad ydynt yn ysgolion i blant dan bump oed

Er enghraifft, cynyddodd costau'n gysylltiedig â chyfarpar diogelu personol a deunyddiau glanhau. Hefyd, fe wnaeth y refeniw is o ymgyrchoedd codi arian blynyddol, yn sgil canslo digwyddiadau, ychwanegu at y pwysau ariannol ar leoliadau. Ar gyfer ychydig o leoliadau, effeithiwyd yn negyddol ar eu sefyllfa ariannol o ganlyniad i ddarparu gofal plant o dan Gynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS) yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Tynnwyd sylw at hyn mewn gwerthusiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o C-CAS a gyflwynwyd rhwng Ebrill a Awst 2020, i ymateb i COVID-19 (Glyn *et al*., 2021).

Gwnaeth llawer o arweinwyr ddefnydd o'r ystod eang o drefniadau ariannu ychwanegol i gefnogi cynaliadwyedd eu lleoliad. Canfu bron bawb fod y cynllun ffyrlo, ac ystod grantiau Llywodraeth Cymru y trefnwyd eu bod ar gael iddyn nhw yn ystod y pandemig, wedi helpu rheoli'r pwysau ariannol roedd arnynt. Yn benodol, fe wnaeth hyblygrwydd y cynllun ffyrlo eu galluogi i drefnu eu staffio i ymateb i nifer y plant a oedd yn mynychu. Hefyd, roedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i gysoni'r cyllid ar gyfer yr hawl i addysg gynnar â'r cyllid ar gyfer gofal plant yn Ionawr 2021 helpu i wella sefydlogrwydd llawer o leoliadau hefyd. Trwy gydol y pandemig, defnyddiodd llawer o leoliadau gyllid o grantiau fel Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru, grantiau cymorth awdurdodau lleol a chyllid gan gwmnïau ac elusennau cenedlaethol i helpu i gefnogi'r lleoliad yn ogystal â gwneud addasiadau angenrheidiol i'w safleoedd. Ni wnaeth arweinwyr mewn ychydig o leoliadau llai ymgeisio am y grantiau hyn am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys diffyg amser neu arbenigedd i lenwi'r ffurflenni cais. Roedd ychydig o arweinwyr wedi gweld cymhlethdod dyrannu arian grant yn heriol.

Sicrhaodd arweinwyr fod gan ymarferwyr fynediad at ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol yn ystod y pandemig, gan gynnwys hyfforddiant ar ddatblygu darpariaeth awyr agored, symud tuag at gwricwlwm newydd, hyfforddiant ADY ac iechyd meddwl. Symudodd bron yr holl gyfleoedd hyfforddi at lwyfan rhithwir, a oedd yn fwy hygyrch i ymarferwyr. Fe wnaeth y dull gweithredu newydd hwn alluogi ymarferwyr i wneud defnydd gwell o'u hamser a'u galluogi i gael cymorth a hyfforddiant pan oedd yn gyfleus iddyn nhw. Fodd bynnag, roedd darpariaeth ar gyfer dysgu proffesiynol yn amrywio ar draws awdurdodau lleol ac adroddodd arweinwyr, er eu bod wedi cael hyfforddiant, nad oedd digon o amser bob tro i fyfyrio ar ei oblygiadau neu i ymgorffori arferion newydd, yn enwedig mewn perthynas ag ADY a'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd yr adroddiad 'Ymchwil i lywio anghenion cymorth y dyfodol ar gyfer darparu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir' (Pritchard *et al.*, 2019) yn amlygu'r angen am ymagwedd fwy hyblyg a chydlynus at gymorth, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer ymarferwyr.

Ni wnaeth y rhan fwyaf o leoliadau dderbyn myfyrwyr coleg na phrentisiaid eleni, gan fod arweinwyr yn pryderu ynghylch trosglwyddo'r feirws. Golygai hyn na chafodd llawer o fyfyrwyr y profiad ymarferol sydd ei angen arnynt i gwblhau'u hyfforddiant. Cafodd arweinwyr anhawster yn recriwtio ymarferwyr â chymwysterau addas, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg. Gan i'r galw am addysg gynnar a gofal plant gynyddu eto ar ddiwedd tymor yr haf, adroddodd arweinwyr eu bod yn pryderu ynglŷn â diffyg gweithwyr â hyfforddiant a chymwysterau addas yn y sector.

### Defnydd effeithiol o Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar (EYDG) i gynorthwyo lles a medrau iaith plant

Defnyddiodd arweinwyr yng Nghylch Chwarae Croco-Doco-Dile, Llanidloes, Powys Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar (EYDG) yn ystod y pandemig i fodloni anghenion y plant. Nododd y lleoliad yr angen i ganolbwyntio ar les a medrau iaith plant, gan gynnwys defnyddio'r awyr agored. Ar y cychwyn, darparodd yr arweinwyr becynnau dysgu gartref, a oedd yn cynnwys llyfrau i helpu datblygu medrau llythrennedd a medrau cyfathrebu plant, ac i hyrwyddo mwynhad o ran darllen. Buddsoddodd arweinwyr yn eu darpariaeth awyr agored i gefnogi medrau iaith, er enghraifft prynu tîpî pren ar gyfer darllen a phwll tân ar gyfer gweithgareddau coginio yn yr awyr agored. Derbyniodd staff gymorth a hyfforddiant priodol i asesu a datblygu medrau cyfathrebu plant, yn ogystal ag amser i rannu gwybodaeth gyda rhieni ar sut y gallen nhw helpu'u plant i ymarfer eu medrau llefaredd gartref. Yn ogystal, cyflogodd arweinwyr staff ychwanegol i ganolbwyntio mwy ar les plant a'u helpu i ymgartrefu, a siarad am deimladau ac emosiynau. Mae arweinwyr wedi rhannu'r mentrau hyn gydag arweinwyr ac ymarferwyr eraill ledled Powys gan ddefnyddio technoleg rithwir. Mae'r defnydd o'r grant EYDG gan arweinwyr y lleoliad wedi cael effaith gadarnhaol i gefnogi medrau llythrennedd a lles plant, yn ogystal â darparu cyfleoedd defnyddiol i rieni a help i gynorthwyo'u plant gartref.

Adran 1

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd



## Cyd-destun

Yn Ebrill 2021, roedd 1,228 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae hyn chwech yn llai nag yn Ionawr 2020, pan roedd 1,234. Fe wnaeth nifer yr ysgolion cynradd sy’n gweithio fel ffederasiynau gynyddu eto, gyda 101 o ysgolion yn gweithio mewn 47 o ffederasiynau erbyn hyn. Mae nifer y disgyblion ysgolion cynradd wedi cynyddu o 272,000 yn Ionawr 2020 i 273,000 yn Ebrill 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021o).

Fel rhan o’n gwaith ymgysylltu a’n gwaith bugeiliol, roeddem wedi siarad â’r holl ysgolion yn y sector erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. Canolbwyntiodd trafodaethau gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr ar oblygiadau’r pandemig i les disgyblion a staff, sut yr oedd ysgolion yn cefnogi addysgu a dysgu, arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig, a pharatoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, lle’r oedd yn briodol.  Hefyd, cynhaliom ymweliadau bugeiliol ag ysgolion mewn categori statudol.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

## Lles

Ar gyfer yr holl ysgolion, cefnogi lles disgyblion oedd y flaenoriaeth wrth iddyn nhw ddychwelyd ym Medi 2020. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i ddychwelyd i'r ysgol ac roeddent yn dangos dymuniad i ddysgu ac eiddgarwch am flas o fywyd ysgol 'arferol'. Roedd hyn yn wir hefyd pan ailagorodd ysgolion yn nhymor y gwanwyn ar ôl yr ail gyfnod clo cenedlaethol, er bod effeithiau corfforol ac emosiynol y cyfnod clo, a diffyg ymgysylltu â ffrindiau, wedi gwneud y cyfnod hwn yn fwy heriol i ddisgyblion na'r cyfnod clo cychwynnol. Adeiladodd y rhan fwyaf o ysgolion ar eu gweithdrefnau presennol i nodi a chefnogi anghenion lles disgyblion.

Pan ddychwelodd disgyblion i'r ysgol, roedd athrawon yn canolbwyntio'n aml ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion siarad, ailfeithrin perthnasoedd, ac ymgysylltu â gweithgareddau corfforol, tasgau creadigol a dysgu yn yr awyr agored. Wrth i amser fynd rhagddo, daeth athrawon yn fwy arloesol wrth addasu a mireinio ffyrdd o gefnogi lles disgyblion. Mewn astudiaeth dros y DU gyfan, canfu'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2021, tud.13): *'roedd pobl ifanc yn siarad yn frwdfrydig am y modd yr oedd eu hathrawon wedi dod o hyd i ffyrdd creadigol i'w helpu i gadw cysylltiad â'u ffrindiau a'u cyd-ddisgyblion...wedi dyrannu amser ar gyfer cymdeithasu ar-lein ar wahân i'w dysgu, fel cwisiau neu gemau ar-lein, neu swyddogaethau negeseua i siarad yn rheolaidd gyda'u ffrindiau a'u cyd-ddisgyblion'*.



### Cefnogi lles disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol

Ychwanegodd Ysgol Llangwyryfon, Ceredigion, nifer o weithgareddau lles dyddiol at y cwricwlwm, gan gynnwys cyfnodau ymarfer corff mynych y tu allan, amseroedd cylch ychwanegol a chyfleoedd i ddisgyblion greu murluniau dosbarth a oedd yn adlewyrchu'u hargraffiadau a'u teimladau yn ystod y cyfnod hwn. Derbyniodd pob disgybl ym Mlynyddoedd 5 a 6 lyfr i'w ddefnyddio fel dyddiadur teimladau. Roedd pob tudalen wedi'i thorri'n bedair rhan – pethau a oedd wedi peri pryder i ddisgyblion y noson gynt, pethau a oedd yn destun pryder i'r disgyblion y bore hwnnw, pethau a oedd yn gwneud disgyblion yn hapus heddiw a phethau y mae'r disgyblion yn teimlo'n gyffrous yn eu cylch. Roedd cyfle i'r disgyblion lenwi'r dyddiadur y peth cyntaf bob bore, ac roedd un aelod o'r staff yn y dosbarth yn monitro cynnwys y dyddiaduron cyn amser chwarae. Pe bai pryder, roedd y staff yn ymyrryd yn bwrpasol, fel y bo'r angen.

### Sesiynau lles anffurfiol yn cael eu cynnal o bell

Yn Ysgol Llanfairpwll, Ynys Môn, yn ychwanegol at y ddarpariaeth academaidd, roedd yr ysgol yn cynnig sesiynau rhithwir 'paned a bisged' i ddisgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn ystod cyfnod clo'r gwanwyn. Yn y sesiynau hyn, rhannwyd disgyblion yn grwpiau bach a rhoddwyd cyfle iddyn nhw sgwrsio gyda'u ffrindiau o dan arweiniad athro i gefnogi'u lles emosiynol. Roedd pob sesiwn yn cynnwys cyfle i gael hwyl ar ffurf cwis neu gêm, ac i drafod teimladau ac unrhyw bryderon. Roedd ffocws gwahanol i bob sesiwn, fel ymlacio'r meddwl, neu gymell disgyblion i ymgysylltu a chwblhau tasgau.

Yn dilyn cyfnodau clo, nododd llawer o ysgolion ddirywiad ym medrau cymdeithasol disgyblion, fel eu gallu i wrando ar eraill neu gymryd eu tro. Canfu bron bob ysgol fod y cyfnodau clo wedi effeithio ar les disgyblion yn niweidiol i ryw raddau. Roedd disgyblion yn cael anhawster canolbwyntio, talu sylw am gyfnodau estynedig a dyfalbarhau â thasgau. Roedd ychydig o ddisgyblion yn fwy pryderus na'r arfer, er enghraifft mewn perthynas â digwyddiadau yn y cartref neu'n ymwneud â gwaith ysgol neu adnewyddu cyfeillgarwch. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau Loades *et al*. (2021, tud.1218) fod *'plant a'r glasoed, yn ôl pob tebyg, yn fwy tebygol o ddioddef cyfraddau iselder uchel, ac yn fwyaf tebygol gorbryder yn ystod cyfnodau ynysu gorfodol ac ar ôl i'r cyfnodau hynny ddod i ben'*.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

Roedd lleihad yn ffitrwydd corfforol lleiafrif o ddisgyblion, yn bennaf yn sgil anweithgarwch yn ystod cyfnodau dysgu o bell. I ymateb i hynny, cyflwynodd staff weithgareddau i wella ffitrwydd corfforol a lles cyffredinol disgyblion. Gwnaeth athrawon fwy o ddefnydd o fannau awyr agored i'r holl ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau corfforol er mwyn eu hannog i fyw bywyd iachach.

Nododd llawer o arweinwyr ddirywiad yn ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion ar ôl cyfnod byr yn ôl yn yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, parhaodd staff i roi pwyslais cryf ar strategaethau fel amser cylch i ganfod ffyrdd o ddatrys anghytundebau.

O Fedi 2020 ymlaen, parhaodd ysgolion i nodi disgyblion a oedd yn agored i niwed, er enghraifft yn sgil pryderon ynglŷn â'u lles. Hefyd, nodont ddisgyblion yr effeithiwyd yn anghymesur ar eu dysgu yn ystod y pandemig. Yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, aeth ysgolion ati fwyfwy i gynnig cymorth ar y safle yn eu darpariaeth hyb i grwpiau ehangach o ddisgyblion yr oeddent yn ystyried eu bod yn agored i niwed.

Fe wnaeth atgyfeiriadau diogelu gynyddu'n aml yn ystod y cyfnodau clo. Yn gyffredinol, parhawyd o bell â chyfarfodydd i gefnogi disgyblion y nodwyd bod angen cymorth arnynt gan y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd ysgolion yn cefnogi anghenion ehangach teuluoedd fwyfwy, fel dosbarthu parseli bwyd, cynorthwyo rhieni gyda cheisiadau am gymorth ariannol a darparu 'clust i wrando' i'r rheiny a oedd yn bryderus.

Darparodd staff mewn llawer o ysgolion gymorth ychwanegol sylweddol i deuluoedd agored i niwed i'w hannog i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau carreg drws gan staff neu swyddogion lles addysg i ymgysylltu â theuluoedd ac i egluro pwysigrwydd mynychu'r ysgol. Pan ailagorodd ysgolion i ddisgyblion ar ôl yr ail gyfnod clo cenedlaethol, nododd llawer o arweinwyr fod lefelau presenoldeb yn dechrau codi i'w lefelau cyn y pandemig. Roedd presenoldeb disgyblion yn gyson rhwng 90% a 95% am ran fwyaf o wythnosau tymor yr haf. Yn ystod y flwyddyn ysgol lawn ddiwethaf, yn 2018-2019, roedd presenoldeb cyfartalog ychydig o dan 95% (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Yn nhymor yr hydref, darparodd bron bob ysgol raglenni ymyrraeth ychwanegol ar gyfer y disgyblion hynny yr oedd angen cymorth llythrennedd, rhifedd, a chymorth cymdeithasol ac emosiynol ychwanegol arnyn nhw. Yn gyffredinol, ymatebodd disgyblion yn gadarnhaol i'r cymorth a ddarparwyd, a gwnaethant gynnydd buddiol yn ystod y tymor.

Yn ystod yr ail gyfnod clo, parhaodd staff i weithio gyda disgyblion yr oedd angen cymorth ychwanegol arnyn nhw, naill ai drwy ddysgu o bell neu yn y ddarpariaeth hyb, er bod athrawon yn aml yn ei gweld hi'n fwy heriol bodloni anghenion unigol disgyblion o bell. Mewn lleiafrif o ysgolion, parhaodd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i'w chael hi'n anodd ymgysylltu â gweithgareddau dysgu o bell. I ymateb i hynny, aeth ysgolion ati'n aml i ddarparu sesiynau grŵp bach i fodloni anghenion penodol disgyblion o bell ac ar ôl iddynt ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb.

### Addasu i fodloni anghenion y gymuned ysgol

Bu'n rhaid i Ysgol Babanod a Meithrin Mount Street, Powys, ddelio ag amgylchiadau anarferol yn ystod y pandemig – gan gynnwys llawer o ddisgyblion ag SIY a phoblogaeth ysgol sy'n newid yn aml am fod yr ysgol gerllaw ysgol Infantry Battle School yn Aberhonddu lle mae llawer o filwyr Gurkha yn gwasanaethu. Yn ystod y pandemig, roedd disgyblion newydd yn dal i gyrraedd, heb fawr o Saesneg neu ddim Saesneg yn aml. Roedd teuluoedd yn aml yn teimlo'n ynysig yn ystod y pandemig. O ganlyniad, nododd staff yr angen i gymryd camau ychwanegol i'w cefnogi. Defnyddiodd yr ysgol grant o Gronfa Cymorth Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn i gyflogi cynorthwyydd addysgu Nepalaidd a oedd yn gallu helpu gyda chyfathrebu. Er enghraifft, creodd fideos i ddisgyblion a rhieni ynglŷn â sut i gael mynediad at ddysgu o bell, cynorthwyo disgyblion yn yr ysgol ac yn y ddarpariaeth hyb, a gwneud galwadau ffôn gwirio rheolaidd â theuluoedd.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

Lle’r oedd nifer sylweddol o ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) mewn ysgolion, canfu staff yn aml fod cefnogi lles y disgyblion hyn yn creu heriau penodol iddyn nhw am mai dealltwriaeth gyfyngedig o Saesneg neu Gymraeg oedd gan eu teuluoedd. Mewn achosion lle’r oedd teuluoedd yn teimlo’n arbennig o ynysig oherwydd eu dealltwriaeth gyfyngedig o Saesneg, cynigiodd ysgolion gymorth parhaus iddyn nhw. Er enghraifft, darparont ddosbarthiadau i ddisgyblion i wella’u hiaith Saesneg neu Gymraeg, gan weithio’n agos â gwasanaeth cymorth SIY yr awdurdod lleol. Yn aml, roedd staff yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu i gefnogi ymgysylltiad disgyblion.

## Addysgu, dysgu a’r cwricwlwm

Ym mron bob ysgol, nododd arweinwyr ac athrawon bryderon ynglŷn â chynnydd disgyblion oherwydd effaith y pandemig. Arweiniodd tarfu ar ddysgu trwy gyfnodau clo a hunanynysu at gynnydd salach ym medrau llythrennedd a rhifedd llawer o ddisgyblion. Er enghraifft, er i ysgolion ddarparu gweithgareddau dysgu ar-lein i ddisgyblion, ac awgrymiadau ar gyfer ymarfer eu darllen gartref, roedd ymgysylltiad disgyblion yn y cyfleoedd hyn yn amrywio gryn dipyn. Ychydig o gynnydd wnaeth y rheiny na fuont yn darllen yn rheolaidd yn ystod cyfnodau clo. Golygai hyn, pan ddychwelont i’r ysgol, fod disgyblion hŷn yn ei chael hi’n anodd weithiau darllen ymhellach nag ystyr llythrennol testun, ac roedd disgyblion iau yn aml yn cael anhawster datgodio geiriau anghyfarwydd a gwneud synnwyr o’r hyn roedden nhw’n ei ddarllen. Amcangyfrifodd yr Education Policy Institute (2021b), ar gyfartaledd, fod disgyblion mewn ysgolion cynradd wedi dioddef colled ddysgu o dros dri mis mewn mathemateg. Ailadroddwyd y pryderon hyn, ond i raddau llai, yn dilyn yr ail gyfnod clo cenedlaethol. Sylwodd athrawon ar ddirywiad ym medrau gwrando, siarad a medrau cymdeithasol disgyblion, yn enwedig ar gyfer disgyblion agored i niwed a’r rhai yn y cyfnod sylfaen. Yn y cyfnod sylfaen, disgyblion yn colli cerrig milltir datblygiadol allweddol plant a allai effeithio ar eu lles emosiynol, eu cyfathrebu a’u datblygiad dysgu oedd y pryder mwyaf.

Nododd y rhan fwyaf o ysgolion sy’n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fod yna lithro’n ôl yn hyder llawer o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg i siarad Cymraeg. Roedd hyn i’w weld yn fwy amlwg ymhlith disgyblion iau yn aml. Ym mhob ysgol, lle’r oedd disgyblion yn mynychu darpariaeth hyb neu lle’r oedden nhw wedi ymgysylltu’n dda â dysgu o bell, roedd llai o effaith ar eu cynnydd yn gyffredinol. Yn ystod ail hanner tymor yr hydref, adferodd medrau disgyblion bob yn dipyn ar ôl iddynt ddychwelyd i’r ysgol. Ailadroddwyd y duedd hon yn dilyn yr ail gyfnod clo cenedlaethol.

Ar ôl dychwelyd i’r ysgol ar ôl y cyfnod clo, addasodd athrawon eu strategaethau addysgu i adlewyrchu’r cyfyngiadau a bennwyd gan gyfyngiadau COVID-19 ac i geisio lleihau effeithiau cyfnodau o ddysgu o bell ac amser i ffwrdd oddi wrth gyfoedion a staff. Darparodd y rhan fwyaf o athrawon fwy o gyfleoedd ar gyfer ymarfer corfforol a dysgu yn yr amgylchedd awyr agored, gan alinio’n dda â chanllawiau Llywodraeth Cymru (2021h, tud.36) sy’n *‘cydnabod gwerth unigryw dysgu yn yr awyr agored a’r llu o fuddiannau a gaiff dysgwyr ohono, gan gynnwys eu helpu i fyw bywydau iach a gweithgar, meithrin sgiliau datrys problemau, a meithrin dealltwriaeth o fyd natur a’r amgylchedd maent yn byw ynddo, a dangos parch tuag atynt*’.

### Defnyddio offer digidol a dysgu ar-lein i hyrwyddo medrau gwrando a siarad disgyblion

Ar ôl dychwelyd i’r ysgol ym mis Medi, nododd staff yn Ysgol Gynradd Stacey, Caerdydd, fod angen cymorth ar ddisgyblion i wella’u medrau llefaredd, yn enwedig y disgyblion hynny â SIY a oedd ond wedi clywed eu mamiaith yn ystod y cyfnod hwn. Yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, fe wnaeth athrawon integreiddio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu’u medrau gwrando a siarad drwy eu model dysgu o bell. Aeth athrawon ati i blethu dulliau ysgol gyfan o ddatblygu iaith lafar trwy weithgareddau dysgu, ac annog disgyblion i ddarparu ymatebion llafar, fel postio ffeiliau sain a fideos o’u sgwrs. Er enghraifft, bu disgyblion Blwyddyn 2 yn astudio ‘The Owl and the Pussycat’, a gwnaethant bypedau i’w helpu i ailadrodd y gerdd, gan rannu’u perfformiadau gyda’u hathrawon a’u cyfoedion. Roedd dulliau fel y rhain yn helpu disgyblion i ddefnyddio iaith naratif a disgrifio tra’r oedden nhw’n dysgu gartref.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

Mewn llawer o ysgolion, dyfeisiodd athrawon weithgareddau a oedd yn annog disgyblion i gryfhau neu adennill medrau mewn cydweithio a gweithio'n annibynnol. Er enghraifft, darparodd un ysgol gwestiynau agored 'mawr' yn seiliedig ar storïau newyddion diweddar. Roedd athrawon yn annog disgyblion i ffurfio'u barnau eu hunain ynglŷn â materion cyfoes ac i gyflwyno'u barnau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mewn llawer o achosion, fe wnaethant flaenoriaethu gweithgareddau a oedd yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion chwarae a chymdeithasu fel rhan o'u dysgu.

Yn ystod y pandemig, parhaodd llawer o ysgolion i addasu'u cwricwlwm i ymgorffori'r meysydd dysgu a phrofiad (MDaPh) a amlinellwyd yn y Cwricwlwm i Gymru. Yn benodol, rhoddwyd pwyslais ganddynt ar gynnwys elfennau o'r MDaPh iechyd a lles i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol disgyblion. Parhaodd llawer o ysgolion i ystyried ffyrdd o ymgorffori pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn eu darpariaeth, gan ganolbwyntio'n aml ar sut gall y rhain helpu disgyblion i ddatblygu'u gwydnwch drwy gyfnod heriol. Mewn ychydig o achosion, dyluniodd athrawon dasgau a oedd yn datblygu medrau disgyblion yn benodol fel dysgwyr, er enghraifft, ystyried sut y gellid addasu tasgau i gynnwys cyfleoedd i ddatblygu gwydnwch disgyblion. Serch hynny, mae ysgolion yn aml yn cymhwyso'r pedwar diben ar lefel sy'n rhy arwynebol. Er enghraifft, mae athrawon yn gofyn i ddisgyblion ystyried ar ddiwedd gwers pa un o'r pedwar diben a allai fod yn berthnasol i'r tasgau y maent wedi'u cwblhau.

Ar ôl dychwelyd i'r ysgol ym Medi, nododd y rhan fwyaf o ysgolion angen i asesu'r cynnydd yr oedd disgyblion wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn flaenorol, y tarfwyd arni. Aeth bron bawb i'r afael â threfniadau asesu gyda sensitifrwydd. Defnyddiwyd amrywiaeth o wahanol ddulliau ganddynt, gan gynnwys arsylwadau athrawon anffurfiol, profion safonedig ac asesiadau personoledig Llywodraeth Cymru. Yn aml, roedd ysgolion yn dibynnu mwy ar ddefnydd athrawon o'u barn broffesiynol i ganfod anghenion dysgu disgyblion, yn hytrach na phrofion sy'n asesu ystod gul o fedrau yn aml. Mewn ychydig o achosion, symudodd ysgolion i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio systemau olrhain ffurfiol gan eu bod yn teimlo bod y rhain yn dibynnu ar set gyfyngedig o fesurau ac nad oedden nhw'n eu helpu i weld yn ddigon da beth oedd maint effaith y pandemig ar ddysgu a lles disgyblion. Mewn llawer o ysgolion, roedd athrawon yn deall pwysigrwydd cynnal deialog gyda disgyblion ynglŷn â'u dysgu yn ystod cyfnodau dysgu o bell ac yn ystod addysgu yn yr ysgol. Erbyn yr ail gyfnod clo cenedlaethol yng ngwanwyn 2021, roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu systemau a oedd yn galluogi athrawon i ddarparu adborth defnyddiol i ddisgyblion ar y tasgau yr oeddent wedi'u cwblhau gartref.

O Fedi 2020, parhaodd ysgolion i ddatblygu a mireinio'u dulliau dysgu o bell. Yn sgil gwell hyfedredd ym medrau a mwy o hyder ymhlith staff, disgyblion a rhieni wrth ddefnyddio technolegau a thechnegau dysgu o bell, cafodd yr ail gyfnod clo cenedlaethol lai o effaith niweidiol ar ddysgu disgyblion na'r un cyntaf. Arweiniodd ansawdd gwell cynnig dysgu o bell ysgolion at lefelau ymgysylltu uwch ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Roedd sesiynau ailgydio mynych i ateb cwestiynau disgyblion a mynd i'r afael â chamsyniadau yn eu dysgu, yn ogystal â'r defnydd detholus o sesiynau byw, yn werthfawr i ennyn diddordeb disgyblion.

### Addasu dulliau dysgu o bell

Gweithiodd y pennaeth yn Ysgol Dolafon, Powys, gyda staff i ddyfeisio ffyrdd effeithiol i wella ymgysylltiad disgyblion. Yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, dim ond ychydig iawn o ddisgyblion oedd yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r tasgau a osodwyd ar eu cyfer. Roedd y pennaeth yn deall bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at hyn, gan gynnwys lleoliad gwledig yr ysgol, gyda llawer o ddisgyblion yn byw ac yn helpu ar eu fferm deuluol neu â rhieni a oedd yn brysur gyda'u gwaith eu hunain.

Yn ystod tymor yr hydref, bu'n rhaid i'r ysgol gau am gyfnod byr oherwydd achosion o COVID-19. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynodd y pennaeth sesiynau lles byw yn rheolaidd a roddodd hyder i'r staff ddefnyddio technoleg dysgu o bell. O ganlyniad, roedd y staff yn barod i gynnwys sesiynau byw yn y ddarpariaeth a gynigiwyd i'r holl ddisgyblion yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol yng ngwanwyn 2021. Dyfeisiodd y pennaeth ffurflen olrhain wythnosol ar gyfer pob dosbarth lle'r oedd staff yn cofnodi ymgysylltiad disgyblion ac yn ymyrryd, fel y bo'r angen. Galluogodd hyn athrawon a'r pennaeth i nodi pa ddisgyblion yr oedd angen anogaeth a chymorth pellach arnynt. Cyflwynodd y pennaeth ffurflen gwerthuso staff lle'r oedd staff yn cofnodi'n wythnosol beth aeth yn dda a beth allai fod wedi mynd yn well. Cafodd y nodiadau hyn eu defnyddio wedyn yn ystod trafodaeth rhwng y staff i nodi atebion a chymorth. Helpodd y newidiadau hyn i wella ymgysylltiad disgyblion o 10% yn ystod y cyfnod clo cyntaf i 90% yn ystod yr ail gyfnod clo.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion cynradd

Cydnabu llawer o ysgolion fod y dull hwn wedi'i gydbwyso orau gyda dulliau eraill o gyflwyno dysgu, er y canfu 'Mynd ar-lein: rhwystrau a llwyddiannau wrth ddarparu dysgu ar-lein yn ystod cyfnod clo Haen 4 mis Ionawr 2021' (Comisiynydd Plant Cymru, 2021b, tud.12) fod llawer o ysgolion yn teimlo dan bwysau i ddarparu gwersi ar-lein 'byw' *'…pan efallai nad dyma yw'r dull gorau ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, oni bai ei fod yn rhan o ddull cymysg*'.

Yn aml, roedd staff yn neilltuo cryn amser i ddatblygu adnoddau ar-lein i gynorthwyo rhieni i helpu'u plant gyda dysgu gartref. Er enghraifft, creodd staff fideos byr a oedd yn dangos dulliau mathemateg penodol. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, galluogodd sesiynau byw i ddisgyblion nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg gartref i gael cyfleoedd i ymarfer yr iaith yn rheolaidd.

Trwy'r cyfnodau clo, ceisiodd llawer o ysgolion ddarparu ystod o weithgareddau i ddisgyblion y cyfnod sylfaen y gallen nhw eu cwblhau gartref a oedd yn adlewyrchu dull dysgu drwy brofiad. Teimlai'r rhan fwyaf o athrawon ei bod yn heriol cyflwyno profiadau dysgu o bell sy'n alinio'n dda ag arfer effeithiol y cyfnod sylfaen. Yn yr achosion hyn, roedd llwyddiant dysgu disgyblion yn dibynnu'n drwm yn aml ar fedrau rhieni, a'u hargaeledd, i gynorthwyo'u plant. Er i lefelau ymgysylltu ar gyfer dysgu o bell wella yn ystod yr ail gyfnod clo, roedd disgyblion iau yn llai tebygol o hyd o ymgysylltu'n gyson â dysgu o bell na'r rheiny yng nghyfnod allweddol 2.

Wrth ddychwelyd i ddysgu yn yr ysgol, fe wnaeth mesurau a oedd yn gysylltiedig â rheoli lledaeniad COVID-19 gyfyngu ar arferion y cyfnod sylfaen. Er enghraifft, roedd cyfleoedd i staff a disgyblion gydweithio yn gyfyngedig oherwydd yr angen i sicrhau cadw pellter cymdeithasol. Wrth i amser fynd rhagddo, ac yn enwedig ar ôl yr ail gyfnod clo cenedlaethol, daeth ymarferwyr y cyfnod sylfaen yn fwy medrus yn meddwl yn greadigol er mwyn lleihau cyfyngiadau ar ddysgu disgyblion. Er enghraifft, cynyddodd staff gyfran y dysgu awyr agored a defnyddio 'swigod' yn fwy effeithiol i alluogi disgyblion a staff i weithio'n agosach â'i gilydd.

## Arweinyddiaeth

Roedd arweinwyr yn teimlo ei bod yn heriol datblygu'u hysgolion, cefnogi staff a sicrhau bod disgyblion yn derbyn addysg effeithiol oll ar yr un pryd yn ystod y pandemig. Mae canolbwyntio ar faterion gweithdrefnol a chefnogi lles staff a disgyblion wedi bod yn flaenoriaethau trwy gydol y flwyddyn. Yn aml, gweithiodd staff yn ddyfal i weithredu arferion diogelwch newydd wrth gefnogi anghenion disgyblion, naill ai o bell neu wyneb yn wyneb. Roedd pwysau digynsail ar les staff wrth iddynt ymdopi â sefyllfaoedd a oedd yn newid yn gyflym o fewn yr ysgol, a gwnaethant eu hunain yn fwyfwy hygyrch i ddisgyblion a'u teuluoedd dros amser. Adroddodd llawer o arweinwyr am lefelau pryder uwch ymhlith staff wrth iddyn nhw wneud hyn. Rhoddodd bron yr holl arweinwyr flaenoriaeth i les eu staff a'u disgyblion dros eu lles eu hunain. Roeddent yn gweld bod lles staff wedi cael effaith uniongyrchol ar les disgyblion. Amlygwyd hyn yn y *'Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol'* Llywodraeth Cymru (2021h).'

### Rheoli lles staff drwy sesiynau oddi ar y we

Yn Ysgol yr Archesgob Rowan Williams, yn Sir Fynwy, roedd arweinwyr yn ystyried adborth gan staff bod gorfod bod ar alw ar-lein yn gyson yn cael effaith niweidiol ar eu lles eu hunain. Yn ogystal, roedd pryderon gan rieni ynglŷn â faint o amser yr oedd eu plant yn ei dreulio ar y sgrin. Penderfynodd yr arweinwyr ddefnyddio dyddiau Mercher ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu staff. Er bod tasgau'n cael eu gosod o hyd, nid oedd unrhyw wersi'n cael eu ffrydio'n fyw nac unrhyw ddysgu yn ddibynnol ar TGCh y diwrnod hwnnw, ac nid oedd athrawon yn monitro negeseuon. Roedd aelod pwrpasol o staff 'ar ddyletswydd' ar gyfer pob dosbarth drwy'r amser, i ymateb i faterion iechyd neu ddiogelu a oedd wedi digwydd ar ddydd Mercher. Rhoddodd hyn amser gwarchodedig i staff i ystyried dysgu eu disgyblion ar gyfer yr wythnos ganlynol ac i ddadansoddi patrymau ymgysylltu yn ystod yr wythnos flaenorol. Cafwyd adborth cadarnhaol uniongyrchol gan ddisgyblion a theuluoedd, ac fe wnaeth lles staff wella'n fawr.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd

Roedd lles penaethiaid yn destun pryder trwy gydol y flwyddyn. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo pwysau cyfrifoldeb diarbed dros les eu dysgwyr a'u staff. Roeddent yn teimlo'n flinedig tu hwnt gan nad oeddent wedi cael egwyl sylweddol ers cyn y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Cyfeiriont at 'lefelau cynyddol o straen a gorbryder' ac 'effeithio'n negyddol ar berthnasoedd personol a bywyd bob dydd' fel y ddwy brif ffordd yr effeithiwyd arnynt. Cododd llawer bryderon bod derbyn diweddariadau gan Lywodraeth Cymru ar newidiadau i ymarfer ar yr un pryd â'r cyhoedd yn anodd ymdopi ag ef, a gwnaeth iddyn nhw deimlo'n bryderus. Cryfhaodd cefnogaeth gan awdurdodau lleol i les arweinwyr wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Serch hynny, teimlai llawer nad oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth emosiynol iddyn nhw.

Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, ymgynghorodd arweinwyr yn rheolaidd â theuluoedd a chasglu'u barnau am ddarpariaeth yr ysgol, yn enwedig yn ystod cyfnodau dysgu o bell. Ym mron yr holl ysgolion cynradd, roedd arweinwyr yn myfyrio'n gyson ar eu dulliau o gynnal dysgu o bell a dysgu wyneb yn wyneb, ac yn eu hadolygu, eu mireinio a'u haddasu, lle bo angen.

Roedd bron bob arweinydd yn cydnabod pwysigrwydd rhoi gwybodaeth gyson i deuluoedd am eu cynlluniau a'u prosesau mewn modd clir ac amserol. Helpodd y cyfathrebu hwn nhw i ddeall pa gymorth yr oedd ei angen ar deuluoedd a'u galluogi nhw a'u staff i'w ddarparu. Yn aml, roedd hyn yn cynnwys darparu cymorth i deuluoedd i ddelio ag ymddygiad eu plant, rhoi cymorth technegol iddynt neu ddosbarthu pecynnau gwaith neu barseli bwyd iddyn nhw.

Derbyniodd ysgolion nifer o grantiau a chyllid ychwanegol trwy gydol y flwyddyn. Croesawodd arweinwyr y rhain, yn enwedig cyllid Llywodraeth Cymru (2020e) ar gyfer 'Recriwtio, adfer a chodi safonau': y rhaglen dysgu carlam. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ysgolion y cyllid ychwanegol hwn i gyflogi aelodau staff ychwanegol neu i gynyddu oriau staff presennol. Fe'u defnyddiwyd gan lawer i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion neu i gynyddu cymorth emosiynol iddyn nhw. Rhoddodd ychydig o ysgolion flaenoriaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol ar gyfer disgyblion agored i niwed. Gan i ddisgyblion ddysgu o bell am fisoedd lawer, roedd yn anodd i arweinwyr werthuso effaith grantiau ar gynnydd disgyblion o fewn cyfnod byr. Derbyniodd llawer o arweinwyr gyllid arall yn hwyr yn y flwyddyn ariannol ac roeddent yn ei gweld hi'n heriol gwario hwn mewn modd ystyrlon ac mewn pryd.

Parhaodd arweinwyr i ganolbwyntio ar ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff trwy gydol y flwyddyn. Roedd datblygu medrau digidol staff ymhellach a dyfnhau eu dealltwriaeth o ddulliau addysgu a dysgu gwahanol yn hanfodol i'w cynnig dysgu proffesiynol.

### Gwerthuso dysgu o bell

Yn Ysgol Eifion Wyn, Gwynedd, roedd arweinwyr a staff yn gwerthuso'u darpariaeth dysgu o bell yn rheolaidd, ond yn anffurfiol. Roeddent yn trafod eu dulliau ac yn nodi'r ymagweddau a oedd yn fwyaf effeithiol. Roedd arweinwyr yn cysylltu â rhieni i ofyn am eu barnau am brofiadau dysgu eu plant, ac yn ystyried eu hymatebion. O ganlyniad, defnyddiodd staff sesiynau dysgu byw a oedd yn fyr ac ysgogol i gadw diddordeb disgyblion a'u hannog i ymgysylltu'n gyson â'u dysgu. Cysylltodd yr ysgol â theuluoedd y disgyblion hynny yr oedd angen arweiniad ychwanegol arnynt i gwblhau tasgau, a chynigiont gyngor a chymorth iddyn nhw.

### Dechrau sgyrsiau am ddysgu proffesiynol

Sefydlodd arweinydd canol yn Ysgol Gynradd Llandrillo yn Rhos, Conwy, grŵp sgwrsio dysgu proffesiynol fel bod cydweithwyr yn gallu cadw mewn cysylltiad pan oedd yr ysgol ar gau. Yn y negeseuon grŵp, bu staff yn rhannu agweddau ar ddysgu proffesiynol ac adnoddau a oedd o ddiddordeb iddynt, fel cyfnodolion proffesiynol, podlediadau, neu glipiau fideo o arbenigwyr yn cyflwyno darlithoedd. Roeddent yn adolygu'r deunyddiau hyn ac yn trafod goblygiadau i'w hymarfer, gan gyfeirio cydweithwyr at adnoddau perthnasol. Rhoddodd y dull hwn berchnogaeth i staff ar eu dysgu proffesiynol eu hunain a'u galluogi i ganolbwyntio ar bethau a oedd yn bwysig iddynt ac yn eu diddori.

# Crynodebau sector: Ysgolion cynradd



Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, bu arweinwyr yn annog staff i ymgysylltu â gweminarau i wella'u dealltwriaeth o ddatblygiadau mewn addysg, fel y Cwricwlwm i Gymru a diwygio ADY.

Erbyn tymor y gwanwyn, roedd mwyafrif o arweinwyr o'r farn eu bod ar y trywydd iawn i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022 a bod cadw'r llinell amser a gynlluniwyd yn bwysig i gynnal momentwm. Ar yr adeg honno, mynegodd arweinwyr fod ganddynt ddealltwriaeth glir o broses dylunio'r cwricwlwm neu roeddent yn gallu gosod eu hysgol yng nghyd-destun dogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru (2021d) 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022' i hwyluso sgyrsiau o'r fath. Yn yr achosion hyn, roedd gweledigaeth yr ysgol yn glir ac yn cynnwys cynlluniau ar gyfer datblygu addysgu yn unol â'r 12 egwyddor addysgegol a amlinellwyd yn Dyfodol Llwyddiannus. Erbyn tymor yr haf, roedd mwy o arweinwyr wedi ailgyfeirio'u sylw at ddatblygu'u cynlluniau i ymgorffori egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad i'r pwysau ychwanegol yn sgil y pandemig, teimlai llawer o arweinwyr y byddai eu hysgol yn elwa o gael cyfnod maith, heb unrhyw darfu i weithio ymhellach ar ddatblygu'u hymagweddau cwricwlaidd.

Maes arall o ddysgu proffesiynol y gwnaeth bron yr holl ysgolion ganolbwyntio arno wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi oedd gweithredu diwygiadau ADY. Roedd arweinwyr yn aml yn trefnu cyfleoedd i staff ddatblygu'u medrau a'u gwybodaeth mewn meysydd fel diogelu, anhwylder ymlyniad, anhwylder y sbectrwm awtistig, delio â thrawma mewn plant a chyfathrebu drwy iaith arwyddion. Roedd lleiafrif o arweinwyr yn pryderu ynghylch parodrwydd eu hysgol i weithredu newidiadau ADY mewn pryd, a phwysau llwyth gwaith ar staff sy'n arwain ar yr agwedd hon ar waith yr ysgol. Fe wnaeth ychydig o benaethiaid ailstrwythuro cyfrifoldebau staff i gefnogi'r diwygio hwn. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, derbyniodd staff gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o'r newidiadau a oedd ar y gorwel, gydag ychydig ohonynt yn gweithio mewn partneriaeth gyda'u clystyrau i gyflawni hyn.

Adran 1

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

## Cyd-destun

Yn Ebrill 2021, roedd 182 o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Roedd hyn un yn llai nag ym mis Ionawr 2020, pan roedd 183. Ym mis Ebrill 2021 roedd dros 174,100 o ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, rhyw 3,000 yn fwy nag yn Ionawr 2020 (Llywodraeth Cymru, 2021o).

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â'r sector, cynhaliom 172 o gyfarfodydd ymgysylltu o bell, ac ymwelom â 29 o ysgolion eleni. Canolbwyntiodd trafodaethau gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr ar oblygiadau'r pandemig i les disgyblion a staff, sut roedd ysgolion yn cefnogi addysgu a dysgu, arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig, a pharatoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, lle'r oedd yn briodol. Hefyd, cynhaliom ymweliadau bugeiliol ag ysgolion mewn categori statudol.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd



## Lles

Pan agorodd ysgolion ym Medi 2020, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol ac roedd ymddygiad yn dda yn gyffredinol, er bod ychydig o ddisgyblion yn ei chael hi'n anodd ailaddasu i arferion bywyd ysgol. Wedi i'r holl ddisgyblion ddychwelyd ar ôl y Pasg 2021, roedd ymddygiad yn parhau'n gadarnhaol gan mwyaf, er bod dirywiad yn ymddygiad ychydig o ddisgyblion. Roedd presenoldeb llawer o ddisgyblion yn dda, at ei gilydd. Serch hynny, parhaodd presenoldeb disgyblion yn gyson islaw 90% ar gyfer tymor yr haf, o gymharu â phresenoldeb cyfartalog o ychydig o dan 94% ar gyfer y flwyddyn addysg lawn ddiwethaf yn 2018-2019 (Llywodraeth Cymru, 2019b). Roedd presenoldeb disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn nodedig islaw presenoldeb disgyblion eraill. Adroddodd penaethiaid am gynnydd mewn absenoldeb parhaus ymhlith grwpiau disgyblion penodol, fel y rheiny a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mewn ychydig o achosion, ni wnaeth disgyblion Blwyddyn 11 ddychwelyd i'r ysgol ar ôl yr ail gyfnod clo cenedlaethol, ac roedd hynny'n creu'r risg iddynt adael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau.

Roedd ysgolion yn pryderu'n arbennig ynglŷn ag effaith y pandemig ar les a gorbryder ymhlith disgyblion. Amlygwyd hyn yn yr adroddiad 'Coronafeirws a Fi' (Comisiynydd Plant Cymru, 2020, tud.20), a ganfu mai dim ond 11% o ddisgyblion 12 i 18 oed oedd heb unrhyw bryderon am eu haddysg. Adroddodd llawer o ysgolion am gynnydd mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant ac yn y galw am wasanaethau cwnsela, yn enwedig yn dilyn yr ail gyfnod clo.

### Botwm Becso

Ychwanegodd Ysgol Gyfun Y Strade'r 'Botwm Becso' i'w gwefan. Gall disgyblion ddefnyddio'r botwm hwn ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos i adrodd am bryderon neu ofidiau a allai fod ganddynt. Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn mynd yn syth at y pennaeth cynorthwyol sy'n gyfrifol am les, sydd wedyn yn cysylltu â'r disgybl ac yn penderfynu ar y ffordd orau i'w gefnogi.

Er bod ymgysylltiad disgyblion â dysgu ar-lein yn well yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, roedd yr effaith ar eu hiechyd meddwl a'u lles yn fwy difrifol. Y tro hwn, roedd disgyblion, yn gyffredinol, yn treulio mwy o amser yn dysgu ar-lein, a chafodd tywydd gwael a nosweithiau tywyll effaith negyddol ar eu lles. Yn gynyddol, cyflwynodd ysgolion ddiwrnodau neu gyfnodau 'dim amser sgrin' i gefnogi lles disgyblion.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Mae effaith y pandemig ar grwpiau dysgwyr penodol wedi bod yn sylweddol. Roedd y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn tueddu ymgysylltu llai na disgyblion eraill â dysgu ar-lein, er bod ysgolion yn cynnig cefnogaeth iddynt. Er enghraifft, roeddent yn cynnwys cynorthwywyr addysgu mewn dosbarthiadau ar-lein ac yn gwahodd disgyblion i mewn i'r ysgol fel bod staff yn gallu'u helpu i gwblhau eu gwaith a'u cynorthwyo gydag unrhyw faterion eraill. Yn gyffredinol, roedd disgyblion mwy abl yn ymgysylltu'n dda â dysgu o gartref. Roedd disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn teimlo bod dysgu ar-lein yn arbennig o heriol, yn enwedig os nad oedd eu rhieni'n siarad Saesneg. Nid oedd disgyblion a oedd yn cael darpariaeth cwricwlwm amgen, fel profiad gwaith neu gyrsiau dysgu yn yr awyr agored, yn gallu cael eu profiadau dysgu arferol, a chafodd hyn effaith negyddol ar eu cymhelliant a'u hymgysylltiad. Roedd pryderon arbennig ynglŷn ag effaith y pandemig ar les disgyblion mewn grwpiau blwyddyn arholiadau, a oedd dan risg dioddef straen sylweddol wrth ymgymryd â llawer o asesiadau dros gyfnod amser byr.

Daeth y rhaniad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a mwy breintiedig yn amlycach dros gyfnod y pandemig. Roedd y grŵp cyntaf yn llai tebygol o allu defnyddio Wi-Fi, dyfeisiau digidol a chael cymorth gyda'u gwaith ysgol gartref. Roedd eu teuluoedd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n ariannol gan y pandemig ac roedd angen i deuluoedd mwy hunanynysu'n amlach. Adlewyrchir y canfyddiadau hyn hefyd yn adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2021) 'The Cost of Learning in Lockdown', a gyhoeddwyd ym Mawrth 2021.

### Partneriaeth i gefnogi teuluoedd agored i niwed

Sefydlodd Ysgol Gyfun Coedcae bartneriaeth lwyddiannus gyda'r awdurdod lleol i gefnogi teuluoedd agored i niwed. Nododd yr ysgol deuluoedd agored i niwed nad oeddent ar y gofrestr prydau ysgol am ddim ond a oedd yn wynebu pwysau ariannol cynyddol yn sgil colli swyddi neu oherwydd y cynllun ffyrlo. Gyda grant wythnosol o £250, dosbarthodd yr ysgol becynnau hylendid i'r teuluoedd hynny i liniaru rywfaint ar y pwysau ariannol lle'r oedd rhaid gwario arian ar hanfodion fel bwyd yn bennaf, yn hytrach na chynhyrchion hylendid. O ganlyniad, adeiladodd yr ysgol berthnasoedd cadarn gyda disgyblion a'u teuluoedd, a'u helpu gyda materion ac anawsterau eu cymuned ysgol.

Trwy gydol y pandemig, buddsoddodd ysgolion adnoddau ac amser sylweddol i fonitro a chefnogi lles disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Yn ystod cyfnodau clo, cysylltodd y rhan fwyaf o ysgolion â disgyblion yn rheolaidd i wirio ar eu lles. Defnyddiodd arweinwyr gyllid ychwanegol i ddarparu cymorth bugeiliol a rhaglenni ymyrraeth. Canolbwyntiodd llawer o ysgolion yn gryf ar les yn eu darpariaeth gyffredinol a chynnig gofal plant a darpariaeth hyb ar gyfer disgyblion penodol.

### Darparu parthau dysgu bach i gefnogi disgyblion i gael cymorth

Ym Medi, aeth Ysgol Bassaleg ati i ailstrwythuro darpariaeth ei Chanolfan Gynnydd i ddarparu parthau dysgu bach ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Fe wnaeth hyn alluogi disgyblion ag ADY i gael cymorth arbenigol yn ddiogel, cael seibiant ac, os oedd angen, hwyluso pontio graddol i'r ysgol wrth barhau yn eu swigen. Defnyddiwyd staff cymorth i ddarparu cymorth cyson i ddisgyblion a rhoddwyd arweiniad penodol iddynt ar sut gallen nhw gynorthwyo disgyblion mewn ffordd ddiogel o ran COVID-19.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Parhaodd ysgolion i weithio'n agos ag asiantaethau allanol, fel y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth seicoleg addysgol. Roedd ychydig o'r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig, fel cyfarfodydd o bell, yn fanteisiol i'r gwaith hwn. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau ar ymwelwyr ag ysgolion yn creu heriau, er enghraifft pan roedd angen i seicolegwyr addysgol gynnal asesiadau o ddisgyblion.

Eleni, parhaodd ysgolion i roi benthyg offer digidol i ddisgyblion nad oedd yr offer hwnnw ganddynt gartref neu i ddisgyblion a oedd yn gorfod rhannu gydag aelodau eraill y teulu. Fodd bynnag, roedd ysgolion yn cael anhawster prynu offer weithiau oherwydd y cynnydd yn y galw. Wrth i offer gael ei ddychwelyd i'r ysgol, bu arweinwyr yn ystyried sut gallent wella'u darpariaeth offer i fynd i'r afael â'r rhaniad digidol a amlygwyd yn ystod y pandemig, fel y rheiny a ddisgrifiwyd yn 'Mynd Ar-lein, briff gan Gomisiynydd Plant Cymru' (Comisiynydd Plant Cymru, 2021b).

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Ledled Cymru, roedd cryn amrywio o ran faint o amser ysgol roedd disgyblion ysgolion uwchradd wedi'i golli yn sgil gorfod hunanynysu. Mewn rhai ysgolion, collodd grwpiau blwyddyn cyfan hyd at 12 wythnos o ddarpariaeth wyneb yn wyneb yn nhymor yr hydref.

Yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, roedd cryn amrywio yn y ddarpariaeth ar-lein a gynigiwyd gan ysgolion. Yn benodol, roedd nifer y gwersi byw roedd ysgolion yn eu darparu yn amrywio'n fawr. O Ionawr 2021, cynyddodd cyfran y gwersi ar-lein oedd yn cael eu cyflwyno'n fyw yn nodedig yn y rhan fwyaf o ysgolion. Gan fod staff a disgyblion yn fwy hyderus i weithio ar-lein erbyn mis Ionawr, roedd ysgolion yn gallu canolbwyntio'n gryfach ar ansawdd addysgu a dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio i gadw rhai agweddau ar eu darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y dyfodol. Er enghraifft, maent yn cynllunio i ddefnyddio gwersi wedi'u rhag-recordio at ddibenion adolygu a phan fydd athrawon yn absennol.

### Cefnogi iechyd meddwl disgyblion

Ers i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol, nododd arweinwyr yn Ysgol Syr Hugh Owen gynnydd mewn gorbryder, hunan-niweidio a hwyliau isel drwy eu systemau mewnol i fonitro llesiant a lles disgyblion. Creodd yr ysgol ystafell ddosbarth ar-lein ar gyfer iechyd meddwl fel bod disgyblion yn gallu cael mynediad i wybodaeth a gweithgareddau i'w cynorthwyo. Yn ogystal, addasodd yr ysgol wersi ABCh i ymateb i anghenion disgyblion, fel gwersi ar feithrin gwydnwch meddyliol, gwella hylendid personol a hyrwyddo model 'Pum Ffordd at Les' y GIG.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

**Gwneud dysgu o bell yn ddifyr a hylaw**

Bu arweinwyr ac athrawon yn Ysgol Uwchradd Caerdydd yn gweithio gyda'i gilydd i wneud dysgu o bell yn ddifyr a hylaw i ddisgyblion a staff. Yn aml, roedd staff yn gor-gynllunio sesiynau ar-lein, felly fe wnaethant annog athrawon i dorri'n ôl ar gynnwys y gwersi i sicrhau bod dysgu effeithiol yn mynd rhagddo. Roeddent yn bryderus bod gormod o weithgareddau dysgu yn ddigidol, felly fe wnaeth arweinwyr annog athrawon i osod tasgau heb fod yn ddigidol, fel ysgrifennu mewn dyddlyfr ffisegol neu ddarllen llyfr 'go iawn'. Roedd athrawon yn cael sgyrsiau rheolaidd ynglŷn ag addysgeg a'u hymagwedd oedd bod 'llai yn golygu mwy': 'talpio' gwaith, cyfnerthu dysgu, a sicrhau peidio ag ymdrin â chynnwys yn rhy gyflym.

Trwy gyfarfodydd a gweithgareddau dysgu proffesiynol, nododd staff fod medrau cyfathrebu athrawon o'r pwysigrwydd pennaf, yn enwedig eu hyfedredd wrth gychwyn a datblygu trafodaeth. Hefyd, canfu athrawon fod angen i ddisgyblion gael eu harwain yn fwy systematig drwy eu dysgu nag y byddent yn yr ystafell ddosbarth, lle gallai athrawon gynorthwyo unigolion yn hawdd, neu lle gallai disgyblion fod wedi codi awgrymiadau gan eu cyfoedion. Nododd athrawon eu disgwyliadau yn glir a chyfeirio disgyblion trwy gydol y dysgu.

Roedd disgyblion yn gweithio yn unol ag amserlen benodedig a oedd yn adlewyrchu'r amserlen arferol. Roedd hyn yn cynnwys cymysgedd o wersi byw, gweminarau (lle'r oedd athrawon yn cyflwyno sesiwn, a disgyblion yn treulio'r rhan fwyaf o'r amser yn gweithio'n unigol, gan ddod yn ôl ar ddiwedd y sesiwn i drafod eu gwaith) a chyfnodau hunan-astudio. Roedd yr amserlen lem yn galluogi teuluoedd i gynllunio'u hamser a'u mynediad i ddyfeisiau. Mynnodd yr ysgol fod athrawon yn dilyn yr amserlen am y rheswm hwn. Roedd y cyfnodau hunan-astudio yn caniatáu amser i staff gynllunio.



Pan gaeodd ysgolion ym mis Rhagfyr, roedd y rhai a oedd wedi gweld nifer uchel o achosion yn nhymor yr hydref mewn sefyllfa dda i ddarparu dysgu ar-lein gan eu bod wedi gallu ymarfer ac arbrofi. Roedd ymgysylltiad disgyblion â dysgu ar-lein yn amrywio'n fawr, er i hynny wella'n gyffredinol gyda'r cynnydd mewn gwersi byw o Ionawr 2021. Ym mron yr holl ysgolion, methodd cyfran o ddisgyblion ag ymgysylltu o gwbl gyda dysgu gartref, ac roedd hyn yn broblem arbennig i ysgolion a oedd yn gwasanaethu cymunedau mwy difreintiedig. Roedd ysgolion yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i geisio ymgysylltu â'r disgyblion hyn. Gwnaethant alwadau ffôn rheolaidd â nhw a'u teuluoedd, cynhalion nhw ymweliadau â chartrefi gan gadw pellter cymdeithasol, trefnon nhw gymorth fel cwnsela neu fentora a'u gwahodd i ddod i mewn i'r ysgol i gwblhau'u gwaith gyda chymorth staff. Nododd y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) fod uwch arweinwyr yn credu bod hyd at draean o ddisgyblion heb ymgysylltu â gwaith a osodwyd (Lucas *et al*., 2020). Roedd staff yn arbennig o bryderus ynglŷn â lefel ymgysylltu isel disgyblion ag ADY a'r rheiny a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er gwaethaf systemau gwell i fonitro ymgysylltiad disgyblion, roedd gwerthuso'u hymgysylltiad yn fanwl gywir yn parhau yn her, gyda diffiniadau o'r hyn oedd ymgysylltu yn amrywio rhwng ysgolion.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Pan ddychwelodd yr holl ddisgyblion i ysgolion ar ôl y Pasg, parhaodd cyfyngiadau i effeithio ar addysgu wyneb yn wyneb. Er enghraifft, nid oedd athrawon yn gallu symud yn rhydd o amgylch ystafelloedd dosbarth ac roedd rhyngweithio â disgyblion a rhwng disgyblion yn anodd gan fod rhaid iddynt wisgo masgiau. Roedd gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd dysgu ehangach yn gyfyngedig iawn trwy gydol y flwyddyn academaidd, gan arwain at ystod darpariaeth lai amrywiol na'r arfer. Er gwaetha'r cyfyngiadau, dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion fod addysgu wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol iddynt a bod yn well ganddynt ddysgu yn yr ysgol.


Pan ddychwelodd y disgyblion ym Medi, gweithiodd ysgolion i sefydlu lefel bresennol eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth heb eu llethu gyda phrofion. Oherwydd tarfu mynych ar addysg mewn ysgolion oherwydd achosion o'r feirws, gwnaed hyn yn anodd. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, daeth staff yn fwy medrus wrth asesu gwaith disgyblion ar-lein gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys recordiadau o adborth llafar ac adborth ysgrifenedig byw. At ei gilydd, roedd asesu cynnydd disgyblion a darparu adborth ystyrlon o bell yn parhau i fod yn her.

Roedd pryderon gan y rhan fwyaf o ysgolion ynglŷn â chynnydd disgyblion mewn medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, yn enwedig eu medrau darllen, ysgrifennu estynedig a llefaredd, er iddynt nodi gwelliannau yn eu medrau digidol. Yn gyffredinol, roedd bylchau cyffredinol yn nysgu'r disgyblion yn cyfateb i fylchau yn y ddarpariaeth. Er enghraifft, arweiniodd diffyg cyfleoedd ar gyfer gwaith grŵp a gwaith mewn parau, ac amharodrwydd disgyblion i ymgysylltu â thrafodaethau llafar, at ddirywiad yn eu medrau llefaredd. Er gwaethaf rhai materion cyffredin, roedd 'bylchau' yn nysgu'r disgyblion yn amrywio'n fawr o fewn ysgolion a rhwng ysgolion. Roedd disgyblion nad oeddent yn ymgysylltu'n dda â dysgu ar-lein yn gwneud llai o gynnydd na'r rheiny a oedd yn ymgysylltu'n dda. Roedd y disgyblion hyn yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd difreintiedig ac felly roedd ysgolion yn arbennig o bryderus ynglŷn â'r twf yn y rhaniad rhwng y disgyblion hyn a'r rheiny o gefndiroedd mwy breintiedig. Mae adroddiad yr Education Policy Institute, 'Analysis paper: preliminary research findings on education recovery' a gyhoeddwyd yn Ebrill 2021 yn nodi ansicrwydd ynglŷn ag union natur 'colli dysgu' i ddisgyblion hŷn, ond 'canfu fod ysgolion â lefelau uchel o anfantais yn gweld lefelau uwch o golli dysgu nag ysgolion eraill, yn enwedig yn y sector uwchradd' (Education Policy Institute, 2021b, tud.3). I ymateb i'r 'bylchau' a nodwyd ganddynt, canolbwyntiodd llawer o ysgolion ar fedrau penodol, er enghraifft trwy ddulliau dysgu ysgol gyfan neu raglenni ymyrraeth rhifedd ar gyfer disgyblion unigol. Mabwysiadodd rhai ysgolion ddull 'oedolyn â diddordeb' a oedd yn golygu bod aelod o staff yn gweithredu fel mentor i ddisgyblion a oedd yn cael anawsterau.

Effeithiwyd yn arbennig ar ddisgyblion cyfnod allweddol 3 gan y pandemig. Pan ddychwelodd disgyblion yn dilyn yr ail gyfnod clo, rhoddodd ysgolion flaenoriaeth i grwpiau blwyddyn arholiadau, gan olygu bod disgyblion iau yn aml yn colli mwy o ysgol na grwpiau blwyddyn hŷn. Effeithiwyd yn arbennig ar ddisgyblion Blwyddyn 8 gan mai dim ond ychydig o fisoedd ym Mlwyddyn 7 gawson nhw cyn y pandemig. Yn y rhan fwyaf o achosion, wrth gynllunio darpariaeth gwricwlaidd o dan reoliadau COVID-19, gweithiodd ysgolion yn galed i sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 4 a disgyblion y chweched

**Dulliau asesu ffurfiannol ar-lein**

Yn Ysgol y Creuddyn, bu'r adran fathemateg yn arbrofi gyda dulliau asesu ffurfiannol ar-lein. Yn ystod sesiynau addysgu byw, roeddent yn defnyddio darnau amrywiol o feddalwedd, fel byrddau gwyn bach rhithwir, i gynnal prawf ar ddealltwriaeth disgyblion o gysyniadau a llywio'r camau nesaf yn yr addysgu. Hefyd, roeddent yn defnyddio cwestiynau diagnostig amlddewis i fesur dealltwriaeth disgyblion a nodi camsyniadau'n gynnar yn yr addysgu, fel nad oedd y camsyniadau'n ymwreiddio.



dosbarth yn cael mynediad i'w hystod pynciau arferol, gan gynnwys y rhai yr oedd angen cyfleusterau arbenigol ar eu cyfer. O ganlyniad, roedd disgyblion iau yn cael cwricwlwm culach o lawer yn aml, ac amrywiaeth fwy cyfyngedig o dasgau ysgogol. Yn aml, roeddent yn cael eu haddysgu mewn un ystafell ddosbarth ac nid oeddent yn gallu cael mynediad i ystafelloedd nac offer arbenigol. Roedd pynciau ymarferol yn tueddu canolbwyntio ar theori, felly roedd disgyblion yn colli allan ar yr ystod gweithgareddau arferol, fel coginio, canu, canu offerynnau neu chwaraeon.

Er mwyn creu 'swigod' llai, mewn llawer o ysgolion, roedd plant iau yn cael eu haddysgu yn yr un dosbarth gallu cymysg ar gyfer yr holl bynciau, ac nid yn eu setiau neu eu bandiau arferol. Lle nad oedd athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion, roedd gwaith yn rhy anodd i rai weithiau, ac yn rhy hawdd i rai eraill. O dan y trefniadau ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau, roedd mwyafrif o ysgolion yn defnyddio athrawon cyflenwi neu oruchwylwyr cyflenwi ar gyfer dosbarthiadau cyfnod allweddol 3 er mwyn rhyddhau amser i athrawon farcio a gweinyddu asesiadau. Golygai hyn fod y disgyblion hyn yn parhau i golli eu gwersi arferol hyd yn oed pan roeddent yn ôl yn yr ysgol. Mae ysgolion yn adrodd am bryderon ynglŷn â medrau canolbwyntio a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion iau.

Yn gyffredinol, cynyddodd ysgolion eu darpariaeth ymyrraeth ym mis Medi i ddisgyblion yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. Fe wnaethant geisio cynnal y ddarpariaeth hon pan roedd disgyblion yn dysgu o gartref, ond roedd hyn yn heriol. Yn ystod yr ail gyfnod clo, roedd ysgolion, yn gynyddol, yn gwahodd disgyblion ag ADY neu ddisgyblion a oedd yn cael anhawster ymgysylltu â gwaith ysgol i fynychu'r ysgol fel eu bod yn gallu cael cymorth gan staff. Pan ddychwelodd yr holl ddisgyblion i'r ysgol ar ôl y Pasg, roedd athrawon eisiau osgoi mynd dros waith yr oedd rhai disgyblion wedi'i gwblhau, ond roeddent hefyd yn cydnabod yr angen i gefnogi'r disgyblion hynny nad oedden nhw'n ymgysylltu'n dda â dysgu o gartref. Mae adroddiad yr Education Policy Institute (2021c), 'Education Reopening and Catch-up Support Across the UK', yn rhoi gwybodaeth am ystod rhaglenni'r llywodraeth sydd wedi'u cynllunio i helpu ysgolion gefnogi'r disgyblion hyn, gan gynnwys disgyblion yng Nghymru.

Mae cynnydd gyda chynllunio ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn amrywio'n fawr ar draws y sector. Fe wnaeth llawer o ysgolion oedi'u cynlluniau, parhaodd rhai eraill i ddatblygu'u cynlluniau, ac o ran y rheiny yr oedd cynlluniau datblygedig ganddynt yn barod, fe wnaethant barhau i fireinio'u darpariaeth. Nododd llawer o ysgolion fanteision a ddaeth yn sgil y pandemig a allai gefnogi datblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Soniodd y rhan fwyaf o arweinwyr am y gwelliant ym medrau digidol staff a disgyblion fel mantais fawr a allai gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm. Hefyd, roeddent yn croesawu'r ffocws o'r newydd ar gefnogi iechyd meddwl a lles disgyblion. Mae llawer o ysgolion uwchradd wedi trefnu diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae ffocws y rhain wedi amrywio gryn dipyn o ysgol i ysgol.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd

Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi parhau i baratoi ar gyfer diwygio ADY. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi gweithio gyda'u hysgolion cynradd partner i gynllunio ar gyfer gweithredu a darparu dysgu proffesiynol, gyda rhai clystyrau o ysgolion yn rhannu cydlynydd anghenion ychwanegol. Roedd ysgolion yn croesawu'r cyflwyno fesul cam, er eu bod yn pryderu ynglŷn â gorfod rhedeg dwy system ar yr un pryd.

Wynebodd ysgolion cyfrwng Cymraeg heriau arbennig yn ystod y flwyddyn academaidd.  Adroddodd bron yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg ddirywiad yn ystod geirfa Gymraeg disgyblion a'u defnydd o Gymraeg llafar, gan mai cyfleoedd cyfyngedig yr oeddent wedi'u cael i wrando ar yr iaith a'i hymarfer. Roedd hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Collodd llawer o ddisgyblion hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg, ac roeddent yn amharod felly i siarad Cymraeg pan aethant yn ôl i'r ysgol. I ymateb i hynny, canolbwyntiodd llawer o'r ysgolion hyn yn drwm ar fedrau llefaredd pan ddychwelodd y disgyblion. Er enghraifft, cynhaliodd un ysgol wythnos siarad a gwrando, penodwyd athro cymorth iaith amser llawn gan ysgol arall, ac ailgyflwynodd un arall wersi drama. Hefyd, wynebodd ysgolion cyfrwng Cymraeg gryn heriau wrth geisio recriwtio staff newydd.

Yn 2021, cynyddodd yr ymgeisiadau ar gyfer arholiadau i ddisgyblion Blwyddyn 10 70% o gymharu â 2020 (Cymwysterau Cymru, 2021b). Fe wnaeth ymgeisiadau Blwyddyn 10 ar gyfer mathemateg-rhifedd ddyblu a mwy, a chynyddodd yr ymgeisiadau ar gyfer llenyddiaeth Saesneg yn sylweddol gan 60%, er gwaetha'r tarfu ar addysg dros y flwyddyn. Un o'r rhesymau am hyn oedd bod y trefniadau asesu ar gyfer llenyddiaeth Saesneg wedi newid, a theimlai llawer o ysgolion fod disgyblion yn gallu sefyll y cymhwyster ym Mlwyddyn 10.

## Arweinyddiaeth

Trwy gydol y flwyddyn academaidd, dangosodd arweinwyr mewn ysgolion uwchradd hyblygrwydd ac ystwythder sylweddol yn eu hymateb i'r pandemig, a'r galw cynyddol ar eu hamser a'u medrau. Yn ychwanegol at eu dyletswyddau arferol, o Fedi 2020, bu'n rhaid i uwch arweinwyr reoli trefniadau gweithredu diogel COVID-19, cynllunio swigod ac achosion o'r feirws yn logistaidd, cynllunio ar gyfer amrywiaeth o fodelau dysgu, a gweithredu'r gweithdrefnau Profi, Olrhain, Diogelu. Cynyddodd pwysau yn sgil cyflwyno profion llif unffordd a'r gofynion ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau ac apeliadau cysylltiedig.

Dangosodd staff lefelau ymrwymiad uchel i'w rolau yn ystod yr argyfwng. Er hyn, roeddent yn wynebu llu o heriau ac roedd penaethiaid yn poeni ynghylch lles staff. Cynigiodd bron bob ysgol gymorth lles i'w staff ac roeddent yn ymwybodol o'r pwysau arnynt, yn enwedig mewn perthynas â Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Yn aml, roedd penaethiaid yn rhoi blaenoriaeth i les disgyblion a staff ar draul eu lles eu hunain, gyda llawer ohonynt yn cael bach iawn o seibiant neu wyliau. Mewn arolwg ar gyfer yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (2021), nododd tri chwarter o arweinwyr a ymatebodd mai 'llwyth gwaith' oedd yn cael yr effaith fwyaf ar eu lles.

### Grŵp ymglymiad rhieni ar-lein

Roedd rhaglen ymglymiad rhieni ar-lein gan Ysgol Dyffryn Aman. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar weithio gyda rhieni i nodi cryfderau a bylchau yn y ddarpariaeth, ac i gynllunio blaenoriaethau gwella i gefnogi rhieni. Er enghraifft, cynhaliwyd gweithdai ar destunau fel defnyddio Hwb ac ystafelloedd dosbarth ar-lein, cymorth bugeiliol a lles, cymorth i ddisgyblion ag ADY ac agweddau at ddysgu.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion uwchradd

Mae cyfathrebu llwyddiannus wedi bod yn agwedd allweddol ar reoli argyfwng COVID-19. Canfu arweinwyr fod cyfathrebu clir, rheolaidd gyda disgyblion, rhieni a staff yn hanfodol, a defnyddiodd y rhan fwyaf amrywiaeth o strategaethau cyfathrebu, gan gynnwys defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o ysgolion yn adrodd am berthnasoedd gwell gyda rhieni, staff, a'r gymuned leol. Fodd bynnag, mynegwyd rhwystredigaeth gan benaethiaid ynglŷn â'r ffaith na roddwyd fawr o rybudd, neu ddim rhybudd o gwbl iddynt, am gyhoeddiadau am addysg a bod arweiniad yn newid yn aml, ac roedd hynny'n creu heriau cyfathrebu.

Un nodwedd nodedig o'r ymagwedd at arweinyddiaeth yng ngolau'r pandemig oedd cynnydd mewn ffocws ar fyfyrio ac ailwerthuso arferion. Ysgogodd y pandemig arweinwyr i feddwl yn wahanol, cwestiynu ffyrdd o weithio a oedd wedi hen ymsefydlu a gweithredu'n gyflym i wneud newidiadau. Er gwaethaf heriau sylweddol y pandemig, dangosodd llawer o arweinwyr agwedd gadarnhaol at symud ymlaen ac roeddent yn gweld manteision rhai o'r newidiadau a orfodwyd arnynt. Er enghraifft, mae llawer yn bwriadu cadw rhai newidiadau fel nosweithiau rhieni ar-lein, amseroedd cinio am yn ail, defnydd o lwyfannau digidol a systemau unffordd. Hefyd, roeddent yn gweld llawer o fuddion i gynnal cyfarfodydd rhithwir, yn enwedig lle'r oedd y cyfarfodydd hynny'n cynnwys partneriaid allanol. Er enghraifft, roedd yn haws cydweithio a dysgu gan gydweithwyr ac ysgolion eraill gan eu bod yn gallu cyfarfod yn rhithwir i rannu syniadau. Roedd llwyfannau digidol yn galluogi ysgolion i ymgysylltu y tu hwnt i ffiniau rhanbarthol a daearyddol a chyfarfod yn fwy rheolaidd.

Parhaodd llywodraethwyr â'u gwaith dros y flwyddyn, er y bu'n rhaid cynnal llawer ohono yn rhithwir. Yn gyffredinol, fe wnaeth presenoldeb mewn cyfarfodydd cyrff llywodraethol wella pan roedd ysgolion yn cynnal cyfarfodydd ar-lein.

Parhaodd arweinwyr i ddefnyddio ystod o brosesau i werthuso gwaith yr ysgol ond roeddent yn ei gweld hi'n anodd defnyddio rhai strategaethau o dan gyfyngiadau'r pandemig, er enghraifft arsylwadau gwersi. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y rhan fwyaf o ysgolion gyfleoedd i ddisgyblion, staff a rhieni rannu'u barnau drwy arolygon, arolygon barn a grwpiau ffocws. Ar y cychwyn, roedd y rhain yn canolbwyntio ar les yn bennaf, ond ehangodd eu cwmpas i gynnwys ansawdd darpariaeth ar-lein. Fe wnaeth monitro ymgysylltiad a lles disgyblion gan ysgolion wella dros gyfnod, gan ddod yn fwy soffistigedig a rhoi darlun mwy cywir i ysgolion. Fodd bynnag, roedd monitro ymgysylltiad a lles yn gywir yn parhau'n broblemus tra nad oedd disgyblion yn yr ysgol.

Wrth i dymor yr hydref fynd rhagddo, dychwelodd mwyafrif o ysgolion yn betrus at rai dulliau gwerthuso a monitro addysgu a dysgu. Daeth hyn yn fwy heriol pan oedd ysgolion ar gau ym mis Rhagfyr, ond fe wnaethant addasu'u dulliau i'r amgylchedd ar-lein. Er enghraifft, ymunodd arweinwyr canol â dosbarthiadau ar-lein a buont yn arsylwi gwersi byw. Pan ddychwelodd disgyblion ar ôl y Pasg, cynhaliodd ychydig o ysgolion arsylwadau dosbarthiadau gan gadw pellter cymdeithasol, ond roedd y rhan fwyaf yn canolbwyntio'u hamser ar baratoi ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Roedd natur, mynychder a thrylwyrder gweithgareddau monitro yn amrywio'n fawr, ac mewn rhai achosion, roedd systemau'n gweithredu ad hoc. Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn ei gweld hi'n heriol gwerthuso ansawdd addysgu a dysgu yn llawn.

### Monitro ansawdd darpariaeth

Roedd Ysgol Uwchradd Cathays yn cynnwys pob athro wrth fonitro darpariaeth. O fewn timau meysydd pwnc, roedd athrawon yn edrych ar lyfrau a dysgu ar-lein grŵp sampl o ddisgyblion mewn grwpiau blwyddyn gwahanol. Fe wnaeth hyn eu galluogi i gymharu ansawdd y ddarpariaeth. Roedd yr uwch dîm arwain yn cymedroli'u canfyddiadau.

Hefyd, cyflwynodd yr arweinwyr adolygiadau un i un o ddysgu ar-lein. Roedd y rhain yn cynnwys edrych ar wersi wedi'u recordio mewn timau pwnc. Nid oedd yr arweinwyr yn rhoi barnau, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar gael sgyrsiau hyfforddi.

# Crynodebau sector: Ysgolion uwchradd



Yn nhymor yr hydref, canolbwyntiodd rhaglenni dysgu proffesiynol mewn ysgolion uwchradd ar wella medrau digidol staff a'u paratoi i ddarparu dysgu o bell neu ddysgu cyfunol. O ganlyniad, bu gwelliant cyflym yn y medrau hyn. Yn hwyr yn nhymor y gwanwyn ac yn nhymor yr haf, symudodd y ffocws i gynorthwyo staff gyda phroses y Graddau a Bennir gan Ganolfannau. I raddau amrywiol, roedd ysgolion hefyd yn cynnig dysgu proffesiynol ar ddiwygio ADY a'r Cwricwlwm i Gymru.

Yn sgil symud i lwyfannau digidol, roedd yr holl staff yn gallu cael ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol rhad ac am ddim ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt, a heb orfod teithio neu gael eu rhyddhau o'u dyletswyddau arferol. Er i hyn greu nifer o fuddion, arweiniodd hefyd at gynnydd sylweddol yn nifer y gweithgareddau. Yn gyffredinol, nid oedd ysgolion wedi gwerthuso'n llawn effaith yr holl ddysgu proffesiynol a oedd yn mynd rhagddo, ac mewn rhai achosion roedd diffyg cyfeiriad strategol yn y rhaglen.

Nododd y rhan fwyaf o arweinwyr ysgol fod eu hysgolion wedi symud ymlaen mewn rhai ffyrdd a thuag yn ôl mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, bu cynnydd sylweddol ym medrau digidol disgyblion a staff, a seilwaith digidol eu hysgolion. Ar y llaw arall, roedd dulliau gweithio effeithiol, sefydledig, fel dulliau ysgol gyfan o fynd i'r afael â llythrennedd a rhifedd, wedi'u gwanhau yn ystod y pandemig, a gall gymryd amser hir i'w hailsefydlu.

Roedd arweinwyr yn gwerthfawrogi'r cyllid grant yr oedd ysgolion yn ei dderbyn. Yn gyffredinol, gwariwyd cyllid Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam (RAChS) ar ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer grwpiau blwyddyn arholiadau, yn enwedig yn y pynciau craidd, a chymorth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd. Defnyddion nhw grantiau eraill i dalu am staff addysgu a staff cymorth ychwanegol, ac i wrthbwyso cost addasiadau angenrheidiol, fel mwy o waith glanhau. Archwilir y modd y defnyddiwyd y grant RAChS a grantiau dal i fyny eraill gan ysgolion a cholegau i gynorthwyo dysgwyr ôl-16 yn ein hadroddiad thematig (Estyn, 2021n). Roedd llawer o'r cyllid a roddwyd i ysgolion wedi'i gyfyngu i amser felly roedd yn anodd i arweinwyr wneud unrhyw newidiadau cynaliadwy neu benodi staff. Yn ogystal, roedd yr holl grantiau'n pennu amodau gwahanol a disgwyliadau gwahanol. Roedd cyllid grant yn aml yn cyrraedd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, ac roedd hynny'n ei gwneud hi'n heriol i wario'r arian cyn i'r flwyddyn ariannol nesaf ddechrau. Roedd hefyd yn anodd recriwtio staff ychwanegol ar fyr rybudd, yn enwedig mewn rhai meysydd pwnc ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

# Adran 1

# Crynodebau sector:
## Ysgolion pob oed a gynhelir



## Cyd-destun

Yn Ionawr 2021, roedd 23 o ysgolion pob oed yng Nghymru, sydd un yn fwy nag yn Ionawr 2020. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion pob oed wedi cynyddu o 20,700 yn Ionawr 2020 i 22,300 yn Ionawr 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021o).

Eleni, ymgysylltom â phob un o’r ysgolion pob oed yng Nghymru. Yn ystod cyfnodau clo, gwnaethom 22 o alwadau ymgysylltu a siaradom â phenaethiaid ac arweinwyr ysgol eraill. Yn ogystal, cynhaliom 12 o ymweliadau ag ysgolion fel rhan o’n harolwg thematig a gwnaethom alwadau bugeiliol ag ysgolion a oedd mewn categori statudol.

Roedd trafodaethau’n canolbwyntio ar oblygiadau’r pandemig i les disgyblion a staff, sut mae ysgolion wedi cefnogi addysgu a dysgu yn ystod cyfnodau clo ac ar ôl hynny, ac arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig. Hefyd, trafodom baratoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, lle’r oedd yn briodol.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion pob oed a gynhelir



## Lles

Yn ystod y pandemig, rhoddodd yr holl ysgolion le blaenllaw i les disgyblion yn eu gwaith. Fe wnaeth bron bob ysgol nodi'u disgyblion agored i niwed yn gynnar a chynhaliont gyswllt rheolaidd â'u teuluoedd. Nododd penaethiaid bryderon ynglŷn ag effaith y pandemig ar iechyd meddwl disgyblion, barn a gefnogwyd gan Senedd Ieuenctid Cymru (2020).

Ar ôl y ddau gyfnod clo cenedlaethol, nododd ysgolion fod disgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol, er bod angen mwy o gefnogaeth emosiynol a meddyliol arnyn nhw na chyn y pandemig. Trefnodd ysgolion fod mwy o staff ar gael i gynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion agored i niwed, a gweithion nhw'n dda gydag asiantaethau allanol i sicrhau darpariaeth addas iddynt. Gwelodd ysgolion gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn plant, y cododd llawer ohonynt yn sgil eu sefyllfaoedd cartref.

Gweithiodd trefniadau pontio ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 yn dda, a darparodd ysgolion gymorth yn unol ag anghenion disgyblion trwy gydol y cyfnod clo a'r cyfnod ailagor. I ddisgyblion eraill, roedd pontio o fewn yr ysgol yn effeithiol yn gyffredinol oherwydd yr olwg holistaidd sydd gan ysgolion pob oed yn aml o ddisgyblion a'u teuluoedd. O ran disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd partner, datblygodd ysgolion pob oed raglenni i ddarparu profiadau o fywyd yn eu hysgol newydd, er enghraifft teithiau rhithwir a sesiynau byw gydag athrawon.

### Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog

Yn Ysgol Idris Davies, roedd darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog (MATh) yn gyson ar draws y clwstwr, a chafodd ei gwella yn sgil cyflwyno rhaglen bontio 'Brilliant Club' i ddatblygu rhwydwaith MATh o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar draws y clwstwr. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael yr un cyfleoedd a bod staff ym mhob lleoliad yn gallu cefnogi a herio'r disgyblion hyn. Cynlluniodd staff broses bontio drylwyr a manwl a'i datblygu i sicrhau bod disgyblion Blwyddyn 6 yn derbyn cymorth da pan fyddant yn symud i'r cyfnod uwchradd yn Ysgol Idris Davies. Mae hyn yn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol (ADY) cyffredin a pholisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae'r broses yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn teimlo'n gyflym eu bod yn rhan o Ysgol Idris Davies.

Pan ailagorodd ysgolion yn llawn i'r holl ddisgyblion ar ôl y Pasg, parhaodd lles disgyblion i fod yn flaenoriaeth. Fe wnaeth arolygon lles helpu nodi pa ddisgyblion oedd wedi dod yn agored i niwed ers dechrau'r pandemig. Gweithiodd ysgolion yn dda gydag asiantaethau allanol i ddarparu gwasanaethau cwnsela a iechyd meddwl i gefnogi dysgwyr. Parhaodd llawer o ysgolion i ymgysylltu â rheini ar ôl i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol gan fod rhieni yn gwerthfawrogi cyswllt rheolaidd.

# Crynodebau sector: Ysgolion pob oed a gynhelir

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Fe wnaeth y pandemig oedi llawer o fentrau, ond yn gyffredinol defnyddiodd ysgolion y cyfnod hwn i barhau i ddatblygu'u hymagwedd at addysgu. Fe wnaeth ysgolion pob oed elwa o rannu arfer dda yn eu hysgol, ar draws cyfnodau ac adrannau.

Yn nhymor yr hydref, parhaodd ysgolion i ddatblygu dysgu o bell ac addasu'u strategaethau addysgu i goleddu ymagwedd fwy cyfunol ar gyfer pan roedd rhaid i ddisgyblion dreulio mwy o amser gartref. Roedd trosglwyddo i ddysgu o bell, felly, yn hawdd pan oedd rhaid i ddisgyblion weithio o gartref eto yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol.

Datblygodd staff eu medrau technoleg gwybodaeth yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Roedd yn well gan ychydig o ysgolion ffrydio gwersi'n fyw pan oedd disgyblion gartref yn hytrach na gweithgareddau anghydamserol, yn enwedig ar gyfer disgyblion y cyfnod cynradd. Galluogodd hyn athrawon i 'ailgydio' gyda disgyblion a darparu adborth mewn amser real.

Mewn rhai achosion, lleihaodd ysgolion raddau'r mewnbwn byw dros gyfnod mewn ymateb i adborth gan rieni ac athrawon. Er enghraifft, fe wnaeth rhai gyfyngu ar nifer y sesiynau bob dydd, gyda chyflwyniad a mewnbwn gan yr athro ac amser i ddisgyblion gwblhau tasgau. Roedd rhai ysgolion yn cyflwyno amserlen lawn o wersi yn ystod y cyfnod clo mwyaf diweddar, gydag elfen fyw i bob sesiwn.

Canolbwyntiodd ysgolion ar werthuso sut yr effeithiwyd ar fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion oedran cynradd gan y pandemig a dysgu o bell. Ar gyfer disgyblion oedran uwchradd, canolbwyntiodd athrawon fwy ar gyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng gwaith newydd ac adolygu.

Yn gyffredinol, roedd disgyblion cyfnod cynradd yn cael eu haddysgu yn eu dosbarth, fel arfer. Roedd disgyblion oedran uwchradd yn cael eu trefnu mewn swigod cadw pellter cymdeithasol ac yn wynebu heriau o ran cael mynediad i bynciau ymarferol gan fod cyfyngiad ar symud o amgylch yr ysgol ac ystafelloedd dosbarth.

Mae ychydig o ysgolion wedi parhau i ddatblygu'u gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, daeth gweithio gyda'i gilydd ar y cwricwlwm gydag ysgolion partner yn haws wrth ddefnyddio technoleg.

### Defnyddio cyllid i ddarparu ymyrraeth llythrennedd a rhifedd

Darparodd Ysgol Gatholig Crist y Gair ymyrraeth dargedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd gan ddefnyddio cyllid Recriwtio, adfer a chodi safonau (RAChS) i benodi dau athro newydd, un ar gyfer cynradd ac un ar gyfer uwchradd. Penodwyd cyn bennaeth cynradd ganddynt i gynorthwyo disgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 mewn grwpiau bach ac yn unigol. Fe wnaeth hyn helpu gwella llythrennedd a rhifedd disgyblion yn y grwpiau hyn, a chodi hunan-barch disgyblion agored i niwed. Gosododd yr ysgol brofion safonedig ar gyfer yr holl ddisgyblion er mwyn pennu llinell sylfaen a chymharwyd deilliannau gyda deilliannau arolwg o agweddau disgyblion er mwyn cynllunio ymyriadau targedig.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion pob oed a gynhelir

**Cynllunio gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb**

Mae Ysgol Bro Idris yn ysgol pob oed wedi'i lleoli ar bum safle gwahanol. Mae'r pellter rhwng y safleoedd yn amrywio o un filltir i ddeg milltir o'r safle uwchradd canolog. Er mwyn sicrhau cysondeb ac ymagwedd gyffredin at y cwricwlwm, bu staff ar y safleoedd cynradd yn gweithio gyda'i gilydd ar eu cynllunio. Yn ystod y pandemig, bu athrawon yn cynllunio'r ddarpariaeth ac yn addasu'u cwricwlwm gyda'i gilydd ar gyfer eu disgyblion tra'u bod yn dysgu o gartref. Fe wnaethant rannu adnoddau a gweithio ar ddatblygu'r un agweddau at wybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion.

Daeth staff yn fwy dyfeisgar wrth osod tasgau a oedd yn bosibl eu cyflawni gartref gydag adnoddau a oedd ar gael i bawb. Mewn cyfnodau cynradd, ehangwyd dysgu yn yr awyr agored gan ysgolion, yn enwedig yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf, yn rhannol i liniaru ar gyfer cyfyngiadau COVID-19.

Fe wnaeth ysgolion pob oed gynnal a hyd yn oed ehangu'r dewis cwricwlwm ar gyfer dosbarthiadau arholiadau trwy ddysgu o bell mewn partneriaethau ag ysgolion eraill, er enghraifft cyrsiau cyfrwng Cymraeg y chweched dosbarth.

## Arweinyddiaeth

Dangosodd arweinwyr ysgol wydnwch ac arloesedd wrth ymateb i'r pandemig. Ymatebont i lawer o newidiadau i ganllawiau a galwadau cynyddol am ddogfennaeth a chynlluniau gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol dros y flwyddyn. Ni chawsant fawr o seibiant o'r gwaith ac ar adegau roeddent yn teimlo'n rhwystredig gan y rhybudd byr am newidiadau. Er gwaetha'r heriau, roedd penaethiaid yn cefnogi'i gilydd yn dda trwy rwydweithiau lleol a chenedlaethol.

Mewn ysgolion pob oed, cynyddodd y pandemig ymdeimlad o gydberthynas ar draws yr ysgol. Gweithiodd staff ar draws yr holl gyfnodau a chreodd hyn ymdeimlad dyfnach o ddealltwriaeth ar gyfer gwaith ei gilydd, ac o fod yn un ysgol pob oed. Trwy gydol y pandemig, rhoddodd penaethiaid flaenoriaeth i les yr holl staff. Sicrhaodd y rhan fwyaf o arweinwyr gyswllt rheolaidd â staff a darparodd llawer ohonynt gyfleoedd i staff gymdeithasu gyda sesiynau ailgydio rheolaidd. Fe wnaethant gefnogi athrawon a chynorthwywyr addysgu i addasu'u dulliau gweithio gryn dipyn yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys ymateb yn gyflym i ganllawiau ychwanegol wrth iddynt ddatblygu ac ymdopi â phwysau cadw pellter cymdeithasol a hylendid, gan gynnwys gwisgo cyfarpar diogelu personol, wrth weithio gyda'r disgyblion mwyaf agored i niwed.

**Cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru**

Yn Ysgol Llanhari, mae athrawon yn defnyddio dulliau creadigol o gynllunio'r cwricwlwm Blwyddyn 5 i 8 i gynnig profiadau dysgu sy'n bodloni gofynion yr holl ddisgyblion. Maent yn ystyried egwyddorion a dibenion y Cwricwlwm i Gymru yn ystod eu dylunio a chynllunio. Mae'r adran uwchradd yn gweithio'n effeithiol gyda'r adran gynradd i ddatblygu profiadau a chontinwwm dysgu trwy gynllunio gwersi ar y cyd. Trwy gynllunio manwl, mae staff yn darparu ystod eang o brofiadau i ddisgyblion, ac yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol disgyblion yn dda trwy brofiadau addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Maent yn ystyried dyheadau a diddordebau disgyblion yn ogystal â thestunau lles cyfoes sy'n effeithio ar ymddygiadau pobl ifanc. Er enghraifft, fe wnaeth y ffocws ar 'yr hawl i fod yn hapus' alluogi disgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth o iaith y corff, emosiynau a meddwl.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion pob oed a gynhelir



Roedd dysgu proffesiynol mewn ysgolion pob oed wedi'i deilwra i fodloni anghenion y staff. Darparodd arweinwyr ysgol hyfforddiant i'r holl staff addysgu, gan gynnwys sesiynau dysgu proffesiynol wythnosol i ddatblygu dysgu o bell. Cynigiont gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff allweddol sy'n cefnogi dysgwyr agored i niwed. Fe wnaeth llawer elwa o'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer lles gan yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol. Cred arweinwyr fod dysgu proffesiynol yn ystod y pandemig wedi arwain at staff yn mabwysiadu agwedd fwy cadarnhaol tuag at ddatblygiad personol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, addasodd arweinwyr eu dulliau cyfathrebu gyda  chymuned yr ysgol. Cafodd hyn ei wella yn sgil mwy o hyder wrth ddefnyddio technoleg ddigidol. Canfu llawer o ysgolion fod nosweithiau rhieni ar-lein yn fwy effeithlon a phreifat i rieni a staff, a phenderfynont barhau â'r rhain ar-lein yn y dyfodol.

Addasodd ysgolion eu cynlluniau ar gyfer monitro a gwerthuso'u gwaith a lleihau gweithgareddau'n sylweddol. Ailgydiwyd yn y gweithgareddau hyn ganddynt yn raddol a gofalus ar ôl y cyfnod clo, ac mewn rhai achosion, canfuwyd ffyrdd amgen o werthuso gwaith yr ysgol, er enghraifft craffu ar waith disgyblion trwy lwyfan ar-lein.

Targedwyd y cyllid RAChS gan ysgolion i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac i gynorthwyo disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 gyda'u gwaith cwrs ac asesiadau. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn oriau athrawon, cyflogi cynorthwywyr cymorth dysgu i gynnal ymyriadau llythrennedd a rhifedd, a defnyddio gweithwyr ieuenctid i ddarparu sesiynau cymorth i ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio yn ystod oriau ysgol a gweithgareddau ar ôl ysgol.



# Adran 1

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig a gynhelir



## Cyd-destun

Yn Ionawr 2021, roedd 40 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru sy’n darparu addysg ar gyfer ychydig dros 5,200 o ddisgyblion (Llywodraeth Cymru, 2021o). Mae dau awdurdod lleol heb yr un ysgol arbennig. Mae llawer o ysgolion arbennig yn darparu addysg ar gyfer plant o 3-19 oed.

Fel rhan o’n gwaith ymgysylltu â’r sector, cysylltom â phob ysgol arbennig a gynhelir o leiaf unwaith, ac ymwelom ag ychydig iawn o ysgolion. Fe wnaeth trafodaethau gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr, a gynhaliwyd o bell, ganolbwyntio ar oblygiadau’r pandemig i les disgyblion a staff, sut mae ysgolion wedi cefnogi addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig. Hefyd, trafodom baratoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, lle’r oedd yn briodol.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

## Lles

Dros y flwyddyn, parhaodd lles llawer o ddisgyblion yn dda yn gyffredinol, er gwaetha'r tarfu a achoswyd gan y pandemig. Rhoddodd arweinwyr ysgol flaenoriaeth i les disgyblion, ac mewn llawer o achosion, fe wnaeth y cymorth a ddarparwyd ganddynt helpu disgyblion i fod yn fwy gwydn nag y gellid bod wedi disgwyl. Addasodd llawer o ddisgyblion yn hawdd i ffyrdd gwahanol o weithio. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd disgyblion yn cael ei chael hi'n anodd heb y strwythur a'r drefn yr oeddent yn arfer â nhw yn eu hamgylcheddau dysgu arferol. Teimlai arweinwyr ei bod yn rhy gynnar i werthuso'r effaith hirdymor ar les disgyblion.

Dros amser, cryfhaodd ysgolion y ffordd yr oedden nhw'n cofnodi a monitro lles disgyblion. Nodont staff allweddol i ymgysylltu â theuluoedd yn gyson a rheolaidd. Roedd hyn yn cynnwys galwadau ffôn, cyfarfodydd ar-lein, ac ymweliadau â theuluoedd, lle'r oedd yn briodol. Trwy gyfathrebu mewnol effeithiol, roedd uwch arweinwyr yn gallu cynnal goruchwyliaeth o les disgyblion a chysylltu ag asiantaethau eraill pan oedd angen.

### Cymorth nyrsys ysgol

Mae nyrsys ysgol yn Ysgol Crug Glas wedi parhau i ddarparu gwasanaeth a werthfawrogir yn fawr i rieni wrth iddyn nhw ofalu am eu plant gartref. Gwnaed cyswllt rheolaidd â theuluoedd gan ddefnyddio llwyfannau ar-lein lle'r oedd rhieni'n gallu gweld nyrsys a siarad am eu pryderon. Roedd y nyrsys yn gallu cynghori rhieni, a lle'r oedd yn briodol, cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ar ran disgyblion a'u rhieni. Cynhaliodd y nyrsys ymweliadau â chartrefi hefyd. Mewn nifer o achosion, fe wnaeth eu mewnbwn atal materion rhag cael eu huwchgyfeirio.

Datblygodd ysgolion ystod o asesiadau, dulliau gweithredu, ac ymyriadau i hyrwyddo lles disgyblion. Roedd y rhain yn cynnwys dulliau wedi'u llywio gan drawma, datblygu gwydnwch, a defnyddio medrau staff mewn meysydd fel cwnsela a mentora. Roedd y rhain yn arbennig o berthnasol gan fod mynediad i wasanaethau arbenigol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae ychydig o arweinwyr yn nodi bod canlyniadau arolygon lles a'u harsylwadau eu hunain yn dangos lefel uwch o orbryder ymhlith disgyblion a dirywiad yn agweddau disgyblion at eu hyder a'u hunan-barch eu hunain.

Croesawyd ailagor ysgolion gan yr holl arweinwyr. Ymatebodd disgyblion a staff yn dda. Er enghraifft, nododd un pennaeth fod plant iau 'wrth eu bodd' yn dychwelyd i'r ysgol. Dychwelodd disgyblion i'r ysgol yn raddol, ac weithiau roedd hynny'n cynnwys mynychu'n rhan-amser neu amserau dechrau'n hwyrach neu orffen yn gynharach. Roedd y dulliau hyn yn helpu staff i sefydlu dealltwriaeth gyfoethocach o anghenion disgyblion. Dros gyfnod, bu gwelliant ym mhresenoldeb cyffredinol disgyblion, er nad oes data presenoldeb ar lefel genedlaethol ar wahân ar gael ar gyfer ysgolion arbennig.

### Asesu lles disgyblion a'u hannog i fynegi'u hemosiynau

Yn Ysgol Maesgwyn, addaswyd y cwricwlwm i ystyried canlyniadau asesiad o les disgyblion. Datgelodd hwn fod disgyblion, yn gyffredinol, yn fwy ofnus. Mae'r ysgol wedi addasu arferion, wedi diwygio'i chwricwlwm, ac wedi cynyddu nifer y staff i ymateb yn benodol i anghenion lles disgyblion, gan gynnwys 'amser rheoleiddio a myfyrio' ddwywaith y dydd gyda thiwtoriaid dosbarth. Bob dydd, roedd staff yn defnyddio dull gwahanol o gefnogi lles disgyblion a'u hannog nhw i fynegi'u hemosiynau. Roedd disgyblion yn gosod targedau lles dyddiol ac wythnosol ar 'Manifesto Monday'. Cynigiwyd cyfleoedd i ddisgyblion ar 'Chill out Tuesday' a 'Wellness Wednesday' i ymlacio gyda'i gilydd trwy weithgareddau fel ioga neu sesiynau meddylgarwch. Roedd 'Think about it Thursday' yn galluogi disgyblion i ystyried sut y gallent ymateb i senarios gwahanol, ac roedd 'Friday Feeling' yn ffordd gadarnhaol i orffen yr wythnos ysgol.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

Parhaodd cyfarfodydd amlddisgyblaethol rhwng cynrychiolwyr o’r ysgol, gofal cymdeithasol a’r gwasanaethau iechyd trwy gydol y pandemig i gefnogi anghenion dynodedig disgyblion.

Roedd llawer o arweinwyr yn pryderu ynghylch arafwch a graddfa gyfyngedig dychwelyd i weithio wyneb yn wyneb gan gydweithwyr mewn nifer o asiantaethau partner. Yn gyffredinol, roedd anghysonderau o fewn a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Parhawyd i ddarparu cymorth gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a seicolegwyr addysgol drwy lwyfannau ar-lein trwy dymor y gwanwyn a’r haf, ac nid oedd fawr o newid o ran y modd yr oedd gwasanaethau’n gweithredu ers y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Parhaodd penaethiaid i fynegi pryder ynglŷn â’r amrywio o ran y modd y mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a’r glasoed (CAMHS) yn darparu gwasanaethau ar draws byrddau iechyd gwahanol. Golygai hyn fod disgyblion â’r un anghenion yn derbyn lefelau cymorth gwahanol gan ddibynnu ble’r oeddent yn byw.

## Addysgu, dysgu a’r cwricwlwm

Roedd y ffocws ar gyfer addysgu yn ystod cyfnodau clo, a phan ddychwelodd disgyblion i’r ysgol, ar les disgyblion ac annog ymgysylltiad mewn gweithgareddau dysgu diddorol ac ystyrlon.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ysgolion wedi cryfhau trefniadau ar gyfer cyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol, gan gynnwys datblygu medrau staff. Wrth i gyswllt a pherthnasoedd â rhieni ddyfnhau, addasodd ysgolion eu dulliau addysgu i fodloni anghenion newidiol disgyblion a’u teuluoedd.

Roedd addysgu yn cynnwys cymysgedd o ddulliau yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion. Er enghraifft, darparodd llawer o ysgolion gopïau caled o weithlyfrau a deunyddiau gweithgareddau eraill i ddisgyblion yn unol â dewis rhieni. Yn ogystal, cyflwynodd ysgolion wersi neu sesiynau byw ar-lein a oedd yn dod â dosbarthiadau ynghyd lle’r oedd hyn yn briodol. Yn gyffredinol, mae ysgolion arbennig wedi addasu’n dda i’r heriau o sicrhau bod dulliau addysgu yn parhau i fodloni anghenion disgyblion.

Darparodd staff fideos creadigol neu sesiynau byw a oedd yn egluro diben gweithgareddau i rieni, gan gynnwys sesiynau ymarfer corff a oedd yn cefnogi medrau echddygol bras a manwl disgyblion. Roedd rhai ysgolion yn cynnal sesiynau dal i fyny dyddiol, a dwywaith y dydd weithiau, gyda rhieni. Rhoddodd y cyfathrebu mynych rhwng ysgolion a rhieni yr hyder i rieni ymgymryd â gweithgareddau gartref gyda’u plentyn, ac roedd ysgolion yn gallu monitro’r cynnydd yr oedd disgyblion yn ei wneud.

Roedd y graddau yr oedd disgyblion a rhieni yn ymgysylltu â dysgu yn dibynnu ar lawer o ffactorau. Yn gyffredinol, roedd disgyblion â mwy o anghenion yn llai tebygol o ymgysylltu’n rheolaidd. Adroddodd ychydig o ysgolion nad oedd disgyblion hŷn, mwy abl, bob amser yn ymgysylltu’n arbennig o dda â dysgu cyfunol neu ddysgu o bell. Yn nodweddiadol, roedd y disgyblion hyn yn cael anhawster addasu i gyfyngiadau cyfnod clo ac roeddent yn parhau i gymdeithasu gyda ffrindiau yn eu cymunedau. Collwyd arferion sefydledig, fel codi’n gynnar yn y bore i fynychu’r ysgol.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn gyffredinol, mae wedi bod yn anoddach ailymgysylltu â'r disgyblion hyn. Dychwelodd nifer fach, ond nifer uwch o ddisgyblion gydag anghenion cymdeithasol neu emosiynol llawer mwy cymhleth, gan gynnwys tuedd i hunan-niweidio a chael meddyliau am hunanladdiad.

Mae pob ysgol wedi parhau i asesu cynnydd disgyblion. Roedd penaethiaid o'r farn, yn gyffredinol, bod llawer o ddisgyblion wedi ymateb yn dda tra'u bod yn dysgu gartref. Roeddent yn ymgysylltu â gweithgareddau dysgu, ac roedd rhai yn gwerthfawrogi'r ynysigrwydd cymharol yn sgil gweithio i ffwrdd o'u cyfoedion yn y dosbarth. I rai eraill, adroddodd llawer o ysgolion fod cynnydd disgyblion wedi dioddef, er enghraifft gyda'u medrau cyfathrebu, rhifedd, annibyniaeth a'u medrau cymdeithasol, a lles emosiynol. Yn ogystal, dychwelodd rhai disgyblion i'r ysgol gyda phryderon yn ymwneud â gwahanu, ofn haint a'r canfyddiad o golli grwpiau cyfeillion.

Roedd cynnal ymgysylltiad disgyblion a theuluoedd mewn dysgu yn anoddach o lawer yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol. Priodolwyd hyn gan benaethiaid i rieni yn jyglo dysgu gartref gydag ymrwymiadau gwaith, gofalu ac ymrwymiadau teulu eraill. Ychwanegwyd pwysau pellach ar deuluoedd gan ddiffyg gwasanaethau cymorth ehangach, gan gynnwys seibiant. Atseinir y canfyddiadau hyn gan y rheiny a geir yng ngwaith Crew (2020) 'Literature review on the impact of COVID-19 on families'. Ymatebodd ysgolion yn briodol lle gallent wneud hynny trwy gynnig mwy o oriau i blant fynychu'r ysgol.

Roedd systemau priodol ar waith i sicrhau dyfarnu graddau a bennir gan ganolfannau, sy'n cynnwys cysylltu ag ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd eraill. Mae staff wedi bod yn hyblyg ac anogol yn cefnogi disgyblion i reoli'r llwyth gwaith a'r drefn asesu fel rhan o'r broses hon. Er enghraifft, addasodd ysgolion amserlenni staff a disgyblion a sicrhau bod staff yn cael mwy o amser i gefnogi ac arwain disgyblion. Roedd hyn yn arbennig o bwysig o ran cadw disgyblion yn ymgysylltiedig â'u gwaith a lleihau'r pryderon y gallent fod wedi'u teimlo.

Yn gyffredinol, mae llawer o arweinwyr wedi parhau i weithio gyda darparwyr i sicrhau cyrchfannau priodol ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol. Fodd bynnag, mae trefniadau i gefnogi pontio effeithiol i ddisgyblion hŷn i mewn i addysg bellach a chyrchfannau eraill wedi bod yn heriol. Nid oedd profiadau y byddai disgyblion wedi'u cael fel arfer i ymgyfarwyddo gyda phethau fel teithio, pobl, cyrsiau ac adeiladau, ar gael bob amser. At ei gilydd, ar gyfer disgyblion a drosglwyddodd ym Medi 2020, nid oedd unrhyw ddarlun cenedlaethol clir ynghylch a yw'r disgyblion hynny yn parhau i ymgysylltu'n briodol â'u haddysg a hyfforddiant.

Er gwaetha'r pandemig, parhaodd athroniaeth a dibenion y Cwricwlwm i Gymru wrth wraidd gwaith ysgolion arbennig. Parhaodd y rhan fwyaf o ysgolion gyda'u cynlluniau ar gyfer dylunio a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae ychydig o ysgolion yn adrodd, yn sgil effaith y pandemig, nad ydynt wedi gwneud y cynnydd yr oeddent wedi cynllunio i'w wneud.

### Gweithgareddau ymarferol i ennyn diddordeb disgyblion

Darparodd Ysgol Meadowbank botiau, hadau, a phridd i ddisgyblion i dyfu blodau'r haul. Yn ogystal, darparodd yr ysgol arweiniad i rieni ar goginio, adrodd storïau, a gwneud gweithgareddau ymarferol eraill gyda'u plant. Llwyddodd yr ysgol i sicrhau grant gan sefydliad elusennol. Defnyddiwyd y cyllid hwn i ddarparu adnoddau amrywiol fel toes chwarae, jig-sos pren a chardiau chwarae.

### Gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd

Daeth rôl y swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn Ysgol Bryn Derw yn fwyfwy pwysig yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol. Darparodd y gweithiwr ymgysylltu ddull amgen i rieni a gofalwyr gyfleu eu hanghenion cymorth. Defnyddiodd yr ysgol ei grant Recriwtio, adfer a chodi safonau (RAChS) i ddatblygu'r rôl hon. Fe wnaeth yr ysgol elwa ymhellach o gyfraniad gweithiwr cymorth Barnardo's a oedd yn gweithio yn yr ysgol am ddiwrnod yr wythnos i gynorthwyo â gwaith y swyddog ymgysylltu â theuluoedd.

# Crynodebau sector:
Ysgolion arbennig a gynhelir

## Arweinyddiaeth

Nododd yr holl arweinwyr fod staff mewn ysgolion arbennig wedi dangos cryn wydnwch, ymrwymiad parhaus a hyblygrwydd. Adroddont am gynnydd mewn ysbryd tîm ac ysbryd cymunedol a bod perthnasoedd wedi cryfhau dros y flwyddyn. Fodd bynnag, fe wnaethant rannu bod staff wedi bod yn teimlo'n bryderus, yn ofnus ac wedi ymlâdd yn gorfforol ac yn emosiynol. Soniodd llawer o benaethiaid am y profiadau trawmatig y mae achosion o COVID-19 wedi'u creu yng nghymuned eu ysgol.

Efallai na fyddwn yn gwybod beth yw graddfa ac effaith gweithio drwy'r pandemig, a'i effeithiau ar les emosiynol staff, disgyblion a'u teuluoedd am gryn amser. Gallai hyn fod yn fwy o lawer i deuluoedd, disgyblion a staff mewn ysgolion arbennig a gynhelir, yn enwedig gan fod anghenion addysg, gofal a chymorth yn fwy yn gyffredinol nag ar gyfer plant a phobl ifanc eraill. Fel y nodwyd yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020, tud.28), 'Families with children who need support in education have faced particular difficulties accessing educational and other support during the period of school closures'. Atseinir y canfyddiad hwn gan (Daniels *et al.*, 2020), a ddyfynnir yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021, tud.2), sy'n nodi, 'nid yw grwpiau ag anghenion ychwanegol, a disgyblion sydd ag amgylcheddau cartref anodd, wedi derbyn cymorth digonol bob amser'.

Fe wnaeth hyder staff wella'n sylweddol yn sgil gallu cael profion llif unffordd rheolaidd ac ar ôl derbyn dau ddos o'r brechlyn. Yn gyffredinol, yr ysgolion hynny a oedd yn darparu gofal personol gafodd flaenoriaeth ar gyfer brechiadau, ond roedd argaeledd brechiadau ar gyfer staff ysgolion arbennig yn amrywio ar draws awdurdodau lleol.

Mae arweinwyr wedi wynebu cryn bwysau wrth geisio bodloni heriau gweithredu o ddydd i ddydd dros gyfnod y pandemig. Roedd yr heriau hyn yn gysylltiedig â sicrhau diogelwch disgyblion a staff, wrth ddarparu dysgu ar y safle, dysgu o bell a dysgu cyfunol i fodloni anghenion disgyblion. Nododd llawer o benaethiaid y pwysau a oedd yn cael ei achosi gan yr angen cyson i addasu'r ddarpariaeth pan fyddai disgyblion a staff yn hunanynysu, a'r rhwystredigaeth a achoswyd pan na fyddai canllawiau bob amser yn cwmpasu amgylchiadau penodol iawn y sector.

Er gwaetha'r heriau hyn, parhaodd llawer o benaethiaid i baratoi eu hysgolion ar gyfer gweithredu'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a diwygio'r cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf yn croesawu ymagweddau unigoledig y diwygiadau. Maent yn barod i ddatblygu cynlluniau datblygu unigol ac mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i sefydlu'n dda yn eu darpariaeth a'u prosesau adolygu blynyddol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o benaethiaid mewn sefyllfa gref ar gyfer diwygio ADY. Fodd bynnag, mynegodd ychydig siom fod y canllawiau ADY yn cyfeirio'n bennaf at ysgolion prif ffrwd ac mai ystyriaeth gyfyngedig sy'n cael ei rhoi i ddatblygu targedau perthnasol ar gyfer disgyblion yn y sector ysgolion arbennig. Nododd un rhan o bump o ysgolion eu bod wedi integreiddio'r model cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u prosesau cynllunio'r cwricwlwm.

### Ymagwedd amlddisgyblaethol at arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a datblygu'r cwricwlwm

Mae Ysgol Crownbridge wedi datblygu ffocws cryf ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda phwyslais ar wella lles emosiynol, corfforol a chymdeithasol disgyblion. Mae cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn cynnwys cyngor ac arweiniad gan nyrsys, therapyddion, ac athrawon arbenigol.

# Crynodebau sector:
Ysgolion arbennig a gynhelir

Nododd llawer o arweinwyr y datblygiadau cadarnhaol sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil addasu ffyrdd o weithio, a nodont eu bod yn bwriadu ymgorffori'r rhain yn eu ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys:

- defnyddio technoleg ddigidol i gynorthwyo disgyblion sy'n dysgu ar y safle yn ogystal ag o gartref
- defnyddio apiau a llwyfannau ar-lein i gynorthwyo cyfathrebu rhwng yr ysgol a rhieni
- defnyddio llwyfannau ar-lein i gynorthwyo cyfarfodydd
- gwelliannau i'r cwricwlwm i ymestyn darpariaeth dysgu awyr agored ar y safle

Trwy gydol y flwyddyn, mae arweinwyr wedi parhau i sicrhau ansawdd addysgu a'r cwricwlwm i ryw raddau. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau rheolaidd gyda staff, adolygu cynlluniau a galw heibio gwersi rhithwir. Yn nhymor yr haf, dechreuodd ysgolion ddefnyddio ystod y trefniadau sicrhau ansawdd a oedd ar waith cyn y pandemig. Mewn ychydig iawn o ysgolion, ailddechreuwyd arsylwadau o wersi.

Rhoddodd llawer o arweinwyr flaenoriaeth i gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn datblygu gallu staff i gefnogi iechyd meddwl ac anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys darparu dealltwriaeth ddyfnach i staff o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac arferion wedi'u llywio gan drawma. Yn Ysgol Rhyd y Gors ac Ysgol Portfield, er enghraifft, hyfforddwyd yr holl staff mewn arferion wedi'u llywio gan drawma, a dyfarnwyd diplomâu lefel 5 i ychydig ohonynt. Mewn llawer o ysgolion, roedd arweinwyr yn gallu adeiladu ar ddulliau llwyddiannus presennol fel datblygu cwricwlwm synhwyraidd ymhellach, sy'n cynnwys adweitheg a thylino.

Parhaodd arweinwyr mewn ychydig o ysgolion i ddarparu cyfleoedd i staff ddatblygu'u medrau technoleg ddigidol trwy gydol y flwyddyn, i gefnogi darpariaeth yr ysgol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol. Yn gynyddol, roedd y rhain yn canolbwyntio ar fodloni anghenion unigol staff a disgyblion yn hytrach nag ymagweddau ysgol gyfan. Cadarnhaodd bron bob pennaeth fod dysgu proffesiynol yn parhau i gefnogi'r ysgol i gyfnerthu ei gwaith paratoi ar gyfer diwygio ADY a'r Cwricwlwm i Gymru.

### Cynllunio ar gyfer diwygio'r cwricwlwm ac ADY

Mae Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac Ysgol Pendalar wedi parhau â'u cynlluniau ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r rheiny sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth ADY newydd. Maent wedi gwneud cysylltiadau cryfach rhwng y ddau. Er enghraifft, mae eu hymagweddau at ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm wedi'u seilio ar y dyheadau a'r deilliannau disgwyliedig sydd ganddynt ar gyfer disgyblion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol.

Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth gref a gawsant gan gydweithwyr yn yr awdurdod lleol trwy gydol cyfnod y pandemig. Darparodd uwch swyddogion gyngor ac arweiniad ymarferol yn ogystal â chymorth personol i arweinwyr ysgol. Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr wedi elwa o gymorth gan eu consortiwm rhanbarthol, yn enwedig lle'r oedd gwybodaeth a dealltwriaeth gref gan swyddogion am anghenion arbenigol disgyblion a oedd yn mynychu'r ysgol.

# Crynodebau sector:
Ysgolion arbennig a gynhelir

Roedd bron yr holl ysgolion yn croesawu'r hyblygrwydd a'r cyfleoedd cynyddol ar gyfer dysgu proffesiynol personoledig a gyflwynwyd gan raglenni ar-lein. Yn Ysgol Heronsbridge, er enghraifft, symudodd arweinwyr lawer o'r dysgu proffesiynol gorfodol ar-lein, gan ddarparu amser ychwanegol i staff gyfarfod er mwyn gwerthuso deilliannau eu gwaith datblygu'r cwricwlwm. Nododd llawer o arweinwyr fanteision dysgu ar-lein i les staff drwy eu galluogi i gael mynediad i'r dysgu hwn yn fwy hyblyg ac i fynd ar drywydd meysydd o ddiddordeb personol.

### Ymagwedd adolygu gan gymheiriaid

Derbyniodd Ysgol Tir Morfa grant gan y consortiwm rhanbarthol i gydweithio ag ysgolion eraill mewn prosiect adolygu rhwng cymheiriaid gan edrych ar strategaethau asesu ar gyfer y cwricwlwm newydd. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar asesiadau personoledig, defnyddio targedau Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a'u defnydd o fframwaith asesu masnachol ar-lein.



Adran 1

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol



## Cyd-destun

Yn Ionawr 2021, roedd 36 o ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru. Mae'r nifer hon yr un peth ag yr oedd yn Ionawr 2020. Mae ysgolion arbennig annibynnol yn addysgu disgyblion rhwng 3 ac 19 oed sydd ag ystod eang o anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o'r ysgolion yn fach ac mae disgyblion fel arfer yn byw mewn cartrefi plant sydd ynghlwm wrth yr ysgolion. Mae lleiafrif o'r ysgolion hyn hefyd yn addysgu disgyblion dydd neu ddisgyblion sy'n preswylio mewn cartrefi plant nad ydynt ynghlwm wrth yr ysgol. Mae lleiafrif o'r holl ysgolion arbennig annibynnol yn addysgu disgyblion dydd yn unig. Ysgolion arbennig annibynnol yw'r ail grŵp mwyaf o ddarparwyr ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ar ôl UCDau. Awdurdodau lleol yng Nghymru neu Lloegr sy'n ariannu bron bob un o'r lleoliadau mewn ysgolion arbennig annibynnol.

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â'r sector hwn, cysylltom â'r holl ysgolion arbennig annibynnol o leiaf ddwywaith, ac ychydig iawn o ymweliadau a gynhaliwyd gennym. Y ffocws ar gyfer pob trafodaeth gydag arweinwyr oedd lles disgyblion, staff ac uwch arweinwyr, sut yr oedd ysgolion yn cefnogi addysgu ac yn hyrwyddo dysgu, goblygiadau i'r ysgolion yn y dyfodol, ac arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig.

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol

## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn ysgolion annibynnol, rydym fel arfer yn arolygu i ba raddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Eleni, oherwydd y cyfyngiadau ar ymweliadau â safleoedd, nid ydym wedi asesu cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Yn 2019-2020, fe wnaeth chwech o'r ysgolion arbennig annibynnol a arolygwyd neu yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro fethu cydymffurfio ag o leiaf un o'r safonau.

Eleni, gofynnodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i Estyn gynnal un arolygiad â ffocws yn ddirybudd o dan adran 160 Deddf Addysg 2002 (Prydain Fawr, 2002). Roedd ffocws penodol yr arolygiad ar safon 3 a safon 1 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, sy'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion, ac ansawdd yr addysg a ddarperir (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003).

Adeg cynnal yr arolygiad â ffocws, roedd yr ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer safon 3, ond methodd fodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer safon 1.

Byddwn yn monitro pob un o'r ysgolion hyn fel rhan o'r broses monitro flynyddol i sicrhau eu bod yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol er mwyn cynnal eu cofrestriad.

## Lles

Parhaodd y rhan fwyaf o ysgolion i fod ar agor trwy gydol y pandemig. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg i blant sy'n byw mewn cartrefi gofal sydd ynghlwm wrth yr ysgol, parhaodd bron bob un i ddarparu addysg ar y safle trwy gydol y pandemig. Mewn cyferbyniad, lle mae ysgolion yn darparu addysg ar gyfer disgyblion dydd, roedd cyfran y disgyblion hyn a oedd yn mynychu'n ddyddiol yn amrywio'n sylweddol dros y flwyddyn, yn unol â'r lle a oedd ar gael ar y safle a dehongliad yr ysgol o ganllawiau Llywodraeth Cymru.

Sicrhaodd arweinwyr fod bron yr holl ddisgyblion wedi parhau i dderbyn y cymorth therapiwtig yr oedd hawl ganddyn nhw i'w gael dros y flwyddyn ddiwethaf. Adroddont fod gweithio amlasiantaeth wedi parhau o bell trwy gydol y flwyddyn, gyda llawer o arweinwyr yn disgrifio sut yr oedd defnyddio llwyfannau ar-lein wedi helpu gwella presenoldeb cyfranogwyr mewn cyfarfodydd adolygu a chyfarfodydd cynnydd.

Mewn ysgolion sy'n defnyddio'u therapyddion mewnol eu hunain, yn gyffredinol, ailddechreuodd cymorth therapiwtig wyneb yn wyneb ar y safle yn yr hydref. Mewn ysgolion sy'n defnyddio staff ac ymgynghorwyr allanol, darparwyd hyn ar-lein am lawer o'r flwyddyn yn gyffredinol, gyda chymorth wyneb yn wyneb yn ailddechrau'n raddol yn ystod tymor y gwanwyn. Roedd amheuon gan ychydig o arweinwyr ynglŷn ag addasrwydd y model hwn ar gyfer pob disgybl, gan ddisgrifio sut yr oedd ychydig o ddisgyblion wedi dewis optio allan yn hytrach na chyfranogi yn y sesiwn.

Nododd llawer o arweinwyr sy'n darparu ar gyfer disgyblion dydd fod y defnydd o lwyfannau ar-lein trwy gydol y pandemig wedi helpu gwella cyfathrebu a pherthnasoedd gyda rhieni.

### Gofal bugeiliol estynedig

Yn Catch22, sef ysgol ddydd ar gyfer disgyblion oedran cynradd sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, disgrifiodd y pennaeth sut yr oedd yr ysgol wedi ehangu'r gofal bugeiliol y mae'n ei ddarparu ers dechrau'r pandemig. Disgrifiodd y modd y mae gan yr holl rieni rif cyswllt y tu allan i oriau, i gael gafael arni hi neu arweinydd bugeiliol yr ysgol, fel eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon pan fydd pryderon ganddynt, yn hytrach nag aros tan y diwrnod canlynol. Hefyd, mae'r ysgol wedi cyflwyno llyfr cartref-ysgol ar gyfer disgyblion sydd eisiau un, fel bod staff yn gallu rhannu gyda rhieni y 'cynnydd eithriadol' y mae'n teimlo mae rhai disgyblion yn ei wneud. Yn ychwanegol at yr adroddiadau cynnydd bob hanner tymor a anfonir gartref at rieni, disgrifiodd y pennaeth y modd yr oedd yr ysgol wedi cyflwyno nosweithiau rhieni bob hanner tymor ar-lein hefyd. Mae'r mentrau hyn yn galluogi rhieni i ddarparu adborth mwy rheolaidd ac amserol i'r ysgol.

# Crynodebau sector: Ysgolion arbennig annibynnol

Yn gyffredinol, lle'r oedd ysgolion yn darparu addysg ar y safle ar gyfer eu disgyblion trwy gydol y cyfnod hwn, roedd lles disgyblion yn dda, ac roeddent yn ddigynnwrf ac wedi ymgartrefu. Roedd y duedd a welwyd ar ddechrau'r cyfnod clo, sef llai o achosion o ymddygiad heriol, wedi parhau.

Roedd iechyd meddwl rhai disgyblion yn bryder yn sgil colli trefn, newidiadau a wnaed i'w rhaglen ddysgu arferol, a mynediad cyfyngedig i'r gymuned neu at ddarparwyr oddi ar y safle. Yn yr un modd, roedd ychydig o ddisgyblion mewn ysgolion preswyl yn ei chael hi'n anodd oherwydd mai cyswllt rhithwir neu gyswllt wyneb yn wyneb cyfyngedig yn unig yr oeddent yn ei gael â'u teulu am gyfnodau estynedig, yn enwedig adeg y Nadolig. Mewn ychydig o ysgolion dydd, lle'r oedd disgyblion wedi bod yn dysgu gartref am lawer o dymor y gwanwyn, cyfrannodd pryderon disgyblion at ddirywiad yn eu hymddygiad ar ôl i ddisgyblion ddychwelyd yn llawn i'r ysgol ar ôl y Pasg.

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Parhaodd bron yr holl arweinwyr i addasu trefniadau ar gyfer addysgu a dysgu i ystyried amgylchiadau a oedd yn newid trwy gydol y flwyddyn. Ym mhob achos bron, bu arweinwyr yn adolygu'r gofod addysgu yn yr ysgol i leihau'r niferoedd ym mhob dosbarth a lleihau symudiadau staff a disgyblion o amgylch yr ysgol. Mewn ysgolion preswyl a oedd ynghlwm wrth gartrefi plant, parhaodd addysgu wyneb yn wyneb am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Lle mae ysgolion yn darparu ar gyfer disgyblion dydd yn ogystal â disgyblion preswyl, gwnaeth arweinwyr newidiadau sylweddol i atal risg heintio ar draws grwpiau. Er enghraifft, fe wnaethant gyflwyno trefniadau amserlennu newydd o Ionawr i leihau nifer gyffredinol y disgyblion ar y safle ar unrhyw un adeg, gan gynnwys gweithredu dysgu o bell neu ddysgu cyfunol i gefnogi disgyblion sy'n mynychu naill ai'n rhan amser neu'n dysgu gartref.

Yn gyffredinol, ymatebodd disgyblion yn dda i fesurau iechyd a diogelwch ar y safle. Fodd bynnag, roedd llawer ohonynt yn gweld dysgu ar-lein a dysgu o bell yn heriol oherwydd natur eu hanghenion addysgol, eu bregusrwydd cymdeithasol ac ymddieithrio blaenorol o ddysgu. Disgrifiodd ychydig o arweinwyr ysgolion preswyl anawsterau darparu addysgu ar-lein i ddisgyblion oherwydd protocolau'n ymwneud â mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartrefi gofal.

Canolbwyntiodd staff addysgu ar hyrwyddo lles disgyblion wrth gynllunio gweithgareddau ac asesu cynnydd. Er enghraifft, fe wnaethant gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, yn ogystal ag ymarfer corff a meddwlgarwch. Fel rhan o'r drefn, roedd gwersi'n mynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â lles cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, trwy weithgareddau fel amser cylch neu sesiynau medrau cymdeithasol.

Yn nhymor y gwanwyn, lleihawyd yn sylweddol fynediad disgyblion i'r gymuned leol a darparwyr oddi ar y safle ar gyfer ymarfer corff, gweithgareddau galwedigaethol a darpariaeth therapiwtig. Er mwyn cyfyngu ar effaith hyn, datblygodd llawer o staff y defnydd o'r amgylchedd awyr agored uniongyrchol i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud ymarfer corff ac ymlacio. Hefyd, ceisiodd staff ail-greu cyfleoedd ar gyfer dysgu galwedigaethol a phrofiad gwaith ar y safle. At ei gilydd, fodd bynnag, effaith negyddol a gafodd y cyfyngiadau

### Sicrhau dysgu ar-lein diogel

Yn Ysgol Branas, sef ysgol breswyl i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, roedd yr ysgol yn teimlo ei bod yn arbennig o heriol sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i'w dysgu yn ddiogel o'r cartrefi plant trwy gysylltiad rhyngrwyd diogel. Yn ystod cyfnodau clo blaenorol, nid oedd yr ysgol wedi gallu darparu dysgu ar-lein oherwydd diffyg mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartrefi. I fynd i'r afael â'r mater hwn, darparodd yr ysgol ddyfeisiau i'r disgyblion a phrynodd hybiau symudol ar gyfer pob cartref. Sefydlodd yr ysgol gyfrifon dysgu ar-lein ar gyfer y disgyblion, a llenwi'r hybiau talu-wrth-fynd yn ystod y cyfnod dysgu cyfunol. Ar ôl i'r holl ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn amser llawn, talwyd y gost hon gan y cartrefi, gan alluogi'r disgyblion i gael mynediad i'r rhyngrwyd wedi'i fonitro er mwyn cwblhau eu gwaith cartref yn y cartrefi. Mae'r ysgol yn parhau i fonitro defnydd y disgyblion o'r rhyngrwyd.

hyn ar ddatblygiad medrau cymdeithasol, cyfathrebu a medrau annibynnol disgyblion, ac ar gyfleoedd i baratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo i'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mewn ychydig o achosion, roedd effaith aflonyddgar ar les a chynnydd disgyblion mewn dysgu pan fu'n rhaid i gartrefi gofal gau yn dilyn arweiniad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn yr achosion hyn, roedd y cyfnod amser y bu'n rhaid i ddisgyblion hunanynysu yn y cartrefi yn her i'r athrawon ac arweinwyr o ran cynnal parhad addysgu a dysgu.

## Arweinyddiaeth

Fe wnaeth bron yr holl arweinwyr rannu'r pwysau personol yr oeddent wedi'i wynebu dros y flwyddyn ddiwethaf wrth geisio sicrhau diogelwch a lles disgyblion a staff. Roedd llawer ohonynt yn pryderu ynglŷn â lles eu staff, gan nodi gorbryder a chyfraddau uchel o absenoldeb yn sgil staff yn gorfod hunanynysu yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn. Yn nhymor yr haf, fe wnaeth hyder a phresenoldeb staff wella, yn bennaf oherwydd y rhaglen frechu ac argaeledd profion rheolaidd.

Roedd ychydig o arweinwyr ysgolion preswyl yn gweld y baich a roddwyd arnynt gan awdurdodau yn gofyn am wybodaeth ychwanegol a diweddariadau am gynnydd a lles disgyblion yn anodd. Er gwaetha'r heriau hyn, fe wnaeth profiad llawer o arweinwyr o'r pandemig eu galluogi i adolygu eu darpariaeth a gwneud newidiadau cadarnhaol iddi. Yn nhymor yr haf yn arbennig, nododd arweinwyr ystod o raglenni arloesi ychwanegol neu wedi'u cynllunio a ddangosodd sut yr oedd yr ysgol wedi symud y tu hwnt i adweithio i'r newidiadau gweithredu a gyflwynwyd gan y pandemig, a sut roedd yn symud ymlaen gyda'i blaenoriaethau gwella hirdymor. Ym mhob achos bron, fe wnaeth eu profiadau yn ystod y pandemig helpu staff i ailwerthuso'r hyn sy'n bwysig. O ganlyniad, gwnaethant newidiadau i natur y cwricwlwm, er enghraifft, neu'r model therapiwtig a ddefnyddiwyd gan yr ysgol.

Parhaodd y mwyafrif o arweinwyr i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac anghenion disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant yn ymwneud ag arfer wedi'i lywio gan drawma, dadansoddiad ymddygiadol cymhwysol, ymwybyddiaeth o awtistiaeth, anhwylder ymlyniad, ac ymwybyddiaeth o ddyslecsia. Roedd datblygu hyfforddiant ar-lein wedi bod yn arbennig o fuddiol o ran galluogi'r mwyafrif o ysgolion i ddatblygu rhaglenni dysgu proffesiynol personoledig.

Er nad yw'n ofyniad ar gyfer ysgolion annibynnol, disgrifiodd arweinwyr mewn rhyw hanner yr ysgolion sut yr oeddent yn adolygu'u cwricwlwm i gysoni hwn yn well â'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a gynhelir. Hefyd, cadarnhaodd llawer o arweinwyr eu bod ar gamau cynnar o ran deall a gweithredu diwygiadau ADY. Fe wnaethant ddisgrifio'r anawsterau a gawsant i gael cymorth ychwanegol gan yr awdurdod lleol a swyddogion rhanbarthol, oherwydd dryswch ynghylch eu statws annibynnol.

Cafodd llawer o arweinwyr eu herio gan faint y canllawiau yr oedd disgwyl iddynt eu prosesu ar fyr rybudd heb unrhyw amlygu clir o ran beth allai fod wedi newid rhwng fersiynau gwahanol. Yn ogystal, mewn ysgolion preswyl yn arbennig, achoswyd anawsterau gan wahaniaethau mewn canllawiau rhwng Cymru a Lloegr, yn enwedig o ran sut yr oedd hyn yn effeithio ar gyfathrebu â rhieni sy'n byw yn Lloegr.

### Dysgu proffesiynol i gynorthwyo anghenion disgyblion

Mae Canolfan Addysg Gwenllian yn ysgol ar gyfer anghenion cymhleth sy'n cynnwys anawsterau cyfathrebu yn gysylltiedig â Chyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth (CSA). Dros y 12 mis diwethaf, mae arweinwyr wedi adolygu ei darpariaeth rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol fel bod y ddwy broses hyn yn cydberthyn yn well â disgwyliadau, amcanion a gofynion yr ysgol. Bellach, mae pob aelod o staff yr ysgol yn dilyn cwrs hyfforddi technegydd ymddygiadol cofrestredig. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, mae dadansoddwr ymddygiad yr ysgol yn darparu goruchwyliaeth barhaus i staff. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a chymorth uniongyrchol i staff mewn perthynas â disgyblion penodol y mae'r staff yn ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw, a monitro eu perfformiad yn barhaus. Gwneir y monitro yn erbyn offeryn asesu sy'n benodol i rôl y technegydd ymddygiadol cofrestredig, ac mae adborth a chymorth uniongyrchol yn gysylltiedig â hyn. Caiff targedau personoledig ychwanegol eu gosod i gefnogi datblygiad proffesiynol ehangach staff, sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella sy'n cael eu hamlygu trwy broses hunanwerthuso'r ysgol.

Adran 1

# Crynodebau sector:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol



## Cyd-destun

Yn Ionawr 2021, roedd 37 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn un yn llai nag ym mis Ionawr 2020.

Eleni, fel rhan o'n rhaglen waith ymgysylltu â'r sector, cysylltom â phob ysgol o bell o leiaf unwaith, a chynhaliom ychydig iawn o ymweliadau ymgysylltu. Canolbwyntiodd ein trafodaethau gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr ar les disgyblion a staff, sut mae ysgolion wedi cefnogi dysgu, ac arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar drafodaethau yn ystod y cyfarfodydd hyn o bell gyda phenaethiaid ac uwch arweinwyr, ac ychydig iawn o ymweliadau ymgysylltu.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

## Cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

Mewn ysgolion annibynnol, rydym yn arolygu i ba raddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Eleni, gofynnodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i Estyn gynnal tri arolygiad â ffocws gyda rhybudd o dan adran 160 Deddf Addysg 2002 (Prydain Fawr, 2002). Roedd ffocws penodol yr arolygiadau ar safon 3 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, sy'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003).

Adeg cynnal yr arolygiadau â ffocws, roedd un ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer y safon hon. Fodd bynnag, nid oedd dwy ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn, ac yn ogystal, methodd un ysgol fodloni'r gofynion ar gyfer safon 6 yn ymwneud â darparu gwybodaeth, a safon 7 yn ymwneud ag ymdrin â chwynion.

Byddwn yn ymgysylltu â'r ysgolion hyn ac yn monitro p'un a ydynt yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol er mwyn cynnal eu cofrestriad.

## Lles

Yn nhymor yr hydref, cynhaliodd ysgolion ffocws cryf ar hyrwyddo lles disgyblion a staff. Nododd rhyw un o bob deg ysgol na wnaeth ychydig iawn o ddisgyblion neu staff fynychu'r ysgol am eu bod yn gwarchod eu hunain neu aelodau o'u teulu. Adroddodd rhyw un rhan o bump o ysgolion am gynnydd mewn pryderon diogelu. Roedd y materion yr adroddodd disgyblion amdanynt yn cynnwys trais domestig, gorbryder a phryderon ynghylch delwedd y corff. Mae ysgolion wedi ymateb yn feddylgar. Er enghraifft, trefnodd un ysgol i swigod pob grŵp blwyddyn gyfarfod â'r person diogelu dynodedig i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a oedd ganddynt.

Yn nhymor y gwanwyn, symudodd y ffocws ar les i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn 'weledol'. Er enghraifft, dywedodd arweinwyr eu bod yn cadw mewn cysylltiad â dysgwyr drwy alwadau ffôn rheolaidd, y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein, neu drwy ymweliadau â chartref y teulu. Roedd tuedd am i fyny yn nifer y disgyblion a oedd yn arddangos pryderon fel anhwylderau bwyta, caethiwed i gemau, neu orbryder yn gysylltiedig â'r feirws. Mewn ychydig o ysgolion, gwahoddodd yr arweinwyr grwpiau bach o ddisgyblion i ddod i mewn i'r ysgol i dderbyn cymorth ychwanegol a mynychu'r gwersi byw yr oedd eu hathrawon yn eu ffrydio i ddisgyblion eraill. Sefydlodd un ysgol linell gymorth bwrpasol ar gyfer disgyblion yr oedd angen cymorth penodol arnyn nhw. Yn ogystal, bu athrawon yn monitro ymgysylltiad disgyblion mewn gwersi ar-lein, cyflwyno gwaith a phresenoldeb mewn sesiynau 'ailgydio'. Adroddodd un pennaeth fod rhieni, yn gyffredinol, yn monitro ymglymiad disgyblion iau ac yn helpu i hwyluso'r broses ddysgu. Os oedd pryderon gan staff ynglŷn ag ymgysylltiad disgyblion hŷn, roedd yr ysgol yn cysylltu â rhieni i atgyfnerthu disgwyliadau a thrafod materion lles posibl.

### Mynd i'r afael â lles disgyblion

Yn Ysgol Fwslimaidd Caerdydd, bu ffocws yn yr ysgol ar fynd i'r afael â lles staff a disgyblion. Ceir blwch teimladau ym mhob dosbarth a gwasanaethau rheolaidd ar gyflawni hapusrwydd. Rhoddwyd 'dyddlyfr hapusrwydd' i bob plentyn; byddant yn ysgrifennu ynddo bob dydd, ac mae staff yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Yn nhymor yr haf, wrth i staff a disgyblion ddychwelyd i'r ysgol, roedd ychydig o ddisgyblion yn bryderus ynglŷn â dychwelyd, ac roedd angen cymorth gan wasanaethau, fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) neu eu meddyg teulu ar ychydig iawn ohonynt. Yn gyffredinol, roedd disgyblion yn falch o allu dychwelyd i'r ysgol. Nododd ychydig o athrawon fod llawer o ddisgyblion wedi gweld lefel y gwaith a fyddai'n waith arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn heriol. Nododd ychydig o athrawon ystod o faterion 'cymdeithasoli', yn deillio i ryw raddau o gyfnodau hir i ffwrdd o'r ysgol ac ynysigrwydd. Roedd y rhain yn cynnwys materion amlach yn ymwneud â chyfeillgarwch a rhywfaint o wrthdaro ymhlith disgyblion iau yr oedd yn ymddangos eu bod wedi 'anghofio sut i chwarae gyda'i gilydd'.

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Pan ailagorodd ysgolion ym mis Medi, er i'r holl arweinwyr ddilyn canllawiau gweithredu a dysgu Llywodraeth Cymru, gofynnodd ychydig iawn am gymorth ychwanegol, er enghraifft, mewn perthynas â cherddoriaeth a chwaraeon. Roedd addasiadau i arferion ysgol yn amrywio rhwng ysgolion. Credai rhyw hanner yr ysgolion na fu angen gwneud unrhyw addasiadau i'r cwricwlwm. Lle cafodd addasiadau i'r cwricwlwm eu gwneud, roeddent yn cynnwys:

- newidiadau i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol i gynnwys mwy o ffocws ar les
- cyflwyno cyffwrdd-deipio i'r cwricwlwm i ymateb i gynnydd mewn gwaith ar-lein
- mwy o waith llafar mewn ieithoedd tramor modern pan ddychwelodd disgyblion i'r ysgol
- mwy o bwyslais ar ddysgu yn yr awyr agored

Addasodd bron yr holl athrawon eu hymarfer a'u strategaethau addysgu yn ystod y pandemig i fodloni anghenion disgyblion ac anawsterau dysgu ar-lein. Cafwyd datblygiad cryf ym medrau TGCh staff. Bu'n rhaid i athrawon fod yn fwy creadigol yn y tasgau yr oeddent yn eu gosod i ddisgyblion eu cwblhau, a chred arweinwyr fod hyn wedi arwain at ymgysylltiad gwell â disgyblion. Fodd bynnag, yr effaith fwyaf arwyddocaol ar ansawdd y ddarpariaeth oedd y lleihad yng ngallu staff i gyflwyno gwersi mwy ymarferol, fel drama, celf, cerddoriaeth, addysg gorfforol, ac agweddau ymarferol ar wyddoniaeth.

Gwelodd llawer o ysgolion yn gynnar ei bod yn annhebygol y byddai arholiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal fel arfer eleni. Serch hynny, roeddent yn cydnabod eu cyfrifoldeb i helpu disgyblion i baratoi ar gyfer y cam nesaf o'u haddysg. Credai arweinwyr fod hyn yn cynnwys rhyw fath o 'arholiad â mwy yn y fantol' i helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau a'r hyder angenrheidiol i sefyll arholiadau yn y dyfodol. Sefydlodd yr ysgolion hyn bolisïau a dulliau gweithredu i atgynhyrchu amodau arholiad nodweddiadol, cyn belled ag y bo modd, er mwyn helpu pennu graddau ym mhob pwnc.

Er i ysgolion fabwysiadu dulliau ychydig yn wahanol i helpu pennu graddau, roeddent wedi'u cymeradwyo gan fyrddau arholi perthnasol Cymru a Lloegr. Yn gyffredin, roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cymysgedd o asesiadau a gwaith cwrs parhaus a helpodd i greu portffolio o dystiolaeth i gefnogi graddau sicr.

### Sicrhau bod disgyblion yn 'weledol'

Yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, roedd disgyblion yn Ysgol Rougemont yn cael pedair gwers bob dydd, gan gynnwys sesiwn fugeiliol. Roedd hyn yn galluogi staff i fonitro ymgysylltiad disgyblion â dysgu ar bedwar achlysur bob dydd yn ogystal â'u hasesiad o waith disgyblion.

Yn yr ysgol baratoadol, bob bore, roedd fideos 'croeso' neu alwadau byw a oedd yn amlinellu'r amserlen ar gyfer y diwrnod. Roedd y sesiwn hon yn cynnwys dathliadau o ben-blwyddi disgyblion neu ddigwyddiadau arbennig eraill. Yn yr un modd, amser cinio, byddai staff a disgyblion 'yn rhannu cân', ac roedd gwasanaeth yn cael ei gynnal ar ddiwedd y prynhawn.

Yn adran uwch yr ysgol, roedd sesiynau ailgydio bugeiliol dyddiol yn para rhwng 45-60 munud lle'r oedd staff yn rhoi arweiniad ac yn siarad â disgyblion am ystod o faterion, ac yn gwirio lles disgyblion yn gyffredinol. Roedd arweinwyr pwnc yn defnyddio system olrhain i asesu ymgysylltiad disgyblion bob pythefnos gan ddefnyddio graddfa deg pwynt. Wedyn, roedd arweinwyr bugeiliol yn dadansoddi'r wybodaeth i helpu nodi ble ddylai'r athro dosbarth gysylltu â rhieni disgyblion y gallai fod angen anogaeth neu gymorth ychwanegol arnynt.

### Gwirio lles disgyblion

Roedd OneSchool Global yn y Drenewydd yn defnyddio 'Dangosydd Teimlo'n Dda' i fonitro lles. Roedd disgyblion yn hunanwerthuso'n rheolaidd ar raddfa 1-10. I'r disgyblion hynny a oedd yn rhoi sgôr islaw 5 iddyn nhw'u hunain, roedd staff yn mynd ar drywydd hyn ac yn cysylltu â rhieni i ddarparu cymorth angenrheidiol.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Mae rhaglenni cyd-gwricwlaidd, sef gweithgareddau a ddarperir y tu allan i'r amserlen ddyddiol arferol, yn gryfder yn y sector hwn fel arfer. Fodd bynnag, addasodd llawer o ysgolion eu rhaglen gyd-gwricwlaidd i ymateb i'r pandemig. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys rhyw un rhan o bump o ysgolion yn canslo'r holl weithgareddau cyd-gwricwlaidd, a llawer ohonynt yn lleihau faint o chwaraeon oedd yn cael eu darparu. Mae ystod y gweithgareddau penwythnos ar gyfer disgyblion preswyl wedi lleihau hefyd, ynghyd â gornestau chwaraeon. Adroddodd arweinwyr mewn un ysgol mai un o'r rhesymau yr oedd rhieni wedi dewis eu hysgol oedd cryfder y ddarpariaeth chwaraeon. Oherwydd y cyfyngiadau, nid oedd disgyblion yn gallu cyfranogi yn yr ystod eang arferol o weithgareddau chwaraeon. Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, parhaodd gweithgareddau allgyrsiol ar-lein er mwyn cadw'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned yr ysgol, yn enwedig i ddisgyblion sydd wedi dychwelyd adref i'w cartrefi dramor.

Yn nhymor y gwanwyn, dychwelodd bron yr holl ysgolion yn rhwydd at ddysgu ar-lein, gyda staff yn cymhwyso gwersi yr oeddent wedi'u dysgu yn y cyfnod clo blaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys lleihau hyd gwersi i ganiatáu amser i athrawon a disgyblion 'symud' rhwng gweithgareddau, cynnig mwy o gyfleoedd i wneud gwaith annibynnol ac ymgorffori amser 'all-lein' yn yr wythnos ysgol.

**Datblygu rhaglen gwricwlwm dysgu o bell**

Mae St Clare's yn rhan o grŵp rhyngwladol o ysgolion, a defnyddiodd wybodaeth a phrofiad ysgolion eraill a oedd wedi cael profiad o'r pandemig i helpu llywio'i gwaith. Lluniodd arweinwyr raglen gwricwlwm dysgu o bell a gafodd ei rhannu gyda'r holl deuluoedd.

Roedd y llyfryn hwn yn cynnwys neges gan y pennaeth yn ogystal â gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â:

**Systemau academaidd**
- Strwythur wythnos dysgu o bell
- Amserlenni ar gyfer pob cyfnod yr ysgol
- Gwybodaeth am y llwyfannau technoleg a oedd yn cael eu defnyddio
- Arweiniad yn ymwneud ag amser sgrin
- Disgwyliadau ar gyfer cofrestru, marcio ac asesu a gwaith cartref

**Systemau bugeiliol**
- Systemau gwobrwyo
- Cwnselydd yr ysgol
- Y cwricwlwm ehangach

**Gweithdrefnau cyfathrebu**
- Sut i gadw mewn cysylltiad
- Disgwyliadau – yr ysgol, disgyblion a theuluoedd
- Canllawiau diogelu ar gyfer gweithio ar-lein

Yn nhymor yr haf, dychwelodd bron yr holl ddisgyblion i'r ysgol a pharhau â'r cwricwlwm a gynlluniwyd.

**Paratoi ar gyfer gwersylla'n rhithwir a chyflawni hynny**

Addasodd Coleg Myddelton ei ddysgu drwy'r rhaglen awyr agored i gynnwys sesiynau lle'r oedd disgyblion yn paratoi ar gyfer gwersylla'n rhithwir, ac yn cyflawni hynny. Roedd hyn yn cynnwys paratoi bwydlen, pacio sach deithio rithwir neu go iawn, penderfynu ble i osod y babell ac egluro'r rhesymau dros eu dewis.

Hefyd, roedd y rhaglen yn cynnwys gweminar gyda siaradwr ysgogiadol a siaradodd â'r gymuned ysgol gyfan am addasu i'r 'normal newydd' mewn addysg a phwysigrwydd dangos gwydnwch a'r gallu i addasu i heriau gwahanol. Mae disgyblion wedi ymgysylltu'n frwdfrydig â'r rhaglen ar-lein.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

## Disgyblion tramor

Mae cynnal parhad dysgu ar gyfer disgyblion preswyl tramor wedi creu heriau sylweddol. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran gofynion cwarantin i ddisgyblion yn dychwelyd i'r Deyrnas Unedig, ond hefyd o ran darparu llety a rhaglen o weithgareddau ar gyfer y rhai a arhosodd yma trwy gydol y flwyddyn. Mae ysgolion â disgyblion preswyl tramor wedi gweithredu ystod o strategaethau, gan gynnwys addasiadau i'r diwrnod ysgol a gweithgareddau ymestyn i gynorthwyo'r disgyblion hyn pan fyddant dan gwarantin.

Ni ddychwelodd ychydig o ddisgyblion preswyl tramor i'r ysgol i ailddechrau eu haddysg ym Medi 2020 oherwydd pryderon ynglŷn â lefel heintiau COVID-19 yn y Deyrnas Unedig. Mewn rhai achosion, gadawodd y disgyblion hyn yr ysgol, ond fe wnaethant barhau i gael mynediad i ddysgu ar-lein trwy gydol y flwyddyn. Lle dychwelodd disgyblion gartref cyn y Nadolig, dechreuont y tymor nesaf dan gwarantin yn eu tai preswyl, ond roeddent yn gallu cael at yr holl ddysgu ar-lein.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2021, darparodd un ysgol amserlen lawn o wersi byw, ond gwnaeth nifer o addasiadau i'r amserlen, fel dod â rhai gwersi prynhawn ymlaen at amser cinio er mwyn ei gwneud hi'n fwy cyfleus i fyfyrwyr rhyngwladol a oedd gartref o hyd ac mewn cylchfaoedd amser gwahanol. Hefyd, fe wnaeth staff recordio neu rag-recordio rhai gwersi fel bod disgyblion yn gallu cael y deunydd hwn ac ymgymryd â gwaith pan oedd hi'n fwyaf cyfleus iddyn nhw.

Er gwaethaf yr addasiadau a'r mentrau hyn, cydnabu arweinwyr fod disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) wedi bod dan anfantais i ryw raddau. Er enghraifft, nid oedd rhai o'r disgyblion hyn bob amser yn deall popeth yn ystod gwersi a ffrydiwyd, ac roeddent yn amharod i ofyn am eglurhad neu help yn aml. Pan fydd disgyblion mewn dosbarth go iawn, mae'n haws i athrawon werthfawrogi camddealltwriaethau a chamsyniadau fel rhan o fonitro'u gwaith yn barhaus.

Mewn ychydig o achosion, fe wnaeth bron yr holl ddisgyblion tramor aros mewn llety preswyl trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys egwyliau'r Nadolig a'r Pasg, yn hytrach na dychwelyd i'w gwledydd cartref.

### Darpariaeth ar gyfer disgyblion tramor

Ers Medi 2020, mae Ysgolion Haberdashers' Sir Fynwy wedi darparu gwersylloedd gwyliau i breswylwyr tramor yn ystod gwyliau'r Nadolig, y Pasg a hanner tymor. Fe wnaeth yr ysgolion gontractio asiantaeth allanol i drefnu'r gwersylloedd hyn, a oedd wedi'u lleoli yn yr ysgol ac yn defnyddio'r ysgol a chyfleusterau lleol i ddarparu ystod o brofiadau. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn llu o weithgareddau yn amrywio o sglefrolio i chwarae golff, a gweu i dorri papurau Nadolig, yn ogystal â derbyn cymorth astudio. Fe wnaeth hyn alluogi'r disgyblion hyn i aros yn y Deyrnas Unedig yn hytrach na wynebu'r risgiau potensial a'r gofynion cwarantin oedd yn gysylltiedig â theithio wrth ddychwelyd i'w gwledydd cartref.

## Arweinyddiaeth

Trwy gydol y flwyddyn, nododd oddeutu hanner yr arweinwyr bryderon ynglŷn ag effaith arferion gweithio esblygol ar staff. Roedd staff ar ddyletswydd yn gyson i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel, ac roedd symud at ddarpariaeth ar-lein a gwneud defnydd cynyddol o gyfathrebu electronig yn golygu bod rhieni a disgyblion yn cyfathrebu â staff yn rheolaidd y tu allan i oriau ysgol arferol. Pwysleisiodd arweinwyr ei bod wedi bod yn hanfodol monitro lles yr holl staff yn fanwl a chefnogi unigolion er mwyn 'cadw pethau mewn persbectif' yn yr hyn a fu'n gyfnod o weithgarwch dwys. I ymateb i'r pryderon hyn, penodwyd swyddog lles staff gan un ysgol, a chynlluniodd ysgol arall ar gyfer wythnos lles staff.

# Crynodebau sector:
# Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Roedd cyfathrebu da â rhieni yn hanfodol. Cynhaliodd rhyw dri chwarter o ysgolion arolygon rhieni, ac fe wnaeth rhyw chwarter gynnal arolwg o'u disgyblion neu'u staff hefyd. Defnyddiwyd yr adborth hwn i fireinio darpariaeth trwy gydol y pandemig.



Roedd gweithgareddau sicrhau ansawdd yn anodd eu cyflawni gyda chyfyngiadau ar waith. Hefyd, nid oedd arweinwyr yn dymuno ychwanegu at y pwysau ar staff. Yn y nifer fawr o achosion lle cynhaliwyd gweithgareddau sicrhau ansawdd, arweiniodd hyn at welliannau ac addasiadau pellach, gan gynnwys:

- datblygu'r defnydd o ddarpariaeth ar-lein i fodloni anghenion unigol disgyblion yn fanylach
- cynorthwyo athrawon unigol i sicrhau cysondeb mewn darpariaeth
- ailstrwythuro gwersi i leihau 'siarad gan athrawon'
- mwy o fewnbwn byw ar gyfer disgyblion iau
- cyfuno dysgu ar-lein gyda gweithgareddau eraill er mwyn lleihau amser sgrin

Pan ddychwelodd disgyblion ym Medi, ac eto ar ôl y Pasg, cwblhaodd llawer o ysgolion asesiadau ar gyfer yr holl ddisgyblion i nodi bylchau dysgu posibl, a ble'r oedd angen gweithgareddau dal i fyny a chymorth unigol. Yn gyffredinol, nid oedd arweinwyr o'r farn bod bylchau sylweddol yn nysgu disgyblion yn ystod y cyfnodau clo yn sgil eu darpariaeth a'u hymgysylltiad â disgyblion. Cydnabu arweinwyr fod llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, fel dyslecsia, wedi llithro ymhellach yn ôl, gan atseinio ymchwil gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2020b, tud. 2) a nododd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig fel un o'r grwpiau sy'n 'debygol o golli'r mwyaf o ran deilliannau addysgol'; a 'risg o lithro ymhellach yn ôl' yn ystod y pandemig. Yn ogystal, roedd disgyblion iau yn tueddu dangos lleihad yn eu cyfnod canolbwyntio neu leihad yn eu medrau echddygol manwl.

Mewn ychydig o achosion, roedd disgyblion ymhellach ymlaen na'r disgwyl mewn rhai agweddau ar ddysgu, gan fod athrawon wedi ennill amser addysgu o weithgareddau eraill, fel diwrnodau chwaraeon neu gyngherddau.

Gwelodd llawer o ysgolion gynnydd mewn dysgu proffesiynol, gan gynnwys cael darpariaeth allanol a chyfnewid arfer dda yn fewnol. Y ddau brif faes ffocws oedd lles staff a disgyblion, a defnyddio TGCh. Er enghraifft, mewn dwy ysgol, rhoddodd diwrnodau hyfforddi staff ym Medi bwyslais ar gefnogi lles disgyblion, gyda ffocws ar y pwysau y gallai plant ei deimlo oddi cartref, a sut gallent addasu wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Sefydlwyd hyrwyddwyr cyfleu gwybodaeth gan ychydig o ysgolion, gan alluogi staff i ddatblygu'u medrau wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol i gefnogi dysgu. Mewn ysgolion eraill, buddsoddodd perchnogion mewn caledwedd ar gyfer staff a disgyblion, gan ategu hynny â hyfforddiant. Roedd ffocws cryf ar rannu arfer dda yn fewnol ac roedd staff yn barod i ofyn cwestiynau a gofyn am gymorth wrth iddynt sylweddoli fod pawb yn yr un sefyllfa a bod pryderon tebyg ganddynt.

Adran 1

# Crynodebau sector: Colegau arbenigol annibynnol



## Cyd-destun

Yn Ionawr 2021, roedd saith o golegau arbenigol annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn yr un peth ag yr oedd yn Ionawr 2020. Mae'r colegau hyn yn addysgu rhyw 200 o ddysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r colegau'n darparu ar gyfer ystod amrywiol o anghenion dysgwyr, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mewn pedwar o'r colegau, mae llawer o ddysgwyr yn byw mewn cartrefi preswyl sydd ynghlwm wrth y coleg.

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â'r sector, cysylltom â'r holl golegau arbenigol annibynnol o leiaf ddwywaith. Y ffocws ar gyfer pob trafodaeth gyda phenaethiaid addysg oedd lles dysgwyr, staff ac uwch arweinwyr, sut roedd colegau'n cefnogi addysgu ac yn hyrwyddo dysgu, y goblygiadau i'r coleg yn y dyfodol, ac arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig.

# Crynodebau sector: Colegau arbenigol annibynnol

## Lles

Ym mhob un o’r colegau, gwnaeth arweinwyr lawer o addasiadau trwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo diogelwch a lles corfforol dysgwyr. Rhoddwyd mesurau ar waith ganddynt i liniaru risg heintio, yn unol â chanllawiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd hyn yn cynnwys adolygu trefniadau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, symud o amgylch campws y coleg, gwaith glanhau rheolaidd, a gwisgo cyfarpar diogelu personol.

Parhaodd darpariaeth therapiwtig y colegau, mewn meysydd fel therapi galwedigaethol a therapi lleferydd ac iaith, i gynorthwyo dysgwyr trwy gydol y flwyddyn. Erbyn tymor yr haf, roedd y cymorth hwn wedi ailddechrau wyneb yn wyneb yn yr holl golegau. Lle’r oedd dysgwyr a’u teuluoedd wedi bod yn ynysu neu’n gwarchod eu hunain, bu therapyddion yn ymgysylltu o bell i gefnogi dysgwyr, eu rhieni a’u teuluoedd. Yn gyffredinol, parhaodd cyfarfodydd amlddisgyblaethol ac adolygiadau blynyddol ar-lein, gyda staff arbenigol allanol yn ymweld dim ond ble’r oedd yn angenrheidiol.

Yn gyffredinol, parhaodd lles dysgwyr yn gryf trwy gydol y flwyddyn. Mewn colegau preswyl, lle parhaodd dysgu ar y safle am y rhan fwyaf o’r flwyddyn, dychwelodd dysgwyr i’r coleg ym mis Medi, yn llawn brwdfrydedd i ddysgu. Roeddent yn mynychu ac yn ymgysylltu’n dda er gwaetha’r llu o newidiadau a welont dros y flwyddyn. Ymatebodd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gadarnhaol i fesurau rheoli haint. Fodd bynnag, mewn tri o’r colegau â chartrefi preswyl ynghlwm wrthynt, daeth lles corfforol ac emosiynol dysgwyr yn destun pryder pan fu’n rhaid iddynt aros yn y cartrefi am gyfnodau estynedig, yn dilyn achosion o haint yno.

Yn yr un modd, mewn pedwar coleg, cyfyngodd mesurau rheoli haint ar drefniadau pontio ar gyfer dysgwyr newydd a oedd yn ymuno â’r coleg ym Medi 2020. Cyfleoedd cyfyngedig yr oedd staff colegau’n eu cael i ymweld ag ysgolion blaenorol dysgwyr i asesu’u hanghenion a’u galluoedd, ac nid oedd dysgwyr yn gallu mynychu’r coleg ymlaen llaw i ymgyfarwyddo â’u staff a’u hamgylchoedd newydd. Mewn dau achos, effeithiodd y cyfyngiadau hyn yn negyddol ar bresenoldeb ac ymgysylltiad ychydig o ddysgwyr.

# Crynodebau sector:
# Colegau arbenigol annibynnol

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Parhaodd yr holl arweinwyr i addasu trefniadau arferol y colegau ar gyfer addysgu a dysgu dros y flwyddyn, i ystyried y cyd-destun newidiol ac i weithredu mesurau i leihau risg heintio.

Yn nhymor yr hydref a'r gwanwyn, roedd addasiadau'n canolbwyntio ar adolygu grwpiau dysgwyr er mwyn lleihau cyswllt cymdeithasol ar draws y coleg ac i alluogi cadw pellter corfforol mewn gweithdai ac ystafelloedd dosbarth. Mewn colegau preswyl sydd hefyd yn addysgu dysgwyr dydd, er enghraifft, gwnaeth arweinwyr drefniadau ar wahân ar gyfer dysgwyr dydd a dysgwyr preswyl. Mewn colegau sy'n darparu ar gyfer dysgwyr dydd, roedd y newidiadau hyn yn cynnwys modelau mynychu rhan-amser gyda darpariaeth ar gyfer dysgu o bell yn cael ei gwneud ar gyfer y diwrnodau pan nad oedd dysgwyr ar y safle.

Mewn tri choleg, roedd cynlluniau athrawon yn canolbwyntio'n gryf ar weithgareddau sy'n mynd i'r afael â lles dysgwyr yn benodol.

Fe wnaeth y staff addysgu ym mhob un o'r colegau addasu'u cynlluniau yn greadigol i oresgyn cyfyngiadau. Fodd bynnag, cafodd mesurau iechyd a diogelwch cynyddol effaith negyddol ar ehangder profiadau dysgu a oedd ar gael i ddysgwyr. Er enghraifft, fe wnaeth colli mynediad i ddarparwyr oddi ar y safle a'r gymuned ehangach gyfyngu ar eu profiadau hamdden a gwaith, ynghyd â chyfleoedd i ymarfer medrau annibynnol neu gael darpariaeth therapiwtig. Yn ogystal, roedd hi'n arbennig o anodd darparu dysgu o bell ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Nid oedd rhai yn gallu ymgysylltu â llwyfannau ar-lein yn ystyrlon, tra bod angen mwy o gymorth arbenigol ar rai eraill i ddysgu gartref nag oedd ar gael iddynt yn y lleoliad hwnnw.

Cadarnhaodd yr holl arweinwyr fod y rhan fwyaf o ddysgwyr ar y trywydd iawn i gyflawni'u deilliannau achrediad. Fodd bynnag, fe wnaethant gydnabod fod cyfnodau clo estynedig yn y tai preswyl wedi cael effaith sylweddol ar gynnydd dysgwyr. Er enghraifft, roedd cyfyngiadau'n lleihau eu cyfleoedd i ddatblygu'u medrau cymdeithasol, cyfathrebu a'u medrau annibynnol. Mae cryn bryderon gan arweinwyr ynglŷn â pharodrwydd dysgwyr ym mlwyddyn olaf eu cwrs i symud ymlaen yn llwyddiannus at gam nesaf eu bywyd a'u dysgu. Mewn un coleg, nid oedd y pennaeth addysg wedi derbyn unrhyw wybodaeth gan awdurdodau lleol ynglŷn â chyrchfannau arfaethedig ymadawyr erbyn y Pasg, ac felly nid oedd staff y coleg y n gallu cynllunio'n ystyrlon i'w cefnogi.

### Cwricwlwm adfer yn canolbwyntio ar iechyd a lles

Disgrifiodd arweinwyr yn National Star in Wales – Mamhilad sut yr oeddent wedi rhoi cwricwlwm adfer ar waith yn nhymor yr hydref i sicrhau bod mwy o ffocws ar iechyd a lles dysgwyr. Roedd hwn yn cynnwys sesiynau ymlacio ar ddiwedd bob diwrnod a ffocws ar iechyd ac emosiynau dysgwyr yng nghynnwys a chyflwyniad sesiynau. Anogwyd staff addysgu gan arweinwyr i leihau'r pwysau ar ddysgwyr pa bryd bynnag yr oeddent yn teimlo y byddai hyn yn fuddiol, er enghraifft, wrth adolygu cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau neu gwblhau'r asesiadau o ddysgwyr newydd.

### Seibiannau lles

Yng Ngholeg Elidyr, disgrifiodd arweinwyr y modd yr oedd staff wedi cynllunio seibiannau lles o fewn eu sesiynau addysgu. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys therapi anifeiliaid bach, aromatherapi, celf, ioga, cerddoriaeth a dawns. Roedd cynllun dysgu unigol pob dysgwr yn cynnwys ffocws cryf ar eu lles ac roedd staff yn adolygu'u cynnydd yn y maes hwn yn rheolaidd. Yn ogystal, symudodd y coleg ei gyfarfodydd 'fforwm myfyrwyr' ar-lein er mwyn galluogi dysgwyr o 'swigod' gwahanol ar draws y coleg i ddarparu'u hadborth a helpu llywio agweddau gwahanol ar eu profiadau dysgu yn ystod y pandemig.

# Crynodebau sector:
# Colegau arbenigol annibynnol

## Arweinyddiaeth

Blaenoriaethau'r holl arweinwyr trwy gydol y flwyddyn oedd sicrhau lles staff a dysgwyr, a chynnal parhad ac ansawdd yn y profiadau dysgu yr oeddent yn eu darparu i ddysgwyr. Mewn pedwar coleg, roedd effaith addasiadau i ffyrdd arferol y colegau o weithio ar les staff dros y flwyddyn yn sylweddol. Mewn un coleg preswyl, er enghraifft, cyfeiriodd arweinwyr at ddiysgogi staff wedi'i achosi gan gau'r cartrefi preswyl am gyfnod estynedig, ac effaith hyn ar ansawdd profiadau y dysgu yr oedd staff addysgu'n gallu eu darparu. Yn nhymor y gwanwyn a'r haf, fe wnaeth argaeledd profion a brechiadau helpu i wella hyder a lles staff.

Mewn pedwar coleg, teimlai arweinwyr gryn bwysau yn sgil yr holl ganllawiau y bu'n rhaid iddynt eu dehongli dros y flwyddyn, a'r heriau a achoswyd lle nad oedd canllawiau gweithredu yn cyfeirio at gyd-destun colegau preswyl. Yn benodol, roedd anawsterau ychwanegol pan oedd canllawiau gan gyrff cyhoeddus gwahanol yn gwrthdaro ac roedd hyn yn creu mwy o ansicrwydd a gorbryder ymhlith staff.

Yn gyffredinol, lle'r oedd colegau yn perthyn i sefydliadau ehangach, roedd arweinwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a gawsant gan gydweithwyr yn y sefydliadau hyn. Yn ogystal, rhoddodd eu haelodaeth o gymdeithas broffesiynol arweinwyr colegau arbenigol gyfleoedd defnyddiol iddynt i rannu profiadau a dysgu.

Yn y tri choleg sy'n darparu'n benodol ar gyfer dysgwyr dydd, fe wnaeth cyfathrebu rheolaidd â rhieni yn ystod y cyfnod hwn helpu cryfhau perthnasoedd gyda rhieni a gofalwyr. Roedd rhieni'n gwerthfawrogi'r cyswllt a'r cymorth a ddarparwyd gan staff, yn enwedig lle'r oedd dysgwyr yn cael eu haddysgu yn yr amgylchedd cartref yn bennaf.

Mewn colegau preswyl, cryfhaodd cyfathrebu rhwng staff addysgol a staff preswyl yn ystod y pandemig, gan i'r timau gwahanol hyn weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r her a oedd yn eu hwynebu.

Parhaodd yr holl arweinwyr i addasu dysgu proffesiynol dros y flwyddyn. Anogont staff i gymryd rhan mewn ystod eang o ddysgu a oedd yn adlewyrchu anghenion penodol dysgwyr, yn ogystal â strategaethau i gefnogi lles dysgwyr a dysgu o bell. Fe wnaeth mwy o gyfle i gael mynediad i ddysgu proffesiynol ar-lein wella'r potensial i deilwra dysgu proffesiynol i ddatblygiad aelodau staff unigol.

### Ymagwedd newydd at ddysgu proffesiynol

Yng Ngholeg Beechwood, fe wnaeth yr addasiadau y bu'n rhaid iddynt eu gwneud i drefniadau ar gyfer addysgu a dysgu yn ystod y flwyddyn beri iddynt adolygu'u hymagwedd at ddysgu proffesiynol. Adroddont fod y cyfleoedd hyn wedi cynyddu'n sylweddol wrth i staff weithio gyda'i gilydd i rannu syniadau i gefnogi lles a dysgu'r dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys mwy o bwyslais ar strategaethau cyfathrebu a defnyddio llwyfannau ar-lein i nodi cynnydd ac ymgysylltiad dysgwyr. Ehangodd arweinwyr eu hymagwedd at ddysgu proffesiynol trwy gynnwys cyfleoedd i hyn ddigwydd mewn briffiau dyddiol a sesiynau lles staff byr. Adroddodd arweinwyr fod yr ymagweddau hyn wedi helpu staff i ymateb yn hyblyg i'r amgylchiadau newidiol a wynebodd y coleg yn ystod y flwyddyn.

Adran 1

# Crynodebau sector:
Unedau cyfeirio disgyblion



## Cyd-destun

Yn Ionawr 2021, roedd 22 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn yr un peth ag yr oedd yn Ionawr 2020. Roedd oddeutu 850 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn UCDau yn Ionawr 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021m). Nid oes unrhyw UCD gofrestredig mewn tri awdurdod lleol. UCDau yw'r grŵp darparwyr mwyaf i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

Eleni, cysylltom â'r holl UCDau o leiaf unwaith fel rhan o'n gwaith ymgysylltu. Ymgysylltodd uwch arweinwyr yn yr holl UCDau â ni trwy gyfarfodydd o bell, a chynhaliom ychydig iawn o ymweliadau ymgysylltu. Y ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd sut yr oedd UCDau wedi hyrwyddo lles eu disgyblion a'u staff yn ystod y cyfnodau clo ac ar ôl hynny, cymorth ar gyfer addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth a rheolaeth trwy gydol y pandemig.

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

## Lles

Parhaodd yr holl ddarpariaeth UCD yn agored trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, i ddarparu addysg i ddysgwyr agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol.

Roedd llawer o ddisgyblion yn falch yn gyffredinol o gael dychwelyd i'w UCD ym mis Medi, ac roeddent yn awyddus, gan mwyaf, i weld eu cyfoedion a'r staff. Roedd digwyddiadau o ymddygiad gwael yn is na'r arfer.

Parhaodd arweinwyr i roi blaenoriaeth i gefnogi lles disgyblion yn ystod y flwyddyn ac roeddent wedi adeiladu ar yr arfer effeithiol a nodwyd ac a rannwyd o'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Er enghraifft, fe wnaeth llawer fireinio'r categoreiddiad o fregusrwydd ac anghenion disgyblion i sicrhau bod yr aelod staff mwyaf addas mewn cysylltiad rheolaidd â nhw i gefnogi eu hanghenion ac ymateb iddynt.

Mynegodd llawer o arweinwyr bryder ynglŷn â'r modd yr oedd y pandemig wedi effeithio ar les disgyblion yn gyffredinol. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, gwelodd staff dystiolaeth gynyddol o'r trawma cymdeithasol ac emosiynol yr oedd disgyblion wedi'i ddioddef yn ystod y cyfnodau clo, yn enwedig pan nad oedd disgyblion yn mynychu'r UCD. Er enghraifft, nid oedd ffiniau ymddygiadol addas gan ddisgyblion gartref, na mynediad i'r strwythurau cymorth arferol yr oedd eu hangen arnynt ar gyfer eu hiechyd emosiynol a meddyliol. Mewn nifer o achosion, roedd gwaith amlasiantaeth yn fuddiol o ran cefnogi lles y disgyblion hyn a'u teuluoedd, yn enwedig y rhai yr oedd yn anoddaf eu cyrraedd neu ymgysylltu â nhw.

### Cynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd

Yn UCD Ceredigion, ymatebodd staff yn hyblyg a darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer anghenion unigol disgyblion a'u teuluoedd yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell. Roedd yr ymagwedd hon yn cynnwys cymorth fel cyswllt mynych â disgyblion nad oeddent yn mynychu'r UCD, ymweliadau carreg drws a gweithgareddau lles o bell, gan ddilyn hynny â sesiynau lles strwythuredig pan oedd disgyblion yn mynychu'r UCD.

Roedd gweithio amlasiantaeth yn ystod y cyfnod hwn, yn rhithwir gan mwyaf, yn gryfder. Bu'r tîm staff amlddisgyblaethol o'r UCD ac asiantaethau eraill yn cyfarfod yn wythnosol i drafod pryderon ynglŷn ag unrhyw ddisgyblion. Yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, datblygodd y tîm i gynnwys cynrychiolaeth o'r meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, Tîm o Amgylch y Teulu, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Drug Aid. Cadarnhaodd y pennaeth fod yr ymagwedd hon wedi arwain at ymatebion cyflym a chamau dilynol ac atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud, os oedd angen.

### Gwella cymorth ar gyfer lles disgyblion

Fe wnaeth arweinwyr yn UCD Maes Derw yn Abertawe addasu cyfrifoldebau cynorthwywyr addysgu i ddarparu mwy o gymorth lles i ddisgyblion, gan gynnwys dynodi 'gweithwyr allweddol UCD'. Ar gyfer cyfyngiadau lleol yr hydref a'r ail gyfnod clo cenedlaethol, roedd gweithiwr allweddol gan yr holl ddisgyblion i ddarparu cymorth lles cryfach iddyn nhw. Roedd y gweithwyr allweddol yn gwneud cyswllt dyddiol â'r grŵp o ddisgyblion mwyaf agored i niwed, a bob dau i dri diwrnod, neu'n wythnosol, gyda rhai eraill, gan ddibynnu ar eu hanghenion. Disodlwyd galwadau ffôn gydag ymweliadau carreg drws gan weithiwr allweddol os nad oedd disgybl a'i deulu ar gael. Hefyd, dosbarthodd y gweithwyr allweddol becynnau dysgu a mynd drwy'r tasgau dysgu gyda disgyblion. Roedd y cyswllt hwn yn ychwanegol at gyswllt gan staff addysgu.

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

Serch hynny, yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf, roedd gormod o anghysondeb rhwng sefydliadau a rhwng awdurdodau lleol o ran darparu cymorth a therapïau i hyrwyddo lles disgyblion a bodloni'u hanghenion. Yn gyffredinol, roedd hyn oherwydd gwahaniaethau mawr yn y cyflymder y dychwelodd gwasanaethau at ddarpariaeth wyneb yn wyneb, neu i fod ar gael o gwbl. O ganlyniad, aeth arweinwyr ati'n gynyddol i ddatblygu'u staff eu hunain mewn ystod o ymagweddau ac ymyriadau, fel therapïau wedi'u llywio gan drawma a strategaethau i annog gwydnwch, i ddarparu eu cynnig lles eu hunain ar gyfer disgyblion. Galluogodd hyn i'r staff yn yr UCDau ddarparu cymorth mwyfwy unigoledig ar gyfer anghenion lles disgyblion trwy weithgareddau fel cwnsela, mentora a meddwlgarwch, a sesiynau ymlacio.

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Yn debyg i waith Carpenter (2020) 'Compassionate Leadership', roedd ymagwedd bron yr holl arweinwyr at y cwricwlwm yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion ymddygiadol, emosiynol ac anghenion dysgu disgyblion. Roedd y ffocws cychwynnol ar gyfer disgyblion yn dychwelyd ym mis Medi ar ailintegreiddio disgyblion yn ddiogel, ailsefydlu perthnasoedd a'u helpu i addasu i arferion a threfniadau newydd. Roedd y ffocws hwn er mwyn cadw disgyblion a staff yn ddiogel, a hyrwyddo iechyd a lles disgyblion, cyn datblygu medrau, pynciau neu feysydd dysgu penodol.

Ar gyfer tymor y gwanwyn a thymor yr haf, rhoddodd arweinwyr mewn llawer o UCDau ffocws cryfach ar asesu medrau craidd disgyblion ac adolygu'u rhaglenni dysgu unigol. Mewn nifer o achosion, dangosodd asesiadau dystiolaeth o lithro'n ôl mewn rhifedd a llythrennedd, yn enwedig darllen, sillafu a dealltwriaeth. Addasodd arweinwyr mewn llawer o UCDau eu cwricwlwm i gynnwys darpariaeth wedi'i chyfoethogi ar gyfer y medrau craidd hyn, gan gynnwys cymorth ac ymyriadau un i un ac mewn grwpiau bach.

Ar gyfer tymor yr haf, roedd llawer o arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf hefyd ar ddysgu yn yr awyr agored, gan gynnwys datblygu'r amgylchedd dysgu. Mae'r addasiadau hyn wedi bod yn ddefnyddiol o ran hyrwyddo dysgu disgyblion fel rhan o'r cynllunio a'r paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal ag i ymateb i'r pandemig.

### Addasu'r cwricwlwm

Yn nhymor y gwanwyn a thymor yr haf, mireiniodd arweinwyr yng Nghanolfan Ddysgu Glanynant addysgu ar y safle ac ar gyfer dysgu o bell yn ystod y boreau i ddilyn strwythur bras tair gwers: llythrennedd, rhifedd a thestun(au). Fel arfer, roedd staff addysgu'n dylunio ac yn cynllunio tasgau byr i gadw ffocws disgyblion, yn enwedig y rheiny a oedd yn dysgu gartref. Yn ogystal, roedd disgyblion yn cwblhau'u heriau medrau dysgu ar-lein eu hunain mewn llythrennedd a rhifedd. Yn ystod y prynhawniau, roedd yr addysgu'n canolbwyntio ar waith testun, gan gynnwys tasgau iechyd a lles, fel helfa hwyl neu weithgarwch corfforol.

### Ehangu'r ddarpariaeth trwy ddysgu yn yr awyr agored

Parhaodd staff yn Y Tŷ Dysgu Homfrey i weithio gyda phartneriaid yn y gymuned i ymestyn y ddarpariaeth yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol. Er enghraifft, roedd disgyblion yn gallu cael addysg awyr agored gyda chymorth ymddiriedolaeth elusennol leol. Yn ystod y cyfnod hwn, darparodd yr ymddiriedolaeth ddefnydd unigryw o'i chyfleusterau cymunedol i'r UCD. Ar un diwrnod yr wythnos, sicrhaodd Gyrfa Cymru leoliadau profiad gwaith ar gyfer ychydig o ddisgyblion Blwyddyn 11 gyda choetir lleol a chanolfan arddio gymunedol. Datblygodd y disgyblion hyn ystod o fedrau, o arddwriaeth i adeiladu pontydd, fel rhan o raglen astudio achrededig.

# Crynodebau sector:
# Unedau cyfeirio disgyblion

**Datblygu'r amgylchedd dysgu**

Eleni, datblygodd UCD Tŷ Gwyn ei hamgylchedd dysgu i ddarparu cyfleoedd estynedig a gwell i ddisgyblion ryngweithio'n gymdeithasol a gwella'u hiechyd corfforol a meddyliol. Er enghraifft, cafodd trac rhedeg a chwrt pêl-fasged newydd eu gosod, ac mae seddi ar gael erbyn hyn yn y brif ardal awyr agored a'r cwrt mewnol, y gall disgyblion ddewis ei ddefnyddio os yw'n well ganddynt gael amser tawel. Yn ogystal, wrth fynedfa'r UCD ceir potiau planhigion a blychau adar wedi'u dylunio, eu hadeiladu, a'u cynnal a'u cadw gan ddisgyblion fel rhan o'u gwersi celf a thechnoleg  dylunio.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyfleusterau awyr agored i ddatblygu'u hiechyd corfforol a, lle bo angen, symud i'r ardaloedd eistedd os ydynt yn teimlo bod angen amser arnynt i ymdawelu. Mae arweinwyr yn cadarnhau bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, sydd wedi cyfrannu at lai o ddigwyddiadau ymddygiad gwael.



Ym mron bob UCD, mae arweinwyr wedi rhoi pwyslais cryfach ar ddatblygu medrau digidol disgyblion a staff gan ddisgwyl y bydd rhagor o gyfnodau clo neu drefniadau hunanynysu. Roedd llawer o arweinwyr yn gweld defnyddio technoleg ddigidol yn ddatblygiad cadarnhaol, ac fe wnaethant barhau i adeiladu ar hynny yn ystod gwersi wyneb yn wyneb, lle bo'n briodol. Fodd bynnag, roedd llawer o arweinwyr yn cydnabod cyfyngiadau technoleg ddigidol hefyd ar gyfer dysgu o bell gyda grwpiau disgyblion penodol. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys y diffyg rheolaeth ymddygiadol ofynnol gan ddisgyblion neu lle nad yw'r amgylchedd cartref yn eu galluogi i ymgysylltu a dysgu'n ddiogel gyda dyfeisiau digidol.

Nid oedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 bob amser yn cael mynediad i'w cwricwlwm llawn arferol, er enghraifft oherwydd cyfyngiadau ar fynychu cyfleusterau oddi ar y safle lle'r oedd angen iddyn nhw ymarfer gydag offer arbenigol. Yn aml, nid oedd y cyfleusterau hyn yn hygyrch tan dymor yr haf. Mewn ychydig o achosion, roedd hyn yn diysgogi disgyblion yn sylweddol, ac roedd staff yn ei chael hi'n anodd eu cynnwys mewn trefniadau ar gyfer eu harholiadau a chymwysterau.

Yn gyffredinol, roedd lefelau ymgysylltu llawer o ddisgyblion â'u dysgu yn rhy amrywiol, yn debyg i'r canfyddiadau gan Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) (2020) yn eu hastudiaeth aml-garfan 'Life in Lockdown'. Mewn achosion lle nododd UCDau fod lefelau ymgysylltu cyffredinol disgyblion yn uchel, roedd hyn gan amlaf lle'r oedd cymorth dwys ar waith i gynorthwyo ymgysylltiad disgyblion.

# Crynodebau sector:
# Unedau cyfeirio disgyblion

## Arweinyddiaeth

Mae cynnal lles staff wedi bod yn un o flaenoriaethau allweddol arweinwyr trwy gydol y flwyddyn. Roedd hyn yn gofyn am wyliadwriaeth a rheolaeth ofalus i gadw UCDau ar agor trwy gydol y cyfnod hwn. Pan oedd staff yn cydbwyso darpariaeth ddysgu ar y safle, dysgu o bell a dysgu cyfunol yn ystod yr ail gyfnod clo yr oedd hyn yn fwyaf amlwg. Cadarnhaodd llawer o arweinwyr waith caled ac ymrwymiad personol eu staff yn ystod y cyfnod anodd hwn, a'u parodrwydd i ymateb yn gadarnhaol i newidiadau mynych o ran yr hyn a ofynnwyd ganddynt.

Yn y rhan fwyaf o UCDau, fe wnaeth mwy o gyfathrebu gyda disgyblion a'u teuluoedd trwy gydol y flwyddyn gryfhau perthnasoedd gryn dipyn. Adeiladwyd ar y trefniadau cadw mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf er mwyn paratoi ar gyfer yr ail, fel nodi pan oedd teuluoedd yn cael anhawster gyda'u plentyn gartref. Mewn nifer o achosion, arweiniodd ymateb empathig, a'r ddarpariaeth dargedig a drefnwyd i helpu'r rhieni i gefnogi anghenion ymddygiadol neu ddysgu penodol eu plentyn, at ddatblygu ymddiriedaeth sylweddol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Fe wnaeth staff elwa o amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu proffesiynol trwy gydol y flwyddyn, o hyfforddiant diogelu gorfodol i ddilyn cyrsiau gyda phwyslais cryf ar gefnogi iechyd emosiynol disgyblion. Yn nhymor y gwanwyn a thymor yr haf, lleihaodd y pwyslais parhaus ar ddatblygu medrau digidol staff, gyda ffocws yn lle hynny ar ddysgu proffesiynol i gefnogi'r blaenoriaethau strategol ehangach a nodwyd yng nghynllun datblygu pob UCD. Yn ystod tymor yr haf, roedd cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cynnwys cyfnerthu paratoadau ar gyfer diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r Cwricwlwm i Gymru.

### Datblygu ymagweddau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Yng Nghanolfan Ddysgu Sir Benfro, roedd rhan o weithgareddau dysgu proffesiynol yr UCD yn cynnwys staff addysgu yn cynllunio ac yn datblygu'u hymagweddau at y Cwricwlwm i Gymru. Cydnabu'r athro â gofal y bu'n fwy hanfodol nag erioed ar yr adeg hon i ddarparu gwersi pwrpasol diddordeb uchel i ymgysylltu â disgyblion. Rhannodd athrawon arfer dda o'u gwersi fel enghreifftiau i'w trafod gyda chydweithwyr, a defnyddiont y profiadau hyn i lywio'u trefniadau mapio a chynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal, mae'r UCD yn datblygu rôl cynorthwywyr addysgu i gynnwys mwy o gyfleoedd iddynt gynorthwyo a chyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm.

### Datblygu rhaglen rithwir cefnogi rhieni

Yn sgil cyfyngiadau COVID-19 yn ystod tymor y gwanwyn, nid oedd Canolfan Addysgol Tai yn gallu gwahodd rhieni ar y safle ar gyfer ei rhaglen cefnogi rhieni wythnosol. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i wella medrau rhianta ac ymglymiad rhieni maeth yn addysg eu plentyn, gyda'r nod o leihau anawsterau ymddygiadol.

Yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, sylweddolodd arweinwyr fod angen y gefnogaeth hon ar nifer o rieni a gofalwyr yn fwy nag erioed. Yn dilyn galwadau lles staff, teimlai arweinwyr fod y teuluoedd hyn yn wynebu heriau sylweddol yn sgil cael eu plant gartref heb strwythur, trefn a'r gefnogaeth arferol gan yr UCD. Parhaodd yr UCD felly â'i chefnogaeth ddwys i rieni drwy addasu cyflwyniad y rhaglen i gynnig sesiynau rhithwir.

# Crynodebau sector: Unedau cyfeirio disgyblion

Roedd llawer o arweinwyr yn teimlo bod y canllawiau iechyd a diogelwch a'r cymorth ymarferol gan eu hawdurdod lleol trwy gydol y flwyddyn wedi bod yn ddefnyddiol. Mynegont rwystredigaeth hefyd nad oedd y canllawiau bob amser yn addas ar gyfer UCDau, er enghraifft o ran lleoliadau aml-safle ac i ddisgyblion â chofrestriad deuol gyda'u UCD a'u hysgol brif ffrwd. O ganlyniad, mewn nifer o achosion, arhosodd disgyblion â chofrestriad deuol gyda'u UCD am y flwyddyn lawn.

### Cadw arferion iechyd a diogelwch buddiol

Adroddodd arweinwyr yn UCD Sir Ddinbych fod llawer o ddisgyblion wedi dychwelyd yn gadarnhaol i addysg ar y safle ar ddechrau tymor yr hydref, ac ar ôl yr ail gyfnod clo cenedlaethol. Fe wnaeth ychydig o newidiadau a gyflwynwyd oherwydd COVID-19 helpu'r UCD i redeg yn fwy hwylus. Er enghraifft, mae newid pwyntiau mynediad ac ymadael ar gyfer disgyblion, ac amserau dechrau a gorffen am yn ail, wedi arwain at lai o symud o amgylch yr UCD ac at amgylchedd dysgu tawelach. Eglurodd y pennaeth, gydag ond uwch arweinwyr a'r gofalwr yn cael bod yn y rhan fwyaf o'r coridorau, y modd y bu gostyngiad sylweddol yn y cyfleoedd i ddisgyblion ymgynnull neu ddangos eu hunain a chamymddwyn o flaen eraill yn ystod y dydd, ac ar ddechrau a diwedd y dydd. O ganlyniad, bydd yr UCD yn ystyried cadw'r trefniadau iechyd a diogelwch buddiol hyn a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Mewn llawer o UCDau, defnyddiodd arweinwyr gyllid 'Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam' Llywodraeth Cymru (2020e) i gefnogi medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion, fel penodi aelod staff ychwanegol i gyflwyno pecynnau ymyrraeth pwrpasol.

Parhaodd darpariaeth yn yr holl UCDau ar agor trwy gydol y flwyddyn i ddarparu addysg i ddysgwyr agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol yn unol â chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru. Golygai hyn fod staff UCD wedi bod yn gyfrifol am ddysgu ar y safle, dysgu o bell a dysgu cyfunol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer llawer o ddisgyblion â chofrestriad deuol trwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad, mynegodd llawer o arweinwyr bryderon sylweddol ynglŷn â chynaliadwyedd y ddarpariaeth a gallu staff i barhau i weithio yn y modd hwn.

### Gwella ansawdd addysgu a dysgu

Yng Nghanolfan Addysg Conwy, defnyddiodd arweinwyr y cyd-destun presennol i flaenoriaethu rhaglen dysgu proffesiynol yr UCD er mwyn gwella ansawdd addysgu a dysgu. Roedd gweithgareddau'n cynnwys ymagwedd yr UCD gyfan at werthuso addysgu a dysgu a mireinio prosesau craffu ar waith, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth well o agweddau sy'n arbennig o berthnasol i'r cyd-destun presennol.

Roedd meysydd ffocws penodol i wella addysgu a dysgu yn cynnwys deall metawybyddiaeth a gwahaniaethu yn well, ac archwilio ymhellach i'r modd y mae cynorthwywyr addysgu yn ychwanegu gwerth at yr hyn y mae athrawon yn ei wneud. Nododd y pennaeth fod mwy o gyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd staff proffesiynol yn ystod y diwrnodau nad oeddent yn mynychu safle'r UCD wedi bod yn arbennig o fuddiol.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

## Cyd-destun

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys y gwasanaethau hynny a ddarperir neu a gomisiynir gan un awdurdod lleol, yn ogystal â'r rheiny a ddarperir mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill. Darperir gwasanaethau gwella ysgolion yn bennaf ar y cyd â phedwar consortiwm rhanbarthol ar ran awdurdodau lleol, er bod y model ar gyfer y modd y mae hyn yn gweithio yn amrywio ledled Cymru. Eleni, parhaodd yr awdurdodau lleol a oedd yn rhan o ranbarth ERW yn wreiddiol i adolygu'u trefniadau gweithio ar y cyd.

Eleni, ni chynhaliom arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol oherwydd pandemig COVID-19. Parhaom i weithio gyda'r tri awdurdod lleol yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt o ganlyniad i'w harolygiadau craidd.

Parhaodd ein harolygwyr cyswllt awdurdod lleol â'u gwaith rheolaidd gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Yn nhymor yr hydref 2020, canolbwyntiodd llawer o'r gwaith hwn ar y cymorth yr oedd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi'i ddarparu i ysgolion ac UCDau i fynd i'r afael â'r heriau a achoswyd gan y pandemig. Arweiniodd y gwaith hwn at adborth manwl i bob awdurdod lleol a chonsortiwm i gynorthwyo'u hunanwerthuso a chyhoeddi adroddiad thematig, 'Cymorth Awdurdodau Lleol a Chonsortia Rhanbarthol i Ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19' (Estyn, 2021p). Cyhoeddom yr adroddiad yn Ionawr 2021 ac mae'n cynnwys pum argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Trafodom y cynnydd a wnaed gyda'r argymhellion hyn gyda swyddogion yn nhymor yr haf. Anfonom lythyrau yn rhoi manylion y cynnydd hwn at bob awdurdod lleol a chonsortiwm rhanbarthol. Mae ein canfyddiadau ynglŷn â'r modd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi cynorthwyo ysgolion i ddarparu dysgu o bell a helpu dysgwyr sy'n agored i niwed wedi llywio'r adroddiad hwn.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

## Lles



Y flwyddyn academaidd hon, mae ysgolion ac UCDau ledled Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i les disgyblion. Ymatebodd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn dda trwy ddarparu canllawiau, adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol i helpu staff ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn yr amgylchiadau newidiol yn deillio o'r pandemig. Mewn llawer o awdurdodau lleol, lluniwyd trefniadau gweithio agosach rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant. Helpodd hyn swyddogion i ymateb yn gyflym ac osgoi dyblygu yn eu cymorth ar gyfer dysgwyr unigol, eu teuluoedd ac ysgolion. Roedd llawer o'r dysgu proffesiynol a'r canllawiau a gynigiwyd i arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn canolbwyntio ar ddeall sut y gall trawma effeithio ar blant a phobl ifanc, a sut gall staff adnabod y rheiny sy'n cael anhawster a darparu cymorth iddynt.

Yn nhymor yr hydref, pan ailagorodd ysgolion ac UCDau i'r holl ddisgyblion, yn nodweddiadol, fe wnaeth rhyw 85% o ddisgyblion fynychu (Llywodraeth Cymru, 2021b). Am y rhan fwyaf o'r tymor, roedd cyfraddau presenoldeb rhwng 80% a 90%. Fodd bynnag, fe wnaeth nifer y disgyblion a oedd yn mynychu ostwng ar ddiwedd mis Tachwedd ac i mewn i fis Rhagfyr wrth i'r gyfradd achosion COVID-19 gynyddu ledled y wlad. Trwy gydol tymor yr hydref, bu swyddogion awdurdod lleol yn ymgysylltu â disgyblion a'u teuluoedd i'w hannog i fynychu'r ysgol. Er hyn, roedd presenoldeb disgyblion ledled Cymru'n amrywio gan ddibynnu ar gyd-destun yr awdurdod lleol. Mewn awdurdodau lleol yr effeithiwyd yn wael arnynt gan y pandemig, gan gynnwys ardaloedd â niferoedd uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dim ond oddeutu 50% oedd y lefelau presenoldeb erbyn diwedd tymor yr hydref. Disgyblion hŷn oedran uwchradd oedd â'r lefel bresenoldeb isaf bryd hynny. Adroddodd yr Education Policy Institute (2021c) fod presenoldeb yng Nghymru yn is ac yn amrywio fwy nag yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Yn nhymor yr haf, parhaodd cyfarwyddwyr addysg i fod yn bryderus ynglŷn â lefelau presenoldeb, a rhwystrau i ddisgyblion rhag ailymgysylltu ag ysgolion. Ar ddiwedd Mai 2021, er enghraifft, 88% oedd y lefel bresenoldeb gyfartalog ar draws yr holl awdurdodau lleol o gymharu â rhyw 94% yn 2019.

Eleni, bu cynnydd yn nifer y rhieni a ddewisodd addysgu eu plant gartref. Cyn y pandemig, roedd nifer y disgyblion oedd yn cael eu haddysgu gartref yn cynyddu, ond bu cynnydd mwy eleni, gyda'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn adrodd am gyfradd uwch o ddisgyblion yn cael eu haddysgu gartref o gymharu â 2019 (Llywodraeth Cymru, 2021m). Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ohirio cyflwyno canllawiau statudol a rheoliadau ar addysg ddewisol yn y cartref oherwydd COVID-19. Mae hyn yn golygu bod cyfrifoldebau a phwerau cyfyngedig gan awdurdodau lleol o hyd mewn perthynas â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref. Serch hynny, mewn llawer o awdurdodau lleol, darparodd swyddogion gymorth a chanllawiau ychwanegol i deuluoedd a oedd wedi dewis addysgu eu plant gartref. Ar Ynys Môn, sefydlodd swyddogion fforwm addysg ddewisol yn y cartref i helpu cryfhau'r gweithdrefnau'n ymwneud ag addysg gartref. Ym Mlaenau Gwent, fe wnaeth swyddogion gysylltu plant a oedd yn cael eu haddysgu gartref gydag ysgolion er mwyn eu galluogi i gael cymorth gan weithwyr proffesiynol gyda dysgu yn y cartref. Mewn ychydig o achosion, rhoddodd cymorth gan awdurdodau lleol ledled Cymru yr hyder i deuluoedd i ailintegreiddio'u plant yn yr ysgol.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol



Yn Ionawr 2021, cyhoeddodd y Comisiynydd Plant adroddiad Coronafeirws a Fi (2021a) yn seiliedig ar arolwg o ryw 20,000 o blant yng Nghymru. Roedd yr arolwg yn gofyn i ddisgyblion a oeddent yn teimlo'n hapus neu'n bryderus, yn drist, neu'n unig. Adroddodd tri o bob pump o ddisgyblion saith oed eu bod yn hapus o gymharu â rhyw un o bob pump o ddisgyblion 17 ac 18 oed. Pan ofynnwyd iddynt ynglŷn â chymorth ar gyfer iechyd emosiynol a meddyliol, dywedodd tri o bob pum disgybl 12 i 18 oed nad oeddent yn hapus i ofyn am help gan y gwasanaethau cwnsela a oedd yn cael eu darparu drwy eu hysgol (Comisiynydd Plant Cymru, 2021a). Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol o £1.25 miliwn i awdurdodau lleol eleni i gynyddu capasiti gwasanaethau cwnsela. Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, ond yn fwy cyffredin caiff y gwasanaeth ei gomisiynu gan ddarparwr allanol. Er i rai gwasanaethau cwnsela ailddechrau sesiynau wyneb yn wyneb gyda phlant phobl ifanc yn ystod tymor yr hydref, parhaodd rhai eraill i ddarparu sesiynau ar-lein neu dros y ffôn.

Hefyd, parhaodd gwasanaethau arbenigol eraill awdurdodau lleol i ddarparu cymysgedd o gymorth ar-lein a chymorth wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod ar ddiwedd tymor y gwanwyn a thymor yr haf. Roedd hyn yn anodd i ddisgyblion, yn enwedig y rheiny a oedd yn agored i niwed. Yn nhymor yr haf, mynegodd ychydig o arweinwyr ysgolion arbennig ac UCDau rwystredigaeth o ran yr ymagweddau anghyson at gymorth a therapi ar y safle ar draws gwasanaethau arbenigol gwahanol ac mewn awdurdodau lleol gwahanol. Yn rhyw hanner yr UCDau, mae arweinwyr yn cadarnhau bod cymorth gan gwnselwyr, CAMHS a'r timau Gwasanaethau Ieuenctid a Chyfiawnder Ieuenctid yn parhau ar-lein.

Yn ein harolwg gyda disgyblion, rhieni a staff ysgol yn yr hydref 2020, gofynnom am y cyfleoedd yr oedd disgyblion wedi'u cael i wneud ymarfer corff. Roedd 77% yn cytuno bod yr ysgol yn cynnig digon o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd aelodau timau ieuenctid, chwarae a chwaraeon yn darparu cymorth i ysgolion i gael disgyblion i ymgysylltu â gweithgareddau corfforol. Yng Nghasnewydd, lansiwyd 'Her Cadw'n Heini Ysgolion Cynradd' i helpu gwella lefelau ffitrwydd plant yn dilyn y cyfnodau pan oedd ysgolion ar gau.

## TAddysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Eleni, bu bron yr holl ddisgyblion yng Nghymru yn gweithio o bell am o leiaf ran o dymor y gwanwyn. Golygai hyn fod angen i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol barhau i addasu'u cymorth ac arweiniad i ysgolion ynglŷn ag addysgu a dysgu er mwyn helpu arweinwyr ysgol ac athrawon i reoli amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym.

Yn ein harolwg yn nhymor yr hydref, teimlai llawer o'r penaethiaid a ymatebodd fod awdurdodau lleol wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu dyfeisiau digidol a chysylltedd rhyngrwyd i ddisgyblion sydd heb fynediad i'r rhain gartref. Roedd athrawon a llywodraethwyr yn llai cadarnhaol ynglŷn â'r cymorth hwn. Dywedodd tua hanner y llywodraethwyr fod awdurdodau lleol wedi darparu cymorth effeithiol yn y maes hwn. Er i lawer o athrawon o ysgolion cynradd

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol



ac UCDau, a mwyafrif o'r rheiny o ysgolion arbennig, ddweud bod ysgolion yn helpu disgyblion i oresgyn rhwystrau rhag dysgu gartref, dim ond rhyw hanner o'r athrawon ysgol uwchradd a lleiafrif o'r athrawon o ysgolion pob oed a ymatebodd i'n harolwg oedd yn cytuno â hyn. Yn nhymor y gwanwyn, pan gaeodd ysgolion eto i ddisgyblion, nid oedd pob disgybl yn gallu cael mynediad i ddysgu ar-lein o hyd. Nododd adroddiad y Comisiynydd Plant (2021b) fod 12% o'r ysgolion a ymatebodd i'w harolwg wedi dweud bod ganddynt dros 20% o ddysgwyr sydd heb fynediad i ddyfais, a dywedodd bron bob un ohonynt fod yr un gyfran o'u dysgwyr yn rhannu dyfeisiau. Nododd swyddogion awdurdod lleol gynnydd yn y galw gan deuluoedd am gymorth i helpu disgyblion i ddysgu o bell yn nhymor y gwanwyn. Yn ychwanegol at ddisgyblion yn gorfod rhannu dyfeisiau gydag aelodau teulu, nododd awdurdodau lleol rwystrau eraill rhag dysgu o bell, gan gynnwys disgyblion yn byw mewn ardaloedd gwledig lle mae cysylltiad rhyngrwyd diwifr symudol yn wael, a chynnydd yn nifer y disgyblion y cydnabyddir eu bod yn ddifreintiedig drwy eu cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyfarwyddwyr addysg yn cydnabod yr angen am strategaeth hirdymor i fynd i'r afael ag allgáu digidol. Maent yn ymwybodol o'r angen i adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma i wella mynediad i dechnoleg, ac yn cydnabod bod hyn yn allweddol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer cymdeithas lle ceir ffocws cynyddol ar weithio mewn amgylchedd ar-lein. Maent hefyd yn cydnabod y buddion a gaiff medrau digidol gwell athrawon a disgyblion ar sicrhau darparu profiadau dysgu cyfoethog ac amrywiol. Sefydlodd Cyngor Sir Ceredigion eu darpariaeth e-sgol cyn dechrau'r pandemig. Un o amcanion gwreiddiol y ddarpariaeth oedd ehangu'r dewis i ddisgyblion Safon Uwch trwy gyflwyno gwersi o bell. Yn ystod y pandemig, defnyddiwyd yr adnodd hwn i gyfoethogi addysg disgyblion yng Ngheredigion a ledled Cymru. Sicrhaodd swyddogion diwtoriaid mewn 10 pwnc ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 11 i 13. Cynigiwyd sesiynau yn ddwyieithog lle'r oedd modd. Fe wnaeth 300 o ddisgyblion yng Ngheredigion a 3,000 o ddisgyblion ledled Cymru fynychu sesiynau.

Yn nhymor yr hydref, roedd medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion wedi dirywio, a chafodd cyfnodau o gau ysgolion effaith negyddol ar fedrau siarad a medrau cymdeithasol disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen. Parhaodd y materion hyn yn nhymor yr haf. Ledled Cymru, parhaodd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i weithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â'r materion hyn. Cadwont ffocws ar gynorthwyo ysgolion i ddatblygu medrau disgyblion gan gymryd gofal i hyrwyddo iaith gadarnhaol mewn perthynas â'r gwaith hwn ar gyfer ysgolion, disgyblion a rhieni, er enghraifft, osgoi termau fel 'dal i fyny'.

Un o nodau rhaglen Llywodraeth Cymru (2020e) 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' oedd darparu cymorth i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n byw mewn cartrefi di-Gymraeg. Nid oedd y disgyblion hyn wedi cael cyfleoedd i glywed na siarad Cymraeg mor aml â'r arfer. Rhoddodd awdurdodau lleol nifer o fentrau ar waith i gefnogi ysgolion a disgyblion. Defnyddiodd nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Gwynedd a Sir Gaerfyrddin, eu cyfleusterau trochi i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion, a chynyddodd Caerdydd ei darpariaeth drochi i helpu ymdopi â'r galw. Hefyd, darparodd swyddogion yn y consortia rhanbarthol gymorth i ysgolion. Er enghraifft, gosododd EAS aelodau o'i dîm cymorth Cymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth yn ystod tymor yr hydref i gynorthwyo staff a disgyblion i fynd i'r afael â'r diffyg ym medrau disgyblion.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol



Fe wnaeth gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ddod o hyd i ffyrdd o barhau â'u cefnogaeth i ddisgyblion tra bod cyfyngiadau COVID-19 ar ymwelwyr ag ysgolion. Er enghraifft, yng Nghaerffili, fe wnaeth y Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chymorth Cyfathrebu rhanbarthol weithio o bell gyda disgyblion trwy dechnoleg fideo-gynadledda a darparu hyfforddiant pwrpasol i staff ysgolion fel eu bod yn gallu cynorthwyo disgyblion â namau ar y clyw neu'r golwg. Yn nhymor yr haf, adroddodd penaethiaid o ysgolion cynradd ac uwchradd fod angen mwy o gymorth arnynt gan awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer deddf newydd anghenion dysgu ychwanegol.

Ledled Cymru, mae swyddogion consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi gweld pandemig COVID 19 yn gyfle i ganolbwyntio ar ddatblygu ethos ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft drwy'r ffocws ar iechyd a lles a'r cynnydd ym medrau digidol disgyblion ac athrawon. Ym Mhowys, bu ymgynghorwyr her yn hyrwyddo defnyddio'r egwyddorion addysgegol i gyfoethogi dysgu disgyblion. Yn Sir y Fflint, darparodd swyddogion hyfforddiant ar ddefnyddio amgylchedd yr awyr agored i ddatblygu gwydnwch a dyfalbarhad disgyblion wrth ddatrys problemau. Er y gwaith cadarnhaol hwn, mae swyddogion awdurdodau lleol yn cydnabod fod y pandemig wedi arafu'r cynnydd yr oedd ysgolion yn ei wneud wrth fynd i'r afael â gweithredu'r cwricwlwm newydd. Maent yn gweld y gwaith hwn fel blaenoriaeth pan fydd cyfyngiadau COVID-19 ar ysgolion yn llacio. Yn ein trafodaethau â phenaethiaid yn nhymor yr haf, tynnodd llawer o benaethiaid sylw at yr angen i gymorth barhau ar gyfer eu gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru. Yn benodol, maent yn teimlo nad oes digon o ffocws wedi bod gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar brosesau asesu a dilyniant mewn dysgu.

## Arweinyddiaeth

Yn nhymor yr hydref, bu awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd a Llywodraeth Cymru i ymateb i'r cyd-destun sy'n datblygu, a achoswyd gan y pandemig. Buont yn cydweithio i gefnogi disgyblion yn dychwelyd yn llawn i'r ysgol a darparu cymorth ac arweiniad i arweinwyr ysgol i'w helpu i reoli effaith achosion o COVID-19 ar ysgolion. Trwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW), cynigiodd uwch arweinwyr gymorth da i'w gilydd a buont yn cydweithredu'n effeithiol i greu dulliau ac adnoddau ar y cyd.

Yn ein harolwg yn Hydref 2020, roedd mwyafrif y penaethiaid yn cytuno bod eu hawdurdod lleol wedi'u cynnwys yn effeithiol mewn trafodaethau am wasanaethau addysg lleol. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o arweinwyr ysgol yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys digon. Yn nhymor yr haf, roedd penaethiaid yn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth roeddent wedi'i gael gan swyddogion awdurdodau lleol. Teimlai llawer ohonynt ei bod yn haws mynychu cyfarfodydd a oedd yn cael eu cynnal o bell, gan eu galluogi i fynychu'n fwy rheolaidd. Arweiniodd hyn at gyfathrebu gwell rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion, ac fe wnaeth cyswllt mwy rheolaidd wella'r berthynas weithio rhwng swyddogion a phenaethiaid.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol



Bu swyddogion awdurdodau yn gweithio’n agos ag arweinwyr ysgolion ac UCDau ledled Cymru i sicrhau bod safleoedd ysgolion yn ddiogel i ddisgyblion ddychwelyd i’r ysgol yn nhymor hydref a thymor y gwanwyn. Cynhaliont asesiadau risg ar y cyd ag arweinwyr ysgolion ac UCDau, ynghyd â chyfarfodydd galw heibio ar-lein i benaethiaid drafod materion iechyd a diogelwch.

Yn nhymor yr hydref, bu swyddogion consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio’r ffordd orau y gallent ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen ‘Recriwtio, adfer a chodi safonau’. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer ysgolion i gynorthwyo â defnyddio’r grant, gan gydnabod, er bod llawer o ddisgyblion heb wneud cynnydd gystal ag y gallent, bod effaith y pandemig yn fwy ar rai grwpiau penodol o ddisgyblion. Roedd y rhain yn cynnwys disgyblion mewn grwpiau blwyddyn sy’n paratoi ar gyfer arholiadau, disgyblion a oedd wedi pontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd, a disgyblion bregus a difreintiedig. O ganlyniad i’r canfyddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol ar waith ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod, gan gynnwys ar gyfer y disgyblion ieuengaf yr effeithiwyd yn anghymesur ar eu haddysg.

Yn nhymor yr hydref, roedd y dysgu proffesiynol a ddarparwyd gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn canolbwyntio’n bennaf ar gefnogi lles disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i’r ysgol, ac ar helpu athrawon i wella’u dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol. Roedd swyddogion o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi defnyddio’r cyfnod clo cychwynnol i droi at ymchwil genedlaethol a rhyngwladol, ac wedi defnyddio cyfleoedd dysgu proffesiynol i rannu’u canfyddiadau gydag ysgolion. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, tynnodd partneriaid gwella ysgolion sylw at dystiolaeth gan y Sefydliad Gwaddol Addysg (2020) bod ansawdd addysgu yn bwysicach na sut y caiff ei gyflwyno. Fe wnaeth hyn helpu ysgolion yn yr awdurdod lleol i feddwl am eu hymagweddau at ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Yn Sir Gaerfyrddin, fe wnaeth swyddogion gynorthwyo ysgolion i symud dysgu o’r model dysgu o bell a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau i fodel y gellid ei ddefnyddio wrth i ysgolion ailagor yn llawn. Yn nhymor y gwanwyn, wynebodd swyddogion consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol heriau wrth fonitro effeithiolrwydd darpariaeth tra bod ysgolion yn addysgu o bell. Yn nhymor yr haf, roedd partneriaid gwella ysgolion yn gallu ailddechrau cynnal ymweliadau ag ysgolion. Er nad oeddent yn gallu cynnal eu hystod lawn o weithgareddau arferol, dywedodd llawer o benaethiaid wrthym eu bod yn teimlo y bu’n fuddiol gallu cynnal trafodaethau wyneb yn wyneb am addysgu a dysgu, ac effaith pandemig COVID-19 ar waith yr ysgol.

# **Crynodebau sector:** Gwasanaethau addysg llywodraeth leol



Parhaodd ein harolygwyr cyswllt awdurdod lleol i gynnal gweithdai sicrwydd a risg fel rhan o'n trefniadau gweithio ar y cyd ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Eleni, cynhaliwyd y rhain o bell gyda'r holl awdurdodau lleol bron. Roedd y gweithdai'n canolbwyntio ar y cryfderau a'r diffygion a nodwyd gan y tri chorff arolygu a rheoleiddio yn ystod eu gwaith gydag awdurdodau lleol. Cyflwynwyd y rhain i uwch swyddogion ac aelodau etholedig y cyngor er mwyn eu galluogi i ystyried gwaith meysydd gwasanaeth unigol mewn cyd-destun ehangach. Eleni, roedd y sicrwyddau cyffredin yn ymwneud yn bennaf ag ymatebion awdurdodau lleol i bandemig COVID-19. Roedd arweinwyr mewn ysgolion ac UCDau mewn llawer o awdurdodau lleol yn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth a ddarparwyd gan swyddogion, er enghraifft i'w helpu gyda'u darpariaeth dyfeisiau digidol i gefnogi dysgu o bell. Cafwyd gwelliant yn y cysylltiadau rhwng meysydd gwasanaeth mewn awdurdodau lleol a chyfathrebu swyddogion ag ysgolion. Y prif bryder eleni ar draws bron yr holl awdurdodau lleol oedd yr amrywio o fewn ac ar draws ysgolion yn y ddarpariaeth profiadau dysgu o bell ar gyfer disgyblion. Yn ogystal, mae materion hirsefydlog ar gyfer yr awdurdodau lleol yn parhau o'r cyfnod cyn y pandemig. Y rhai mwyaf cyffredin ar draws yr awdurdodau lleol yw perfformiad ysgolion uwchradd dros amser, cyfraddau presenoldeb a gwaharddiadau, cynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac ansawdd hunanwerthuso mewn cyfarwyddiaethau addysg.

## Gwasanaethau ieuenctid

Roedd llawer o weithwyr ieuenctid yn gweithio mewn hybiau ysgol. Roeddent yn gweithio gyda gweithwyr addysg proffesiynol eraill i ddarparu cymorth i ddysgwyr, drwy ymweld â chartrefi, dosbarthu parseli bwyd a phethau ymolchi a meddyginiaeth. Fe wnaeth y rhai a oedd â phrofiad gwaith chwarae ddefnyddio'u medrau'n effeithiol i gefnogi'r gwaith mewn hybiau ysgolion cynradd. Parhaodd gweithwyr ieuenctid i fod yn weithgar yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol a gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ystod y tymhorau ysgol. Cydnabuwyd llawer o'r arferion hyn yn adroddiad Wavehill (Marshall *et al.*, 2021) i Lywodraeth Cymru, 'Ymchwil i lywio datblygiad y strategaeth gwaith ieuenctid'.

Bu gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig ac ar lefel stryd yn ymgysylltu â phobl ifanc i sicrhau eu bod yn deall negeseuon iechyd allweddol, fel yr angen i gadw pellter cymdeithasol. Roeddent yn sicrhau hefyd eu bod yn cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc nad oeddent yn cysylltu trwy lwyfannau rhithwir. Mewn ardaloedd fel Rhondda Cynon Taf, buddsoddodd yr awdurdod lleol mewn darpariaeth symudol fel faniau yn cynnwys seddi a sgriniau teledu, ac roedd timau'n defnyddio'r rhain gyda grwpiau o bobl ifanc a oedd wedi bod yn ymgynnull ar strydoedd. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi yn y gwanwyn, datblygodd gweithwyr ieuenctid ym Mro Morgannwg gynnig 'clwb ieuenctid dros dro'. Bu gweithwyr ieuenctid mewn awdurdodau fel Conwy a Gwynedd yn gweithio'n agos drwy raglenni allymestyn gyda Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a beth oedd yn ei achosi.

# Crynodebau sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol



Trwy gydol y llynedd, bu gweithwyr ieuenctid yn gweithio i gefnogi pobl ifanc ddigartref ar adeg pan oeddent yn arbennig o fregus. Hefyd, darparont gymorth i grwpiau eraill agored i niwed, fel plant sy’n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, y rhai sy’n dioddef teulu yn chwalu a’r rhai nad ydynt mewn cysylltiad ag asiantaethau neu rwydweithiau cymorth eraill. Er enghraifft, bu gweithwyr ieuenctid ym Mlaenau Gwent yn helpu pobl ifanc i ddod o hyd i lety, a rhoddodd yr awdurdod lleol rai pobl ifanc, na fyddent fel arfer yn gymwys i gael cymorth, mewn llety gwely a brecwast i sicrhau bod ganddynt le diogel i fyw. Bu gweithwyr ieuenctid ledled Cymru’n cynorthwyo ac yn cynghori pobl ifanc a oedd yn wynebu diweithdra neu gael eu troi allan, ac yn rhoi cymorth iddynt i wneud cais am gymorth ariannol.

Mae’r pandemig wedi cynyddu proffil a manteision gwaith ieuenctid drwy amlygu set medrau eang ac ymaddasol gweithwyr ieuenctid. Tynnwyd sylw at yr angen i gydnabod statws proffesiynol gwaith ieuenctid fel gwasanaeth allweddol hanfodol i bobl ifanc 11-25 oed yn ein hadroddiad thematig a gyhoeddwyd eleni ‘Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid: Model cynaliadwy i Gymru 2020’ (Estyn, 2020j) ac fe’i trafodwyd yn ein blog Deall gwerth gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid (Estyn, 2021v).

Pwysleisiwyd hyn hefyd yn adroddiad cyntaf Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru (Ionawr 2021) Mae’n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru.

## Ad-drefnu ysgolion

Eleni, ymgynghorodd 14 o awdurdodau lleol ar gynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Cynyddu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig oedd rhyw chwarter y cynigion. Mae’r mwyafrif o’r ymgynghoriadau hyn yn cynnig cynyddu capasiti mewn ysgolion ac unedau presennol. Mae lleiafrif yn ystyried sefydlu ysgolion neu unedau newydd. Mae bron chwarter yr holl gynigion eleni yn canolbwyntio ar gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’r cynigion hyn yn ymgynghori ar ystod o strategaethau, gan gynnwys cynyddu darpariaeth mewn ysgolion Cymraeg sefydledig, newid cyfrwng iaith ysgolion presennol o Saesneg i Gymraeg, ac un cynnig am ysgol gynradd Gymraeg newydd ym Mlaenau Gwent. Mae chwe ymgynghoriad yn cynnwys ysgolion sydd wedi’u nodi’n ysgolion gwledig, sy’n mynnu bod y cynigiwr yn dilyn set fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig cau ysgol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae dau o’r ymgynghoriadau hyn yn eiriol dros uno’r ysgol fach gydag ysgol leol arall. Fodd bynnag, mae pedwar yn cynnig cau’r ysgol. Mae pedwar cynnig gan bedwar awdurdod lleol yn ymgynghori ar sefydlu ysgolion pob oed, gan barhau â thuedd o flynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn cynnwys y cynnig ar gyfer ysgol pob oed gyntaf yn awdurdod lleol Sir Fynwy. Yn Ionawr 2020, roedd 22 o ysgolion pob oed yng Nghymru, felly byddai’r pedwar cynnig hyn yn golygu cynnydd o bron i 20% yn genedlaethol.

# **Crynodebau sector:** Gwasanaethau addysg llywodraeth leol

## Gweithgarwch dilynol

Pan fyddwn yn barnu bod gwasanaeth addysg awdurdod lleol yn peri pryder sylweddol, cynhaliwn gynhadledd welliant ôl-arolygiad rhyw dri mis ar ôl yr arolygiad craidd, ac yna cynadleddau cynnydd. Mae uwch arweinwyr o'r awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill yn mynychu'r cynadleddau hyn, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau'r awdurdod i fynd i'r afael â diffygion a'r cynnydd y mae swyddogion yn ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhellion. Yn nhymor yr Hydref 2020, cynhaliom gynadleddau cynnydd gyda Phowys, Sir Benfro a Wrecsam. Mabwysiadom ymagwedd deilwredig at y gwaith hwn, gan gynnal trafodaethau gydag uwch swyddogion yn yr awdurdodau lleol hyn ynglŷn â'r ffordd orau i gynnal y cynadleddau.

Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliom ein cynhadledd gyntaf gydag awdurdodau lleol Sir Benfro a Wrecsam. Sicrhaodd y cynadleddau fod cyd-ddealltwriaeth gan swyddogion ac aelodau etholedig o'r heriau sy'n wynebu'r cyngor, a'u bod yn cytuno ynglŷn â sut byddent yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Yn dilyn y cynadleddau, nododd y ddau awdurdod ffyrdd o gryfhau eu cynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn eu hadroddiadau arolygiadau craidd.

Cynhaliom gynhadledd gynnydd gyda Chyngor Sir Powys yn Nhachwedd 2020. Ail gynhadledd yr awdurdod lleol oedd hon yn dilyn ei arolygiad craidd yng Ngorffennaf 2019. Yn ystod y gynhadledd, dangosodd yr awdurdod lleol ei fod wedi dechrau gwneud cynnydd cadarn ers yr arolygiad. Mae swyddogion yn dangos ymrwymiad clir i fynd i'r afael â'r materion a godwyd, yn ogystal â gwneud gwerthusiadau pwrpasol o'r cynnydd a wnaed o ganlyniad i gamau gweithredu a roddwyd ar waith o'u cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Cynhaliom gyfarfod gydag uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn nhymor y gwanwyn 2021 i bennu'r amser gorau i gynnal ymweliad monitro ffurfiol, pan fydd arolygwyr yn barnu'r cynnydd a wnaed ers yr arolygiad craidd yn 2019.



Adran 1

# Crynodebau sector: Addysg bellach

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2021, roedd 12 o golegau yn darparu cyrsiau addysg bellach yng Nghymru. Mae llawer o'r colegau addysg bellach yn sefydliadau mawr aml-safle sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol eang. Mae lleiafrif o golegau, fel Grŵp Llandrillo Menai, Grŵp Colegau NPTC a Choleg Cambria, yn gweithredu fel grŵp, gyda nifer o safleoedd yn gweithredu o dan enwau colegau ar wahân o dan reolaeth gyffredinol un sefydliad addysg bellach. Mae ychydig o golegau, gan gynnwys Coleg Merthyr Tudful a Choleg Sir Gâr (sy'n cynnwys Coleg Ceredigion), yn gweithredu fel is-gyrff ym mherchnogaeth lwyr sefydliadau addysg uwch.

Nododd adroddiad gan ColegauCymru (Buchanan *et al.*, 2020) fod cofrestriadau addysg bellach wedi bod yn gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ymhlith y rheiny sy'n astudio'n rhan-amser. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos, yn 2019-2020, bod 94,220 o ddysgwyr wedi ymgymryd â rhaglenni dysgu addysg bellach (Llywodraeth Cymru, 2021i). O'r rhain, bu 46,290 yn astudio ar raglenni amser llawn, a 47,930 yn astudio'n rhan-amser. Disgwylir i nifer y cofrestriadau rhan-amser ostwng ymhellach yn 2020-2021, yn bennaf yn sgil effaith pandemig COVID-19.

Eleni, parhaodd gweithgareddau arolygu i fod wedi'u hatal oherwydd argyfwng COVID-19. Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â'r sector, parhaom ag ymgysylltiad ein harolygwyr cyswllt â cholegau o bell. Canolbwyntiodd ein trafodaethau gydag arweinwyr ar les dysgwyr a staff, sut yr oedd colegau'n cefnogi addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig. Hefyd, casglom dystiolaeth ar gyfer y pedwar adolygiad thematig. Yn nhymor yr haf 2021, ymwelom ag ychydig o golegau i gael gwybod sut roeddent wedi addasu i ddychwelyd i gyflwyno wyneb yn wyneb.
ed to the return to face-to-face delivery.

# **Crynodebau sector:**
# Addysg bellach

## Lles

Eleni, parhaodd colegau i roi blaenoriaeth allweddol i iechyd a lles dysgwyr a staff. Trefnont fod ystod eang o wasanaethau cymorth ar gyfer dysgwyr ar gael yn ystod cyfnodau clo, a phan oedd mwy o ddysgu ar y safle'n mynd rhagddo.

Ar ôl dychwelyd i ddysgu ar y safle o Fedi 2020, trefnodd y rhan fwyaf o golegau fod cefnogaeth wyneb yn wyneb ar gyfer lles dysgwyr ar gael yn ehangach, yn amodol ar asesiadau risg ac addasiadau i helpu cadw pellter cymdeithasol. Roedd adnoddau lles ar-lein, dogfennau arweiniad, gwybodaeth am gymorth a phrosesau atgyfeirio ar-lein ar gael i'r holl ddysgwyr hefyd.

Newidiodd colegau eu darpariaeth cymorth yn raddol wrth i gyfyngiadau ar safleoedd lacio. Mewn llawer o achosion, rhoddodd colegau flaenoriaeth i ddysgwyr agored i niwed a difreintiedig, gan gynnwys dysgwyr ar raglenni medrau byw'n annibynnol, ar gyfer mynychu ar y safle ac i gael cymorth.

Parhaodd colegau i roi cymorth bugeiliol trwy gydol y flwyddyn drwy sesiynau wyneb yn wyneb a thiwtorialau ar-lein, gan ddibynnu ar b'un a oedd dysgwyr yn gallu mynychu ar y safle. Adroddont am alw uchel am gwnsela, ac adroddodd llawer hefyd am gynnydd mewn atgyfeiriadau diogelu, yn enwedig mewn perthynas â hunan-niweidio a meddyliau am hunanladdiad. Gweithiodd darparwyr yn agos gydag asiantaethau allanol i wneud yn siŵr bod cymorth priodol ar gael ar gyfer y dysgwyr hyn. Cynhaliodd colegau gyswllt rheolaidd â dysgwyr nad oeddent yn ymgysylltu â gweithgareddau dysgu wedi'u cynllunio er mwyn gwirio eu lles.

Cynhaliodd y rhan fwyaf o golegau arolygon lles o ddysgwyr. Yn yr arolygon hyn, adroddodd llawer o ddysgwyr, yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell, eu bod wedi gweld eisiau eu ffrindiau, cyswllt wyneb yn wyneb gyda staff addysgu a rhyngweithio cymdeithasol gyda chymuned ehangach y coleg. Nododd llawer o ddysgwyr eu bod yn arbennig o bryderus ynglŷn â'r ansicrwydd o ran eu hasesiadau terfynol a rhagolygon pontio i addysg uwch neu i gyflogaeth.

Cynhaliodd colegau gyswllt rheolaidd gyda dysgwyr agored i niwed trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb, dros y ffôn, trwy negeseuon testun, y cyfryngau cymdeithasol, galwadau fideo a llwyfannau ar-lein. Defnyddiont grantiau Llywodraeth Cymru i helpu darparu cymorth i ddysgwyr yr oedd hawl ganddynt gael prydau am ddim i fforddio prydau bwyd yn ystod cyfnodau gwyliau, fel yr amlinellir ymhellach yn adroddiad yr Education Policy Institute, 'Education policy responses across the UK to the pandemic'. (Sibieta a Cottell, 2020)

Roedd rhannu mynediad, yn hytrach na chael mynediad llwyr i ddyfais ddigidol yn gyffredin ymhlith dysgwyr, fel y nodwyd hefyd gan Gomisiynydd Plant Cymru (2021b). Yn ogystal, nid oedd mynediad i'r rhyngrwyd gan rai teuluoedd, neu adroddont nad oedd ganddynt lwfansau data digonol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, benthycodd colegau niferoedd sylweddol o offer i ddysgwyr, darparu dyfeisiau Wi-Fi cludadwy neu helpu gyda chostau prynu data symudol.

### Ymagwedd coleg cyfan at iechyd meddwl a lles emosiynol

Bu uwch arweinwyr yng Ngholeg Penybont yn ymgysylltu'n helaeth â dysgwyr, staff, cynrychiolwyr undebau llafur a llywodraethwyr i nodi bylchau penodol yn y ddarpariaeth cymorth bresennol. Mae hyn wedi'u galluogi i ddatblygu strategaeth les glir a chydlynus. Mae'r coleg yn ymdrechu i ddatblygu amgylchedd diogel a chefnogol lle gall arweinwyr a staff drafod materion iechyd meddwl yn agored a chael ystod eang o wasanaethau cymorth.

### Blaenoriaethu cymorth ar gyfer dysgwyr

Penderfynodd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion flaenoriaethu a mynd ar drywydd yr holl atgyfeiriadau newydd ar gyfer cymorth dysgwyr, gan ddefnyddio offeryn gwerthuso angen cychwynnol safonol i helpu pennu'r ymyriadau cymorth mwyaf priodol. Creodd y tîm cymorth dysgu gofrestr 'dan risg' o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai roeddent eisoes wedi'u cefnogi. Fe wnaeth y dull brysbennu newydd helpu lleihau oedi a lleihau rhestrau aros.

# Crynodebau sector: Addysg bellach



Darparodd staff, fel cynorthwywyr cymorth dysgu, gymorth unigol a chymorth mewn grwpiau bach i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gymysgedd o weithgareddau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Er enghraifft, wrth gyflwyno dysgu o bell, gwnaeth colegau ddefnydd o nodweddion fel 'ystafelloedd ymneilltuo' a 'swyddogaethau recordio' a oedd ar gael drwy lwyfannau ar-lein.

## Addysgu, hyfforddi, dysgu a'r cwricwlwm

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo lacio ym mis Medi 2020, dychwelodd y rhan fwyaf o ddysgwyr i safleoedd coleg am o leiaf rywfaint o'u hamser dysgu, ond parhaodd llawer o ddysgwyr i ymgymryd ag o leiaf hanner eu dysgu o bell. Derbyniodd ychydig iawn o ddysgwyr, fel y rheiny ar raglenni medrau dysgu annibynnol, y rhan fwyaf o'u dysgu neu eu holl ddysgu ar y safle oherwydd anawsterau yn cyflwyno'r ddarpariaeth hon yn effeithiol o bell.

Dilynodd colegau ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ddod â dysgwyr yn ôl ar y safle. Er enghraifft, rhoddwyd blaenoriaeth ganddynt i ddysgwyr agored i niwed a darparu gweithgareddau dysgu ac asesu ar y safle ar gyfer dysgwyr a oedd yn ymgymryd â chymwysterau trwydded i ymarfer, fel ar gyfer rhaglenni achredu trydanol a nwy. Roedd bron yr holl ddysgwyr nad oeddent yn gallu cwblhau asesiadau ar gyfer y cymwysterau hyn y llynedd wedi gallu cyflawni'u cymhwyster yn nhymor yr hydref.

Er i gyfyngiadau lacio ar gyfer cyflwyno ar safleoedd ym Medi 2020, parhaodd addysgu ac asesu pynciau ymarferol i fod yn heriol yn sgil cyfyngiadau parhaus ar feintiau grwpiau i fodloni gofynion cadw pellter cymdeithasol. Gweithiodd colegau yn agos â ColegauCymru a Llywodraeth Cymru i gytuno bod cynnwys cwricwlwm cyfan y rhan fwyaf o raglenni dysgu amser llawn, gan gynnwys ystod y cymwysterau y mae'r rhain yn eu cynnwys, yn cael ei addasu i ganolbwyntio ar brif gymhwyster dysgwyr.

Eleni, parhaodd colegau addysg bellach i ymestyn a gwella'u capasiti ar gyfer dysgu o bell ar draws yr holl raglenni dysgu, gan ddefnyddio ystod o lwyfannau dysgu ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o golegau wedi parhau i fabwysiadu dull dysgu cyfunol fel elfen annatod o lawer o raglenni dysgu. Roeddent yn barod i droi'n ôl at gyflwyno dysgu o bell yn gyfan gwbl, lle'r oedd angen.

Yn ystod tymor y gwanwyn, cyflwynwyd bron yr holl ddysgu ar-lein ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, gyda nifer fach, ond nifer a oedd yn cynyddu'n raddol, yn dechrau dychwelyd i safleoedd coleg i gwblhau asesiadau ymarferol a phrofion cadarnhau Sgiliau Hanfodol Cymru. Cynyddodd y rhan fwyaf o golegau gyfran yr addysgu wyneb yn wyneb ar gyfer dysgwyr yn sylweddol ar ôl egwyl y Pasg.

# Crynodebau sector: Addysg bellach

Roedd asesu crynodol yn her arbennig i golegau, staff addysgu a'u dysgwyr. Roedd y trefniadau asesu diwygiedig ar draws ystod y cymwysterau galwedigaethol yn fwy cymhleth i'w gweithredu nag ar gyfer TGAU a Safon Uwch, yn enwedig lle'r oedd angen asesiadau ymarferol a gweithgareddau lleoliadau gwaith yn ofynnol o hyd. Parhaodd cyfleoedd lleoliadau gwaith i fod wedi'u cyfyngu yn ddifrifol oherwydd y pandemig, er i gyfyngiadau gael eu llacio'n raddol ar draws llawer o sectorau galwedigaethol. Yn ystod y flwyddyn hon, lleisiodd arweinwyr coleg eu pryderon eto ynglŷn â'r diffyg canllawiau amserol, eglur gan reoleiddwyr a sefydliadau dyfarnu ar y trefniadau diwygiedig ar gyfer asesu ac achredu yn 2020-2021.

Darparwyd adborth defnyddiol o 'arolygon cyflym' o ddysgwyr a staff, a chyfarfodydd staff cyson, i lywio'r gwerthuso parhaus o fodelau dysgu cyfunol, a helpodd hynny i nodi meysydd i'w gwella. Trwy gydol y flwyddyn, parhaodd colegau i reoli presenoldeb dysgwyr a staff ar y safle yn bwyllog, trwy barhau i gymhwyso gofynion cadw pellter cymdeithasol yn adeiladau'r coleg ac o'u hamgylch. Er enghraifft, fe wnaethant leihau meintiau grwpiau, rhoi blaenoriaeth i sesiynau ymarferol a threfnu diwrnodau mynychu dysgwyr bob yn ail er mwyn helpu rheoli trosglwyddo'r feirws.

## Arweinyddiaeth

Eleni, parhaodd arweinwyr colegau i ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i'r llu o heriau a gyflwynwyd gan y pandemig parhaus. Nodont fod perthnasoedd gweithio cadarnhaol gydag undebau llafur wedi helpu hwyluso'r hyblygrwydd mewn arferion gweithio i ymdopi ag amgylchiadau newidiol trwy gydol y flwyddyn. Parhaodd arweinwyr colegau i gyfarfod yn rheolaidd drwy'r flwyddyn i gynllunio a rhannu ymatebion i COVID-19. Buont yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddiweddaru canllawiau ar gyfer ffyrdd diwygiedig o weithio wrth i sefyllfa COVID-19 ddatblygu.

Cynhaliodd arweinwyr colegau eu cyfathrebiadau gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys rhieni a chyflogwyr, drwy eu gwefannau yn bennaf, a thrwy bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliont gyfathrebu mewnol da gyda staff, er enghraifft trwy gynnal sesiynau briffio staff wythnosol ar-lein a chylchredeg bwletinau staff wythnosol. Parhaodd arweinwyr i ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir er mwyn lleihau teithio a helpu lleihau risg trosglwyddo'r feirws. Adroddont fod y rhan fwyaf o staff wedi dangos mwy o hyblygrwydd a gwydnwch wrth addasu i ffyrdd newidiol o weithio, gan gynnwys y trosglwyddo rhwng gweithgareddau o bell a gweithgareddau ar y safle.

Darparodd colegau gymorth parhaus i ddatblygu a diweddaru medrau digidol yr holl staff, gan gynnwys dysgu proffesiynol helaeth ar gyfer staff ar addysgeg benodol i ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Er enghraifft, mae staff sy'n cyflwyno rhaglenni addysg gychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ôl-16 wedi cynyddu'u ffocws ar ddulliau cyflwyno cyfunol ac o bell ers yr achosion o'r pandemig. Rhoddodd arweinwyr sylw gofalus i ddarparu arweiniad a chymorth i staff ar weithredu trefniadau ar gyfer graddau a bennir gan ganolfannau ar draws llawer o gymwysterau.

### Darparu golwg gyfannol o'u cynnydd i ddysgwyr Safon Uwch

Ym Medi 2020, cryfhaodd Grŵp Llandrillo Menai ei ddefnydd o bwyntiau monitro ffurfiol ddwywaith bob hanner tymor. Roedd dysgwyr yn cyflwyno darn sylweddol o waith wedi'i asesu, ac roedd athrawon yn coladu graddau'n ganolog trwy lyfr marcio electronig. Pan fyddai dysgwyr yn mynd i mewn i'r system, roeddent yn gallu gweld eu cynnydd dros gyfnod a mynd at adborth personoledig am eu hasesiadau. Adroddodd dysgwyr fod y dulliau hyn wedi gwella'u dealltwriaeth o'u cynnydd ers i gyrsiau symud ar-lein.

### Dysgu wyneb yn wyneb diogel

Yn ystod cyfnodau pan oedd dysgwyr yn cael mynd ar y safle yn ystod y pandemig, rhannodd staff yng Ngholeg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant bob grŵp addysgu yn ddau a defnyddio cyfuniad o gyflwyno o bell ac wyneb yn wyneb ar y safle ar yr un pryd. Roedd un hanner o bob grŵp addysgu yn mynychu gwersi yn ystod y ddau ddiwrnod a hanner cyntaf bob wythnos, tra bod hanner arall y grŵp yn ymuno â'r gwersi o bell o gartref, gan ddefnyddio cysylltiad byw i'r ystafell ddosbarth. Gwrthdrowyd y trefniadau gan athrawon ar gyfer ail hanner yr wythnos i alluogi'r holl ddysgwyr gael budd o fynychu'r ddarpariaeth ar y safle.

# Crynodebau sector: Addysg bellach

Darparodd colegau gymorth cryf ar gyfer lles staff yn ystod cyfnodau o weithio gartref ac yn ystod y trosglwyddo'n ôl i'r campysau. Er enghraifft, trefnont fod gwasanaethau cwnsela ar gael i staff, naill ai drwy gwnselwyr y colegau eu hunain neu drwy raglenni allanol cymorth i weithwyr. Recriwtiwyd dysgwyr addysg bellach ar gyfer 2021-2022 trwy gymysgedd o weithgareddau ar-lein ac wyneb yn wyneb, gyda staff yn cyflwyno ystod o ddigwyddiadau diwrnod agored rhithwir, sesiynau blasu ar-lein ac ymweliadau â safleoedd wedi'u trefnu.

Parhaodd trefniadau sicrhau ansawdd i ddatblygu i adlewyrchu'r defnydd o ddulliau dysgu cyfunol. Yn gyffredinol, roedd y dulliau a fabwysiadwyd yn rhoi pwyslais cryf ar gymorth ar y ddwy ochr a rhannu arfer effeithiol yn hytrach na gorganolbwyntio ar ddeilliannau a data perfformiad dysgwyr. Er enghraifft, cafodd llawer o arsylwadau o addysgu a dysgu eu harwain gan gymheiriaid yn hytrach na'u cynnal gan reolwyr llinell. Mae colegau'n parhau i ddefnyddio adborth o arolygon o ddysgwyr a staff i werthuso a helpu gwella effeithiolrwydd darpariaeth.

Parhaodd byrddau llywodraethol ac is-bwyllgorau byrddau colegau i gyfarfod yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Cynhaliwyd cyfarfodydd trwy lwyfannau ar-lein ac adroddodd dysgwyr fod llywodraethwyr wedi cael gwybodaeth gyson am y prif ddatblygiadau'n ymwneud â sefyllfa COVID-19, yn ogystal â'i effaith ar benderfyniadau allweddol.

Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol sylweddol i golegau i helpu gyda lles staff a dysgwyr, i ddarparu sesiynau dal i fyny ar gyfer dysgwyr ac i fynd i'r afael ag amddifadedd digidol a chostau ychwanegol eraill yn deillio o COVID-19. O ganlyniad, cynhaliodd colegau sefyllfa ariannol gref yn gyffredinol er gwaetha'r pandemig.

## Gweithgarwch dilynol

Nid oedd angen gweithgarwch dilynol ar gyfer unrhyw golegau addysg bellach eleni.

### Dysgu proffesiynol ar-lein

Mae Coleg Merthyr Tudful wedi canolbwyntio ar sesiynau dysgu proffesiynol sydd â fformat eang cyffredin; fe'u cynhelir ar-lein ac maent yn para 30 munud. Roedd adborth gan athrawon yn awgrymu bod y sesiynau amrywiol wedi darparu dewislen gyfleoedd tanio cyflym i ddysgu am dechnegau a strategaethau defnyddiol i gynorthwyo eu haddysgu cyffredinol. Teimlai staff fod y sesiynau wedi eu helpu i gynllunio a chyflwyno sesiynau dysgu cyfunol ac o bell yn fwy effeithiol.

### Gwerthuso effeithiolrwydd addysgu a dysgu

Yn Rhagfyr 2020, cyflwynodd Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant drefniadau 'myfyrio ar wersi' ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd addysgu a dysgu. Roedd staff addysgu yn dewis o blith pedwar dull o werthuso'u haddysgu, dysgu a phrofiad myfyrwyr. Nod y trefniadau hyn yw cynnal ffocws ar welliant parhaus a rhannu arfer effeithiol, ni waeth p'un a gaiff addysgu ei gyflwyno o bell neu wyneb yn wyneb. Gan ddefnyddio'r dulliau hyn, mae'r coleg yn adrodd bod gan staff berchnogaeth sylweddol ar y broses, sy'n cefnogi eu lles.



Adran 1

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith

## Cyd-destun

Yn Ionawr 2021, roedd 17 o ddeiliaid contract wedi eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru (2020f) i gyflwyno dysgu yn y gwaith yng Nghymru. Mae mwyafrif y darparwyr hyn yn gweithio mewn consortia neu'n defnyddio darparwyr hyfforddiant wedi'u hisgontractio. Mae tua 100 o ddarparwyr wedi'u hisgontractio yn gweithio gyda deiliaid contract i gyflwyno dysgu yn y gwaith. Mae'r wybodaeth gyhoeddedig ddiweddaraf yn dangos, yn 2019-2020, bod tua 52,190 o ddysgwyr wedi ymgymryd â rhaglenni dysgu yn y gwaith, 16,065 ohonynt ar brentisiaethau sylfaen lefel 2 a 30,475 ar brentisiaethau lefel 3 neu brentisiaethau uwch lefel 4. Ymgymerodd tua 5,650 o ddysgwyr â hyfforddiant arall, gan gynnwys rhaglenni hyfforddeiaeth a chyflogadwyedd lefel 1 (Llywodraeth Cymru, 2021i). Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei chomisiynu ar gyfer y contract dysgu yn y gwaith a fydd yn dechrau ym Medi 2021, gyda 10 o ddarparwyr arweiniol wedi'u contractio i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth.

O Fedi 2020, parhaom i ymgysylltu o bell ag arweinwyr a staff mewn darparwyr dysgu yn y gwaith drwy ein galwadau ffôn ymgysylltu ein harolygwyr cyswllt. Fe wnaethom ffonio'r rhan fwyaf o ddarparwyr bob tymor i ganolbwyntio ar oblygiadau'r pandemig ar les dysgwyr, addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig. Hefyd, roedd y galwadau ymgysylltu hyn yn cefnogi dau arolwg thematig y gofynnodd Llywodraeth Cymru amdanynt ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol, ac ar iechyd meddwl a lles dysgwyr. Yn nhymor yr haf 2021, ymwelom ag ychydig o ddarparwyr dysgu yn y gwaith i weld sut roeddent wedi addasu i ddychwelyd i gyflwyno wyneb yn wyneb.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith

O Fedi 2020, parhaodd y sector dysgu yn y gwaith i'w chael hi'n arbennig o galed gyda staff ar ffyrlo a chau llawer o fusnesau. Sectorau fel lletygarwch ac arlwyo, manwerthu a masnachol, trin gwallt a harddwch a meysydd peirianneg, yn enwedig peirianneg awyrenneg, yr effeithiwyd arnynt fwyaf o hyd. Gan fod llawer o fusnesau'n cau am gyfnod estynedig, gostyngodd y nifer a oedd yn mynd i mewn i brentisiaethau newydd. Fodd bynnag, yn nhymor yr haf 2021, fe wnaeth y sefyllfa wella'n sylweddol gyda sectorau fel adeiladu a lletygarwch yn gweld galw cynyddol am staff. Wrth i sectorau eraill ddychwelyd i'w gweithleoedd, adolygodd cyflogwyr eu hanghenion staffio a phrentisiaid newydd. Mae adolygiad manwl o'r ffigurau ar gael yn y gyfres 'Prentisiaid a roddwyd ar ffyrlo neu a ddiswyddwyd yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19)' (Llywodraeth Cymru, 2021a).

## Lles

Mae dysgwyr wedi poeni ynghylch sicrwydd swydd a chyllid personol. Wynebont heriau wrth gael eu rhoi ar ffyrlo ac roeddent yn teimlo'n ynysig yn sgil cyfyngiadau'r cyfnodau clo. Mewn ychydig o achosion, roedd dysgwyr yn poeni ynglŷn â dychwelyd i'w gweithleoedd. Mae darparwyr wedi cefnogi dysgwyr i oresgyn eu hofnau a chryfhau eu gwydnwch. Roedd lleiafrif o ddysgwyr, gan gynnwys prentisiaid uwch, yn wynebu heriau wrth weithio a dysgu gartref, yn enwedig lle'r oeddent yn addysgu'u plant eu hunain gartref, yn rhannu dyfeisiau digidol neu'n methu dod o hyd i fan gweithio priodol. Rhoddodd arolygon rheolaidd o ddysgwyr a gynhaliwyd gan ddarparwyr gipolwg defnyddiol ar brofiadau a phryderon dysgwyr. Roedd llawer o ddarparwyr yn pryderu ynglŷn â'r effaith barhaus ar les dysgwyr, a rhoesant staff arbenigol a strategaethau ar waith i helpu cefnogi dysgwyr.

### Cefnogi lles dysgwyr yn y gwaith yn ystod y pandemig

Mae swyddogion lles yng nghonsortiwm darparwyr dysgu yn y gwaith Quality Skills Alliance (QSA) yn darparu cymorth a chyngor defnyddiol i ddysgwyr. Parhaodd hyn yn ystod y cyfnodau clo, gydag ystod ehangach o strategaethau defnyddiol wedi'u cymhwyso i gefnogi lles dysgwyr.

Sefydlodd staff cymorth wasanaeth lles o bell drwy ddefnyddio llwyfannau ar-lein, er mwyn i ddysgwyr allu parhau i gyfarfod â nhw'n rhithiol pan gyfyngwyd ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb. I ddechrau, nododd staff ddysgwyr a oedd mewn perygl, neu yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt, drwy ddefnyddio system sgorio CMG (coch, melyn a gwyrdd). Galluogodd hyn iddynt deilwra cymorth yn ôl anghenion dysgwyr unigol. Cynhaliodd staff gysylltiad â'u dysgwyr mwyaf bregus o leiaf bob wythnos. Hefyd, rhoesant gymorth i dros 120 o ddysgwyr newydd. Anfonwyd adnoddau a gwybodaeth hanfodol at bob dysgwr, gan gynnwys arweiniad ar seiberddiogelwch, awgrymiadau defnyddiol ar gyfer gweithio gartref, rhaglenni ymarfer corff i fodloni ystod o alluoedd, a gwybodaeth benodol i fynd i'r afael â thrais domestig a mathau eraill o gamdriniaeth.

### Nodi a chefnogi'r dysgwyr yn y gwaith mwyaf bregus

Mae ACT yn defnyddio dull sgorio risg i helpu adnabod y dysgwyr hynny sy'n arbennig o fregus ac yn wynebu'r risg fwyaf. Yna, caiff y dull hwn ei ddefnyddio i lywio math, lefel ac amlder y cymorth a ddarperir. Mae enghreifftiau o gymorth yn cynnwys parseli bwyd, cynhyrchion hylendid, adnoddau TG ac adnoddau addysg eraill. Hefyd, mae staff yn gwneud galwadau ffôn lles rheolaidd a gall ddysgwyr fynychu'r ganolfan ddysgu am gymorth lles wyneb yn wyneb, hyd yn oed yn ystod cyfnodau clo.

Mae gan bob dysgwr swyddog lles dynodedig sydd wedi'i neilltuo iddynt. Mae swyddogion lles yn darparu'r adnoddau perthnasol sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w helpu i ymgysylltu â gweithgareddau dysgu o bell, lle bo angen. Maent yn darparu manylion cyswllt ar gyfer asiantaethau cymorth arbenigol a gwasanaeth cwnsela'r darparwr, a help gydag atgyfeiriadau. Mae'r swyddogion lles wedi darparu sesiynau rhithwir ar les hefyd, gan gynnwys sesiynau penodol ar sut gall COVID-19 effeithio ar iechyd a lles emosiynol unigolion. Trwy adnabod y dysgwyr hynny sy'n arbennig o fregus ac yn wynebu'r risg fwyaf, mae'r darparwr yn cynnig ymyriadau a chymorth cynnar.

# Crynodebau sector:
Dysgu yn y gwaith

Mewn llawer o achosion, cynyddodd darparwyr eu cyswllt â dysgwyr bregus dros y ffôn, drwy'r e-bost ac ar-lein er mwyn gwirio eu lles. Yn gyffredinol, cynigiodd aseswyr gyfleoedd i ddysgwyr siarad bob wythnos, ond gan mwyaf roeddent yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth allanol, lle'r oedd angen. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, roedd dwy i dair wythnos yn mynd heibio rhwng gwneud cyswllt â dysgwyr. Golygai hyn nad oeddent yn cael cymorth amserol bob amser.

## Addysgu, hyfforddi, asesu a darpariaeth

O Fedi 2020, parhaodd darparwyr i gyflwyno rhannau o'u cynlluniau prentisiaeth i ddysgwyr o bell. Cynhaliont eu ffocws ar elfennau theori'r fframwaith, fel tystysgrifau technegol a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Nododd darparwyr fod angen mwy o arweiniad a chymorth ar ddysgwyr pan fyddant yn gweithio o bell na gyda dysgu wyneb yn wyneb. Mae staff yn darparu'r cymorth ychwanegol hwn drwy'r e-bost, sgyrsiau ffôn a chyfarfodydd fideo. Trwy gydol y flwyddyn, adeiladodd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr ar yr arfer sefydledig o roi adborth ysgrifenedig i ddysgwyr ar eu gwaith drwy eu portffolios electronig. Yn ein hadroddiad thematig ar ddysgu cyfunol (Estyn, 2021b), nodom fod heriau sylweddol i ddarparwyr dysgu yn y gwaith i ddarparu elfennau ymarferol cymwysterau trwy ddulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol, a bod ansawdd yr addysgu a'r dysgu hwnnw yn parhau'n amrywiol, yn gyffredinol.

Mewn llawer o feysydd dysgu, ni allai darparwyr gynnal asesiadau ar y safle oherwydd bod busnesau ar gau neu oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Sectorau fel iechyd a gofal, lletygarwch ac arlwyo, manwerthu, peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu, a thrin gwallt a harddwch oedd y rhai a gafodd eu taro waethaf. Gwnaeth dysgwyr ar draws yr holl feysydd dysgu gynnydd arafach na'r disgwyl. Golygai hyn fod angen iddynt aros ar eu rhaglen hyfforddi am gyfnod hwy i gwblhau'u fframweithiau.

Pan gaeodd canolfannau hyfforddi, nid oedd y caledwedd cyfrifiadurol angenrheidiol gan fwyafrif o ddysgwyr hyfforddeiaeth, ac mewn nifer o achosion, nid oedd cysylltiadau rhyngrwyd i allu dysgu o bell ganddynt ychwaith. Cynorthwywyd y dysgwyr hyn gan ddarparwyr trwy ddarparu gliniaduron a donglau rhyngrwyd pan oedd angen. Golygai'r cymorth hwn y gallai dysgwyr barhau i ymgysylltu â'u dysgu trwy gydol y cyfnod clo. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn gweld dysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth fel grŵp blaenoriaeth i ddychwelyd at ddysgu wyneb yn wyneb pan fyddai safleoedd yn ailagor.

### Dylunio a defnyddio adnoddau hyfforddi arbenigol

Dyluniodd staff yng Nghwmni Hyfforddiant Cambrian gyfres o fodiwlau hyfforddi i ddysgwyr sydd wedi'u diswyddo. Mae'r modiwlau hyn yn cynnwys ceisiadau am swydd, ysgrifennu llythyrau, medrau cyfweliad, meithrin hyder a rheoli cyllid. Mae staff yn cynnal sesiynau holi ac ateb byw gyda dysgwyr sydd wedi'u diswyddo i roi cyfle iddynt ddysgu am gyfleoedd mewn meysydd dysgu amgen. Mae un enghraifft o hyn yn canolbwyntio ar sut beth ydyw i weithio mewn lletygarwch o fewn y sector iechyd a gofal, gyda gwybodaeth am amodau gweithio, cyfleoedd gwaith a rheoli a phecynnau cyflog.

### Defnyddio ystod o adnoddau i ennyn diddordeb dysgwyr

Mae dau ddarparwr, Cwmni Hyfforddiant Cambrian a Grŵp Llandrillo Menai, wedi addasu adnoddau i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gallu cael mynediad iddynt trwy ddefnyddio dulliau gwahanol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ystod o gyfarfodydd digidol, ynghyd ag adnoddau printiedig neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb, i gefnogi'u dysgwyr. Mae staff yn anfon adnoddau papur at ddysgwyr, fel llythrennedd digidol a gweithlyfrau gramadeg Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), lle bo angen. Maent wedi cynyddu'n sylweddol argaeledd sesiynau llythrennedd a rhifedd trwy ddarparu cyrsiau ar-lein gyda'r nos yn ogystal ag yn ystod y dydd.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith



Wrth i fusnesau ailagor ac wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r gweithle, gweithiodd darparwyr gyda chyflogwyr i gwblhau asesiadau risg er mwyn gallu cynnal asesiadau wyneb yn wyneb lle bo modd. Parhaodd hyn i fod yn her yn y sector iechyd a gofal gan na allai aseswyr fynd i mewn i gartrefi gofal a lleoliadau tebyg yn ystod y pandemig. Ar draws yr holl sectorau, lle bo'n briodol, cynhaliodd darparwyr asesiadau o bell neu defnyddiwyd dulliau gwahanol ganddynt i gasglu tystiolaeth portffolio, fel fideo neu recordiad llais o ddysgwyr yn ymgymryd â thasgau ymarferol yn eu gweithleoedd. Fe wnaeth dysgwyr sefyll arholiadau allanol yn unol â rheolau a gweithdrefnau'r cyfnodau clo a galluogodd hyn i ddysgwyr ddychwelyd i'w colegau a chanolfannau hyfforddi i ffwrdd o'r swydd yn ddiogel.

Gwnaed y rhan fwyaf o waith cyflwyno Sgiliau Hanfodol Cymru ar-lein, yn bennaf drwy sesiynau un i un o bell. Mewn ychydig o achosion, daeth darparwyr â dysgwyr at ei gilydd mewn grwpiau ar gyfer sesiynau ar-lein. Rhoddodd hyn y cyfle i ddysgwyr weithio ar dasgau mewn grwpiau bach gyda'u cyfoedion unwaith eto. Ar draws darparwyr, roedd amrywioldeb yn y cynnydd yr oedd dysgwyr yn ei wneud a'r cyfraddau roeddent yn cyflawni'u cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru arnynt.

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo lacio yn ystod yr haf, gwelodd nifer o sectorau alw uchel gan gwsmeriaid. Roedd hyn yn arbennig o wir yn y sector adeiladu lle'r oedd adeiladwyr yn gweld galw uchel am eu medrau. Mae hyn yn debygol o ehangu'r cyfleoedd i brentisiaid yn y sector.

## Arweinyddiaeth

Ymatebodd arweinwyr ar draws dysgu yn y gwaith yn gyflym i'r heriau yn sgil y pandemig. Datblygont eu cyfathrebu gyda staff ar bob lefel, gan roi ystod eang o wybodaeth ddiweddar iddynt. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel ganddynt i les dysgwyr a staff. Roedd arweinwyr yn cydnabod yr angen i gefnogi staff mewn llawer o agweddau, gan gynnwys dysgu proffesiynol i ddatblygu'u dealltwriaeth a'u medrau wrth gyflwyno rhaglenni o bell.

Canolbwyntiodd rheolwyr yn gryf ar les staff yn ystod y pandemig. Yn yr achosion gorau, cryfhaodd darparwyr eu cyfathrebu gyda staff ar bob lefel. Roedd hyn yn cynnwys mewnbwn rheolaidd gan uwch arweinwyr, ynghyd â chyfarfodydd staff defnyddiol a chyfathrebiadau electronig. Fodd bynnag, roedd cyfathrebu gydag isgontractwyr, a rhannu gwybodaeth rhyngddynt, yn amrywiol. Ar draws y sector, cynorthwyodd darparwyr eu staff i ddatblygu'u medrau gydag ystod ddefnyddiol o weithgareddau dysgu proffesiynol. Roedd y gweithgareddau hyn yn canolbwyntio ar gyflwyno sesiynau hyfforddi o bell a chefnogi iechyd a lles dysgwyr o bell. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe wnaeth darparwyr ddwyn ymlaen elfennau o'r fframwaith y gellid eu cyflwyno. Fodd bynnag, fe wnaeth llawer o ddysgwyr ymuno â rhaglenni dysgu yn y gwaith am eu bod eisiau gwneud gwaith ymarferol. O ganlyniad, roedd darparwyr yn aml yn ei chael hi'n anodd cynnal cymhelliant ac ymgysylltiad dysgwyr.

# Crynodebau sector: Dysgu yn y gwaith

Yn gyffredinol, canfu'r sector dysgu yn y gwaith ei bod yn anoddach dilyn rhaglenni prentisiaeth ar-lein oherwydd elfennau ymarferol mawr y rhaglen ac asesiadau'n ymwneud â chymwysterau sy'n dangos arbenigedd galwedigaethol neu broffesiynol. Er mwyn cefnogi'r sector, datblygodd Jisc, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gwrs peilot addysgeg ddigidol ar gyfer nifer fach o staff dysgu yn y gwaith i'w helpu i ddatblygu medrau addysgu ac asesu ar-lein penodol i sector. Gwahoddwyd pob deiliad contract arweiniol i anfon cynrychiolydd i'r cwrs. Dyluniwyd y cwrs fel rhaglen 'hyfforddi'r hyfforddwr' gyda'r nod y byddai cyfranogwyr yn rhannu'u gwybodaeth gydag eraill. Mae cyfranogwyr yn adrodd bod y cwrs wedi bod yn werthfawr iawn iddynt, a'u bod wedi rhannu'u datblygiad proffesiynol gyda staff eraill yn eu sefydliadau a'u cwmnïau. Mae'r un cwrs addysgeg ddigidol yn cael ei dreialu gyda phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned hefyd.

## Gweithgarwch dilynol

Parhaodd dau ddarparwr mewn categori gweithgarwch dilynol yn ystod cyfnod y pandemig. Ymgysylltom yn rheolaidd â'r darparwyr hyn trwy gydol y flwyddyn. Ym mis Gorffennaf, adolygom y cynnydd y mae'r ddau ddarparwr wedi'i wneud ar argymhellion o'u harolygiadau craidd trwy gynadleddau gwella adolygu Estyn. O ganlyniad i'r cynnydd a wnaed gan y darparwyr hyn, tynnom y ddau ohonynt o'r categori gweithgarwch dilynol.



# Crynodebau sector:
# Dysgu oedolin yn y gymuned



## Cyd-destun

Mae 15 partneriaeth ar hyd a lled Cymru ynghyd ag Addysg Oedolion Cymru yn cyflwyno rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned. Mae aelodaeth y partneriaethau yn amrywio o ardal i ardal, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys darpariaeth a gynigir gan yr awdurdod lleol, coleg addysg bellach a sefydliadau gwirfoddol.

Mae darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau cymunedol, fel llyfrgelloedd, canolfannau dysgu cymunedol neu ysgolion. Mae cau'r lleoliadau hyn yn ystod y pandemig wedi cael effaith fawr ar allu partneriaethau i gyflwyno'u rhaglenni arferol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r sector wedi canolbwyntio'i ddarpariaeth a ariennir ar gyrsiau i oedolion er mwyn gwella eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol, a Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE). Hefyd, mae partneriaethau'n darparu nifer fach o raglenni hamdden ar gyfer diddordeb personol, lles, a chynhwysiant, fel dosbarthiadau ioga, crefft nodwydd neu hanes lleol. Mewn llawer o achosion, mae partneriaethau'n cefnogi grwpiau gwirfoddol neu glybiau i gynnal eu darpariaeth hamdden a lles eu hunain, trwy ddarparu lleoliadau neu hysbysebu dosbarthiadau.

# Crynodebau sector: Dysgu oedolion yn y gymuned

Polisi diweddar Llywodraeth Cymru fu annog partneriaethau i uno i greu llai o bartneriaethau rhanbarthol, ond rhai mwy. Mae cynnydd tuag at y nod hon wedi bod yn fylchog wrth i bartneriaethau ganolbwyntio'u sylw ar ymateb i'r pandemig.

O fis Medi 2020, parhaom i ymgysylltu o bell ag arweinwyr a chydlynwyr mewn partneriaethau drwy alwadau ffôn ymgysylltu ein harolygwyr cyswllt. Fe wnaethom ffonio'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn rheolaidd i ganolbwyntio ar oblygiadau'r pandemig i les dysgwyr a staff, addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig. Hefyd, roedd y galwadau ymgysylltu hyn yn cefnogi dau arolwg thematig ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol, ac ar iechyd meddwl a lles dysgwyr. Yn haf 2021, ymunom ag ychydig o wersi ar-lein a chynhaliom alwadau o bell gydag ychydig o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned i weld sut roeddent yn parhau i gefnogi dysgwyr sy'n oedolion.

Lleihaodd y pandemig nifer y dysgwyr a gweithgareddau dysgu a oedd yn mynd rhagddynt yn sylweddol. Yn ein galwadau ymgysylltu, mae darparwyr yn adrodd bod rhwng chwarter a hanner y nifer arferol o weithgareddau dysgu yn cael eu cynnal, sy'n unol ag ystadegau Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021i). Yn ychwanegol at heriau cyflwyno dysgu o bell, roedd partneriaethau'n ei gweld hi'n anodd recriwtio dysgwyr newydd neu i gynnal rhaglenni fel dysgu fel teulu, sy'n digwydd mewn ysgolion yn nodweddiadol.

Gan fod cyfyngiadau'r cyfnodau clo yn amrywio dros y flwyddyn, amrywiodd partneriaethau eu darpariaeth rhwng cyflwyno mewn canolfannau a chyflwyno ar-lein, gan ddibynnu ar yr amodau.

## Lles

O fis Medi 2020, cynyddodd partneriaethau eu ffocws ar ddilyniant mewn dysgu, yn ogystal â pharhau i gefnogi lles dysgwyr.

Yn ystod cyfnodau clo a phan roedd canolfannau dysgu ar gau, wynebodd llawer o ddysgwyr fwy o ynysigrwydd cymdeithasol am nad oeddent yn gallu mynychu dosbarthiadau yn bersonol. Roedd rhai eraill, fel y rhai ar gyrsiau SSIE, yn enwedig ar lefel mynediad, neu'r rheiny heb y dechnoleg neu gysylltedd angenrheidiol ar gyfer dysgu ar-lein o bell, yn ei gweld hi'n arbennig o anodd ymgysylltu â dysgu o bell.

Darparodd y rhan fwyaf o bartneriaethau wybodaeth i ddysgwyr drwy gylchlythyrau ar-lein, a chyfathrebiadau eraill. Roedd y rhan fwyaf yn cynnwys elfennau o ddiogelwch ar-lein yn eu rhaglenni er mwyn helpu dysgwyr i gadw'n ddiogel rhag sgamiau a thwyll ar-lein.

Ar gyfer y partneriaethau hynny lle'r oedd dysgwyr wedi cofrestru fel myfyriwr yn y coleg partner, roedd gwasanaethau cwnsela ar gael yn y coleg, er nad yw'n glir faint o ddysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned oedd yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn neu'n eu defnyddio. Roedd partneriaethau heb bartner coleg yn atgyfeirio dysgwyr at asiantaethau allanol neu at gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol o fewn darpariaeth yr awdurdod lleol.

**Datblygu rolau lles dynodedig mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned**

Bu partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yn awdurdodau lleol cyfagos Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, yn cydweithio i sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect i nodi a datblygu rhwydwaith o 'bencampwyr lles' ar draws y tair ardal, i raeadru gwybodaeth, dealltwriaeth ac adnoddau i'w cymheiriaid ac i gynghori tiwtoriaid ar ffyrdd i gefnogi eu dysgwyr ar faterion lles.

# Crynodebau sector: Dysgu oedolion yn y gymuned

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Canolbwyntiodd partneriaethau ar gyflwyno'u darpariaeth graidd, sef llythrennedd, rhifedd a medrau digidol, a SSIE. Yn ôl ei natur, mae'r sector yn cyflwyno i ddysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned. Er i ysgolion ailagor rhwng cyfnodau clo, yn aml ni agorodd lleoliadau fel llyfrgelloedd cyhoeddus a chanolfannau cymunedol, lle mae llawer o'r cyflwyno'n cael ei wneud. Yn ystod cyfnodau lle'r oedd lleoliadau dysgu ar agor, defnyddiwyd y cyfleoedd hyn gan bartneriaethau i roi offer digidol i ddysgwyr ac i wella'u medrau digidol fel eu bod yn gallu cyfranogi ar-lein pan oedd cyfyngiadau cyfnod clo yn cael eu tynhau.

Yn wahanol i'r sector ysgolion, nid oes gan bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a'u dysgwyr fynediad i Hwb, sef adnodd addysgu a dysgu ar-lein Llywodraeth Cymru, a'r offer sydd ar gael arno. Fe wnaeth hyn arafu gallu'r sector i sefydlu llwyfannau dysgu ar-lein yn gyflym. Mae mynediad gwael i'r rhyngrwyd yn parhau'n rhwystr i ychydig o ddysgwyr rhag gallu cyfranogi'n llawn ar-lein.

Yn y sesiynau ar-lein a arsylwom yn ystod tymor yr haf 2021, roedd dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'u tiwtoriaid ac â'i gilydd mewn sesiynau ar-lein cydamserol. Yn gyffredinol, mynegwyd barnau cymysg ynglŷn â dysgu ar-lein gan ddysgwyr. Roedd yn well gan rai dysgwyr gael y cyfleustra o ddysgu gartref a'r hyblygrwydd yr oedd hyn yn ei roi, tra bod rhai eraill yn colli'r agweddau rhyngbersonol a chymdeithasol ar ddysgu. Nid oedd gan ychydig o ddysgwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, y medrau dysgu annibynnol a'r hyder i gynnal dysgu gartref heb gymorth uniongyrchol tiwtor mewn sefyllfa ystafell ddosbarth.

Yn gynnar yn haf 2021, dechreuodd partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ailagor eu canolfannau dysgu cymunedol, a dychwelyd yn raddol at ddysgu wyneb yn wyneb, gan gyfuno dulliau addysgu mewn canolfannau ac ar-lein y aml. Bu partneriaethau'n ystyried sut i ailgysylltu â'u dysgwyr traddodiadol ac addasu'u darpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr newydd y gallai'r pandemig fod wedi tarfu ar eu bywydau, ac sy'n addasu i newid cyflogaeth neu gyfeiriad a bod angen datblygu medrau newydd arnynt. Yn eu gwaith cynllunio cynnar ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, bu partneriaethau'n ystyried eu hymagwedd at gyflwyno a'u cynnig o ran darpariaeth. Roedd y rhan fwyaf yn bwriadu cadw rhai agweddau ar ddysgu cyfunol, hyd yn oed pe bai cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu codi'n llwyr a bod canolfannau ar agor.

### Addasu cwrs ar gyfer cyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol

Cyflwynodd Coleg Caerdydd a'r Fro gwrs lefel Mynediad 3 ar gyfer SSIE ar y cyd â phartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Caerdydd a'r Fro. Fe wnaeth y tîm a oedd yn cyflwyno'r cwrs ailgynllunio'r cynlluniau gwaith a'r cynlluniau addysgu i weithio'n effeithiol fel cwrs dysgu cyfunol i'w ddefnyddio yn ystod cyfnodau clo. Rhannodd yr athrawon y dysgwyr yn 'swigod', sef grwpiau bach heb fod yn fwy na phump o bobl, er mwyn bod yn ddiogel o ran COVID-19 pan fyddai dysgwyr ar y safle. Fe wnaethant adolygu'r cwrs a gwneud addasiadau iddo i benderfynu pryd i addysgu medrau iaith ar wahân neu fel medrau cymysg. Trefnodd y tîm i gyflwyno deunydd newydd i ddysgwyr ar-lein fel grŵp cyfan. Cymerodd yr athrawon gyfrifoldeb am gyflwyno gwahanol elfennau o'r cwrs. Cafodd dysgwyr gyfleoedd ychwanegol i weithio yn eu 'swigod' gydag athro ar y safle neu ar-lein i ymarfer gwrando, darllen a siarad. Roedd athrawon yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau cymdeithasol, ariannol a diwylliannol dysgwyr wrth ofyn i ddysgwyr wneud gwaith ar-lein. Er enghraifft, os oedd dysgwyr yn byw gyda'u teuluoedd mewn llety â gofod personol cyfyngedig, gallent ddewis ymuno â'r dosbarth gyda fideos wedi eu diffodd.

# Crynodebau sector:
Dysgu oedolion yn y gymuned

## Arweinyddiaeth

Dros y flwyddyn, mae patrymau gweithio ar gyfer rheolwyr a thiwtoriaid wedi sefydlogi ac maent yn fwy rheolaidd a chynaliadwy erbyn hyn.

Mae ymagweddau partneriaethau at ddysgu proffesiynol wedi datblygu dros y flwyddyn. Mae partneriaethau'n adrodd fod ychydig o staff addysgu wedi dechrau o sylfaen medrau isel wrth ddefnyddio technoleg ddigidol, ac nad oedd llawer erioed wedi defnyddio offer addysgu digidol. Roedd partneriaethau'n cydweithio'n dda i gynnig am gyllid dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru. Dechreuont elwa o gymorth mentoriaid addysgu digidol, a oedd yn derbyn hyfforddiant dwys, ac roeddent yn gweithio gyda chydweithwyr i wella'u medrau addysgu digidol.



### Datblygu porthol dysgu proffesiynol

Datblygodd Addysg Oedolion Cymru, sy'n gweithio gyda'r holl bartneriaethau dysgu oedolion ledled Cymru, borthol dysgu proffesiynol canolog defnyddiol y gallai eu hathrawon eu hunain ac athrawon eu partneriaid gael mynediad iddo. Roedd y potensial gan y cyfleuster hwn i helpu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â dulliau addysgu, dysgu ac asesu ar-lein, yn ogystal â datblygu safonau ansawdd ymhellach.

## Gweithgarwch dilynol

Yn dilyn adolygiad pen desg o dystiolaeth, tynnwyd un bartneriaeth o gategori gweithgarwch dilynol ym Mehefin 2021. Mae un bartneriaeth yn parhau mewn categori gweithgarwch dilynol.

# Crynodebau sector: Addysg gychwynnol athrawon



## Cyd-destun

Yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau achredu, erbyn hyn mae saith partneriaeth achrededig addysg gychwynnol athrawon (AGA) yng Nghymru, sy'n cynnwys prifysgolion a'u hysgolion partner. Mae'r partneriaethau'n darparu llwybrau israddedig ac ôl-raddedig at addysgu. O fis Medi 2020, daeth dau lwybr newydd ar gael, y ddau ohonynt yn arwain at dystysgrif addysg i raddedigion (TAR), un llwybr rhan-amser, a llwybr yn seiliedig ar gyflogaeth, a'r ddau'n cael eu darparu gan Bartneriaeth y Brifysgol Agored.

Yn 2020-2021, parhaom i weithio gyda'r partneriaethau i dreialu ymagweddau at arolygu sy'n gyson â'r gweithdrefnau achredu newydd ar gyfer AGA. Mewn cydweithrediad â'r sector, cynhaliom dri gweithgaredd peilot yn rhithwir, er mwyn cynnal prawf ar wahanol fethodolegau arolygu.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, cadwom mewn cysylltiad â'r holl bartneriaethau AGA trwy gydol pandemig COVID-19. Cynhaliom gyfarfodydd ymgysylltu rhithwir gydag arweinwyr darparwyr unigol a gydag arweinwyr AGA mewn consortia rhanbarthol, gan ganolbwyntio ar les myfyrwyr a staff, cymorth ar gyfer addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth trwy gydol y pandemig. Hefyd, cynhaliom ddigwyddiadau rhanddeiliaid rheolaidd a gweithiom gyda'r sector i ddatblygu ein deunyddiau arweiniad arolygu.

# Crynodebau sector: Addysg gychwynnol athrawon

## Recriwtio

Ym Medi 2020, recriwtiwyd 1,498 o fyfyrwyr i raglenni AGA amser llawn. Ymunodd 808 â rhaglenni cynradd, a dechreuodd 690 ar raglenni uwchradd. Yn ogystal, cafodd 138 o fyfyrwyr 138 o fyfyrwyr (43 uwchradd a 95 cynradd) eu recriwtio ar lwybrau'r Brifysgol Agored[1].

Ar ôl sawl blwyddyn o recriwtio gwael, roedd cynnydd cyffredinol yn nifer y myfyrwyr a recriwtiwyd i raglenni AGA eleni. Cynyddodd niferoedd cynradd 35%, a niferoedd uwchradd 59%. Roedd y cynnydd hwn yn y recriwtio yn amrywio o bartneriaeth i bartneriaeth, ac er y cynnydd, mae nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi mewn pynciau lle ceir prinder athrawon yn y sector uwchradd yn parhau'n bryder. Mae'r prinder mwyaf sylweddol ymhlith myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon Cymraeg. Mae cyfran y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pynciau uwchradd wedi aros fwy neu lai'r un peth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae'n gwahaniaethu ym mhob partneriaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod partneriaethau'n gweithio tuag at recriwtio 30% o bob carfan fel myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Dim ond un bartneriaeth a gyflawnodd hyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-2021.

## Safonau a lles

Ymatebodd myfyrwyr yn gadarnhaol i heriau hyfforddiant eleni. Nododd staff ysgolion yn arbennig gryfderau ym medrau digidol myfyrwyr, ac fe wnaeth hynny eu helpu i ymgysylltu â dysgu o bell yn ystod cyfnodau clo. Roedd staff mewn rhai ysgolion partneriaeth yn ddiolchgar hefyd am y modd yr oedd myfyrwyr yn cefnogi'r ysgol wrth ddatblygu dulliau dysgu digidol.

I ymateb i'r newidiadau i raglenni a ddaeth yn sgil y pandemig, dangosodd myfyrwyr gryfderau mewn agweddau ac ymddygiadau penodol eleni, fel hyblygrwydd, gallu i addasu, dyfalbarhad a gwydnwch. Nododd partneriaethau fod myfyrwyr wedi mireinio medrau penodol yn eu haddysgu, er enghraifft, eu medrau cwestiynu wrth gynllunio ar gyfer dysgu ar-lein, ac roeddent wedi mynd i'r afael â chynllunio a darparu adnoddau mewn ffyrdd newydd wrth baratoi gwersi anghydamserol[2].

### Dathlu gwaith myfyrwyr mewn cynhadledd ar-lein

Ym mis Mai 2021, cynhaliodd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa gynhadledd 'Anelu at Ragoriaeth', a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol blaenllaw. Hefyd, darparodd y gynhadledd lwyfan i fyfyrwyr ar yr holl raglenni AGA yn y bartneriaeth i gyflwyno agweddau ar eu hymchwil, ymarfer a dysgu o'u profiadau o hyfforddi yn 2020-2021. Drwy'r gynhadledd, dangosodd y bartneriaeth allu'r staff i addasu a'u hymrwymiad yn y brifysgol ac ysgolion partner i barhau i gefnogi myfyrwyr, a dathlodd wydnwch myfyrwyr drwy'r cyfnod heriol hwn.

### Datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o addysgegau digidol

Mae gan Bartneriaeth Prifysgol De Cymru arbenigedd sefydledig mewn dysgu digidol. Wrth addasu'r rhaglen BA (Anrh) Addysg Gynradd ar gyfer 2020-2021, sylweddolodd arweinwyr y bartneriaeth y byddai datblygu medrau digidol myfyrwyr yn hollbwysig i helpu myfyrwyr i ymdopi â gofynion dysgu o bell. Mae ymagweddau at addysgu a dysgu digidol wedi'u hintegreiddio ar draws y rhaglen AGA, gan ddarparu sylfaen ddealltwriaeth gref o addysgeg i fyfyrwyr gan ddefnyddio offer digidol. Darperir dyfais ddigidol i'r holl fyfyrwyr i archwilio dulliau a chymwysiadau, a chreodd tiwtoriaid y brifysgol fideos i gefnogi defnydd myfyrwyr o gymwysiadau amrywiol gyda disgyblion. O ganlyniad, addasodd myfyrwyr yn dda i addysgu ar-lein. Ymchwiliont i ystod o atebion creadigol i ddysgu o bell ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm. Mae myfyrwyr yn adrodd eu bod wedi dysgu llawer o fedrau newydd yn ystod y cyfnod clo.

[1] Data heb ei gyhoeddi a ddarparwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
[2] Mae dysgu anghydamserol yn digwydd pan fydd ymarferwyr yn paratoi gwersi y mae dysgwyr yn mynd atynt ar amserau gwahanol. Mae'n cynnig hyblygrwydd i ddysgwyr yn eu hastudio. Mae dysgu anghydamserol yn digwydd ar-lein yn aml, a gall gynnwys gwersi wedi'u rhag-recordio y bydd dysgwyr yn eu gwylio'n annibynnol.

# Crynodebau sector: Addysg gychwynnol athrawon

Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau yn sgil COVID-1 wedi golygu bod myfyrwyr wedi cael llai o gyfleoedd i ymgysylltu ag:

- addysgu sesiynau ymarferol
- cynllunio ar gyfer ystod ddysgu lawn mewn pwnc, yn enwedig y rheiny sy'n dilyn rhaglenni uwchradd, gan gynnwys cynllunio ar gyfer myfyrwyr TGAU a Safon Uwch
- rhyngweithio â disgyblion yn yr ystafell ddosbarth a chyd-destunau ehangach, fel amser egwyl, amser cinio, a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- gweithio gydag oedolion eraill yn yr ystafell ddosbarth ac arsylwi athrawon yn gweithio mewn ystod o gyd-destunau
- ystod o ddulliau rheoli yn yr ystafell ddosbarth
- cynnal prawf ar y cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer yn yr ysgol

Fel ymateb, mae Llywodraeth Cymru (2021j) wedi darparu cynllun grant i gefnogi'r rheiny ar raglenni AGA yn 2020-2021 nad ydynt, oherwydd cyfyngiadau COVID yng Nghymru, yn genedlaethol, lleol neu unigol, wedi gallu cael profiad digonol mewn ysgol i ddangos tystiolaeth o gyrhaeddiad i Statws Athro Cymwysedig (SAC) gael ei ddyfarnu.

## Addysgu a dysgu

Golygai cyfyngiadau'r pandemig nad oedd myfyrwyr yn gallu ymgymryd â phrofiadau yn yr ysgol yn y ffyrdd y cynlluniwyd y rhain ar eu cyfer yn wreiddiol ar gyfer tymor yr hydref. I ymateb i hynny, ailddyluniodd yr holl bartneriaethau eu rhaglenni i ddwyn astudiaeth academaidd a theori ymlaen at ddechrau'r flwyddyn. Roedd cyfleoedd cyfyngedig i fyfyrwyr, mentoriaid a thiwtoriaid gyfarfod wyneb yn wyneb, ond pan ddigwyddodd hyn, fe wnaeth myfyrwyr elwa o'r cyfle i archwilio agweddau ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth ac i feithrin perthnasoedd gyda'u cyfoedion a staff y bartneriaeth. Darparodd ychydig o bartneriaethau gyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr gynnal prawf ar eu strategaethau addysgu trwy 'ficro-addysgu' ar-lein[3]. Fe wnaeth hyn helpu myfyrwyr i feithrin eu hyder a'u hamrediad dulliau mewn amgylchedd cefnogol.

Golygai'r angenrheidrwydd i ad-drefnu'r rhaglenni, law yn llaw ag anawsterau gweithio mewn ysgol, fod myfyrwyr wedi cael llai o gyfleoedd i ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, neu i gasglu tystiolaeth i gefnogi'u haseiniadau ymchwil. Mewn rhai ysgolion, fodd bynnag, cafodd myfyrwyr fwy o gyfleoedd i ymgysylltu â dysgu proffesiynol gyda staff ysgolion trwy ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol rhithwir. Yn yr ysgolion arweiniol mwyaf effeithiol, roedd myfyrwyr wedi gallu cael profiad o ymagweddau at ddysgu proffesiynol gydol gyrfa, a gweld sut mae'r ysgolion hyn yn cefnogi staff i ddatblygu'u syniadau a'u medrau yn barhaus.

### Ymagwedd addasedig at ymchwil i gefnogi gwella ysgolion

Fe wnaeth Partneriaeth Caerdydd ailystyried yr ymagwedd a fabwysiadwyd at aseiniadau ymchwil myfyrwyr eleni. Nid oedd myfyrwyr TAR yn gallu casglu tystiolaeth mewn ysgolion i archwilio'r cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer yn nhymor yr hydref. Yn lle hynny, fe wnaethant ddadansoddi ystod o lenyddiaeth addysgol yn feirniadol i archwilio maes datblygu o gynllun gwella eu hysgol. Buont yn gweithio gyda'r 'Hyrwyddwyr Ymchwil' yn yr ysgolion arweiniol i sicrhau y byddai eu hymagwedd yn berthnasol i gyd-destun yr ysgol. Helpodd hyn atgyfnerthu'r diwylliant ymchwil yn yr ysgol. Cynhyrchodd myfyrwyr ffeithlun i ddangos syniadau allweddol i fynd i'r afael â'r mater. Mewn rhai achosion, cyflwynodd myfyrwyr eu canfyddiadau i uwch arweinwyr ac i lywodraethwyr ysgol. Fe wnaeth yr aseiniad helpu myfyrwyr i ystyried sut gellid defnyddio ymchwil i wella ymarfer mewn cyd-destun go iawn. Ar yr un pryd, adroddodd ysgolion arweiniol fod gwaith y myfyrwyr yn fuddiol i'r ysgol.

[3] Techneg sy'n galluogi myfyrwyr i ymarfer eu haddysgu i grŵp bach o'u cyfoedion

# Crynodebau sector: Addysg gychwynnol athrawon

Her arbennig eleni fu paratoi myfyrwyr i addysgu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion partneriaeth ar gamau datblygu amrywiol wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, fel yr amlinellir yn ein hadroddiad 'Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru' (Estyn, 2020h). Mae llawer o ysgolion arweiniol wedi bod yn gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm fel ysgolion arloesi, ysgolion braenaru neu ysgolion Gwella Ansawdd, ac mae tiwtoriaid prifysgol wedi ymgysylltu ag agweddau amrywiol ar waith y Cwricwlwm i Gymru hefyd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i fyfyrwyr gael profiadau uniongyrchol o'r modd yr oedd ysgolion yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi bod yn gyfyngedig, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Yn yr achosion gorau, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, bu staff yn annog myfyrwyr i ddatblygu cynlluniau arloesol ar gyfer dysgu, ac roedd myfyrwyr yn gweld sut roedd ysgolion yn mynd ati i ddiwygio'r cwricwlwm mewn cyd-destunau gwahanol. Mae ymagweddau at ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm yn rhy amrywiol ar draws yr holl raglenni.

Mae prosesau gan yr holl raglenni i asesu trywydd myfyrwyr tuag at Statws Athro Cymwysedig (SAC) fel yr amlinellwyd mewn canllawiau diwygiedig Coronafeirws (COVID-19): canllawiau dros dro ychwanegol ar gyfer partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) Ionawr 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021c). Mae holl staff partneriaethau yn deall egwyddorion gwneud hyn, er, yn ymarferol, bu'n heriol gweithio gyda'r holl bartneriaid i sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth gan bawb o sut i farnu trywydd cynnydd myfyrwyr yn erbyn y safonau ar gyfer SAC. Yn gyffredinol, roedd myfyrwyr yn gweld y broses cyflwyno tystiolaeth yn un heriol. Roeddent yn ei gweld hi'n anodd nodi tystiolaeth berthnasol, yn enwedig yn erbyn safonau lle maent yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o brofiad. Yn 2021-2022, bydd y myfyrwyr hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gallu casglu mwy o dystiolaeth trwy gynllun grant Llywodraeth Cymru.

## Arweinyddiaeth

Er gwaethaf ansicrwydd COVID-19, mae prifysgolion ac ysgolion arweiniol wedi arddangos dycnwch ac ystwythder nodedig wrth weithio gyda'i gilydd i gefnogi athrawon dan hyfforddiant eleni. Mae ysgolion arweiniol wedi dangos ymrwymiad arbennig i AGA, gan sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu elfennau o'r rhaglenni yn yr ysgol yn ystod cyfnodau pan oeddent yn wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig.

Mae systemau gan yr holl bartneriaethau i olrhain cynnydd myfyrwyr ac i ymyrryd mewn modd amserol a phriodol pan fydd materion yn codi gyda myfyrwyr unigol. Fodd bynnag, er bod llawer o bartneriaethau wedi casglu ystod eang o ddata am gynnydd myfyrwyr, mae systemau effeithiol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella i lywio gwelliannau ar gyfnod cynnar o ran eu datblygu.

### Dulliau amgen o gefnogi athrawon dan hyfforddiant yn yr ysgol

Cyn y pandemig, byddai tiwtoriaid cyswllt prifysgol o Bartneriaeth Aberystwyth yn ymweld ag ysgolion i werthuso cynnydd myfyriwr. I oresgyn cyfyngiadau teithio i ysgolion, datblygodd Partneriaeth Aberystwyth broses o 'arsylwadau heb eu gweld'. Cyn i'r myfyriwr addysgu gwers, roedd y myfyriwr a'i diwtor prifysgol yn cyfarfod ar-lein i drafod cynllun y wers a'r dysgu bwriadedig. Wedi i'r mentor arsylwi'r myfyriwr yn addysgu, roedd y myfyriwr, y mentor a'r tiwtor prifysgol yn cyfarfod eto ar-lein. Roedd y tiwtor prifysgol yn gwrando ar adborth y mentor ac ar y myfyriwr yn myfyrio ar y wers. Yn dilyn hyn, roedd y tri chyfranogwr yn trafod sut gallai'r myfyriwr wneud cynnydd. Roedd y strategaeth yn caniatáu deialog barhaus rhwng tiwtoriaid, mentoriaid a myfyrwyr.

# Crynodebau sector: Addysg gychwynnol athrawon

Mae'r holl bartneriaethau wedi wynebu anawsterau yn lleoli myfyrwyr mewn ysgol eleni oherwydd cyfyngiadau COVID-19. O ganlyniad, mae partneriaethau wedi estyn allan i rwydwaith ehangach o ysgolion i gefnogi myfyrwyr. Fe wnaeth datblygu perthnasoedd gyda'r consortia rhanbarthol gefnogi rhannu gwybodaeth am ysgolion, ac fe wnaeth hynny helpu'r partneriaethau â lleoliadau myfyrwyr. Fodd bynnag, golygai ehangu'r bartneriaeth, ynghyd â chyfyngiadau ar ymweld ag ysgolion, nad yw partneriaethau wedi ymgymryd â gweithdrefnau sicrhau ansawdd a datblygiad mentoriaid unigol, yn unol â'r bwriad. O ganlyniad, mae myfyrwyr wedi cael profiadau ysgol sy'n amrywio'n sylweddol.

Mae'r holl bartneriaethau wedi gweld gwerth mewn cyfarfod yn rhithwir, ac mae hyn wedi bod o fudd i'w datblygiad. Mae llawer o bartneriaethau wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio gyda'u mentoriaid, sy'n goresgyn ffiniau daearyddol a chyfyngiadau o ran amser. Mae gweminarau a digwyddiadau dysgu proffesiynol ar-lein wedi cynorthwyo mentoriaid i ddatblygu eu hymarfer. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae mentoriaid wedi rhannu eu profiadau a'u hymchwil i fentora trwy gydol y pandemig.

Dangosodd yr holl bartneriaethau ymrwymiad cryf i gydweithio, ac mae eu perthnasoedd gweithio yn aeddfedu. Sicrhaodd pob partneriaeth fod yr holl bartneriaid wedi'u cynrychioli'n gyfartal ar fyrddau a phwyllgorau arwain. Maent yn dechrau archwilio'r ffyrdd y gallai arbenigedd pob sefydliad partner gyfrannu'n fwyaf effeithiol at arweinyddiaeth strategol y bartneriaeth. Mae'r holl bartneriaethau'n datblygu diwylliant o arfer wedi'i llywio gan ymchwil. Mae prifysgolion yn cefnogi datblygu ymholi yn eu hysgolion arweiniol, ac mae partneriaethau'n gweithio gyda'i gilydd i lywio datblygiad y sector.

**Defnyddio ymchwil i ddatblygu dulliau o asesu athrawon dan hyfforddiant**

Ym mhartneriaeth CaBan, mae grŵp datblygu mentoriaid sy'n cynnwys staff y bartneriaeth o ysgolion a'r brifysgol yn ymchwilio i ddod o hyd i'r ffordd fwyaf effeithiol o ddisgrifio cynnydd athro dan hyfforddiant trwy ei raglen addysg gychwynnol i athrawon. Maent wedi adolygu'r llenyddiaeth ar ddilyniant myfyrwyr i nodi ymddygiadau nodweddiadol ar adegau penodol ar ddechrau datblygiad athro. Mae hyn wedi llywio set o ddisgrifwyr i'w defnyddio gan fentoriaid wrth asesu cynnydd myfyrwyr tuag at SAC.

Mae'r tiwtoriaid a'r mentoriaid yn y grŵp yn ymchwilio i'r agwedd hon ar eu gwaith fel rhan o'u hastudiaethau ymchwil ôl-raddedig eu hunain. Bydd y bartneriaeth yn treialu'r defnydd o ddisgrifwyr drafft ac arweiniad ar gyfer asesu ar draws y bartneriaeth. Yn dilyn y cynllun peilot, bydd y bartneriaeth yn gwerthuso a mireinio'r dulliau hyn.



Adran 1

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

## Cyd-destun

Yn Awst 2016, trosglwyddwyd cyfrifoldeb llawn am y sector Cymraeg i Oedolion i’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Y Ganolfan). Mae’r Ganolfan yn gorff hyd braich a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi’i lleoli ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant. Mae’n ariannu rhaglenni Cymraeg i Oedolion a gyflwynir gan 11 o ddarparwyr ‘Dysgu Cymraeg’. Mae’r Ganolfan yn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen ‘Cymraeg Gwaith’, sy’n amcanu at gryfhau medrau dwyieithog cyflogeion yn y gweithle.

Ers sefydlu’r Ganolfan, mae nifer y dysgwyr sy’n cofrestru ar gyrsiau a nifer y gweithgareddau dysgu a gynhelir wedi parhau i gynyddu (Llywodraeth Cymru, 2020c). Cynhwyswyd ffigurau’r cynllun cenedlaethol Cymraeg Gwaith yn llawn am y tro cyntaf yn 2019-2020. Fodd bynnag, bu gostyngiad sylweddol yn y cyllid ar gyfer y rhaglen hon yn 2020-2021.

Eleni, parhaodd darparwyr Dysgu Cymraeg i ddarparu ystod lawn o gyrsiau a gweithgareddau dysgu anffurfiol yn rhithwir. Roedd ychydig o ddarparwyr yn cynnig ystod fach o gyrsiau wyneb yn wyneb pan roedd amgylchiadau’n caniatáu hynny. O ganlyniad, aethom ymlaen â’r arolygiad arfaethedig o’r Ganolfan a’n harolygiad rhithwir cyntaf, ym mis Ionawr 2021. Yn ogystal, yn ystod tymor yr haf, cynhaliom gyfres o gynigion i beilota dulliau arolygu ar gyfer dysgu cyfunol.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Estyn.
(Estyn, 2021a)

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

## Lles

Yn ystod yr arolygiad o'r Ganolfan, a gynhaliwyd yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, fe wnaeth bron i 1,700 o ddysgwr lenwi ein holiadur dysgwyr. Roedd bron yr holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau eu dysgu, a dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn derbyn cymorth personol da gan eu tiwtoriaid. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ei gweld hi'n hawdd chwilio am wybodaeth a chofrestru ar gyfer cyrsiau drwy'r llwyfan digidol cenedlaethol. Yn gyffredinol, roedd lefelau bodlonrwydd dysgwyr yn uchel.

Defnyddiodd arweinwyr y Ganolfan adborth gan ddysgwyr i helpu cynllunio'r ddarpariaeth i fodloni'u hanghenion a'u diddordebau. Yn ystod y pandemig, bu'r Ganolfan yn arbrofi â chynllunio darpariaeth trwy gofrestru dysgwyr yn genedlaethol ac yna cydweithio â darparwyr unigol i drefnu cyrsiau yn eu hardaloedd ar adegau oedd yn gyfleus i'r dysgwyr. Fe wnaeth hyn alluogi dysgwyr i gyfrannu at y broses o strwythuro darpariaeth, yn seiliedig ar eu hargaeledd.

Creodd darparwyr Dysgu Cymraeg amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol, a anogodd dysgwyr i ymarfer eu medrau iaith heb ofni gwneud camgymeriadau. Roedd y rhan fwyaf o diwtoriaid wedi cynorthwyo dysgwyr i osod targedau personol defnyddiol, gwerthuso cynnydd, a chynllunio camau nesaf eu dysgu. Nododd dysgwyr fod mynychu cyrsiau wedi bod yn fuddiol i'w lles yn ogystal â'u cynnydd fel dysgwyr Cymraeg.

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Mae tiwtoriaid wedi parhau i ddatblygu'u methodolegau addysgu ar gyfer gweithio mewn amgylchedd ar-lein yn effeithiol. Er enghraifft, maent wedi datblygu strategaethau i ymgysylltu dysgwyr ag adnoddau dysgu ar-lein a dysgu cyfunol sydd newydd eu datblygu.

Mae'r Ganolfan wedi llwyddo i ddod â mwy o gysondeb i'r ddarpariaeth Dysgu Cymraeg ledled Cymru. Mae wedi creu cwricwlwm cenedlaethol a llyfrau cwrs ar draws pob lefel. Mae defnyddio llwyfan digidol sefydledig y Ganolfan i ddysgwyr chwilio, cofrestru a thalu am gyrsiau wedi galluogi'r sector i adweithio'n gyflym i'r pandemig drwy symud y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ar-lein. Yn ychwanegol at ddarparu dysgu ar-lein, mae'r llwyfan yn cynnal ystod o adnoddau digidol sy'n galluogi ymarferwyr i rannu arfer dda. Mae hefyd yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus i staff Dysgu Cymraeg, gan gynnwys dulliau o addysgu a dysgu ar-lein. Mae gan y Ganolfan Genedlaethol ychydig iawn o gyllid i helpu dysgwyr gael mynediad i gyrsiau, gan gynnwys y rheiny sy'n dioddef tlodi digidol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r cyllid hwn yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Adroddodd y rhan fwyaf o ddysgwyr fod dysgu Cymraeg wedi'u helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned Gymraeg ehangach.

# Crynodebau sector: Cymraeg i Oedolion

## Arweinyddiaeth

Mae’r Ganolfan wedi datblygu perthynas waith adeiladol a chefnogol gyda darparwyr Dysgu Cymraeg sy’n eu galluogi i gynnal trafodaethau gonest a heriol, pan fo angen. Mae arweinwyr o bob rhan o’r Ganolfan a’r 11 o ddarparwyr Dysgu Cymraeg wedi parhau i weithio’n agos â’i gilydd i addasu a gwella darpariaeth ymhellach, gan adeiladu ar y cyfarfodydd rheolaidd a sefydlwyd i rannu arfer yn gynnar yn ystod y pandemig.

Gweithiodd y Ganolfan yn agos gyda’r darparwyr Dysgu Cymraeg unigol i gefnogi lles a gofal y gweithlu drwy ddarparu rhaglen lles ac iechyd meddwl gydag arbenigwr allanol. Mae cyfranogiad yn y rhaglen, sy’n cynnwys ymdopi â newid, gwydnwch meddwl a gofalu am les wrth weithio o gartref, wedi bod yn uchel iawn. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les tiwtoriaid a’u cyfranogiad parhaus yn y sector yn ystod y pandemig.

Mae’r Ganolfan wedi datblygu i fod yn llais cenedlaethol, dylanwadol i’r sector. Mae wedi llwyddo i greu ystod eang o bartneriaethau strategol gyda sefydliadau cenedlaethol i ymestyn y cynnig dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae’r Ganolfan wedi manteisio ar y partneriaethau hyn i ddarparu ystod amrywiol a chyffrous o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau ieithyddol, boed hynny’n gymdeithasol, yn ddiwylliannol neu’n broffesiynol, gan gynnwys trwy gydol y pandemig. Mae gan y Ganolfan weledigaeth glir i weddnewid tirlun ieithyddol Cymru drwy gefnogi dysgwyr i ddod yn ddefnyddwyr y Gymraeg o fewn eu cymunedau, gweithleoedd a rhwydweithiau, beth bynnag fo’u lefel ieithyddol. O ganlyniad, mae’r sector Cymraeg i Oedolion yn cyfrannu’n effeithiol at nod Llywodraeth Cymru (2017) o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



Adran 1

# Crynodebau sector: Gyrfaoedd



## Cyd-destun

Mae Gyrfa Cymru yn is-gorff ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru, sy’n darparu cyngor ac arweiniad annibynnol a diduedd ar yrfaoedd ar gyfer pobl o bob oed. Eleni, lansiodd Gyrfa Cymru (2021) ei weledigaeth pum mlynedd newydd, ‘Dyfodol Disglair’. Nod y strategaeth newydd hon yw darparu ‘cyfarwyddyd ac anogaeth ddiduedd o ansawdd uchel ar yrfaoedd a all gael effaith gadarnhaol ar... ddeilliannau addysg, cyflogaeth a llesiant’ (Gyrfa Cymru, 2021, tud.4). Mae’n gymwys i ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd, pobl ifanc 16-18 oed mewn dysgu a gwaith, ac oedolion y mae angen cymorth ac arweiniad ar yrfaoedd arnynt.

# Crynodebau sector: Gyrfaoedd



I ategu'r strategaeth hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau drafft i gefnogi thema drawsbynciol gyrfaoedd a phrofiadau'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Comisiynwyd cyngor annibynnol i adolygu cyhoeddiadau diweddar gan Estyn, Llywodraeth Cymru a Gatsby Foundation (2013) i'w ystyried yn ystod datblygu deunydd cyfarwyddyd.

Yn ein hadroddiad thematig 'Partneriaethau ôl-16' (Estyn, 2021q), canfuom fod llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r arweiniad a gânt yn yr ysgol, ond mae lleiafrif ohonynt yn teimlo nad yw hyn yn cynnig digon o wybodaeth am lwybrau eraill heblaw am astudiaethau Safon Uwch, ymhellach na chweched dosbarth yr ysgol ei hun. Mae llawer o ddysgwyr o'r farn nad ydynt yn gwybod digon am ansawdd yr opsiynau sydd ar gael iddynt a'r deilliannau a gyflawnwyd gan ddysgwyr a gwblhaodd y cyrsiau hynny'n ddiweddar.

Adran 1

# Crynodebau sector: Dysgu yn y sector cyfiawnder



## Cyd-destun

Yng Nghymru, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid, mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arwain arolygiadau o garchardai, gan gynnwys y sefydliad troseddwyr ifanc, ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn arwain arolygiadau o'r cartref diogel i blant. Mae Estyn yn ymuno â'r timau hyn i arolygu ansawdd addysg a hyfforddiant.

Gellir gweld arweiniad arolygu Estyn ar gyfer arolygu carchardai yng Nghymru yma:

<u>Estyn, Arweiniad Arolygu</u>

# Crynodebau sector:
# Dysgu yn y sector cyfiawnder

## Arolygu Gwasanaethau Prawf

Nid yw AEM Prawf wedi cynnal unrhyw arolygiadau o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru eleni.

## Arolygu cartrefi diogel i blant

Nid yw AGC wedi arolygu'r ddarpariaeth addysg yng Nghanolfan Ddiogel Hillside eleni.

## Arolygu carchardai

Ym mron yr holl garchardai yng Nghymru, cyflwynir addysg a hyfforddiant gan y carchardai, yn hytrach nag asiantaethau allanol. Yng Ngharchar Ei Mawrhydi Berwyn, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn contractio gyda Novus Cambria i gyflwyno addysg.

Eleni, gweithiodd Estyn gyda phartneriaid i arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer oedolion yng Ngharchar Ei Mawrhydi (CEM) Abertawe ac ar gyfer pobl ifanc yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc (STI) Parc a CEM Brynbuga a Phrescoed. Hefyd, cynhaliodd Estyn gyswllt â charchardai eraill yng Nghymru (CEM Caerdydd, CEM Parc a CEM Berwyn) drwy gyfweliadau ffôn.

Gellir gweld adroddiadau arolygu cyhoeddedig ACEM yma:

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

## Lles

O dan gyfarwyddyd gan Lywodraeth y DU, y flaenoriaeth mewn carchardai yng Nghymru fu lleihau trosglwyddo salwch gymaint ag y bo modd yn ystod y pandemig. Mae hyn wedi golygu, ym mron bob carchar, am ran fwyaf y cyfnod cyfyngiadau, fod carcharorion wedi'u cyfyngu i'w celloedd am hyd at 23 awr y dydd. Gwnaeth pob carchar drefniadau i ynysu carcharorion a oedd yn dangos symptomau o salwch, ac i alluogi'r rhai â chyflyrau meddygol blaenorol a'u gwnaeth yn fwy agored i niwed, i ynysu'u hunain.

Cafodd carchardai gyfarwyddyd i atal trefniadau i deuluoedd a ffrindiau ymweld â charcharorion yng nghyfnodau cynnar cyfyngiadau'r pandemig, oherwydd y risg y byddai ymwelwyr yn cyflwyno haint i garchardai. Rhoddodd bob carchar gredyd ffôn ychwanegol i garcharorion i'w galluogi i gadw cysylltiad â'u teuluoedd. Hefyd, sefydlont gyfleusterau a oedd yn galluogi carcharorion i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd drwy system ffôn fideo ddiogel y teimlai'r rhan fwyaf o garcharorion ei fod yn ddefnyddiol iawn iddynt.

# Crynodebau sector:
# Dysgu yn y sector cyfiawnder

Yn CEM/STI Parc, mae'r ddarpariaeth addysg wedi ennyn diddordeb pobl ifanc mewn dysgu trwy gydol y pandemig yn effeithiol ac wedi'u galluogi i wneud cynnydd yn eu dysgu. Trwy gydol cyfnod y cyfyngiadau, mae'r uned pobl ifanc wedi parhau i ddarparu addysg i'w dysgwyr, gan eu galluogi i gael mynediad i weithdai neu sesiynau yn y dosbarth am leiafswm o ddwy awr bob diwrnod o'r wythnos, tra'n rheoli'u risgiau o ddod i gysylltiad â haint drwy eu dyrannu i swigod carfannau bach.

Bu gweithwyr allymestyn staff addysg Abertawe yn ymgysylltu'n dda â charcharorion ar adenydd i'w helpu i barhau â'u haddysg. Mae hyn wedi galluogi i fwyafrif o garcharorion ennill cymwysterau achredig ar ystod o lefelau tra bod cyfyngiadau'n gysylltiedig â COVID ar waith. Dechreuodd staff CEM Berwyn ddefnyddio teleffoni mewn celloedd i gefnogi dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau, gan alluogi ychydig o garcharorion i symud ymlaen at ennill achrediad. Mewn carchardai eraill heb y dechnoleg hon, mae staff wedi bod yn ymateb i geisiadau gan ychydig o garcharorion ac wedi rhoi adnoddau dysgu printiedig neu wedi'u llungopïo iddynt i'w galluogi i barhau i astudio. Gwnaeth ychydig o garcharorion ym Mrynbuga a Phrescoed gynnydd da tuag at gyrsiau'r Brifysgol Agored neu gyrsiau a ariennir gan yr Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion. Ym Mrynbuga, roedd ychydig o garcharorion wedi cael deunyddiau celf, ac roeddent yn teimlo eu bod wedi bod yn fuddiol i'w hiechyd meddwl.

Ym mhob carchar, mae mynediad carcharorion i ddeunyddiau llyfrgell wedi bod yn gyfyngedig iawn. Ymatebodd staff addysg yn gyflym i gyfyngiadau'r cyfnod clo drwy gynhyrchu pecynnau ar gyfer carcharorion i dynnu'u sylw. Roedd y rhain yn cynnwys cwisiau, ymarferion chwilio am eiriau ac, mewn nifer o garchardai, erthyglau wedi'u hysgrifennu gan garcharorion. Roedd y pecynnau'n canolbwyntio ar adnoddau lles hefyd.

## Addysgu, dysgu a'r cwricwlwm

Fe wnaeth rheolaeth CEM/STI Parc o ddarpariaeth dysgwyr gynyddu'n raddol lefel y gweithgareddau y gallent eu gwneud dros y flwyddyn, ac o 19 Ebrill 2021, ymestynnwyd y cynnig gweithgareddau addysgol i ddysgwyr i 4½ awr y dydd. Gwnaed hyn yn bosibl gan y ffaith mai dim ond nifer fach o bobl ifanc oedd yn y sefydliad ac roeddent wedi'u hynysu oddi wrth boblogaeth y prif garchar. Yn sgil parhau i ddarparu gweithgareddau addysg a medrau, bu modd iddynt ennill llawer o gymwysterau rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.
.
Er bod mynediad i weithgareddau addysg mewn mannau eraill wedi bod yn gyfyngedig iawn, mae'r holl garchardai wedi parhau i ddyrannu lleiafrif o garcharorion i rolau gwaith hanfodol.

Yn CEM Abertawe, mae swyddi hanfodol a ddyrannwyd i garcharorion, fel teilwra, gwaith cynnal a chadw'r adeilad, gwaith glanhau neu becynnu bwyd wedi parhau ar agor. Roedd trefniadau da ar waith i garcharorion gynnal hylendid mewn gweithdai. Addasodd y carchar weithgareddau gwaith i ymateb yn dda i effaith COVID-19. Er enghraifft, dechreuodd carcharorion yn y gweithdy teilwra wneud dillad diogelu ar gyfer staff gofal iechyd rheng

flaen. Arweiniodd nodi'r angen am lefelau hylendid uwch o fewn y carchar at y carchar yn cynyddu nifer y carcharorion a oedd yn hyfforddi fel glanhawyr, gyda nifer ohonynt yn cael eu hyfforddi i wneud gwaith bio-glanhau ar adenydd.

Trwy gydol y pandemig, mae carcharorion yn CEM Prescoed wedi cael eu cyflogi i gadw fferm y carchar ar waith, gan ennill medrau mewn lleoliad gwaith dilys. Hefyd, bu carcharorion yn cynnal gardd farchnad Prescoed i dyfu bwyd ar gyfer carcharorion. Cynyddodd rheolwyr y cyfleoedd gwaith yn y carchar drwy agor gweithdy newydd gosod brics, gan alluogi mwy o garcharorion i fod yn gysylltiedig â gwaith a hyfforddiant. Hefyd, gwnaeth Prescoed ddefnydd effeithiol o'i gysylltiadau â chyflogwyr allanol i osod carcharorion mewn cyfleoedd gwaith yn y gymuned trwy gydol cyfnod y cyfyngiadau.

**Datblygu adnoddau addysg ar gyfer carcharorion**

Er bod mynediad i adnoddau ar-lein yn gyfyngedig iawn ym mhob carchar, mae CEM Caerdydd wedi dechrau cynhyrchu a datblygu adnoddau addysg teledu ar gyfer carcharorion. Gall carcharorion gael mynediad i'r deunyddiau hyn o'u celloedd. Bydd y carchar yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau hyn ar ôl i gyfyngiadau COVID gael eu codi er mwyn gwella'r profiad dysgu i garcharorion. Mae carchardai eraill, fel Brunbuga ac Abertawe, wedi gweithio mewn partneriaeth â Chaerdydd i archwilio sut y gallent ddatblygu'r cyfleuster hwn yn eu carchardai.

## Arweinyddiaeth

Rhoddodd arweinwyr a rheolwyr yn yr holl garchardai flaenoriaeth uchel i leihau risg trosglwyddo haint yn eu carchardai. Maent wedi rheoli cadw pellter cymdeithasol yn dda o fewn eu sefydliadau. Adroddodd llawer o garcharorion yn CEM Abertawe fod uwch reolwyr wedi cyfathrebu'n dda â nhw i sicrhau eu bod yn deall sut yr oedd trefniadau'n cael eu rheoli er mwyn sicrhau diogelwch carcharorion.

Ym mhob un o'r carchardai, cyflwynodd arweinwyr a rheolwyr brofion rheolaidd yn gynnar i'r staff. Cafodd llawer o staff addysg a hyfforddiant eu gwahodd i weithio gartref am ran o'r wythnos, lle'r oeddent yn gallu datblygu a diweddaru adnoddau dysgu. Fe wnaeth hyn leihau'r traffig i mewn i garchardai.

Mae'r holl garchardai wedi talu sylw manwl i ganllawiau Llywodraeth Ganolog y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â diogelwch mewn carchardai. Cynhaliodd staff addysg a hyfforddiant asesiadau risg cynnar o ystafelloedd dosbarth i nodi faint o ddysgwyr y gallai pob un eu derbyn pan gafodd carchardai gyfarwyddyd y gallai gweithgareddau addysg ailddechrau ond gan gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, yn CEM Brynbuga, mae'r ailgyflwyno hwn wedi bod yn gyfyngedig oherwydd ystafelloedd dosbarth bach iawn yr adeilad.

Bu staff addysg a hyfforddiant mewn carchardai yng Nghymru yn gweithio'n dda â'i gilydd i rannu adnoddau i'w cynnwys mewn pecynnau adnoddau ar gyfer carcharorion.

### Cynnal cyfathrebu da gyda charcharorion

Gwnaeth llywodraethwr CEM Abertawe deithiau mynych o amgylch adenydd llety'r carchar i gyfathrebu'n rheolaidd â charcharorion trwy gyfnod cyfyngiadau'r pandemig. Roedd carcharorion yn gwerthfawrogi'r ymdrechion hyn i roi gwybodaeth gyson iddynt, a rhoddodd hyn gyfleoedd iddynt ddeall sut yr oedd y trefniadau wedi gwella diogelwch carcharorion.

Adran 1

# Crynodebau sector: Gweithgarwch dilynol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed, UCDau a lleoliadau meithrin nas cynhelir

## Cyd-destun

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, roedd angen gweithredu mesurau arbennig mewn 12 ysgol uwchradd, naw ysgol gynradd a dwy uned cyfeirio disgyblion (UCDau). Roedd angen gwelliant sylweddol ar naw ysgol uwchradd, dwy ysgol pob oed a chwe ysgol gynradd. Yn ogystal, roedd angen gwelliant â ffocws ar bedwar lleoliad nas cynhelir. Hyd yn ddiweddar iawn, nid ydym wedi gallu monitro cynnydd y darparwyr hyn yn uniongyrchol oherwydd y cyfyngiadau yn sgil y pandemig.

# Crynodebau sector: Gweithgarwch dilynol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed, UCDau a lleoliadau meithrin nas cynhelir

Trwy gydol y flwyddyn academaidd, cynhaliom gysylltiad agos â'r ysgolion, UCDau a lleoliadau nas cynhelir bregus hyn. Dyrannom AEM bugeiliol i bob ysgol neu UCD. Roedd gan yr AEM bugeiliol brofiad o weithio'n uniongyrchol â'r darparwr ac mae'n adnabod eu cyd-destun yn dda. Dyrannom arolygydd arweiniol i gadw cysylltiad â lleoliadau yn y categori gwelliant â ffocws. Yn gyffredinol, gwnaed cyswllt bob hanner tymor â darparwyr yn y categori mesurau arbennig, a bob tymor â darparwyr yn y categori gwelliant sylweddol a gwelliant â ffocws. Fodd bynnag, i leiafrif o ddarparwyr, roedd cyswllt yn digwydd yn fwy mynych i ymateb i anghenion penodol y darparwyr.

Gwnaed bron yr holl gyswllt dros dymor yr hydref a thymor y gwanwyn trwy gyfarfodydd rhithwir gydag arweinwyr. Trwy drafodaethau cefnogol, mae arolygwyr wedi gallu deall sefyllfa'r ysgol/UCD/lleoliad o ran lles dysgwyr a staff, dulliau dysgu o bell ac arweinyddiaeth. Bu arolygwyr ac arweinwyr yn trafod y cynnydd y mae darparwyr wedi gallu ei wneud wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad craidd, yn ogystal ag effaith cyfnodau estynedig o ddysgu o bell ar gynnydd disgyblion mewn ysgolion ac UCDau. I ychydig o ddarparwyr a gafodd eu rhoi yn y categori mesurau arbennig neu welliant sylweddol yn gynnar yn 2019-2020 cyn y pandemig, rydym wedi adolygu cynllun gweithredu ôl-arolygiad yr ysgol a datganiad o gefnogaeth yr awdurdod lleol yn ystod cyfarfodydd rhithwir gydag arweinwyr, ac wedi cynorthwyo arweinwyr i gryfhau'u cynlluniau, lle bo angen. Lle'r oedd yn briodol, mae arolygwyr wedi cynorthwyo darparwyr i adolygu ac addasu'u cynlluniau gweithredu i gyfrif am newidiadau mewn amserlenni a dulliau gweithredu oherwydd y pandemig. Yn ogystal, lle'r oedd yn briodol, sefydlom drafodaethau gyda'r awdurdod lleol ynglŷn â materion perthnasol a godwyd gan y darparwr.

Dros y flwyddyn, mae ffocws y cyswllt bugeiliol wedi bod yn anwerthusol. Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, mae arweinwyr wedi adrodd am ymdrech barhaus i sicrhau gwelliannau, er gwaetha'r tarfu a'r llwyth gwaith ychwanegol a achoswyd gan y pandemig, gan gynnwys cyfnodau o ddysgu gartref. Mae llawer o arweinwyr wedi bod dan bwysau sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, ac mae arolygwyr wedi nodi bod eu lles wedi dioddef. Er enghraifft, mewn lleoliadau nas cynhelir ac UCDau, nododd arweinwyr fod cryn bwysau arnynt i gadw'r lleoliad ar agor yn ddiogel yn ystod yr ail gyfnod clo. I ysgolion cynradd lle mae ymrwymiad addysgu sylweddol gan lawer o arweinwyr, mae rheoli'r pandemig wedi rhoi straen sylweddol ar y pennaeth.

Wrth i'r pandemig lacio dros y flwyddyn, mae arolygwyr wedi cynnal ymweliadau bugeiliol byr â bron bob darparwr yn y categori mesurau arbennig, a llawer o ddarparwyr yn y categori gwelliant sylweddol. Mae'r ymweliadau anwerthusol hyn wedi bod yn fodd i baratoi at ailddechrau monitro statudol, ffurfiol, yn nhymor yr hydref 2021, fwy na thebyg. Ym mron yr holl ysgolion ac UCDau, mae arweinwyr wedi bod yn falch i groesawu arolygwyr yn ôl i'w darpariaeth ac i egluro'n uniongyrchol y gwaith a wnaed ers mis Mawrth 2020.

# Crynodebau sector: Gweithgarwch dilynol mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed, UCDau a lleoliadau meithrin nas cynhelir

Yn ystod ail hanner tymor yr haf, ailddechreuodd arolygwyr weithgarwch monitro ffurfiol ar y safle mewn nifer fach o ysgolion mewn categori gweithgarwch dilynol statudol. Cafodd un ysgol gynradd yr ymwelwyd â hi ei thynnu o'r categori mesurau arbennig, a chafodd un ysgol uwchradd ei thynnu o'r categori gwelliant sylweddol yn dilyn eu hymweliadau monitro, am eu bod wedi gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael a'r argymhellion o'r arolygiad craidd, a'u bod wedi datblygu'u gallu arwain yn dda.

Yn ystod tymor y gwanwyn, gan weithio ar y cyd ag AGC, tynnom ddau o'r pedwar lleoliad o'r categori gwelliant â ffocws. Derbyniom hysbysiad gan yr awdurdod lleol fod lleoliad arall a oedd mewn categori gwelliant â ffocws wedi cau'n barhaol yn ystod tymor yr hydref 2020. Yn ystod ail hanner tymor yr haf, roeddem wedi gallu ailddechrau monitro gwelliant â ffocws yn ffurfiol, a thynnom un lleoliad o'r categori gwelliant â ffocws.

## Adolygu gan Estyn ac adolygu cynnydd

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd 49 o ysgolion cynradd, 22 o ysgolion uwchradd, tair ysgol arbennig, un ysgol pob oed ac un UCD yn y categori adolygu gan Estyn. Mae hon yn lefel gweithgarwch dilynol anstatudol, lle mae darparwyr yn achosi pryder ond nid i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arnynt. Yn ogystal, roedd 22 o leoliadau nas cynhelir yn y categori adolygu cynnydd, heb gynnwys arolygiadau gan AGC yn unig.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2021, bu arolygwyr yn gweithio gyda swyddogion awdurdod lleol o bob awdurdod i adolygu cynnydd darparwyr a oedd wedi bod yn y categori adolygu gan Estyn am fwy na 18 mis. Yn benodol, bu'r paneli adolygu rhithwir yn ystyried gallu arweinwyr i barhau i wneud gwelliannau. O ganlyniad i'r adolygiadau hyn, cafodd 26 ysgol gynradd, 14 ysgol uwchradd ac un UCD eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Mewn chwe awdurdod gwahanol, penderfynodd y paneli adolygu gadw chwe ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd yn y categori monitro am gyfnod amser pellach. Mae arolygwyr wedi sefydlu adolygiadau pellach ar y cyd i werthuso cynnydd yr wyth darparwr hyn ochr yn ochr â'r darparwyr sy'n weddill sydd yn parhau yn y categori adolygu gan Estyn, yn ystod tymor yr hydref 2021.

Yn ogystal, yn ystod tymor y gwanwyn 2021, bu arolygwyr yn gweithio gyda swyddogion awdurdod lleol o 10 awdurdod lleol i adolygu cynnydd a gallu parhaus lleoliadau nas cynhelir a oedd wedi bod yn y categori adolygu cynnydd am fwy na thri thymor. Tynnom 13 o leoliadau o'r categori adolygu cynnydd, gan weithio mewn partneriaeth ag AGC. Fodd bynnag, cytunodd y panel adolygu i gadw pedwar lleoliad o bedwar awdurdod lleol gwahanol yn y categori adolygu cynnydd am gyfnod amser pellach. Byddwn yn gwerthuso'u cynnydd yn ystod adolygiad pellach gydag awdurdodau lleol, yn ystod tymor yr hydref 2021. Ers mis Medi 2020, mae dau leoliad yn y categori adolygu cynnydd mewn dau awdurdod lleol gwahanol naill ai wedi cau neu wedi rhoi'r gorau i ddarparu addysg a ariennir.

Yn ystod tymor yr haf 2021, gan weithio ar y cyd ag AGC, adolygom gynnydd dau leoliad arall o ddau awdurdod lleol. Tynnom un o'r rhain o'r categori gweithgarwch dilynol pellach, er bod angen amser ychwanegol ar un ohonynt i ymgorffori'r gwelliannau.



## Adran 2

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

## Medi 2020

Ym Medi 2020, ail agorodd ysgolion a cholegau i'r holl ddysgwyr. Bu cyfnod o hyblygrwydd o hyd at bythefnos i gydnabod y gallai ysgolion fod eisiau canolbwyntio ar grwpiau blwyddyn oedd yn cael blaenoriaeth, fel y rhai a oedd yn newydd i ysgolion uwchradd, y rheiny a oedd yn sefyll arholiadau yn yr haf neu'r rheiny mewn dosbarthiadau derbyn. Galluogodd hyn amser ar gyfer unrhyw gynllunio ac ad-drefnu hefyd. Yn dilyn cyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, argymhellwyd gorchuddion wyneb i bob aelod o'r cyhoedd dros 11 oed mewn lleoliadau dan do lle nad oedd modd cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion a cholegau a thrafnidiaeth ddynodedig. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion ac addysg bellach yn mynnu bod lleoliadau ac awdurdodau lleol yn cynnal 'asesiadau risg o'u hystadau er mwyn penderfynu p'un a ddylid argymell bod eu staff a'u pobl ifanc yn gwisgo gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cymunedol'. Roedd hyn yn cynnwys trafnidiaeth ysgolion a cholegau.

Ar 3 Medi, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, er bod effaith COVID-19 wedi'i gwneud yn angenrheidiol ail flaenoriaethu busnes y llywodraeth i adlewyrchu natur ddigynsail yr argyfwng, parhaodd y cod anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a rheoliadau cysylltiedig i fod yn flaenoriaeth allweddol. Byddent yn cael eu gosod gerbron y Senedd yn Chwefror 2021 er mwyn galluogi cychwyn a chyflwyno'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) fesul cam i ddechrau ym mis Medi 2021.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar 7 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £1.8 miliwn a £469,000, ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysg bellach yn y drefn honno, i ddarparu gorchuddion wyneb yn rhad ac am ddim i'r holl ddysgwyr.

Ar 11 Medi, cyhoeddodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, gyfyngiadau newydd ar nifer y bobl a oedd yn cael cyfarfod dan do, gan fod tystiolaeth yn dangos mai cynulliadau dan do oedd prif ffynhonnell trosglwyddo'r feirws yng Nghymru. Anogwyd pobl i weithio o gartref lle bynnag y gallent er mwyn cyfyngu ar gyswllt rhwng pobl, a rhoddwyd pwerau newydd i awdurdodau lleol i gau safleoedd a digwyddiadau ar sail iechyd y cyhoedd. Daeth y newidiadau i rym ar 14 Medi ymysg cynnydd yn nifer yr achosion o'r coronafeirws ledled y wlad, ac wrth i nifer o fannau pryderus o ran yr haint ddod i'r amlwg, yn enwedig yng nghymoedd De Cymru. Roedd pobl yn cael parhau i deithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol at ddibenion cael addysg neu ddarparu addysg.

Ganol Medi, dechreuodd Estyn gynnal galwadau ymgysylltu â lleoliadau nas cynhelir sy'n cael eu hariannu i ddarparu addysg gynnar ledled Cymru er mwyn dysgu mwy am y modd yr oedd lleoliadau unigol a'r sector yn gyffredinol wedi ymdopi ers Mawrth 2020, a sut roeddent yn gweithredu bryd hynny. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar dri phrif destun, gan gynnwys lles, cefnogi dysgu ac ailsefydlu darpariaeth.

Ar 20 Medi, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai Llywodraeth Cymru'n sicrhau y byddai'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn darpariaethau os oeddent yn gwarchod eu hunain neu'n gorfod hunanynysu, diolch i gyllid o £420,000.

Ar 21 Medi, argymhellodd y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch y dylai lefel rhybudd COVID-19 symud o lefel 3 (Mae epidemig COVID-19 ar led yn gyffredinol) i lefel 4 (Mae epidemig COVID-19 ar led yn gyffredinol; mae lefel y trosglwyddiadau'n uchel neu'n cynyddu'n gynt). Argymhellodd y Prif Swyddogion Meddygol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod pedair cenedl y DU yn symud i lefel 4.

Tuag at ddiwedd Medi, ailddechreuodd Estyn gynnal galwadau ymgysylltu ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), gyda ffocws cychwynnol ar adolygiad thematig o raddau ac effaith ymagweddau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol at gynorthwyo ysgolion, eu cymunedau ysgol, cyrff llywodraethol a dysgwyr. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys holiaduron ar gyfer dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni a staff ysgolion i gasglu'u profiadau dros y cyfnod hwn. Helpodd y gwaith hwn i rannu arfer effeithiol ledled Cymru, ac i nodi beth gellid ei wneud yn wahanol pe bai tarfu pellach ar ddysgu, gyda ffocws arbennig ar gynorthwyo dysgwyr bregus a rhoi canllawiau ar waith i gefnogi dysgu disgyblion (Estyn, 2021p). O ddiwedd Medi, ail ddechreuodd Estyn gynnal galwadau ffôn ymgysylltu gan arolygwyr cyswllt â cholegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned hefyd. Roedd y galwadau'n canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am y modd yr oedd darparwyr yn datblygu dulliau dysgu cyfunol ac yn ymgysylltu â dysgwyr er mwyn cefnogi'u lles.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Trwy gydol mis Medi, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres o fesurau lleol i fynd i'r afael ag achosion cynyddol o COVID-19 mewn ardaloedd fel ardaloedd Caerffili a Rhondda Cynon Taf. Roedd mesurau'n cynnwys strategaethau fel gwahardd cyfarfod dan do a pheidio â gadael y sir heb esgus rhesymol.

## Hydref 2020

Ar 1 Hydref, cadarnhaodd Kirsty Williams aelodaeth o'r gweithgor 'Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y cwricwlwm newydd'. Byddai'r grŵp yn adolygu'r adnoddau dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi addysgu themâu'n ymwneud â'r cymunedau hyn, eu cyfraniadau a'u profiadau; yn cynghori ar gomisiynu adnoddau dysgu newydd; ac yn adolygu ac yn adrodd ar ddatblygiad proffesiynol i gefnogi addysgu yn y meysydd dysgu hyn. Yr wythnos ganlynol, cyhoeddwyd dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion deddfwriaethol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru. Dangosodd hyn 'gefnogaeth gyffredinol' i'r mwyafrif o'r cynigion yn ymwneud â chrefydd, gwerthoedd a moeseg, gan gynnwys cwmpas hynny a threfniadau ar gyfer Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig.

Ar 5 Hydref, cyhoeddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD, 2020a) ei adroddiad ar gynnydd a wnaed wrth gyflawni Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod gan Gymru 'weledigaeth glir ar gyfer ei system addysg ac ar gyfer ei dysgwyr, ac mae'n pennu argymhellion sy'n rhoi blaenoriaeth i gamau gweithredu yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar y system, ac ysgolion yn fwy penodol, er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus o 2022'.

Ddechrau mis Hydref, cyhoeddwyd adroddiad gan yr Education Policy Institute (EPI) a oedd yn disgrifio'r modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu gliniaduron a dyfeisiau wi-fi i fynd i'r afael â'r diffyg mynediad i ddysgu ar-lein a achoswyd gan y pandemig coronafeirws fel gwaith 'clodwiw' (Sibieta a Cottell, 2020). Dywedodd yr adroddiad fod Llywodraeth Cymru, mewn cyferbyniad â gwledydd eraill y DU, wedi gallu defnyddio 'seilwaith sefydledig i weithredu'n gyflym ar ôl cau ysgolion' (Sibieta a Cottell, 2020, tud.8).

Erbyn 9 Hydref, roedd cyfyngiadau COVID-19 lleol mewn 15 o ardaloedd awdurdodau lleol yn ogystal â Llanelli i reoli 'cynnydd cyflym a sydyn mewn achosion o'r coronafeirws'. Cydnabu Llywodraeth Cymru mai'r 'Duedd gyffredinol yng Nghymru yw bod y sefyllfa'n gwaethygu, a bod y rhan fwyaf o ardaloedd lle mae cyfyngiadau lleol ar waith wedi adrodd am duedd saith niwrnod lle bu cynnydd yn nifer yr achosion o COVID-19'.

Ar 12 Hydref, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru (2020) ddadansoddiad o'r canlyniadau terfynol a ddyfarnwyd yn haf 2020 ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru. Nodont ar lefel genedlaethol roedd y canlyniadau a gyhoeddwyd yr haf hwn gryn dipyn yn uwch na'r canlyniadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hefyd, nodwyd tystiolaeth

ganddynt o gynnydd anghyson mewn canlyniadau ar draws canolfannau a phynciau eleni. Gwelodd nifer fach o ganolfannau a nifer fach o bynciau gynnydd sylweddol uwch nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mewn rhai achosion, roedd y cynnydd yn y canlyniadau yn fawr iawn ac yn annodweddiadol.

Y diwrnod canlynol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020b) gynllun gweithredu diweddaredig yn nodi'r camau nesaf yn nhaith ddiwygio Cymru, cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn 2022. Dangosodd y cynllun gweithredu, a adwaenir fel 'Cenhadaeth ein Cenedl', y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymateb i'r pandemig coronafeirws, a'i hymateb i'r adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yr wythnos flaenorol. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2021d) 'Cwricwlwm i Gymru: y daith i 2022'. Amlinellodd y ddogfen hon y disgwyliadau cyffredin a ddatblygwyd ac a gytunwyd mewn trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac Estyn.

Ar 15 Hydref, cyhoeddodd Estyn (2020a) adroddiad thematig, sef 'Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant', sy'n amlygu arfer dda wrth greu diwylliannau mewn ysgolion a cholegau sy'n dathlu amrywiaeth, yn blaenoriaethu cynhwysiant ac yn mynd i'r afael â materion LHDT+ mewn modd sy'n briodol i ddatblygiad.

Ar 19 Hydref, cyhoeddodd y Prif Weinidog y bydd "cyfnod atal" byr, llym yn cael ei gyflwyno ledled Cymru gyfan ar ddiwedd yr wythnos hon er mwyn helpu i gael rheolaeth dros y coronafeirws unwaith yn rhagor'. Byddai'n berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru a byddai'n disodli'r cyfyngiadau lleol a oedd ar waith mewn rhai rhannau o'r wlad. Yn ystod y cyfnod atal byr, byddai ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn ailagor fel arfer ar ôl hanner tymor; a byddai ysgolion uwchradd yn ailagor ar ôl hanner tymor i blant ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 a'r plant mwyaf bregus. Byddai dysgwyr yn gallu mynd i mewn i ysgolion, lleoliadau addysg bellach neu leoliadau dysgu yn y gwaith i sefyll arholiadau neu gael asesiadau, ond byddai dysgwyr eraill yn parhau â'u dysgu o gartref am wythnos ychwanegol. Byddai prifysgolion yn darparu cyfuniad o ddysgu personol a dysgu ar-lein. Byddai lleoliadau gofal plant yn aros ar agor fel arfer.

Ar 20 Hydref, cyhoeddodd Estyn (2020j) adroddiad thematig ar 'Gwerth hyfforddiant gwaith ieuenctid'. Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso ansawdd hyfforddiant gwaith ieuenctid a phriodoldeb yr hyfforddiant i roi i weithwyr ieuenctid y medrau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl a bodloni gofynion gwaith ieuenctid modern ym mhob ffurf.

Ar ôl hanner tymor mis Hydref, parhaodd Estyn i gyflawni ei weithgareddau ymgysylltu ag ysgolion a lleoliadau, gyda ffocws ar addysgu, y cwricwlwm a dysgu proffesiynol. Roedd y gweithgareddau hyn yn barhad o'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer yr oedi mewn gweithgarwch arolygu yn ystod y flwyddyn academaidd. Canolbwyntiodd gweithgareddau ymgysylltu Estyn gyda darparwyr ôl-16 ar gasglu gwybodaeth ar gyfer dau arolwg thematig am eu hymagweddau cyfunol at gefnogi dysgu ac am iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar 22 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn darparu £10 miliwn ychwanegol tuag at gefnogi myfyrwyr prifysgol yn ystod y pandemig. Bwriedir i'r cyllid hwn gefnogi gweithgareddau fel mwy o wasanaethau iechyd meddwl a chronfeydd caledi ariannol myfyrwyr. Byddai hefyd yn helpu prifysgolion i gryfhau eu gwasanaethau cymorth myfyrwyr, gan gynnwys gwasanaethau bwyd i fyfyrwyr y mae'n ofynnol iddynt hunanynysu.

Ar ddiwedd mis Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad interim yn seiliedig ar ddogfennaeth gan gyrff allweddol a phrofiadau ystod eang o randdeiliaid a oedd yn gysylltiedig â, neu yr effeithiwyd arnynt gan, ddyfarnu graddau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau galwedigaethol yn haf 2020. Amlinellodd bump o argymhellion, gan gynnwys: 'Yn 2021, dylid dyfarnu cymwysterau ar sail asesiad cadarn ac wedi'i gymedroli a wneir gan leoliad addysgol y dysgwr ac nid trwy gyfres o arholiadau' (Casella, 2020, tud.10).

## Tachwedd 2020

Ar 10 Tachwedd, cadarnhaodd Kirsty Williams ymagwedd Cymru ar gyfer cymwysterau yn 2021. Nododd hyn na fyddai arholiadau diwedd blwyddyn ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau TGAU, Safon UG neu Safon Uwch. Amlinellodd y Gweinidog, 'yn lle arholiadau, bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gydag ysgolion a cholegau i ddatblygu asesiadau a reolir gan athrawon' ac y byddai'r rhain 'wedi'u gosod a'u marcio'n allanol, ond yn cael eu cyflwyno o fewn amgylchedd dosbarth o dan oruchwyliaeth athro'. Ei disgwyliad oedd y byddai'r gwaith hwn 'yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer canlyniadau gan ganolfannau, gyda dull cenedlaethol y cytunwyd arno i sicrhau cysondeb ar draws Cymru'.

Ar 12 Tachwedd, lansiodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymgyrch Newydd 'Rhianta. Rhowch Amser Iddo' i ddarparu gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor i rieni. Cwmpasodd yr ymgyrch faterion a oedd yn adlewyrchu pryderon rhieni yn ystod y pandemig, gan gynnwys sut i ddeall ymddygiad plant ac ymateb iddo. Roedd yn cynnig cynghorion ymarferol a chyngor arbenigol ar ystod o faterion, a'r themâu craidd oedd: ymddygiad eich plentyn, rhoi amser i'ch plentyn, a chefnogi rhieni drwy'r heriau a wynebant.

Yr wythnos ganlynol, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai rhaglen newydd Cymru gyfan 'Gradd Genedlaethol Meistr mewn Addysg' ar gael i athrawon o Fedi 2021. Bydd hyn yn cefnogi hyd at 500 o weithwyr addysg proffesiynol i ymgymryd â'r cymhwyster.

Ar 20 Tachwedd, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei 'Chynllun gweithredu diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru' 2019. Ehangwyd y cynllun gweithredu i adlewyrchu'r rôl bwysig sydd gan seiber gadernid a diogelwch data i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn saff a diogel ar-lein.

Ar 23 Tachwedd, daeth canllawiau gweithredu diweddaredig ar y defnydd o orchuddion wyneb mewn ysgolion a cholegau i rym (Llywodraeth Cymru, 2021l). Roedd y canllawiau bellach yn nodi y dylai gorchuddion wyneb

gael eu gwisgo: ym mhob man y tu allan i'r ystafell ddosbarth gan staff a dysgwyr ysgolion uwchradd a cholegau; ar drafnidiaeth benodedig i'r ysgol neu'r coleg i ddysgwyr blwyddyn 7 ac i fyny; a chan ymwelwyr i bob ysgol a choleg, gan gynnwys rhieni a gofalwyr yn gollwng a chasglu eu plant.

Ar 24 Tachwedd, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru, yn dilyn penderfyniad y Gweinidog Addysg i ganslo arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021, ac ar ôl gwrando ar gynigion cynnar gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, eu bod wedi gwneud y penderfyniad i barhau i ddefnyddio asesiadau di-arholiad mewn TGAU, UG a Safon Uwch yn 2020-2021. Hefyd, y byddai cyfres arholiadau mis Ionawr, asesiadau unedau ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, Llenyddiaeth Saesneg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cael eu canslo.

Yn yr un wythnos, fe wnaeth swyddogion o bob un o'r pedair gwlad gartref gytuno ar gynllun cyffredin ar gyfer cyfnod y Nadolig ar ddiwedd mis Rhagfyr. Roedd hwn yn amlinellu y byddai cyfyngiadau teithio ar draws y pedair gweinyddiaeth yn cael eu codi rhwng 23 a 27 Rhagfyr, ac y gallai hyd at dair aelwyd ffurfio 'swigen' unigryw i gyfarfod gartref yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 26 Tachwedd, cyhoeddodd Estyn (2020h) adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar nodi sut yr oedd ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig yn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys astudiaethau achos a chameos o leoliadau ledled Cymru, i helpu rhai eraill ar eu taith tuag at weithredu cwricwlwm newydd 2022.

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020d) ei gweledigaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Roedd yn amlygu'r heriau y bydd Cymru'n eu hwynebu yn y dyfodol: adfer o bandemig COVID-19, sefydlu perthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd, a newidiadau technolegol, amgylcheddol, diwylliannol a demograffig hirdymor dramatig.

## Rhagfyr 2020

Wrth i'r argyfwng COVID-19 waethygu, gwnaed ystod eang o gyhoeddiadau trwy gydol Rhagfyr wrth i'r llywodraeth adweithio i sefyllfa a oedd yn newid yn gyflym.

Ddydd Mawrth, 8 Rhagfyr, dechreuodd Cymru frechu pobl yn erbyn COVID-19. Dechreuodd yr holl fyrddau iechyd weinyddu brechlynnau i staff cartrefi gofal, y rhai dros 80 oed a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen a oedd yn wynebu'r risg fwyaf.

Ar 9 Rhagfyr, cyhoeddodd Estyn (2020i) Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2019-2020. Adolygodd yr adroddiad blynyddol hwn safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru o Fedi 2019 tan fis Mawrth 2020. Roedd hefyd yn cynnig adroddiad cychwynnol o'r modd y bu ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill yn cefnogi disgyblion a dysgwyr yn ystod y cyfnod clo, wrth ddarparu parhad dysgu iddynt o bell.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Yn ei ragair, roedd y Prif Arolygydd yn cydnabod, o ran y system addysg yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn, y 'cafwyd nifer o heriau, a'r rheiny'n rhai cymhleth ac annisgwyl'. Myfyriodd ar 'yr hyn a ddysgwyd o'r argyfwng ac ar rai goblygiadau i'r dyfodol'.

Ar yr un pryd, cyhoeddodd Estyn (2020c, 2020d, 2020e, 2020f, 2020g) adroddiadau cipolwg ar effeithiau uniongyrchol y pandemig ar ysgolion, UCDau, lleoliadau pob oed, a darparwyr ôl-16. Roedd yr adroddiadau hyn yn crynhoi'r canfyddiadau a wnaed o alwadau ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod misoedd Medi a Hydref.

Ar 10 Rhagfyr, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai ysgolion uwchradd a cholegau Cymru yn symud i ddysgu ar-lein o 14 Rhagfyr fel rhan o 'ymdrech genedlaethol i atal trosglwyddo'r coronafeirws'. Nododd fod y gyfradd R yng Nghymru wedi cynyddu i 1.27 gydag amser dyblu o 11.7 diwrnod yn unig.

Ar 14 Rhagfyr, amlinellwyd cynllun gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno profion coronafeirws cyfresol mewn ysgolion a cholegau o fis Ionawr. O dan y broses hon, byddai ysgolion a lleoliadau addysg bellach yn cael cynnig y gallu i gyflawni profion cyfresol, gan ddefnyddio profion llif unffordd o gysylltiadau agos i ddisodli'r angen i hunanynysu i'r rheiny o fewn y lleoliad hwnnw. Mae hyn yn golygu y byddai gofyn i ddysgwyr a staff a nodir yn gysylltiadau agos naill ai hunanynysu fel arfer NEU wneud prawf llif unffordd ar ddechrau'r diwrnod ar gyfer y cyfnod hunanynysu cyfan. Gallai'r rheiny â phrawf negatif barhau â'u gweithgareddau arferol.

Ar 16 Rhagfyr, cadarnhaodd y Prif Weinidog fod Cymru wedi bodloni'r meini prawf i symud i lefel rhybudd 4. O ganlyniad, byddai cyfyngiadau newydd yn berthnasol i Gymru gyfan. Roedd y rhain yn cynnwys: y byddai pob busnes manwerthu nad yw'n hanfodol yn cau ddiwedd y diwrnod masnachu ar Noswyl Nadolig; y byddai pob safle lletygarwch yn cau o 6pm Ddydd Nadolig; a byddai cyfyngiadau llymach ar gymysgu rhwng aelwydydd, aros gartref, llety gwyliau a theithio yn dod i rym o 28 Rhagfyr, ar ôl cyfnod pum niwrnod y Nadolig.

Ar yr un diwrnod, darparwyd manylion pellach gan Kirsty Williams ynghylch sut y byddai'r system ar roddwyd ar waith i ddisodli arholiadau cymwysterau cyffredinol yn 2021 yn gweithio. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Grŵp Dylunio a Chyflawni a fyddai'n cefnogi 'lles, tegwch a dilyniant' i ddysgwyr yn 2021. Cefnogwyd y penderfyniad gan y newyddion fod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £1.9 miliwn yn ychwanegol mewn adnoddau addysg i gefnogi dysgwyr ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13, a'r rheiny yn y coleg yn paratoi ar gyfer eu hasesiadau Safon Uwch.

Ar 19 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai Cymru'n dychwelyd i gyfnod clo cenedlaethol. Nododd y Prif Weinidog fod 'gwybodaeth newydd wedi gofyn am ymateb ar unwaith'. Ar ôl clywed cyngor gan uwch gynghorwyr meddygol a gwyddonol, penderfynodd Llywodraeth Cymru gyflwyno'r cyfyngiadau rhybudd lefel 4 yn gynt yng Nghymru, yn unol â'r camau oedd yn cael eu cymryd yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Daeth cyfyngiadau aros gartref i rym hefyd o hanner nos ymlaen, ac roedd rheolau a oedd yn caniatáu i ddwy aelwyd ddod at ei gilydd i ffurfio swigen dros gyfnod o bum niwrnod yn berthnasol ar Ddydd Nadolig yn unig.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

## Ionawr 2021

Wrth i'r flwyddyn newydd ddechrau, ar 4 Ionawr, cytunodd Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Colegau Cymru, y byddai'r holl ysgolion, colegau ac ysgolion annibynnol yn parhau â dysgu ar-lein hyd at 18 Ionawr. Roedd ysgolion a cholegau ar agor ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a dysgwyr bregus yn unig, yn ogystal â'r rheiny yr oedd angen iddynt gwblhau arholiadau neu asesiadau allanol.

Er gwaetha'r cyhoeddiad a wnaed ar 4 Ionawr, ar 8 Ionawr cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r drefn i symud at ddysgu ar-lein yn holl ysgolion a cholegau Cymru yn parhau ac yn cael ei chysoni â chylch adolygu tair wythnos y llywodraeth. Felly, byddent yn ystyried yr ymagwedd at ysgolion ar yr un pryd â'r adolygiad nesaf ar 29 Ionawr. Dywedodd Mr Drakeford, 'Oni bai bod gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o'r coronafeirws cyn yr adolygiad hwnnw, bydd ysgolion yng Nghymru yn parhau i gynnig darpariaeth ar-lein tan hanner tymor mis Chwefror. Bydd plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol yn dal i gael dysgu wyneb yn wyneb.' Parhaodd lleoliadau gofal plant ar agor.

Ar 11 Ionawr, Cyhoeddodd Bwrdd Gwaith Ieuenctid Cymru (2021), 'Mae'n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru'. Ymhlith ei argymhellion oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru ac adolygu'r model cyllido ar gyfer gwaith ieuenctid.

Ar 15 Ionawr, cyhoeddodd Estyn (2021p) ei adolygiad, 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19'. Mae'r adolygiad yn cynnig trosolwg o'r ffordd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) i hyrwyddo dysgu a chefnogi disgyblion bregus yn ystod cyfnod COVID-19 rhwng Mehefin a Thachwedd 2020. Yr wythnos ganlynol, darparodd Estyn sylwebaeth werthusol unigol i bob awdurdod lleol a chonsortiwm rhanbarthol ar y cymorth roeddent yn ei roi i'w cymunedau dysgu gwahanol yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 18 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £40m ychwanegol i brifysgolion i gynorthwyo myfyrwyr a oedd yn wynebu caledi ariannol, gan helpu'r myfyrwyr yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y pandemig gyda chostau fel costau llety.

Ar 20 Ionawr, rhoddwyd diweddariad gan Lywodraeth Cymru y byddai dysgwyr a oedd yn dilyn cyrsiau TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwyir gan Cymwysterau Cymru yn derbyn cymwysterau wedi'u dyfarnu drwy fodel Gradd a Bennir gan Ganolfan. Roedd hyn yn golygu y bydd graddau'n cael eu pennu gan ysgolion neu golegau yn seiliedig ar asesiad o waith y dysgwyr.

Ar 28 Ionawr, cyhoeddodd Estyn (2021q) adroddiad thematig a deunyddiau hyfforddi ar bartneriaethau ôl-16. Adroddodd ar gynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth ar gyfer addysg disgyblion 16 i 19 oed mewn dosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau addysg bellach. Rhoddodd drosolwg o'r modd y mae dosbarthiadau chweched ysgolion prif ffrwd yn gweithio gyda'i gilydd a gyda cholegau addysg bellach, i gynorthwyo dysgwyr i astudio'r cyrsiau ôl-16 sy'n bodloni'u hanghenion a'u galluoedd orau.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Yn ei hadolygiad bob tair wythnos, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai ysgolion a cholegau yn parhau ar gau tan ar ôl hanner tymor mis Chwefror, ac eithrio darpariaeth ar gyfer dysgwyr bregus a phlant gweithwyr allweddol. Cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r cynllun i ddychwelyd i ysgolion cynradd yn un graddol a hyblyg o 22 Chwefror, os byddai'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn parhau i wella. Amlinellodd hefyd, 'Os oes digon o hyblygrwydd, byddwn yn dod â niferoedd bach o ddysgwyr uwchradd a cholegau yn ôl ar yr un pryd'.

Yn ystod wythnos olaf mis Ionawr, cyhoeddodd Kirsty Williams gynllun gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd yn amlinellu'r modd y byddai Llywodraeth Cymru'n cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a'r ffyrdd o gydweithio y byddent yn parhau i'w defnyddio i wneud i hyn ddigwydd. Ar yr un pryd, lansiodd ymgynghoriad ar Ganllawiau Gwella Ysgolion anstatudol. Roedd y canllawiau hyn yn pennu'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru.

## Chwefror 2021

Ddechrau'r mis, amlinellwyd cynlluniau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad o £9.4m mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Byddai £4 miliwn ar gael i wella mynediad i gymorth lles emosiynol ac iechyd meddwl mewn ysgolion, a byddai cyllid pellach o £5.4m yn mynd tuag at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i gynorthwyo pobl ifanc y mae angen cymorth dwysach arnynt, yn y gymuned ac mewn gwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl arbenigol.

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Kirsty Williams y byddai'r llywodraeth yn trefnu bod cyllid ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i gynyddu cyllid i'r sector nas cynhelir i fod yn gyson â chyfradd gyllido bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant.

Y diwrnod canlynol, cyhoeddwyd, o dan y ddeddf newydd, sef Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, o 1 Medi 2021, y byddai'r system newydd yn dechrau ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol ac iau sy'n: mynychu ysgolion a gynhelir mewn grwpiau blwyddyn penodol, sydd wedi'u cadw, ac nad aseswyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig ar neu cyn y dyddiad hwnnw, ni waeth beth yw eu grŵp blwyddyn neu leoliad. Mae hyn yn golygu na fydd plant sy'n cael darpariaeth addysgol arbennig ar hyn o bryd trwy ddatganiad, a'r rheiny sydd mewn unrhyw fath o addysg ôl-16, yn cael eu cynnwys ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r Ddeddf.

Yn Chwefror hefyd, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru (2021a) 'Coronafeirws a Fi', sef ail arolwg cenedlaethol o farnau a phrofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Cyflwynodd yr adroddiad farnau a phrofiadau 19,737 o blant a phobl ifanc, 3-18 oed, yn y cyfnod clo presennol. Dywedodd fod 'bywyd wedi bod yn anodd i grwpiau o bob oed' a 'Mynegwyd teimladau negyddol cryf gan lawer o blant a phobl ifanc'.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar 5 Chwefror, fe wnaeth Prif Swyddog Meddygol Cymru amlinellu'r feddylfryd ar ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer plant a phobl ifanc. Dywedodd fod y potensial i lacio'r cyfyngiadau yn parhau i fod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, dylid neilltuo unrhyw hyblygrwydd i blant ysgol gynradd ddychwelyd yn raddol. O ganlyniad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, o 22 Chwefror, y byddai trefn ddychwelyd yn raddol i ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen (tair i saith oed). Byddai'r rheiny a oedd yn darparu gofal personol i bobl eithriadol o agored i niwed yn glinigol yn cael cynnig brechiadau erbyn diwedd mis Chwefror. Byddai £5 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu i ddarparu masgiau wyneb o ansawdd uchel, a byddai ysgolion a lleoliadau yn cael cynnig profion llif unffordd ar gyfer yr holl staff ddwywaith yr wythnos.

Ar 7 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £29 miliwn ychwanegol ar gyfer colegau, gan gynnwys £26.5 miliwn i gynorthwyo dysgwyr ar raglenni dysgu galwedigaethol. Gellid defnyddio'r cyllid i gynorthwyo dysgwyr i gwblhau'u cymwysterau galwedigaethol yn ystod y flwyddyn academaidd, trwy ddarparu cymorth ychwanegol a chwalu rhwystrau a allai eu hatal rhag eu cwblhau. Roedd £2.5 miliwn yn ychwanegol yn cefnogi colegau a darparwyr hyfforddiant dysgu yn y gwaith yng Nghymru i ddarparu cymorth iechyd meddwl ychwanegol i gydnabod y cynnydd mewn materion iechyd meddwl o ganlyniad i'r pandemig.

Ddeuddydd yn ddiweddarach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £9.8 miliwn ychwanegol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i chwalu rhwystrau rhag addysg i blant a phobl ifanc oherwydd COVID-19. Byddai £8.8 miliwn yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol, gan gynnwys cyllid i ysgolion arbennig, gydag £1 filiwn ar gyfer pobl ifanc mewn addysg bellach.

Yr wythnos ganlynol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £15 miliwn arall ar gyfer technoleg addysg mewn ysgolion. Roedd y buddsoddiad yn barhad o raglen Technoleg Addysg Hwb a'i nod oedd cefnogi ymhellach y gwaith o drawsnewid seilwaith digidol pob ysgol a gynhelir ac UCD yng Nghymru. Byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio hefyd i sicrhau parhad cysylltedd MiFi ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u hallgáu o'r byd digidol, hyd at ddiwedd y flwyddyn ysgol gyfredol ym mis Gorffennaf.

Ar 19 Chwefror, cyhoeddodd y Prif Weinidog, os bydd achosion o COVID-19 yn dal i ostwng, y byddai gweddill y dysgwyr cynradd, yn ogystal â dysgwyr ym Mlynyddoedd 11 a 13 mewn ysgolion uwchradd a'r rhai sy'n sefyll cymwysterau cyfatebol mewn colegau, yn dychwelyd i'r ysgol neu'r coleg o 15 Mawrth mewn ffordd hyblyg.

Dridiau'n ddiweddarach, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd ddatganiad ar y cyd yn dweud eu bod yn ymestyn y cynnig i gyflenwi profion llif unffordd rheolaidd, ddwywaith yr wythnos yn y cartref, i'r 'holl ddysgwyr oedran uwchradd uwch'. Byddai hyn yn dechrau drwy gynnig profion i Flynyddoedd 11 i 13, a holl ddysgwyr colegau addysg bellach, a dysgwyr ar raglenni prentisiaeth a hyfforddeiaeth seiliedig ar waith.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar 24 Chwefror, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg, wrth siarad yn ystod ymweliad ag ysgol gynradd yng Nghaerdydd, y byddai cyllid cynllun Mynediad Grant Datblygu Disgyblion Cymru yn cael ei ddyblu i gynnwys grwpiau blwyddyn ychwanegol yn 2020 i 2021, ac y byddai telerau'r grant yn cael eu hymestyn 'i'w gwneud yn bosibl prynu gliniaduron a chyfrifiaduron llechen i ymateb i bandemig y coronafeirws'. Byddai'r cyllid o £10.3m, sef cynnydd o £5.1m, yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymestyn y cynllun i ddarparu cymorth i'r rheiny ym Mlynyddoedd 1, 5, 8, 9 ac 11, ar gyfradd o £125 fesul dysgwr.

Ar 25 Chwefror, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru (2020a) yr ymateb ymgynghori i'w fersiwn ddrafft o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Roedd y Bil drafft yn nodi cynigion i greu Comisiwn newydd a fyddai'n disodli Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) presennol, ac 'a fyddai'n meddu ar yr adnoddau i sicrhau cydberthynas gryf rhwng dinasyddion, cymunedau, ymchwilwyr a darparwyr'. Bydd yn gyfrifol am y rhaglen prentisiaethau ac addysg i oedolion yn y gymuned, ac Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) prif ffrwd yn y chweched dosbarth mewn ysgolion a ddarperir drwy'r awdurdodau lleol.

## Mawrth 2021

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £50 miliwn ychwanegol tuag at welliannau i adeiladau ysgolion ledled Cymru. Bydd y cyllid cyfalaf yn caniatáu i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar brosiectau cynnal a chadw ar raddfa fawr, fel toeau newydd, ffenestri newydd neu systemau gwresogi ac awyru, yn hytrach nag atgyweiriadau rheolaidd ar raddfa fach.

Ar 3 Mawrth, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg, y byddai'r holl ysgolion cynradd yn ailagor o 15 Mawrth, a chyhoeddodd y byddai'r hyblygrwydd gan leoliadau uwchradd i ddarparu cyfle i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 ddal i fyny, gyda ffocws ar les a pharodrwydd i ddychwelyd i ddysgu ar y safle ar ôl y Pasg.

Y diwrnod canlynol, rhyddhaodd Estyn (2021m, 2021w) adolygiadau thematig yn canolbwyntio ar 'Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd' a 'Caffael yr iaith Gymraeg'. Mae'r casgliad hwn o adroddiadau thematig a deunyddiau ategol (Estyn, 2021m) yn disgrifio arfer sy'n cefnogi datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr yn llwyddiannus yn iaith y lleoliad neu'r ysgol. Mae'r adroddiad 'Caffael yr iaith Gymraeg' yn rhoi trosolwg o ba mor effeithiol y mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn addysgu ac yn cefnogi caffael a datblygu medrau Cymraeg dysgwyr rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae adroddiad 'Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd' yn nodi pa mor effeithiol y mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru yn cefnogi ac yn addysgu iaith a llythrennedd Saesneg i ddysgwyr rhwng tair ac un ar ddeg oed.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar 8 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg £72 miliwn arall i gefnogi dysgwyr fel rhan o'r ymateb i adfer a sicrhau cynnydd yn sgil y pandemig. Roedd y cyllid, a oedd yn barhad o'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, ar gyfer sicrhau adnoddau dysgu ychwanegol a chymorth i ddysgwyr y cyfnod sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant sy'n darparu addysg gynnar. Byddai'r cymorth hefyd yn targedu dysgwyr ym Mlynyddoedd 11, 12 a 13, i ddarparu cymorth ychwanegol wrth iddynt bontio i'r cam nesaf.

Y diwrnod canlynol, cyrhaeddodd y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ei gam olaf cyn cael ei basio i fod yn gyfraith. Pleidleisiodd aelodau'r Senedd i basio testun terfynol y Bil, gan olygu y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno yn 2022. Yn ddiweddarach yn y mis, cytunodd Llywodraeth Cymru i gymorth ariannol ychwanegol o £0.8m hefyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Nod y cymorth ychwanegol hwn yw datblygu addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y meysydd blaenoriaeth. Nod y cyllid oedd cynyddu nifer y tiwtoriaid dwyieithog mewn colegau ledled Cymru o fis Medi 2021.

Ar 9 Mawrth, cyhoeddodd Estyn (2021t) adroddiad interim a oedd yn crynhoi'r canfyddiadau o alwadau ffôn ymgysylltu a galwadau ffôn bugeiliol a wnaed i ysgolion uwchradd yn ystod Ionawr a Chwefror 2021. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd o bell gyda phenaethiaid, uwch arweinwyr ac athrawon o bob cwr o Gymru.

Ar 11 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £30 miliwn ychwanegol i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg newydd. Mae hwn yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy gefnogi pob dysgwr i ddod yn siaradwyr Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.

Ar 19 Mawrth, cyhoeddwyd adroddiad y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm newydd (Williams, 2021). Derbyniodd Llywodraeth Cymru ei holl argymhellion.

Ar yr un diwrnod, amlinellodd y Prif Weinidog sut y gallai cyfyngiadau gael eu llacio, gan fod canlyniadau cynnar ynglŷn ag effeithiolrwydd y brechlynnau yn ymddangos yn addawol o ran eu heffaith ar atal salwch difrifol ac atal trosglwyddo. Roedd hyn yn cynnwys cam agor cyntaf ar gyfer manwerthu nad yw'n hanfodol o'r dydd Llun canlynol, a lleihau'r lefel rhybudd o bosibl, yn yr wythnos ganlynol. Pennodd amserlen a oedd yn ymestyn i mewn i fis Ebrill ar gyfer agos sectorau pellach, fel gwasanaethau cysylltiad agos a chyfleusterau hamdden a ffitrwydd.

Ar 23 Mawrth, cymeradwyodd y Senedd y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r holl reoliadau (Llywodraeth Cymru, 2021p). O fis Medi 2021, bydd system ADY newydd yn mynd yn fyw fesul cam dros dair blynedd, fel bod dysgwyr yn gallu cael mynediad i'r system newydd ar y cyfle cynharaf. Nod hyn oedd darparu pontio graddol i'r system newydd i bawb - ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol a rhai eraill sy'n cefnogi dysgwyr.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Estyn ddau adroddiad thematig o'r enw 'Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr' (2021u) a 'Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol' (2021b). Mae'r ddau'n canolbwyntio ar waith colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned rhwng Mawrth 2020 ac Ionawr 2021, yn ystod y pandemig. Mae'r cyntaf yn rhoi trosolwg o'r modd y mae'r darparwyr hyn wedi cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr. Mae'r ail adroddiad yn amlinellu sut maent wedi datblygu'u harfer i gyflwyno addysgu, hyfforddiant a dysgu, naill ai fel dysgu o bell neu ddysgu cyfunol. Ar yr un pryd, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru (2021f) ganlyniadau arolwg ar effaith COVID-19 ar ddysgwyr 16 oed neu hŷn, mewn chweched dosbarth ysgol, addysg bellach neu ddysgu yn y gwaith neu ddysgu oedolion mewn coleg neu yn y gymuned.

Hefyd, ar 23 Mawrth, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru addasiadau i gymwysterau ar gyfer 2022 a'r manylion terfynol ar gyfer 2021. Roedd hyn yn amlinellu sut y nodir ac yr eir ar drywydd graddau annodweddiadol yn haf 2021 i sicrhau y gall dysgwyr a'u rhieni fod â hyder yn nilysrwydd a hygrededd y canlyniadau.

Y diwrnod canlynol, cyhoeddodd Estyn ganfyddiadau o'n gwaith ymgysylltu yn ystod tymor y gwanwyn. Mae adroddiadau o weithgarwch ymgysylltu mewn ysgolion uwchradd (2021j), ysgolion arbennig a gynhelir ac UCDau (2021d), y sector nas cynhelir (2021f) a'r sector cynradd (2021h) yn crynhoi canfyddiadau o bob cwr o Gymru. Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar ystod o destunau pwysig, fel lles, addysgu, y cwricwlwm, dysgu proffesiynol, ac anghenion dysgu ychwanegol.

## Ebrill 2021

Ar ddiwrnod cyntaf y mis, cadarnhaodd y Prif Weinidog, ymysg gwelliant parhaus yn sefyllfa iechyd y cyhoedd yng Nghymru, y byddai 'dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb ym mhob lleoliad, gan gynnwys ysgolion, addysg bellach, addysg uwch ac eraill' ar 12 Ebrill.

Ar 14 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r gofynion cyfreithiol ar gyfer asesiadau diwedd cyfnod allweddol (cyfnod sylfaen, cyfnodau allweddol 2 a 3) a'r cymedroli cysylltiedig ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3 yn cael eu datgymhwyso ar gyfer tymor yr haf 2021, o ganlyniad i COVID-19. Yn ogystal, roedd y gofyniad statudol i ysgolion gynnal asesiadau personol mewn Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen i fod ar sail 'ymdrechion rhesymol' ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd.

Ar yr un dyddiad, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru (2021g) fanylion yr adolygiadau a'r cyngor y mae'n eu mynnu gan Estyn, o ran adroddiadau thematig a chymorth arall. Nododd hyn y byddai Estyn yn ailgyfeirio rhywfaint o'r adnodd a ddefnyddir fel arfer ar gyfer y set gyflawn o adroddiadau thematig ac yn canolbwyntio ar gefnogi cynllun adfer dysgu Llywodraeth Cymru o'r pandemig COVID-19 ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant.

Ar 21 Ebrill, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr a oedd ar raglenni galwedigaethol, rhaglenni addysg gyffredinol (gan gynnwys Safon Uwch), prentisiaethau neu gyrsiau dysgu oedolion rhwng Awst 2019 a Gorffennaf 2020.

Ar 22 Ebrill, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai rhagor o'r cyfyngiadau yn cael eu llacio yn gynt, gan gynnwys ailddechrau gweithgareddau o dan do o dan oruchwyliaeth ar gyfer plant. Golygai hyn y byddai Cymru'n cwblhau'r symud i lefel rhybudd 3 erbyn dydd Llun, 3 Mai.

Ar 30 Ebrill, rhyddhaodd yr Education Policy Institute (2021a) ei adroddiad 'A comparison of school institutions and policies across the UK'. Roedd hwn yn nodi bod pedair cenedl y DU wedi dechrau mabwysiadu ymagweddau cynyddol wahanol at y polisi addysg ar ôl 20 mlynedd o ddatganoli.

Ddiwedd Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod £8.5 miliwn wedi'i ddyrannu i golegau addysg bellach a dosbarthiadau chweched mewn ysgolion i ddarparu cymorth pontio i ddysgwyr ym Mlwyddyn 11, a dysgwyr ym Mlynyddoedd 12 a 13 sy'n astudio cymwysterau lefel UG/A2, sy'n symud ymlaen at gamau nesaf eu haddysg. Darparwyd y cyllid ychwanegol hwn i gydnabod bod dysgwyr wedi dioddef tarfu ar eu haddysg yn ystod y pandemig.

Yn ystod mis Ebrill, lansiodd 'Education Support' ei hyb iechyd meddwl a lles newydd, gan gynnig adnoddau rhad ac am ddim yn ymwneud â lles i athrawon a staff ysgolion yng Nghymru. Ariennir yr hyb, o'r enw 'Gofalu am Athrawon', gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n darparu ystod o wybodaeth, canllawiau, cynghorion, fideos a dolenni i helpu cefnogi iechyd meddwl a lles staff ysgolion.

## Mai 2021

Yn dilyn Etholiadau'r Senedd ar 6 Mai, daeth Jeremy Miles AS yn Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 13 Mai.

Ar 14 Mai, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai Cymru'n symud i lawr i lefel rhybudd 2.

Ar 17 Mai, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru (2021a) ragor o wybodaeth i ysgolion a cholegau ar y broses apeliadau yn yr haf 2021. Rhoddodd hyn fwy o wybodaeth am y modd y byddai apeliadau yn erbyn graddau arholiad yn gweithio eleni.

Yr un diwrnod, rhyddhaodd Estyn (2021o) bostiad blog yn amlinellu sut gallai arolygiadau yn y dyfodol adlewyrchu ystod y gwaith a wneir gan weithwyr ieuenctid. Mae hyn yn adeiladu ar bostiadau blaenorol, fel 'Deall gwerth gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid,' a gyhoeddwyd yn Ionawr 2021 (Estyn, 2021v).

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar 21 Mai, fe wnaeth Llywodraeth Cymru agor ymgynghoriad ar ganllawiau ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd yr ymgynghoriad wyth wythnos yn cynnwys canllawiau drafft a chod ar gyfer addysgu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb, a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Hefyd, roedd ymgynghoriad ar God Yr Hyn sy'n Bwysig, sy'n amlinellu'r 27 o ddatganiadau ar draws y chwe maes dysgu a phrofiad y mae'n rhaid i ysgolion seilio'u cwricwlwm arnynt.

Ar 26 Mai, gwnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad yn y Senedd ynglŷn a strategaeth 'Adnewyddu a diwygio' Llywodraeth Cymru i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr. Nododd fod y pandemig wedi gadael ôl sylweddol ar bobl ifanc, ar y proffesiwn addysg sy'n eu cefnogi, ac ar eu teuluoedd. Dywedodd, 'Mae'r pecynnau cymorth ry'n ni'n eu datblygu yn cael eu dylunio i fynd i'r afael â'r heriau unigryw sy'n wynebu gwahanol ddysgwyr.'

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg £19 miliwn ychwanegol i gefnogi lleoliadau addysg a'r blynyddoedd cynnar. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod plant yn parhau â'u cynnydd dysgu yn dilyn y tarfu yn sgil y pandemig, gyda ffocws ar les plant a staff.

Ar 26 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2021k) ganlyniadau'r arolwg ar-lein a sesiynau rhanddeiliaid i statws mandadol y Saesneg yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) hefyd. Yn dilyn cyhoeddi'r Bil, codwyd pryderon ynghylch statws mandadol y Saesneg a'i effaith ar drochi yn y Gymraeg. Y diwygiad arfaethedig fyddai gwneud Saesneg yn elfen fandadol o saith oed. Byddai hyn yn golygu mai ysgolion fyddai i benderfynu p'un ai i addysgu Saesneg cyn yr oedran hwnnw, a sut. O'r rheiny a ymatebodd, roedd dros ddwy ran o dair (68%) o blaid y diwygiad arfaethedig.

## Mehefin 2021

Yn ystod wythnos gyntaf Mehefin, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Cymru, o ddydd Llun 7 Mehefin, yn symud i lawr i lefel rhybudd 1. Golygai hyn y byddai modd cynyddu maint aelwydydd estynedig i hyd at dair aelwyd, ac y gallai digwyddiadau awyr agored fel digwyddiadau chwaraeon mawr ddechrau cael eu cynnal.

Ar 11 Mehefin, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y 'Cynllun Adnewyddu a Diwygio' (Llywodraeth Cymru, 2021n), a oedd yn nodi sut y byddai £150 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo dysgwyr ac ymarferwyr. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y cymorth a'r ymyriadau a ddefnyddiwyd dros y flwyddyn diwethaf, ac mae'n cynnwys £24 miliwn i barhau â'r rhaglen hon a chadw'r 1,800 o staff cyfwerth ag amser llawn a recriwtiwyd ym mlwyddyn academaidd 2020-2021. Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod yr effeithiwyd yn arbennig gan y pandemig ar ddysgwyr a ddechreuodd eu haddysg ôl-16 yn y flwyddyn academaidd hon. O ganlyniad, mae'n cynnwys £33 miliwn i gynorthwyo dysgwyr mewn colegau a dosbarthiadau chweched ledled Cymru sy'n dechrau cyrsiau Safon Uwch neu gyrsiau galwedigaethol.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar 16 Mehefin, rhyddhaodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad i'r wasg yn mynegi ei bryder ynglŷn ag adroddiadau diweddar o aflonyddu a cham-drin rhywiol mewn ysgolion. Roedd hwn yn dilyn cyhoeddi adolygiad cyflym Ofsted (2021) ar 10 Mehefin o gam-drin rhywiol mewn ysgolion a cholegau, a phroffil cynyddol y wefan 'Everyone's Invited', sy'n cynnig llwyfan dienw i bobl ysgrifennu am eu profiadau. Tynnodd adroddiadau i'r wasg sylw at nifer yr ysgolion yng Nghymru a oedd wedi'u henwi ar y wefan hon. Yn ei ddatganiad, addawodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r holl adnoddau cyfredol i sicrhau bod ysgolion a dysgwyr yn cael cefnogaeth lawn. Hefyd, gofynnodd i Estyn gynnal adolygiad o'r diwylliant a phrosesau mewn ysgolion i helpu diogelu a chefnogi pobl ifanc yn well, a nododd y bydd canfyddiadau'r adolygiad hwnnw yn chwarae ran bwysig i gefnogi lleoliadau a llywio polisi Llywodraeth Cymru.

Ar yr un dyddiad, cyhoeddodd Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, gyllid o £5 miliwn i gefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwaraeon, gweithgareddau diwylliannaol a gweithgareddau'n seiliedig ar chwarae. Bydd yr holl awdurdodau lleol yn derbyn cyfran o'r cyllid i gynnal gweithgareddau, gyda'r cynnig yn cael ei deilwra at anghenion a dymuniadau'r plant, y bobl ifanc a'r cymunedau yn eu hardal.

Ar 22 Mehefin, cyhoeddodd Estyn (2021n) adroddiad thematig ar 'Sut defnyddiodd ysgolion a cholegau'r grant recriwtio, adfer a chodi safonau (RAChS) a'r grant dal i fyny ar gyfer dysgwyr ôl-16'. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cymorth ar gyfer dysgwyr ôl-16 ers Medi 2020 drwy'r grant 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: Y Rhaglen Dysgu Carlam' (y grant RAChS) mewn ysgolion a'r grant dal i fyny mewn colegau addysg bellach.

Ar 21 Mehefin, rhyddhaodd Jeremy Miles ddatganiad ysgrifenedig yn amlinellu ei ymagwedd at sicrhau bod 'lle i ysgolion' adfer o'r pandemig drwy leddfu pwysau posibl. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys atal mesurau perfformiad ysgolion a chategoreiddio ysgolion am flwyddyn arall. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Estyn y bydd  y rhaglen arolygu graidd ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDau yn cael ei hatal ymhellach i gynnwys tymor yr hydref 2021. Byddai arolygiadau mewn rhai sectorau eraill, fel gwasanaethau addysg llywodraeth leol, yn ailddechrau ym Medi, a byddai ystod o waith arferol arall yn parhau.

Ar 23 Mehefin, cyhoeddodd Estyn wybodaeth yn egluro'r ymagwedd newydd at drefniadau arolygu ar gyfer ysgolion ac UCDau. Mae hyn yn cynnwys egluro y bydd barnau crynodol yn cael eu dileu er mwyn symud y ffocws at y gwerthusiadau o fewn naratif yr adroddiad, a bydd ganddo ffocws dyfnach ar gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Cadarnhaodd y bydd y trefniadau newydd hyn yn cael eu treialu gyda sampl fach o ysgolion ac UCDau yng ngwanwyn 2022.

Ar 30 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod Rhwydwaith Cenedlaethol newydd yn cael ei greu i gefnogi dylunio, mabwysiadu, a gweithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd yn cael ei berchenogi a'i hwyluso gan ymarferwyr addysgu, a bydd yn eu helpu i gysylltu, ysgogi newid, casglu a rhannu dealltwriaeth a llunio ymagweddau ar y cyd.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Hefyd, ar ddiwrnod olaf Mehefin, rhyddhaodd Jeremy Miles ddatganiad ysgrifenedig ar gyfer addysg uwch a dysgwyr sy'n oedolion mewn colegau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Roedd yn dynodi symud y darparwyr hyn tuag at weithredu mor 'normal' â phosibl yn ystod yr hydref. Mae enghreifftiau o'r 'gweithredu normal' hwn yn cynnwys llacio modelau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer myfyrwyr prifysgol, dysgwyr sy'n oedolion a dysgwyr rhan-amser, gan alluogi mwy o ddysgu personol yn nhymor yr hydref.

## Gorffennaf 2021

Ar 1 Gorffennaf, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ôl trafodaeth â swyddogion iechyd cyhoeddus, na fydd angen defnyddio grwpiau cyswllt cyson mwyach o ddydd Llun, 19 Gorffennaf ymlaen ar gyfer lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae, gan gynnwys lleoliadau Dechrau'n Deg.

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Estyn (2021t) ddogfen yn crynhoi prif ganfyddiadau'r holl adroddiadau thematig a gynhaliwyd yn 2020 ac yng ngwanwyn 2021. Mae'r rhain yn adrodd ar safonau a darpariaeth ar draws ystod o sectorau addysg a hyfforddiant a themâu, ac yn cyfeirio at dystiolaeth a gasglwyd drwy adolygiadau thematig cyn ac yn ystod pandemig COVID-19. Bwriedir iddynt annog meddwl yn ehangach a chyfrannu at drafodaethau presennol mewn meysydd polisi, yn ogystal â rhannu cameos ac astudiaethau achos o arfer ddiddorol ar draws yr holl sectorau.

Ar 6 Gorffennaf, cyhoeddodd Estyn ei ganfyddiadau diweddaraf o ymweliadau ymgysylltu a gynhaliwyd ar draws llawer o sectorau addysg yng Nghymru. Maent yn cynnwys negeseuon allweddol ar gyfer y sectorau nas cynhelir (Estyn, 2021g), arbennig (Estyn, 2021e), cynradd (Estyn, 2021i), uwchradd (Estyn, 2021k) ac addysg gychwynnol athrawon (Estyn, 2021c). Ategir hyn ymhellach gan gyhoeddiad yr wythnos ganlynol yn myfyrio ar y modd y mae ysgolion arbennig ac UCDau wedi datblygu a mireinio'u dulliau dysgu o bell yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Estyn, 2021r).

Ar yr un diwrnod, darparodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad llafar i'r Senedd pan gyhoeddodd, er na fyddai unrhyw newid o ran cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion cynradd, na fydd gweithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol yn orfodol bellach mewn ysgolion uwchradd tan Fedi 2023, gan ei gyflwyno yn y flwyddyn honno i Flynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd. I gefnogi hyn a sicrhau parhau'r momentwm tuag at y Cwricwlwm i Gymru, cadarnhaodd gyllid o £7.24 miliwn ar gyfer ysgolion i gefnogi'u cynlluniau diwygio'r cwricwlwm, gan gynnwys ymgysylltu â'r Rhwydwaith Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ddiwedd mis Mehefin.

Ar 8 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £2 filiwn i golegau addysg bellach ddarparu hyfforddiant ar gyfer swyddi yn yr economi werdd. Dyfarnwyd cyllid i chwe choleg i ddarparu'r cyrsiau, a fydd yn cynnwys meysydd fel ceir trydan a cheir hybrid, systemau gwresogi ecogyfeillgar ac e-feiciau.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar 9 Gorffennaf, ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at yr holl benaethiaid a phrifathrawon/prif swyddogion gweithredol yng Nghymru i roi mwy o eglurder o ran sut gall ysgolion a cholegau barhau i weithredu'n ddiogel pan fyddant yn dychwelyd ym Medi. Y tri phrif newid oedd na fyddai gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell fel mater o drefn mwyach mewn ystafelloedd dosbarth, na fyddai grwpiau cyswllt yn ofynnol mwyach ar gyfer dysgwyr ac y byddai amserau sesiwn arferol yn ailddechrau.

Yn gynnar yr wythnos ganlynol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2021e) ei Rhaglen Waith bum mlynedd newydd ar gyfer Cymraeg 2050, y strategaeth genedlaethol i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Un o'r cerrig milltir interim yw i 30% o blant ym Mlwyddyn 1 fod mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2031. Byddai hyn yn cael ei ysgogi gan agor lleiafswm o 60 o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg ychwanegol erbyn 2026, yn ychwanegol at 40 a agorodd dros y pedair blynedd diwethaf.

Ar 14 Gorffennaf, rhyddhaodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad yn ymwneud â'r gwaith o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg fesul cam. Roedd yn cydnabod effaith y pandemig ar baratoadau ar gyfer y diwygio hwn, a chyhoeddodd y byddai'r system newydd yn cael ei gweithredu mewn trefn benodol. Esboniodd y byddai'r system newydd yn gymwys o 1 Ionawr 2022 ar gyfer disgyblion y nodwyd eisoes gan ysgol bod ganddynt anghenion addysgol arbennig. Bydd disgyblion sydd newydd gael eu hadnabod yn blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn symud i'r system newydd o 1 Medi 2021.

Ar 22 Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Ei Mawrhydi y Frenhines wedi derbyn yr argymhelliad mai Owen Evans fydd y Prif Arolygydd newydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Bydd yn dilyn Prif Arolygydd presennol, Meilyr Rowlands, a fanteisiodd ar y cyfle i ddiolch "i'r holl ymarferwyr yn benodol am eu gwaith a'u gwydnwch rhyfeddol yn ystod y pandemig diweddar". Bydd Claire Morgan, un o gyfarwyddwyr strategol Estyn, yn gweithredu fel y Prif Arolygydd interim hyd nes i'r Prif Arolygydd newydd gymryd ei rôl ym mis Ionawr 2022.

Ar 27 Gorffennaf, adroddodd cadeirydd Race Council Cymru, y Barnwr Ray Singh, ei fod yn teimlo bod y prinder athrawon o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ysgolion Cymru wedi cyrraedd "pwynt argyfwng". Ymatebodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg drwy esbonio 'fy nghynllun i yn yr hydref yw cyflwyno strategaeth er mwyn recriwtio ymgeiswyr du ac o'r gymuned ethnig leiafrifol i mewn i'r gweithlu addysgu er mwyn sicrhau bod hyn yn adlewyrchu yr amrywiaeth gyfoethog yr ydym yn ei gweld o'n cwmpas yng Nghymru'.

Ar 29 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod pobl ifanc sydd ar fin troi'n 18 yn cael eu gwahodd i gael eu brechlyn COVID-19 yng Nghymru. Mae hyn i gefnogi'r bobl ifanc hynny sy'n mynd i mewn i'r gweithle neu'n dechrau'r brifysgol yn nhymor yr hydref. Bydd hwn yn rhedeg ochr yn ochr â'r rhaglen i frechu plant a phobl ifanc 12 oed a hŷn sydd â chyflyrau iechyd isorweddol penodol sy'n golygu bod risg iddynt ddioddef COVID-19 difrifol, neu'r rhai sy'n byw gyda rhywun â system imiwnedd wan.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

## Awst 2021

Yn dilyn y cyhoeddiad ar ddiwedd mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan, ar 4 Awst, yn unol â chyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI), y bydd yn gweithio gyda'r GIG ar y trefniadau sydd eu hangen i gynnig y brechlyn i bob plentyn 16 ac 17.

Ar 5 Awst, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai Cymru'n symud i'r lefel rhybudd sero newydd ddydd Sadwrn, 7 Awst. Cadarnhaodd y byddai rhai mesurau diogelwch pwysig yn parhau i fod ar waith, ond na fydd oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn, na phlant a phobl ifanc o dan 18 oed, yn gorfod hunanynysu mwyach os cânt eu nodi'n gysylltiadau agos â rhywun sydd â'r coronafeirws.

Ar 10 Awst, cyhoeddwyd y canlyniadau ar gyfer Safon Uwch, UG, Lefel 3, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch (Cymwysterau Cymru, 2021c). Fel y llynedd, roedd y rhain wedi'u seilio ar asesiadau athrawon. Fe wnaeth nifer y disgyblion a gyflawnodd raddau A* neu A ar Safon Uwch gynyddu eto o 41.8% yn 2020 i 48.3%, gryn dipyn yn uwch na'r 27% o ddisgyblion a gyflawnodd y graddau hyn yn arholiadau 2019. Fe wnaeth nifer y disgyblion a dderbyniodd radd A ar lefel UG gynyddu eto hefyd i 37.1%, o 29.5% yn 2020. Roedd cynnydd bach yn nifer y disgyblion yn cyflawni graddau A*-A yn y Dystysgrif Sgiliau Uwch a gostyngiad bach yn nifer y rheiny a gyflawnodd y graddau uchaf o fewn y cymwysterau galwedigaethol Lefel 3 o gymharu â chanlyniadau 2020.

Ddeuddydd yn ddiweddarach, cyhoeddwyd canlyniadau TGAU ar gyfer disgyblion yng Nghymru (Cymwysterau Cymru, 2021d). Dangosodd y canlyniadau fod graddau wedi gwella eto, gyda 28.7% o ddisgyblion yn cyflawni gradd A* neu A, o gymharu ag 18.4% yn 2019, sef y flwyddyn olaf ag arholiadau. Roedd 73.6% o'r graddau yn raddau A* i C, o gymharu â 62.8% yn 2019 (y flwyddyn olaf y cynhaliwyd arholiadau). Ar ôl cyfyngiad bach y llynedd, parhaodd y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion i ehangu.

Ar 25 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai cyllid ychwanegol o £1.7 miliwn yn cael ei ddyrannu i sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso (ANG) yng Nghymru, yr amharwyd ar eu hyfforddiant oherwydd y pandemig, yn cael cyfnod o gyflogaeth i'w helpu yn eu rolau newydd. Egluront y byddai hyn yn caniatáu i ysgolion hefyd gynyddu capasiti a rhyddhau athrawon eraill i roi cymorth ychwanegol i ddysgwyr sy'n agored i niwed.

# Amserlen o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021

Ar yr un diwrnod, rhyddhaodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad i'r wasg, yn amlinellu canllawiau i gefnogi dysgwyr a oedd yn dychwelyd i ysgolion a cholegau ym Medi. Roedd hyn yn cynnwys cyfarwyddo staff mewn ysgolion, a staff a dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a cholegau, i gymryd dau brawf llif unffordd, tri diwrnod ar wahân, yn ystod yr wythnos cyn eu diwrnod cyntaf yn ôl.

Ar 27 Awst, fel y cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion a cholegau. Gyda chefnogaeth swyddogion iechyd y cyhoedd ac awdurdodau lleol, roedd y fframwaith yn cynnwys mesurau craidd y dylid eu rhoi ar waith a mesurau amrywiol y gellir eu teilwra i adlewyrchu lefel y risg a nodwyd. Gofynnwyd i ysgolion weithredu'r fframwaith hwn cyn gynted â phosibl, ond roedd ganddynt hyd at 20 Medi i gyflwyno ymagweddau fesul cam.

Daeth Awst i ben gydag ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i wneud ystafelloedd dosbarth a mannau dysgu mor ddiogel ag y bo modd er mwyn i ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion a cholegau. Ar 30 Awst, cyhoeddodd gyllid o £3.31 miliwn ar gyfer 1,800 o beiriannau diheintio oson sy'n effeithiol o ran lladd y coronafeirws, boed hwnnw yn yr aer neu ar arwynebedd. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid pellach o £2.58 miliwn ar gyfer 30,000 o synwyryddion Carbon Deuocsid (CO2) i'w darparu i ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled Cymru. Bydd y synwyryddion yn rhybuddio athrawon a darlithwyr pan fydd lefelau CO2 yn codi, gan helpu rheoli awyru mewn mannau dysgu.

# Atodiad 1 Trosolwg



# Trosolwg

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn annibynnol ar Senedd Cymru ond yn cael ein hariannu ganddi. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg yng Nghymru.

**Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

# Trosolwg

Nod ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

Mewn nifer o sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill i arolygu darpariaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn Ofsted i arolygu darpariaeth dysgu yn y gwaith sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr, fel ei gilydd. Mae ein harolygwyr yn cydweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel awdurdodau lleol, yn ogystal â chydweithio ag AGC i arolygu lleoliadau meithrin nas cynhelir. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau o dimau troseddau ieuenctid (TTI) sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Prawf EM, ac arolygiadau o garchardai sy'n cael eu harwain gan Arolygiaeth Carchardai EM. Weithiau, rydyn ni'n ymuno ag Ofsted i arolygu colegau arbenigol annibynnol yn Lloegr sydd â 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru. Efallai y byddwn hefyd yn ymuno ag arolygiadau o garchardai yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o garcharorion o Gymru. Yn ogystal, rydyn ni'n cynnwys arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol.

Oherwydd pandemig COVID-19, ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-2021, ni chynhaliom unrhyw weithgarwch arolygu craidd, ac eithrio arolygiad o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. (gweler yr adran berthnasol). Ar hyn o bryd, rydym yn paratoi fframwaith newydd ar gyfer arolygiadau mewn rhai sectorau, a fydd yn cael ei roi ar waith o 2022 ymlaen. Gellir cael mwy o wybodaeth am ein trefniadau arolygu, gan gynnwys gweithgarwch arolygu dilynol, drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.estyn.llyw.cymru/y-broses-arolygu/esbonio-arolygu

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru i ymateb i gylch gwaith blynyddol gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Mae gennym safbwynt unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd ar draws pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ac mae hyn yn cyfrannu at y polisïau ar addysg a hyfforddiant a gyflwynir ar hyd a lled Cymru.

Mae Prif Arolygydd EM wedi paratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn yn unol â gofynion Adran 21 (1) (a) Deddf Addysg 2005 ac Adran 50 (1) Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.



# Atodiad 2 Rhestr cyfeiriadau



# Rhestr cyfeiriadau


Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (2021) *Lles Arweinwyr Ysgolion: Arolwg Cenedlaethol.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://nael.cymru/wp-content/uploads/2021/04/Lles-Arweinwyr-Ysgolion-Arolwg-Cenedlaethol.pdf [Defnyddiwyd 5 Mehefin 2021]

Buchanan, J., Froud, J., Lang, M., Lloyd, C., Smith, B. a Williams, K. (2020) *Galluogi Adnewyddu: Addysg Bellach a Datblygu Dinasyddiaeth, Galwedigaethau a Chymunedau Busnes Gwell yng Nghymru.* Caerdydd: Colegau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.colegau.cymru/image/publications/reports/Enabling%20Renewal%20-%20FE/FE%20renewal%20-%20Cymraeg.pdf [Defnyddiwyd 26 Mehefin 2021]

Bwrdd Gwaith Ieuenctid (2021) *Mae'n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru: Sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/maen-bryd-cyflawni-dros-bobl-Ifanc-yng-nghymru.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) *Ymateb addysg i'r Coronafeirws: Goblygiadau i ysgolion yng Nghymru.* Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/Ymateb-addysg-i%E2%80%99r-Coronafeirws.-Goblygiadau-i-ysgolion-yng-Nghymru.pdf [Defnyddiwyd 17 Mehefin 2021]

Carpenter, B. (2020) *A Recovery Curriculum: Loss and Life for our children and schools post pandemic.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.evidenceforlearning.net/recoverycurriculum/. [Defnyddiwyd 1 Mehefin 2021]

Casella, L. (2020) *Adolygiad annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021: Adroddiad interim Hydref 2020.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/adolygiad-annibynnol-o-drefniadau-haf-2020-ar-gyfer-dyfarnu-graddau-ac-ystyriaethau-ar-gyfer-2021-adroddiad-interim-hydref-2020.pdf [Defnyddiwyd 7 Rhagfyr 2020]

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020) *How Coronavirus has affected equality and human rights.* Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/how-coronavirus-has-affected-equality-and-human-rights [Defnyddiwyd 17 Mehefin 2021]

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi. Abertawe:* Comisiynydd Plant Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_CYM.pdf [Defnyddiwyd 27 Ebrill 2021]

Comisiynydd Plant Cymru (2021a) *Coronafeirws a Fi: Ail arolwg cenedlaethol o safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru.* [Ar-lein]. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru. Ar gael o: https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/CoronavirusAndMe_Jan21_110221_CYM.pdf [Defnyddiwyd 26 Mai 2021]

Comisiynydd Plant Cymru (2021b) *Mynd ar-lein: rhwystrau a llwyddiannau wrth ddarparu dysgu ar-lein yn ystod cyfnod clo Haen 4 mis Ionawr.* Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/01/GettingOnline_CYM_270121.pdf [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Crew, M. (2020) *Literature review on the impact on COVID-19 on families, and implications for the home learning environment.* Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol. [Ar-lein]. Ar gael o: https://cdn.literacytrust.org.uk/media/documents/Literature_review_on_the_impact_of_COVID-19_on_families.pdf [Defnyddiwyd 7 Mehefin 2021]

Cymwysterau Cymru (2020) *Amrywiadau yng nghanlyniadau cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru, Haf 2020.* Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.cymwysteraucymru.org/media/6654/variation-in-qualification-outcomes-publication-welsh.pdf [Defnyddiwyd 26 Hydref 2021]

Cymwysterau Cymru (2021a) *Gwybodaeth i ganolfannau am adolygiadau canolfan ac apeliadau yn ystod haf 2021.* Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.qualificationswales.org/media/7472/gwybodaeth-i-ganolfannau-am-adolygiadau-canolfan-ac-apeliadau-yn-ystod-haf-2021.pdf [Defnyddiwyd 28 Mai 2021]

Cymwysterau Cymru (2021b) *Cofrestriadau Dros Dro ar gyfer Arholiadau Haf 2021 yng Nghymru – TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cofrestriadau-dros-dro-ar-gyfer-arholiadau-haf-2021-yng-nghymru---tgau-ug-safon-uwch-a-thystysgrif-her-sgiliau/ [Defnyddiwyd 28 Mai 2021]

Cymwysterau Cymru (2021c) *Crynodeb o’r canlyniadau dros dro ar gyfer cymwysterau Safon Uwch, UG, Tystysgrif Her Sgiliau Uwch, a chymwysterau galwedigaethol lefel 3 dethol yng Nghymru.* Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.qualificationswales.org/media/7738/summer-2021-gce-results-summary-welsh.pdf [Defnyddiwyd 10 Awst 2021]

Cymwysterau Cymru (2021d) *Crynodeb o’r canlyniadau dros dro ar gyfer cymwysterau TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 a chymwysterau galwedigaethol dethol lefel 1/2 a lefel 2 yng Nghymru.* Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.qualificationswales.org/media/7777/summer-2021-gcse-results-summary-welsh.pdf [Defnyddiwyd 13 Awst 2021]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003) *Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o’r Cwricwlwm a’r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf [Defnyddiwyd 10 Tachwedd 2021]

# Rhestr cyfeiriadau


Education Policy Institute (2021a) *A comparison of school institutions and policies across the UK.* Llundain: Education Policy Institute. [Ar-lein]. Ar gael o: https://epi.org.uk/publications-and-research/a-comparison-of-school-institutions-and-policies-across-the-uk/ [Defnyddiwyd 7 Mehefin 201]

Education Policy Institute (2021b) *Analysis paper: preliminary research findings on education recovery.* Llundain: Education Policy Institute. [Ar-lein]. Ar gael o: https://epi.org.uk/publications-and-research/analysis-paper-preliminary-research-findings-on-education-recovery/ [Defnyddiwyd 27 Ebrill 2021]

Education Policy Institute (2021c) *Education reopening and catch-up support across the UK.* Llundain: Education Policy Institute. [Ar-lein]. Ar gael o: https://estyngovuk.sharepoint.com/Policy/Annual%20Report/Research/Wales/Education%20reopening%20and%20catch-up%20support%20across%20the%20UK.pdf [Defnyddiwyd 26 Mai 2021]

Estyn (2020a) *Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant: arfer dda o ran cefnogi dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) mewn ysgolion a cholegau.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/dathlu-amrywiaeth-hyrwyddo-cynhwysiant-arfer-dda-o-ran-cefnogi-dysgwyr [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Estyn (2020b) *Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/ysgolion-cymunedol-teuluoedd-chymunedau-wrth-wraidd-bywyd-ysgol [Defnyddiwyd 01 Tachwedd 2021]

Estyn (2020c) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion pob oed – hydref 2020:* Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-ysgolion-pob-oed-hydref-2020 [Defnyddiwyd 01 Tachwedd 2021]

Estyn (2020d) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector ôl-16 – hydref 2020*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Engagement%20work%20Post-16%20sector%20update%20%E2%80%93%20autumn%202020%20cy.pdf [Defnyddiwyd 2 Mai 2021]

Estyn (2020e) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – hydref 2020*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-am-y-sector-cynradd-hydref-2020 [Defnyddiwyd 9 Rhagfyr 2020]

Estyn (2020f) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd – hydref 2020.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-uwchradd-hydref-2020 [Defnyddiwyd 9 Rhagfyr 2020]

Estyn (2020g) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig ac UCDau – Hydref 2020.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-ysgolion-arbennig-gynhelir-ac-unedau [Defnyddiwyd 01 Tachwedd 2021]

Estyn (2020h) *Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaethau-achos-chameos-gan-ysgolion [Defnyddiwyd 29 Mehefin 2021]

Estyn (2020i) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2019-20.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol/2019-2020 [Defnyddiwyd 12 Mai 2021]

Estyn (2020j) *Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid: Model cynaliadwy i Gymru.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gwerth-hyfforddiant-gwaith-ieuenctid-model-cynaliadwy-i-gymru [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Estyn (2021a) *Adroddiad arolygu ar Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/node/4539 [Defnyddiwyd 29 Mehefin 2021]

Estyn (2021b) *Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol: Gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod pandemig COVID-19.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/datblygiadau-mewn-arferion-dysgu-o-bell-dysgu-cyfunol [Defnyddiwyd 29 Mehefin 2021]

Estyn (2021c) *Gwaith ymgysylltu – Addysg Gychwynnol Athrawon Diweddariad sector 2020-2021.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/ITE%20engagement%20report%20summer%202021%20-%20new%20cy_0.pdf [Defnyddiwyd 2 Mai 2021]

Estyn (2021d) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) – Tymor y Gwanwyn 2021.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-ysgolion-arbennig-ac-unedau-cyfeirio [Defnyddiwyd 2 Mai 2021]

Estyn (2021e) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) - Tymor yr Haf 2021.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-ysgolion-arbennig-gynhelir-ac-unedau-cyfeirio [Defnyddiwyd 25 Gorffennaf 2021]

Estyn (2021f) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector nas cynhelir – Tymor y Gwanwyn 2021.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-nas-cynhelir-tymor-y-gwanwyn-2021 [Defnyddiwyd 2 Mai 2021]

Estyn (2021g) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector nas gynhelir – Tymor yr Haf.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-nas-gynhelir-tymor-yr-haf-2021 [Defnyddiwyd 13 Gorffennaf 2021] [Defnyddiwyd 25 Gorffennaf 2021]

Estyn (2021h) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – Tymor y Gwanwyn 2021.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-cynradd-tymor-y-gwanwyn-2021 [Defnyddiwyd 2 Mai 2021]

Estyn (2021i) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – Tymor yr Haf 2021.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-cynradd-tymor-yr-haf-2021 [Defnyddiwyd 25 Gorffennaf 2021]

Estyn (2021j) *Gwaith ymgysylltu: diweddariad ar y sector uwchradd – Tymor y Gwanwyn 2021.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-uwchradd-tymor-y-gwanwyn-2021 [Defnyddiwyd 12 Mai 2021]

Estyn (2021k) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd – Tymor yr Haf 2021*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/gwaith-ymgysylltu-diweddariad-ar-y-sector-uwchradd-tymor-yr-haf-2021 [Defnyddiwyd 25 Gorffennaf 2021]

Estyn (2021l) *Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/iaith-llythrennedd-saesneg-mewn-lleoliadau-ac-ysgolion-cynradd [Defnyddiwyd 29 Mehefin 2021]

Estyn (2021m) *Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd – deunyddiau hyfforddi.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-03/Language%20and%20literacy%20in%20English%20medium%20settings%20and%20schools%20gol%20cy.pptx [Defnyddiwyd 29 Mehefin 2021]

Estyn (2021n) *Sut defnyddiodd ysgolion a cholegau'r grant recriwtio, adfer a chodi safonau (RAChS) neu'r grant dal i fyny ar gyfer dysgwyr ôl-16.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/sut-defnyddiodd-ysgolion-cholegaur-grant-recriwtio-adfer-chodi-safonau-rachs [Defnyddiwyd 29 Mehefin 2021]

Estyn (2021o) A*rolygu gwerth gwaith ieuenctid.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/blog/arolygu-gwerth-gwaith-ieuenctid [Defnyddiwyd 17 Mai 2021]

Estyn (2021p) *Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau mewn ymateb i COVID-19: Adroddiad diweddaru o Fehefin i Dachwedd 2020.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymorth-awdurdodau-lleol-chonsortia-rhanbarthol-i-ysgolion-ac-ucdau-i-ymateb-i [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Estyn (2021q) *Partneriaethau Ôl-16: Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau.*Caerdydd: Estyn [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/partneriaethau-ol-16-cynllunio-darpariaeth-ar-y-cyd-rhwng-ysgolion-rhwng [Defnyddiwyd 26 Mai 2021]

Estyn (2021r) *Myfyrdodau ar fireinio dysgu o bell mewn ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/myfyrdodau-ar-fireinio-dysgu-o-bell-mewn-ysgolion-arbennig-gynhelir-ac-unedau [Defnyddiwyd 13 Gorffennaf 2021]

Estyn (2021s) *Adroddiad interim ar y sector uwchradd: Ionawr a Chwefror 2021*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/learning-support/adroddiad-interim-ar-y-sector-uwchradd [Defnyddiwyd 1 Gorffennaf 2021]

Estyn (2021t) *Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiadau thematig cenedlaethol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Compendium%202020-21%20Welsh.pdf [Defnyddiwyd 1 Gorffennaf 2021]

Estyn (2021u) *Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr: Gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod y pandemig COVID-19.* Caerdydd: Estyn. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymorth-ar-gyfer-iechyd-meddwl-lles-emosiynol-dysgwyr [Defnyddiwyd 29 Mehefin 2021]

Estyn (2021v) *Deall gwerth gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuentid.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/blog/deall-gwerth-gwaith-ieuenctid-gweithwyr-ieuenctid [Defnyddiwyd 26 Mai 2021]

Estyn (2021w) *Caffael yr Iaith Gymraeg: Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/caffael-yr-iaith-gymraeg [Defnyddiwyd 26 Mai 2021]

Gatsby Foundation (2013) *Good Career Guidance.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gatsby.org.uk/education/focus-areas/good-career-guidance [Defnyddiwyd 12 Chwefror 2021]

Glyn, E., Harries, S., Lane, J., a Lewis, S. (2021) *Gwethusiad o Gynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-gynllun-cymorth-gofal-plant-y-coronafeirws[Defnyddiwyd 29 Mehefin 2021]

Gyrfa Cymru (2021) *Dyfodol Disglair: Ein gweledigaeth 2021-26.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://gyrfacymru.llyw.cymru/amdanom-ni/dyfodol-disglair [Defnyddiwyd 27 Ebrill 2021]

Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf [Defnyddiwyd 17 Mehefin 2021]

Llywodraeth Cymru (2018) *Cod Trefniadaeth Ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/cod-trefniadaeth-ysgolion [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Llywodraeth Cymru (2019a) *Absenoldeb o Ysgolion Cynradd: Medi 2018 i Awst 2019.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/absenoldeb-o-ysgolion-cynradd-medi-2018-awst-2019 [Defnyddiwyd 7 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2019b) *Absenoldeb o Ysgolion Uwchradd, 2018/19*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2018-i-awst-2019-604.pdf [Defnyddiwyd 7 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2019c) *Digidol 2030: Fframwaith strategol ar gyfer dysgu ôl-16 digidol yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/digidol-2030-fframwaith-strategol-ar-gyfer-dysgu-ol-16-digidol-yng-nghymru.pdf [Defnyddiwyd 1 Tachwedd 2021]

Llywodraeth Cymru (2020a) *Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) Drafft: Crynodeb o'r ymatebion.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/bil-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-cymru-drafft [Defnyddiwyd 7 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein cenedl: diweddariad Hydref 2020.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl-diweddariad-hydref-2020.pdf [Defnyddiwyd 2 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020c) *Ystadegau Dysgu Cymraeg 2019-20.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/cyhoeddi-data/ystadegau-2019-20/

Llywodraeth Cymru (2020d) *Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol: Gweledigaeth Strategol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/gweledigaeth-strategol-addysg-a-hyfforddiant-orfodol.pdf [Defnyddiwyd 7 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020e) *Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Llywodraeth Cymru (2020f) *Dysgu seiliedig ar waith: contractau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/dysgu-seiliedig-ar-waith-contractau [Defnyddiwyd 7 Rhagfyr 2020]

# Rhestr cyfeiriadau


Llywodraeth Cymru (2021a) *Prentisiaid a roddwyd ar ffyrlo neu a ddiswyddwyd yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/prentisiaid-roddwyd-ar-ffyrlo-neu-ddiswyddwyd-yn-ystod-pandemig-coronafeirws-covid-19 [Defnyddiwyd 8 Medi 2021]

Llywodraeth Cymru (2021b) *Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 6 Medi i 10 Medi 2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/presenoldeb-disgyblion-mewn-ysgolion-gynhelir [Defnyddiwyd 15 Medi 2021]

Llywodraeth Cymru (2021c) *Coronafeirws (COVID-19): canllawiau dros dro ychwanegol ar gyfer partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) Ionawr 2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-dros-dro-ychwanegol-ar-gyfer-partneriaethau-addysg-gychwynnol [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Llywodraeth Cymru (2021d) *Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/9da091a5-db8b-4202-b79e-af1f336e4c25/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-2022.pdf [Defnyddiwyd 26 Mehefin 2021]

Llywodraeth Cymru (2021e) *Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/cymraeg-2050-ein-cynllun-ar-gyfer-2021-i-2026-html#adran-75201 [Defnyddiwyd 13 Gorffennaf 2021]

Llywodraeth Cymru (2021f) *Effaith COVID-19 ar ddysgwyr arolwg: crynodeb o'r canlyniadau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-ddysgwyr-arolwg-cynodeb-or-canlyniadau [Defnyddiwyd 24 Mawrth 2021]

Llywodraeth Cymru (2021g) *Cylch gwaith blynyddol Estyn: 2021 i 2022.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2021-2022-html [Defnyddiwyd 26 Mehefin 2021]

Llywodraeth Cymru (2021h) *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-meddyliol [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Llywodraeth Cymru (2021i) *Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yng Nghymru, 2019/20.* Caerdydd: [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-02/further-education-work-based-learning-and-adult-learning-august-2019-july-2020-643.pdf [Defnyddiwyd 26 Mehefin 2021]

Llywodraeth Cymru (2021j) *Cynllun Grant Addysg Gychwynnol i Athrawon mewn ymateb i COVID-19: cefnogi Profiad Ysgol BA 20/21 er mwyn ennill SAC: canllawiau i ddarparwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/cynllun-grant-addysg-gychwynnol-i-athrawon-mewn-ymateb-i-covid-19-cefnogi-profiad-ysgol-ba-2021-canllawiau-i-ddarparwyr-html [Defnyddiwyd 26 Mehefin 2021]

# Rhestr cyfeiriadau


Llywodraeth Cymru (2021k) *Statws mandadol Saesneg yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): crynodeb o ymatebion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/statws-mandadol-saesneg-yn-y-bil-cwricwlwm-ac-asesu-cymru-crynodeb-o-ymatebion-html [Defnyddiwyd 2 Gorffennaf 2021]

Llywodraeth Cymru (2021l) *Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/gweithrediadau-ysgol-coronafeirws [Defnyddiwyd 2 Gorffennaf]

Llywodraeth Cymru (2021m) *Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2020 i Awst 2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2020-i-awst-2021 [Defnyddiwyd 17 Medi 2021]

Llywodraeth Cymru (2021n) *Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-html [Defnyddiwyd 17 Mehefin 2021]

Llywodraeth Cymru (2021o) *Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ebrill 2021.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion [Defnyddiwyd 17 Medi 2021]

Llywodraeth Cymru (2021p) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/210326-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf [Defnyddiwyd 2 Gorffennaf 2021]

Loades, M. E. *et al*. (2020) Rapid Systematic Review: The Impact of Social Isolation and Loneliness on the Mental Health of Children and Adolescents in the Context of COVID-19. *Journal of the American Academy of Child and Adolescent Psychiatry* 59 (11), 1218-1239. Ar gael o: https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0890856720303373 [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Lucas, M., Nelson, J. a Sims, D. (2020) *Schools responses to Covid-19: Pupil engagement in remote learning*. Llundain: NFER a Sefydliad Nuffield. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.nfer.ac.uk/media/4073/schools_responses_to_covid_19_pupil_engagement_in_remote_learning.pdf[Defnyddiwyd 27 Ebrill 2021]

Marshall, T., O'Prey, L., Parkinson, A., Grunhut, I. T., Usher, S. a Knight, E. (2021) *Ymchwil ar gyfer datblygu'r strategaeth gwaith ieuenctid.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/ymchwil-ar-gyfer-datblygur-strategaeth-gwaith-ieuenctid [Defnyddiwyd 26 Mai 2021]

OECD (2020a) *Achieving the New Curriculum for Wales*. Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.oecd-ilibrary.org/education/achieving-the-new-curriculum-for-wales_4b483953-en [Defnyddiwyd 7 Rhagfyr 2020]

OECD (2020b) *The impact of COVID-19 on student equity and inclusion: Supporting vulnerable students during school closures and school re-openings.* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.oecd.org/coronavirus/policy-responses/the-impact-of-covid-19-on-student-equity-and-inclusion-supporting-vulnerable-students-during-school-closures-and-school-re-openings-d593b5c8/ [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Ofsted (2021) *Review of sexual abuse in schools and colleges*. [Ar-lein]. Bryste: Ofsted. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/review-of-sexual-abuse-in-schools-and-colleges/review-of-sexual-abuse-in-schools-and-colleges#executive-summary-and-recommendations [Defnyddiwyd 17 Mehefin 2021]

Pritchard, S., Puntan, L., Royel, L. a Campbell, A. (2019) *Ymchwil i lywio cymorth y dyfodol ar gyfer darparu addysg gynnar yn y sector nas cynhelir.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/ymchwil-i-lywio-cymorth-y-dyfodol-ar-gyfer-darparu-addysg-gynnar-yn-y-sector-nas-cynhelir [Defnyddiwyd 26 Mehefin 2021]

Prydain (2002) *Deddf Addysg 2002*. Llundain: Y Llyfrfa.

Sefydliad Gwaddol Addysg (2020) *Remote Learning: Rapid Evidence Assessment.* Llundain: Sefydliad Gwaddol Addysg. [Ar-lein]. Ar gael o: https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19_Resources/Remote_learning_evidence_review/Remote_Learning_Rapid_Evidence_Assessment.pdf [Defnyddiwyd 27 Ebrill 2021]

Senedd Ieuenctid Cymru (2020) *Gadewch i Ni Siarad am Iechyd Meddwl.* Caerdydd: Senedd Ieuenctid. [Ar-lein]. Ar gael o: https://seneddieuenctid.senedd.cymru/ein-gwaith/cymorth-iechyd-emosiynol-ac-iechyd-meddwl/gadewch-i-ni-siarad-am-iechyd-meddwl/ [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Sibieta, L. a Cottell, J. (2020) *Education policy responses across the UK to the pandemic.* Llundain: Education Policy Institute a Sefydliad Nuffield. [Ar-lein]. Ar gael o: https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2020/10/UK-Education-Policy-Response_Pandemic_EPI.pdf [Defnyddiwyd 26 Mehefin 2021]

Sibieta, L., a Cottell J. (2021) *Education reopening and catch-up support across the UK.* Llundain: Education Policy Institute a Sefydliad Nuffield. [Ar-lein]. Ar gael o: https://epi.org.uk/publications-and-research/reopening-catch-up-support-uk/ [Defnyddiwyd 7 Mehefin 2021]

Williams, C. (2021) *Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn y Cwricwlwm Newydd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf [Defnyddiwyd 26 Mai 2021]

WISERD (2020) *Bywyd yn ystod y Cyfnod Clo: Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD.* Caerdydd: WISERD. [Ar-lein]. Ar gael o: https://wiserd.ac.uk/cy/newyddion/bywyd-yn-ystod-y-cyfnod-clo-tystiolaeth-o-astudiaeth-aml-garfan-addysg-wiserd-2020 [Defnyddiwyd 13 Mai 2021]

Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2021) *The cost of learning in lockdown, March 2021 update.* Llundain: Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. [Ar-lein]. Ar gael o: https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/Cost_of_Learning_in_Lockdown_March_2021_update.pdf [Defnyddiwyd 5 Mai 2021]